Pure

Bangor University

DOCTOR OF PHILOSOPHY

# Ei phwer ni phaid: gwragedd ym myd baledi'r 19eg ganrif

Jones, Gwawr

*Award date:*
2010

*Awarding institution:*
Bangor University

Link to publication

**General rights**
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

**Take down policy**
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 23. Apr. 2024

Ers canrifoedd, mae dyn wedi bod yn cofnodi ac yn croniclo hanes ei gymdeithas a'r byd o'i amgylch. Cronicl hanesyddol, cymdeithasol yw byd y faled yn ei hanfod. Wrth reswm, mewn unrhyw gyfnod daw llenorion a cherddorion dan ddylanwad ffactorau sy'n unigryw i'r cyfnod, boed yn ffactorau cymdeithasol, economaidd neu ddiwylliannol. Ni ellir diystyrru'r newid aruthrol a geir mewn canrif, ac mae'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gyfoeth o ddatblygiadau a newidiadau arloesol; y newid a'r bwrlwm cymdeithasol hwnnw sy'n denu sylw'r baledwyr gan gynnig storfa eang o themâu a deunydd i greu cronicl hanesyddol sy'n ddrych i fywyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Felly, er mwyn deall a gwerthfawrogi pwysigrwydd y baledi rhaid deall eu cyd-destun hanesyddol, deall y newid mewn cymdeithas, a'r newid ym meddylfryd y Cymry. Yna cawn adlewyrchiad clir yn nrych y baledwyr.

Yn ddiau, bu'r 19eg ganrif yn gyfnod o newid eithriadol i'r boblogaeth gyfan; i'r uchelwyr Seisnig a'r Cymry gwerinol fel ei gilydd. Bu'r Chwyldro Diwydiannol yn allweddol wrth lywio bywyd y Cymry yn y 19eg ganrif. Yn hytrach na byw a gweithio ar dir y fferm yng nghefn gwlad amaethyddol Cymru, datblygodd y cartref a'r gwaith yn ddau fyd ar wahân wrth i'r boblogaeth dyrru i'r trefi i chwilio am gyflogaeth yn y ffatrïoedd ac ym myd diwydiant.[1] Yn ôl Robert Owen Jones:

> Ar ddechrau'r ganrif, gwlad amaethyddol oedd Cymru, ac amcangyfrifir bod tri chwarter y boblogaeth ynghlwm wrth amaethu ac economi bywyd gwledig.

Erbyn diwedd y ganrif, roedd y ffigwr hwn wedi cwympo i 6.9%.[2]

[1] Am gyfrolau sy'n ymwneud â'r gymdeithas Gymreig yn y 19eg ganrif, gweler: Gareth Williams, *Valleys of Song, Music and Society in Wales 1840-1914* (Cardiff, 1998); R. R. Davies & Geraint H. Jenkins (gol.), *From Medieval to Modern Wales: Historical Essays in Honour of Kenneth O. Morgan and Ralph A. Griffiths* (Cardiff, 2004); David Egan, *Pobl, Protest a Gwleidyddiaeth: Mudiadau Poblogaidd yng Nghymru'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, cyf. Catrin Stevens (Llandysul, 1988)

[2] Robert Owen Jones, *Hir Oes i'r Iaith – Agweddau ar Hanes y Gymraeg a'r Gymdeithas* (Llandysul, 1997), 240

Bu datblygiadau chwyldroadol ym maes trafnidiaeth ac yn benodol y rheilffyrdd a chyda gwellhâd mor sylweddol ym myd trafnidiaeth, cafwyd datblygiadau aruthrol mewn meysydd eraill megis hamdden a gwyliau ac roedd pobl yn araf ehangu'u gorwelion. Yng nghyd-destun y faled, bu'r datblygiad hwn yn drobwynt pwysig. Wrth i bobl deithio o le i le ar hyd a lled y wlad, golygai hynny bod newyddion hefyd yn teithio o le i le yn llawer cynt nag o'r blaen. Roedd yn drobwynt a oedd yn ffarwelio i raddau â'r hen faledwyr crwydrol ac yn agor y llifddorau i ddatblygiad y wasg argraffu a newyddiaduraeth fel cyfrwng gohebu newyddion yn hytrach na dull traddodiadol y baledwyr o'u trosglwyddo ar gân mewn ffeiriau, tafarndai a marchnadoedd. Ceid dewis ehangach o adloniant a'r 'syniad o dreulio min nos mewn llofft stabal yn llai atyniadol.'[3] Ond ar y llaw arall, bu'r gwelliannau hyn i'r ffyrdd yn elfen ganolog ym mhrotestiadau Beca a bu'r tollbyrth di-ri yn fwrn ar dlodion cefn gwlad gorllewin Cymru. Yn ei dro felly, darparodd y newidiadau hyn gyfoeth o ddeunydd parod ar gyfer y baledwyr i'w adrodd ledled y wlad. Dylid cofio yn ogystal yr arferai'r baledwyr werthu baledi taflennol fel dull o ledaenu neges neu farn gymdeithasol arbennig. Byddai'r datblygiadau hyn ym maes trafnidiaeth felly yn ffactor gadarnhaol er gwaethaf yr elfennau negyddol. Ehangid gorwelion y Cymry'n ogystal o ganlyniad i'r datblygiadau technolegol hyn ym maes trafnidiaeth a olygai felly y cyrhaeddai dylanwadau o Loegr a gweddill y Deyrnas Gyfunol, a hefyd o gyfeiriadau ehangach megis Ewrop a'r Mudiad Rhamantaidd.

Ni ellir anghofio chwaith am y newid mawr a fu ym mywyd ysbrydol Cymru. Yn sicr, gwelwyd gwrthdrawiad rhwng credoau traddodiadol crefyddol a thechnoleg ac adloniant cyn y 19eg ganrif. Yn y ganrif flaenorol, daeth y credoau hyn wyneb yn

[3] Dafydd Owen, *I Fyd y Faled* (Dinbych, 1986), 116

wyneb â themâu ysgafn, masweddus gydag anterliwtwyr fel Twm o'r Nant a Huw Jones o Langwm yn cystadlu â neges grefyddol emynwyr fel William Williams, Pantycelyn.[4] [5]

> ...gellir yn rhwydd alw'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn oes twf a dylanwad Anghydffurfiaeth fel grym crefyddol a chymdeithasol yng Nghymru... Yn ystod hanner cyntaf y ganrif amcangyfrifir i'r Ymneilltuwyr ar gyfartaledd agor un capel newydd bob wyth niwrnod. Cynrychiolai hyn weithgarwch aruthrol gan gynnwys ymateb cyflym i anghenion crefyddol, ysbrydol a chymdeithasol y cymunedau newydd yn yr ardaloedd diwydiannol.[6]

Roedd y 19eg ganrif yn ganrif chwyldroadol; cyfnod chwyldroadol yn ddemograffig, yn dechnolegol ac yn grefyddol.[7] Ond rhaid cofio fod y newidiadau cymdeithasol hyn yn gwahaniaethu o fewn y boblogaeth, nid yn unig rhwng dwy haen o fewn cymdeithas, ond hefyd rhwng gwryw a benyw. Y dyn sydd wedi hoelio sylw'r hanesydd yn draddodiadol, ond wrth i'r 19eg ganrif gerdded yn ei blaen, datblygodd y ferch yn gymdeithasol, yn wleidyddol ac yn ddiwylliannol. Cafodd ei dylanwadu gan yr un newidiadau â'r dyn, ond fe'i dylanwadwyd mewn modd gwahanol iawn i'r dyn.[8] Wrth symud i'r trefi diwydiannol o gefn gwlad lle'r oeddynt yn byw bywyd unig ac ynysol, daeth y gwragedd at ei gilydd a sefydlu'r arfer o glebran o flaen y tŷ a hel clecs am unrhyw beth a aethai â'u bryd. Wrth drafod a siarad â'i gilydd, roedd yn

[4] Canai anterliwtwyr megis Twm o'r Nant (Thomas Edwards) a Huw Jones ar themâu a ymdriniai â delweddau anllad o'r ferch ifanc a rhywioldeb a geir yn y ffigwr fenwyaidd; ffaith a gythruddodd weinidogion y cyfnod. Am ragor o wybodaeth am Thomas Edwards, gweler Dafydd Glyn Jones, *Canu Twm o'r Nant* (Bangor, 2010); Wyn Griffith, *Twm o'r Nant (Thomas Edwards), 1739-1810* (Cardiff, 1953)

[5] Gweler ysgrif Derec Llwyd Morgan, 'Williams Pantycelyn: Sylwadau ar ystyr a diben ei waith', yn J. E. Caerwyn Williams (gol.), yn *Ysgrifau Beirniadol VIII* (Dinbych, 1974)

[6] Robert Owen Jones, *Hir Oes i'r Iaith – Agweddau ar Hanes y Gymraeg a'r Gymdeithas* (Llandysul, 1997), 251-2

[7] Gweler y cyfrolau canlynol am ragor o wybodaeth am gyd-destun cymdeithasol y cyfnod: Robert Pope, *Religion and National Identity* (Cardiff, 2001); William Gibson, *Church, State and Society 1760−1850* (New York, 1994)

[8] Trowch at y ffynhonnell ganlynol am ragor o hanes y wraig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg: Angela V. John, *Our Mothers' Land – Chapters in Welsh Women's History 1830–1939* (Cardiff, 1991)

gyfrwng i fynegi'u teimladau am fywyd a'u galluogi i sylweddoli a wynebu realiti eu bywyd heb bleidlais, heb hawliau, ac fel y rhyw israddol.

Yn ddiamheuol, bywyd anodd oedd bywyd merched y dosbarth gweithiol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg; un cylch mawr o waith a chaledwch.[9] Ei rôl disgwyledig oedd gweithio fel morwyn mewn fferm neu weithio yn un o ffatrïoedd mawr y trefi diwydiannol cyn priodi a magu teulu. Fel gwraig y tŷ, disgwylid iddi gadw dau ben llinyn ynghyd a thalu dyledion fel y Degwm, rhoi bwyd ar y bwrdd a dilladu ei theulu tra bod ei gŵr yn mynd allan i weithio. Roedd disgwyl iddi fod yn driw i'w gŵr bob amser heb ei gwestiynu na'i herio gan dderbyn mai ef oedd pennaeth y cartref, fel y dengys y dyfyniad canlynol gan un o ohebwyr y cylchgrawn Cymraeg *Y Gymraes* ym 1850.

> Os dygwydd i'ch gŵr ddyfod adref yn lled anhwylus, peidiwch a gwneud gwynepryd brawychus a gofyn iddo, 'beth yw y mater arnoch'. Peidiwch a'i syfrdanu; os bydd eisiau i chi wybod, bydd yn sicr o ddywedyd wrthych... Peidiwch a gadael iddo gael allan fod coler ei grys heb fotwm bob wythnos. Y mae hyn yn mynych gynhyrfu tymhestloedd teuluaidd...
>
> Gwnewch y coleri mor gymhwys ag y byddo modd, ag os na byddant yn hollol fodloni, cofiwch fod caniatâd i ddynion rwgnach am goleri eu crysau.[10]

Drwy gaethiwo'r ferch i'r cartref, gellid honni y'i rhwystrid rhag datblygu'n emosiynol ac yn gymdeithasol a byddai'r iselder ysbryd a phroblemau seicolegol yn eu tro felly yn datblygu'n salwch meddyliol a chorfforol. Heb amheuaeth, roedd yn straen aruthrol; straen a oedd yn ormod i rai, a cheisient ddod o hyd i ddihangfa oddi

[9] http://www.localhistories.org/vicwomen.html Chwiliwyd 10.11.09
[10] Dyfynnwyd yn Sian Rhiannon Williams, 'The True "Cymraes": Images of Women in Women's Nineteenth-Century Welsh Periodicals', yn Angela V. John, *Our Mothers' Land – Chapters in Welsh Women's History 1830–1939* (Cardiff, 1991), 74

wrtho. Defnyddid y thema hon yn lled reolaidd yng ngweithiau'r baledwyr.[11] Yn ogystal rhaid ystyried, a wnaeth y llythrennog o blith y merched hyn droi at lenyddiaeth, ac yn benodol y faled fel cyfrwng o adloniant i geisio cyflwyno ychydig o ysgafnder a mwynhâd i'w bywydau?

Yn hanner cyntaf y 19eg ganrif, rhwystrid datblygiad a newid yn y wlad am na fedrai'r dosbarth gweithiol gyflawni gwaith mewn galwedigaethau proffesiynol, ac felly roeddynt wedi'u caethiwo i waith diwydiannol neu ar y fferm.

> Diffyg cyfundrefn addysg oedd wrth wraidd aml i nodwedd ar fywyd Cymru yn hanner cynta'r ganrif – anallu aelodau'r dosbarth gweithiol i gael mynediad i alwedigaethau proffesiynol (heblaw'r weinidogaeth), er enghraifft, neu natur anfeirniadol ysgolheictod Cymraeg, neu ddiffyg datblygiad syniadau positif ynglŷn â gwerth Cymreictod.[12]

Beirniadwyd y ferch yn hallt am fod yn anniwylliedig a chyntefig a dygwyd gwarth ar ferched Cymru a chollasant hunan-barch aruthrol yn sgîl hynny. Ceisiwyd geni cenedl newydd o Gymry gan sefydlu rheolau caeth drwy hybu'r ddelwedd o 'Gymru lân, Cymru lonydd' a 'Gwlad y menig gwynion' yn llenyddiaeth y 19eg ganrif, gyda'r amcan o ddileu'r portread o Gymru gyntefig a grëwyd yn yr Adroddiad ar addysg a elwid wedi hynny yn 'Frad y Llyfrau Gleision.'[13] Y fam a ddaeth dan lach yr Adroddiad yn bennaf; y wraig a arhosai yn ei chartref drwy'r dydd yn gofalu am ei theulu yn hytrach na datblygu'i meddwl a'i phrofiadau yn y byd academaidd,

[11] Gweler yr enghreifftiau canlynol: *Yn rhoddi hanes fel y darfu i langc ifangc twyllodrus hudo merch fonheddig i odineb trwy addewid priodas; a'r ferch a feichiogodd, ac yntau yn lle cyflawni ei addewid, a droes ei gefn arni; a'i thad a'i troes hi i ffwrdd, a hithau gan gywilydd a ymadawodd a'i gwlad, ac ar y ffordd wrth drafaelio ganwyd iddi ddau efaill; a phan oedd hi'n dyfod adref y llangc a'i cyfarfu ac a laddodd y ddau blentyn, ac ar ôl hynny a laddodd ei hunan; ac ni bu hynny lai nag angau iddi hithau; a hi a fu farw'n fuan* (Trefriw, 1810) Cyfrol 8, Rhif 34; *Can newydd yn rhoddi hanes druenus am wraig a losgodd lodes, chwech mlwydd oed, mewn ffwrn, sef ei Llys-ferch; yr hon oedd yn byw gerllaw Caerloyw, a hi a gafodd ddioddef angau, yn Nghaerloyw, Mai 1832* (Caernarfon, 1832) Cyfrol 21, Rhif 140

[12] John Davies, *Hanes Cymru* (London, 2007), 355

[13] Am ragor o wybodaeth ynghylch 'Brad y Llyfrau Gleision', gweler Prys Morgan (gol.), *Brad y Llyfrau Gleision: ysgrifau ar hanes Cymru* (Llandysul, 1991)

proffesiynol. Gwelid y fam i raddau fel pennaeth y teulu gan mai hi fyddai gartref gyda'r plant yn eu magu ac yn eu haddysgu, ac fe'i barnwyd yn hallt yn yr Adroddiad am drosglwyddo'i hanwybodaeth i'r genhedlaeth nesaf o Gymry ifainc.[14] Felly, daeth ail hanner y 19eg ganrif yn drobwynt pwysig i'r ferch yn y gymdeithas.

Ni fyddai priodas yn y 19eg ganrif wedi bod yn fêl i gyd fel y profa'r amrywiol faledi a geir o blith Cerddi Bangor.[15] Gallasai statws israddol y ferch o'i chymharu â'i gŵr, neu yn hytrach, statws uwchraddol y gŵr, beri anhawster yn y briodas. Roedd hi'n dderbyniol gan lawer, er enghraifft, i'r gŵr i fod yn anffyddlon i'w wraig. Ond wrth wrthdroi'r sefyllfa, ni fyddai gan y wraig hawl i fod yn anffyddlon ar unrhyw gyfrif a phetai yn cael ei chanfod wedi bod yn anffyddlon, câi ei gwrthod gan gymdeithas, yn yr un modd ag y câi petai'n beichiogi y tu hwnt i ffiniau priodas. Profir hyn wrth graffu ar gasgliad Cerddi Bangor a nifer dirifedi'r baledi cyngor a geid i ferched ifainc.[16] I ategu at yr anghyfartaledd hwn, ni fyddai hawl gan y 'feistres' i fod yn anffyddlon i'w chariad, sef y gŵr a oedd yn briod â gwraig arall, a than 1879, byddai hawl cyfreithlon gan y dyn i guro a cham-drin ei wraig.[17] Daeth ysgariad yn gyfreithlon ym 1857, ond peth prin iawn ydoedd yn y cyfnod hwnnw.[18] Ym myd y faled, roedd elfen o dabŵ o'i amgylch, a baledi am briodasau hapus a storïau caru

[14] Sian Rhiannon Williams, 'The True "Cymraes": Images of Women in Women's Nineteenth-Century Welsh Periodicals', yn Angela V. John, *Our Mothers' Land – Chapters in Welsh Women's History 1830–1939* (Cardiff, 1991), 70

[15] *Galar gwraig y meddwyn*, Caledfryn (Caernarfon) Cyfrol 24, Rhif 101; *Fel y digwyddodd i'r Prydydd fod mewn tŷ tafarn pan ddaeth y gowl-wraig flin i nôl y gŵr adre; a'r ymddiddan a fu rhyngddynt*, (Trefriw, 1813) Cyfrol 25, Rhif 150; *Can ddigrif o ymddiddan rhwng dwy chwaer, sef Sian a Neli, Yn nghylch eu gwŷr; − un wedi priodi Oferddyn a'r llall Gybudd*, R. Williams 'Bardd y Gwagedd' (Llanrwst) Cyfrol 12, Rhif 62

[16] Dyma enghraifftiau o gerddi cyngor o'r fath o'r cyfnod − *Can mewn dull o Gyngor i Feibion a Merched rhag Godinebu* (Trefriw, 1814) Cyfrol 9, Rhif 19; *Cyngor i Ferched Ifangc*, T. Edwards (Trefriw, 1811) Cyfrol 8, Rhif 38

[17] http://www.localhistories.org/vicwomen.html Chwiliwyd 10.11.09

[18] http://www.fashion-era.com/a_womans_place.htm Chwiliwyd 10.11.09

wrth ymserchu a âi â bryd y baledwyr yn hytrach na'r caledwch a'r anhapusrwydd a arweiniai at ysgariad. [19]

> A divorced woman had no chance of acceptance in society again.[20]

Felly, mae'n amlwg mai yn y cartref yr ystyrid lle priodol y wraig − yn gwbl ddibynnol yn ariannol ac yn gymdeithasol. Er y ceid gwahaniaethau sylweddol rhwng y bonedd a'r dosbarth gweithiol o ran amodau gwaith, yr un oedd yr egwyddor yng nghyd-destun priodas. Ni ddisgwylid i wragedd bonheddig weithio, ond yn hytrach cyflogi merched o'r dosbarth gweithiol fel morynion tra'u bod hwy'n gwnïo, difyrru gwesteion ac ysgrifennu llythyrau. Fodd bynnag, roedd yn gwbl dderbyniol i'r gwŷr bonheddig, fel y dynion gwerin, gadw meistres yn ogystal â gwraig.[21]

Ond, fel pob rheol, ceir eithriadau a'r eithriadau hynny oedd unigolion fel Lady Charlotte Guest ac Augusta Hall a oedd yn allweddol bwysig yng nghyd-destun merched Cymru y 19eg ganrif.[22] Gan gymryd Lady Charlotte Guest yn enghraifft, gwelir fod unigolion fel hithau yn dechrau gosod seiliau cadarn i gael annibyniaeth a statws i'r ferch yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Roedd yn wraig i un o feistri haearn mwyaf dylanwadol Merthyr Tudful yn y 19eg ganrif a chyfrannodd yn aruthrol i ddiwylliant Cymraeg ei chyfnod, er nas ganwyd hi na'i magu yng Nghymru. Ond fel y soniwyd eisoes, roedd yn eithriad, a bu'n annibynnol o'r crud gan ei haddysgu'i hun mewn ieithoedd fel Lladin, Hebraeg a Groeg ac astudio hen chwedlau canoloesol. Aeth yn erbyn dymuniadau'i theulu a'i chymdeithas uchelwrol yn

[19] *Can serchiadol, neu hanes carwriaeth a phriodas Sion Dafydd a Gwenllian Morgan, ar ddull ymddiddan* (Caernarfon) Cyfrol 22, Rhif 19; *Can o ymddiddan mab a merch ynghylch priodi* (Caernarfon) Cyfrol 12, Rhif 111; *Can serch yn rhoddi hanes carwriaeth a phriodas hapus David Thomas, capten llong, a Mary Phillip, merch i 'sgweier gerllaw Dover*, John Williams (Caerfyrddin) Cyfrol 22, Rhif 20

[20] http://www.fashion-era.com/a_womans_place.htm Chwiliwyd 10.11.09

[21] Ibid. Chwiliwyd 10.11.09

[22] Gweler cylchgrawn *Y Gymraes* y bu Ceridwen Peris yn olygydd arno rhwng 1896 hyd 1919 a chyfrol Revel Guest ac Angela V. John, *Lady Charlotte Guest: An Extraordinary Life* (Stroud, 2007)

Llundain wrth briodi John Guest a ystyrid islaw ei safle.[23] Ond roedd y ddau yn unol yn eu diddordebau a'u gobeithion o ran datblygu a rhannu'r cyfoeth o ddiwylliant oedd gan Gymru i'w gynnig. Drwy gyfieithu chwedlau'r Mabinogion i'r Saesneg, llwyddodd i gyflawni'r uchelgais hwn o rannu cyfoeth y Cymry â diwylliannau estron.[24]

Fodd bynnag, rhaid ystyried mai Saesnes oedd Lady Charlotte Guest yn enedigol. Mae'n bosib ei bod wedi'i dylanwadu gan syniadau mwy ffeministaidd a oedd wedi dechrau treiddio'n araf drwy Loegr dipyn ynghynt nag y datblygasant yng Nghymru. Ond, wrth fod yn rhan mor allweddol o fywyd diwylliannol a chymdeithasol Cymru, gellid dadlau i'w syniadau a'i gobeithion hi am Gymru well ddylanwadu'n gadarnhaol ar ferched gwerinol a bonheddig Cymru fel ei gilydd.

Nid hi oedd yr unig wraig a wnaeth gyfraniad mawr i ddiwylliant Cymru yn y 19eg ganrif. Bu Augusta Hall neu Gwenynen Gwent fel y'i hadnabuwyd yn gaffaeliad i gerddoriaeth a diwylliant Cymreig yn y 19eg ganrif. Agorodd ddrysau plas Llanofer i gerddorion ac awduron gan greu canolfan fyrlymus i ddiwylliant Cymreig y 19eg ganrif. Roedd ganddi hefyd nifer o gysylltiadau pwysig ar draws y ffin a llwyddodd i gyflwyno blas o Gymru i gylchoedd cymdeithasol uchelwyr Llundain. Roedd y dylanwad hwn yn hollbwysig wrth sicrhau diwylliant byw yng Nghymru a magodd a meithrin celfyddyd ymhlith llenorion a cherddorion Cymru; unigolion megis Iolo Morganwg, John Thomas (Pencerdd Gwalia), H. Brinley Richards ac ati. Roedd plas Llanofer yn ganolfan ddiwylliannol a oedd yn denu diwylliant o bob cwr o Gymru gan roi cyfle i gerddorion a llenorion ddod at ei gilydd i drafod a datblygu'u

[23] http://www.lib.rochester.edu/Camelot/auth/guestbio.htm Chwiliwyd 23.12.09
[24] Lady Charlotte Guest, *The Mabinogion: From the Llyfr Coch o Hergest and Other Ancient Welsh Manuscripts* (Llandovery/London, 1849)

celfyddyd. Roedd yn ganolfan i bobl gyfathrebu a thrafod; man i ddatblygu syniadau yn y maes yr ymhyfrydid ynddo. O ganlyniad i unigolion fel Arglwyddes Llanofer a Lady Charlotte Guest, roedd gan y ferch le i gredu y gallai nid yn unig gael ei derbyn yn gyfartal i'r dyn mewn cymdeithas, ond hefyd, gallai ragori.

Dwy enghraifft yn unig o weithgarwch benywaidd diwylliannol cyfoethog y 19eg ganrif ydyw Augusta Hall a Lady Charlotte Guest. Gwragedd annibynnol ag achos penodol ar waith. Yn sicr, nid dyma oedd meddylfryd benywaidd cyffredinol y 19eg ganrif. Roedd y mwyafrif helaeth yn methu ysgrifennu, ac wedi'u caethiwo i'r cartref a'r aelwyd.

> In 1844, out of a total of 3,224 marriages at ten Welsh centres only 29 per cent of the brides were able to sign their names.[25]

Ond, trwy gyfraniad gwragedd fel Augusta Hall a Lady Charlotte Guest, plannwyd yr hedyn gan roi statws i'r ferch mewn cymdeithas gwbl wrywaidd a oedd ag agwedd israddol iawn tuag at y wraig yn gyffredinol.

Elfen bwysig arall a oedd yn arwydd amlwg o'r newid yn statws y ferch yn ail hanner y 19eg ganrif oedd y cyfnodolion a gyhoeddwyd yn benodol ar gyfer merched.[26] Crynhoid statws a sefyllfa'r ferch gan Ieuan Gwynedd yng nghylchgrawn *Y Gymraes* ym 1850:

> Hyd yn hyn, nid ydyw merched Cymru wedi derbyn y sylw a deilynga eu sefyllfa, nac wedi mwynhau cyfleustra cydradd a meibion eu gwlad. Nid oes cymaint o sylw wedi ei dalu i'w haddysg, nid oes ond un cyhoeddiad cofnodol wedi ei amcanu at eu gwasanaeth...

[25] Sian Rhiannon Williams, 'The True "Cymraes'': Images of Women in Women's Nineteenth-Century Welsh Periodicals', yn Angela V. John, *Our Mother's Land – Chapters in Welsh Women's History 1830–1939* (Cardiff, 1991), 72

[26] Enghreifftiau o gylchgronau o'r fath i ferched yn y cyfnod oedd *Y Gymraes* yn 1850, ac yn hwyrach yn y ganrif yn 1870, *Y Frythones*.

> ... ein cylch ni yw derchafiad y Rhyw fenywaidd ymhob ystyr, − yn gymdeithasol, moesol a chrefyddol. Ein hamcan yw cydweithredu a sefydliadau addysgiadol ein hoes er cynhyrchu morwynion ffyddlon, merched rhinweddol, gwragedd darbodus a mamau deallgar...
>
> ...ni wyddom am deilyngach gwaith na'r un sydd gennym mewn llaw.[27]

Fodd bynnag, er mai cylchgrawn ar gyfer merched oedd *Y Gymraes*, ei amcan mewn gwirionedd oedd, nid creu merch annibynnol, gref, ond yn hytrach creu'r Gymraes 'berffaith'; gwraig a oedd yn foesol ac yn deyrngar i'w gŵr ar bob cyfrif; gwraig na ellid ei beirniadu am unrhyw gamweddau, a gwraig a oedd yn aros yn y cartref i ofalu am ei gŵr a magu teulu.

Ni chrybwyllir y merched a fyddai'n gweithio yn y ffatrïoedd nac mewn gwaith a ystyrid yn anwaraidd i ferch. Anelwyd y cylchgrawn at ferched sengl, di-briod i geisio'u darbwyllo i ddilyn y bywyd priodasol delfrydol. Roedd y mwyafrif o'r awduron o'r farn mai wrth hyfforddi'r fam a nodi'r hyn a ddisgwylid oddi wrthi, byddai dyfodol y wlad yn un llewyrchus.

> ...the main occupation of Welsh women, domestic service, was romanticized and seen as the ideal opportunity for women to exhibit their natural feminine instincts of service and deference.[28]

Felly, anelid y cylchgrawn hwn at ganran benodedig o'r boblogaeth fenywaidd; canran llai fyth wrth ystyried faint o'r merched hyn a allai ddarllen y cyngor a'r

[27] Dyfynnwyd yn Sian Rhiannon Williams, 'The True "Cymraes"': Images of Women in Women's Nineteenth-Century Welsh Periodicals', yn Angela V. John *Our Mother's Land – Chapters in Welsh Women's History 1830–1939* (Cardiff, 1991), 69
[28] Ibid., 77

cylchgrawn o gwbl. Bu'r cylchgrawn yn fethiant, ac ni fu cylchgrawn arall ar gyfer merched am gyfnod o oddeutu 28 mlynedd.[29]

Un o ferched amlwg eraill y 19eg ganrif oedd Sarah Jane Rees (Cranogwen) a fu'n olygydd *Y Frythones* am ddeng mlynedd rhwng 1879 ac 1889; cylchgrawn ar gyfer gwragedd yn benodol.[30] Roedd *Y Frythones* yn fwy teg i'r ferch drwy gydnabod ei bod yn bosib iddi weithio y tu hwnt i ffiniau'r cartref. Un o'r prif wahaniaethau rhwng y cylchgrawn hwn a'r gweddill oedd bod safbwynt y golygydd y tro hwn yn deillio o brofiad; profiad o wybod a phrofi'r annhegwch a'r frwydr i geisio ennill hawliau a statws. Profodd Cranogwen ei bod hi'n bosib cicio yn erbyn y tresi ac ennill y parch y dyheid amdano drwy sefydlu cylchgrawn gan ferched ac ar gyfer merched, a hithau'i hun yn ei olygu. Fodd bynnag, ni chynigai'r cylchgrawn hwn gydbwysedd ychwaith. Yn hytrach na thargedu'r dosbarth gweithiol yn yr erthyglau, y tro hwn, canolbwyntid ar wragedd dosbarth canol Seisnig fel Elizabeth Fry, Sarah Martin a Florence Nightingale.[31] Rhaid cofio fod Lloegr yn wahanol iawn i Gymru yn y cyfnod hwn, ac i ferch ddosbarth-gweithiol Gymraeg, anodd iawn fyddai iddi uniaethu â gwraig ddosbarth-canol o Loegr.

> It is difficult to avoid the conclusion that *Y Frythones* had a rather condescending attitude towards working-class women.[32]

Cyfle i ferched leisio barn a datblygu o'r meddylfryd traddodiadol oedd amcan y cylchgronau hyn ac erbyn diwedd y 19eg ganrif ailsefydlwyd *Y Gymraes* gyda Alice

[29] Cafwyd y rhifyn cyntaf o *Y Gymraes* ym 1850 dan olygyddiaeth Ieuan Gwynedd ac fe'i cyhoeddwyd am ddwy flynedd yn unig o ganlyniad i afiechyd y golygydd a fu farw ym 1852. Ail-sefydlwyd y cylchgrawn ym 1896 dan olygyddiaeth Alice Gray Jones (Ceridwen Peris) ac fe'i cyhoeddwyd hyd at fis Rhagfyr 1934.
[30] Cranogwen (gol.), *Y Frythones: At Wasanaeth Merched a Gwragedd Cymru* (Llanelli, 1879-89)
[31] Dyfynnwyd yn Sian Rhiannon Williams,'The True "Cymraes"': Images of Women in Women's Nineteenth-Century Welsh Periodicals', yn Angela V. John *Our Mother's Land – Chapters in Welsh Women's History 1830–1939* (Cardiff, 1991), 82
[32] Ibid., 83

Gray Jones (Ceridwen Peris) yn olygydd arno. Yr hyn y gellid ei ddadlau a oedd yn unigryw am y cylchgrawn hwn yn wahanol i'r ddau a'i rhagflaenodd, oedd ei fod yn gofyn am gydweithrediad merched Cymru i sicrhau'i lwyddiant. Yn y rhifyn cyntaf, galwyd ar ferched Cymru am eu cymorth i sicrhau llwyddiant y cylchgrawn newydd.

> Anwyl [*sic*] chwiorydd, taer erfyniwn am eich cydweithrediad calonog, a'ch help, gan obeithio y bydd i'r egwyddorion a hauir gan Y GYMRAES gael eu bendithio gan y nefoedd i fod er budd a dyrchafiad merched Cymru.[33]

Canolbwyntid yn fwy o lawer ar gyraeddiadau merched y genedl gyda merched yn cyfrannu'r mwyafrif o'r deunydd llenyddol ar gyfer y cyhoeddiad misol hwn.[34] Ceid dadl ym mhob cyfrol a roes y cyfle i ferched cyffredin leisio'u barn ynghylch materion cyfoes y wlad ar droad yr ugeinfed ganrif.

> Each month's issues included a 'debate' on topics which often touched upon the social role of women, for example, 'Should women marry?', 'Should women become public speakers?', 'Should women read novels?', and in December 1900, 'Should women be allowed to vote?'[35]

Dylid dwyn i gof fod addysg wedi gwella ar ei chanfed erbyn ail hanner y 19eg ganrif a olygai y byddai rhagor o ferched yn gallu ysgrifennu a chyfrannu at gylchgrawn *Y Gymraes*, yn wahanol iawn i'r cyfnod pan gyhoeddwyd y cylchgrawn am y tro cyntaf. Bu Adroddiad y Comisiwn Brenhinol ym 1847 yn drobwynt allweddol yn hanes addysgol y wlad. Ar ddechrau'r 19eg ganrif, rhywbeth prin iawn oedd addysg ffurfiol, yn enwedig i ferched.

---

[33] Ceridwen Peris, 'Gair at Gymryesau', *Y Gymraes*, Cyf.1, Rhif 1 (Hydref 1896), 8
[34] Enghreifftiau o deitlau erthyglau o'r cyfnod oedd 'Gair at Gymryesau', 'Ystafell y Claf' ac 'Yr Aelwyd'.
[35] Sian Rhiannon Williams, 'The True "Cymraes"': Images of Women in Women's Nineteenth-Century Welsh Periodicals', yn Angela V. John, *Our Mothers' Land – Chapters in Welsh Women's History 1830–1939* (Cardiff, 1991), 86

Byd gwaith oedd byd y werin yn hytrach na'r byd academaidd, ac ni chynigwyd unrhyw fath o addysg iddynt, ar wahân i'r ysgolion Sul a gafodd eu sefydlu ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif.[36] Yn yr ysgol Sul, crëwyd pont rhwng y werin a'r llyfr, ac 'eithriad fyddai gweld cartrefi Cymraeg heb gasgliad o lyfrau'.[37] Yn dilyn Adroddiad y Comisiwn Brenhinol ym 1847, gweddnewidiwyd Cymru'r 19eg ganrif a bu cysgod yr Adroddiad yn amlwg dros ail hanner y 19eg ganrif gyda'r wlad yn ceisio ad-ennill ychydig o'i hunan-barch a'i hunaniaeth.

Yn ddi-os, roedd crefydd yn elfen ac yn rym ym mywydau'r bobl; elfen a oedd â'r grym i lywio ffordd o fyw o ran gwerthoedd, moesau a dysg. Fodd bynnag, ceid dwy ochr i'r geiniog, ac er gwaethaf cyfoeth y deunydd a gafwyd gan emynwyr fel Ann Griffiths,

> I garwyr diwylliant traddodiadol Cymru, diflastod oedd yr ymchwydd Methodistaidd hwn, pa un ai Calfinaidd neu Wesleaidd ydoedd.[38]

Roedd meddylfryd y wlad yn newid, a'r baledwyr gyda'u hiwmor ffraeth wrth ganu'u storïau yn gwbl groes i neges grefyddol, foesol y pregethwyr. Er y ceid neges foesol i ddiweddu nifer helaeth o'r baledi a oedd yn cyd-fynd ag agwedd a meddylfryd y pregethwyr, ni fyddai'r thema a'r naws a fyddai'n rhagflaenu'r neges hon yn cyd-fynd ag agwedd foesol, waraidd y pregethwyr.

> Mae'r gwely'n llawer gwell
> I garu'r wyf yn coelio,
> Nac aros mewn rhyw gell,
> Nes byddis yn diffygio, −
> Bydd nwydau yn eu nerth,
> A'r cariad yn gwresogi, −

[36] Ceir trafodaeth am ddechreuad yr ysgolion Sul yng nghyfrol Derec Llwyd Morgan, *Pobl Pantycelyn* (Llandysul, 1986), 86-110
[37] Robert Owen Jones, *Hir Oes i'r Iaith – Agweddau ar Hanes y Gymraeg a'r Gymdeithas* (Llandysul, 1997), 254
[38] John Davies, *Hanes Cymru* (London, 2007), 313

Mewn gwely gwelir gwerth
Yr amser i briodi.

Os wyt yn mynd mor ffol,
Y 'ngwyneb pob rhybuddion,
A mynu rhodio yn ol
Y ffyrdd sydd yn dy galon,
O! gwybydd, cyn b'o hir,
Daw dydd y farn a'r cyfri', −
Ac yn y goleu clir,
Fe gaiff pob peth ei brofi.[39]

Roedd apêl y neges fodd bynnag yr un peth mewn un modd. Un o rinweddau'r baledwyr oedd eu gallu i drosglwyddo stori neu ddarn o newyddion mewn ffordd syml a fyddai'n ddealladwy i gynulleidfa o bob gallu. Cynulleidfa werinol, anllythrennog oedd mwyafrif y boblogaeth ar ddechrau'r 19eg ganrif, ac roedd neges y Methodistiaid, fel y baledwyr wedi'i hanelu at y werin, sef trwch y boblogaeth.

Yng nghyd-destun y faled, bu'r newid cymdeithasol hwn mewn addysg ac mewn moesau ymron yn angheuol i'r hen faled draddodiadol. Gyda dyfodiad yr Eisteddfodau taleithiol a'r Mudiad Rhamantaidd a oedd yn cerdded y Cyfandir, roedd yr oes a'r bobl yn newid, a'r disgwyl am farddoniaeth fwy cymhleth a safonol yn boddi canu ysgafnach, cyffrous y baledwyr. Âi'r baledwyr i deimlo'n israddol yn wyneb y math newydd hwn o ysgrifennu a gwelwyd newid mawr yn ffurf a chyd-destun y faled.[40]

> Pan oedd Rhamantiaeth eisoes yn dechrau cerdded y Cyfandir, bodlonai'r baledwyr Cymraeg ar gofnodi'n haniaethol, ac ar ddim mwy na'i geiniog a'i ganmol, heb fod i'w ganu disgrifiadol fawr o gyswllt gwirioneddol â hanfod bywyd y meddwl a'r enaid.
>
> Yr ail beth a ganfu'r baledwyr oedd bod canu rhydd amgenach ar gael, canu beirdd eisteddfodol fel Ceiriog a thelynegion rhai fel Alun a Ieuan Glan

[39] Bardus Lochwd, *Ymddiddan rhwng mab a merch, y'nghylch myned i garu yn y gwely*, Cyfrol 12, Rhif 89
[40] Gweler E. G. Millward, 'Gwerineiddio Llenyddiaeth Gymraeg' yn R. Geraint Gruffydd (gol.), *Bardos* (Caerdydd, 1982), 95-110

> Geirionydd y gellid olrhain dylanwad yr hen benillion telyn ar eu cynnyrch.[41]

Fodd bynnag, gellid dadlau o blaid ac yn erbyn y datblygiad academaidd newydd hwn yng nghymdeithas y 19eg ganrif. Ar y naill law, roedd y wlad yn datblygu'n feddyliol ac yn gosod llwybrau addawol ar gyfer y dyfodol o ran datblygiadau cymdeithasol, economaidd ac academaidd. Ond, ar y llaw arall, wrth i fwyfwy o bobl ddysgu darllen ac ysgrifennu, gwelwyd cynnydd aruthrol ym mhoblogrwydd y wasg argraffu a phapurau newydd dyddiol a oedd wrth gwrs yn cael effaith uniongyrchol ar fywoliaeth a diben y baledwyr mewn cymdeithas.[42] Nid oedd angen baledwr pan geid newyddion amserol o fewn cloriau'r papurau newydd, gellid dadlau. Ac yn sicr, ceid agendor anferth rhwng y ddau gyfrwng; cynigai'r papurau newydd newyddion diweddarach a manylach. '...hysbysrwydd oedd diben eu baledi hwythau ran amlaf.'[43] Nid oedd gobaith i newyddiaduraeth ar ffurf adloniant drechu newyddion ffeithiol, manwl a phrydlon. Felly, yn anuniongyrchol, wrth ddatblygu'r system addysg ac wedi i'r wladwriaeth gyflwyno Deddf Addysg Forster ym 1870 i sicrhau addysg i bob plentyn, gwelwyd newid pendant yn agwedd y wlad â'r baledi'n araf ddiflannu o gymdeithas draddodiadol y 19eg ganrif. Sefydlwyd y ddeddf hon i sicrhau Byrddau Ysgol lleol ym mwyafrif ardaloedd Cymru. Nod y ddeddf oedd llenwi'r bylchau yn system ysgolion y cyfnod. Nid oedd yn rheidrwydd i blant fynd i'r ysgol cyn 1870, ond pan sefydlwyd y ddeddf hon, ceid gwelliant ar system addysgol y wlad o'i chymharu â'r hyn a geid cynt.

Elfen arall a feirniadwyd yn hallt yn Adroddiad y Comisiwn Brenhinol ym 1847 oedd crefydd. Ond er gwaetha'r feirniadaeth, bu'n rym allweddol ym mywyd y bobl yn y

[41] Dafydd Owen, *I Fyd y Faled* (Dinbych, 1986), 112
[42] http://www.glamro.gov.uk/check/Building%20of%20a%20Capital%202/awelsh_education.html
[43] Dafydd Owen, *I Fyd y Faled* (Dinbych, 1986), 114

19eg ganrif. Yn y cyd-destun hwn, hefyd, gellid pwyso a mesur y ffactorau cadarnhaol yn erbyn y negyddol.

Byd o ddychan oedd byd y baledwyr; byd o orliwio digywilydd. Fel yr anterliwt, roedd nifer helaeth o'r baledi yn gwrthdaro â moesau ac agwedd y Methodistiaid. Rhaid cofio mai traethu ar lafar a wnâi'r pregethwyr a'r baledwyr ill dau, ac wrth gwrs, yr un gynulleidfa a wrandawai arnynt. Bu'r ddwy garfan felly yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am wrandawyr gan geisio chwyddo'u cynulleidfaoedd a'u hennill i'w rhengoedd nhw eu hunain. Gan amlaf fodd bynnag, y pregethwyr a enillai'r dydd.

> Arwydd o ddylanwad y crefyddolder yw'r ffaith nad oedd llawer o'r hen arferion yn ddim mwy nag atgofion hynafgwyr erbyn canol y ganrif, chwaraeon bore Sul a thwmpathau chwarae a'u tebyg.[44]

Fel y digwyddodd ym myd addysg, wrth i grefydd gael ei gafael ar y genedl, gwanychu oedd hanes y faled a thlotach fu diwylliant traddodiadol Cymru o ganlyniad i hyn.

Gwyddys mai peth prin iawn oedd ysgariad yn y 19eg ganrif, ond serch hynny, ni olygai hynny nad oedd anhapusrwydd yn bodoli yn y cartref. Cyfeiria'r baledwyr at rai o'r problemau a fu'n achosi anghydfod o fewn rhwymau priodasol, ac un o'r problemau hynny oedd diota. Dyma oedd un o'r brif broblemau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a effeithiai'n negyddol ar bob dosbarth cymdeithasol. Mewn cyfnod o dlodi mawr, byddai'n hynod anodd i'r wraig gadw dau ben llinyn ynghyd, ac anos fyth oedd cadw dau ben llinyn ynghyd pan fyddai'r gŵr yn gwario'r arian ar

[44] Ibid., 118

ddiod. Yn yr un modd, golygai anhrefn ac aflonyddwch yn y gymdeithas a'r gweithle fel ei gilydd.

> Achosai'r gorlymeitian bryder i lawer: i'r cyflogwyr, canys tanseiliai eu hymdrechion i greu llafurlu disgybledig; i wragedd dosbarth gweithiol, oedd yn eiddigeddus o'r dafarn, 'y weriniaeth wrywol', ac yn chwerw o weld arian prin y teulu'n cael ei wario ar ddiod; i'r difrifolaf o'r gweithwyr, a dristâi o weld trueni eu cymrodyr; i'r parchus o bob gradd, a ffieiddiai feddwdod cyhoeddus.[45]

Gyda phroblem gymdeithasol mor amlwg, a gyda chymaint yn ei gwrthwynebu, roedd sefydlu Mudiad Dirwest i raddau helaeth yn llwybr rhesymol amlwg i'w droedio.[46] Y bwriad gwreiddiol oedd ceisio lleihau'r nifer a oedd yn diota yn enw crefydd, ond wrth i'r ymgyrch gerdded, datblygodd 'o fod yn grwsâd moesol i fod yn ymgyrch wleidyddol'.[47]

Cafodd llymeitian effaith arbennig, nid yn unig ar y gwragedd, ond hefyd ar y merched ifainc a oedd yn cael eu denu i'r dafarn gan ddynion a'u bryd ar gymryd mantais ohonynt unwaith y byddai'r ddiod wedi'u meddwi. Yn dilyn y feirniadaeth hallt a gafodd merched Cymru yn Adroddiad y Comisiwn Brenhinol ym 1847, roedd canran helaeth o ferched y wlad yn ysu i newid y canfyddiad cyhoeddus o ferched Cymru a chyhoeddwyd llenyddiaeth ddi-ri i geisio rhybuddio'r merched o'r peryglon a'u hwynebai.[48] Gwelwyd twf aruthrol yn nifer y merched a fu'n ysgrifennu erthyglau, pamffledi, cerddi a llenyddiaeth o bob math i'r Mudiad Dirwestol; mudiad a roddodd iddynt yr hyder a'r cymhelliant i leisio'u barn trwy gyfrwng llenyddiaeth a

[45] John Davies, *Hanes Cymru* (London, 2007), 342
[46] Gweler Islwyn Jones, *Gwell yw Dŵr i Gylla Dyn:Bras-olwg ar Hanes Dirwest yng Nghymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd, 1986) am ragor o wybodaeth ynghylch dirwest a'r mudiad dirwestol yng Nghymru yn y cyfnod.
[47] John Davies, *Hanes Cymru* (London, 2007), 342
[48] Ceridwen Lloyd-Morgan, 'From Temperance to Suffrage', yn Angela V. John (gol.), *Our Mothers' Land – Chapters in Welsh Women's History 1830–1939* (Cardiff, 1991), 142

chyfarfodydd a chynadleddau ledled y wlad. Gwelir yma ddatblygiad pwysig yn hyder a statws y ferch wrth iddi gamu i gyfnod newydd yn ei hanes.

Trwy gyfrwng y Mudiad Dirwestol, gosodwyd seiliau gwleidyddol cadarn i'r ferch yng Nghymru. Dyfarnwyd yr hawl i rai dynion bleidleisio ym 1832 yn dilyn protestiadau'r Siartwyr a'u tebyg, ond gwrthodwyd yr hawl hwn i'r merched bryd hynny. Ond, wrth i ferched wleidyddol-effro ddechrau sylweddoli'r gwelliannau y gellid eu hennill wrth sicrhau'r hawl i bleidleisio, daeth tro ar fyd yng nghyd-destun y ferch wrth iddi ddechrau ymladd am ei hawliau sylfaenol. Fodd bynnag, ni fu heb wrthwynebiad a bu'n rhaid i'r ferch frwydro am le yn y bywyd cyhoeddus yng nghanol rhagfarn. Yn ôl Ceridwen Peris:

> Peth anodd yw gwrthweithio rhagfarn gwlad... Yr oedd gwaith merch yn esgyn i lwyfan i siarad yn gyhoeddus yn taro yn erbyn y syniad cyffredinol am safle merch mewn cymdeithas. Yr aelwyd oedd lle merch, a distawrwydd oedd ei rhinwedd... Wynebu y rhagfarn yna a fu raid i'r merched oeddynt yn ceisio argyhoeddi y wlad fod gan ferch ei chenadwri a'i chenhadaeth yn y byd, a bod cylch ei gwasanaeth yn helaethach na phedwar mur ei chartref.[49]

Gellid olrhain y traddodiad o'r ferch yn protestio yn ôl i draddodiad y Ceffyl Pren y credid ei fod yn sail i brotestiadau Merched Beca drwy'r arferiad 'merchetaidd' o gario clecs.

> It seems apparent that women helped to sustain the various informal gossip channels which detected and defined 'aberrant' social behaviour and, therefore, ultimately influenced the selection of prospective *ceffyl pren* victims.[50]

[49] Dyfynnwyd yn ibid., 148
[50] Rosemary A. N. Jones, 'Women, Community and Collective Action: The "*Ceffyl Pren"* Tradition', yn Angela V. John (gol.), *Our Mothers' Land – Chapters in Welsh Women's History 1830–1939* (Cardiff, 1991), 22-3

Fodd bynnag, anaml iawn mai siarad gwag oedd wrth wraidd y cyhuddiadau. Mae'n bosib i'r merched a oedd yn cyfansoddi baledi gael llawer o'u deunydd o'r arferiad hwn a fyddai'n drysorfa o wybodaeth i faledwr. Ond, wrth i ferched ddatblygu'n gymdeithasol, dechreuwyd ysu am y bleidlais, ond dilynwyd y trywydd heddychlon am newid gwleidyddol yn hytrach nag efelychu protestiadau'r Siartwyr a Merched Beca er enghraifft.

Mewn cyfnod o dlodi ac amodau byw gwael, roedd iechyd yn y 19eg ganrif yn broblem sylweddol. Elfen a berthynai'n agos iawn i farwolaethau a phrofedigaethau oedd hunanladdiad. Yn anffodus, yng nghymdeithas Gymreig y 19eg ganrif, nid ystyriwyd hunanladdiad yn achos pwysig ac fe'i hystyriwyd gan y boblogaeth yn elfen o galedwch y cyfnod.

> Insanity and suicide were regarded by many Victorians as the unfortunate by-product of modern society.[51]

Er nad ystyrid hunanladdiad yn bwnc trafod anarferol, roedd yn destun newyddion poblogaidd i'r baledwyr a gwelir bod hunanladdiad yn destun sy'n codi'i ben yn rheolaidd yng ngwaith y baledwyr, yn enwedig yng nghyd-destun y ferch a oedd yn fwy tebygol yn y cyfnod o gyflawni hynny na'r dyn.[52] Rhaid dwyn i gof nad oedd opsiynau lu ar gael yn y cyfnod pe bai bywyd ac emosiwn yn mynd yn drech na hwy. Yn wyneb tlodi a dyledion, y wyrcws oedd yr unig opsiwn arall a oedd ar gael, ac i nifer helaeth o boblogaeth y 19eg ganrif, byddai cyflawni hunanladdiad yn llai o

[51] Russel Davies, '"Do Not Go Gentle into that Good Night?" Women and Suicide in Carmarthenshire, c.1860-1920', yn Angela V. John (gol.), *Our Mothers' Land – Chapters in Welsh Women's History 1830–1939* (Cardiff, 1991), 93

[52] Gweler yr enghreifftiau canlynol o blith casgliad Cerddi Bangor: *Can newydd o hanes Benson Covert, yr hwn y darfu ei ail wraig ef wenwyno tri o'i blant, gerllaw pentref bychain a elwir Ashburn, yn Sîr Gaer Efrog (Yorkshire) a hi a ymgrogodd ei hun yn y diwedd*, Richard Williams (Trefriw, 1818) Cyfrol 10, Rhif 49; *Can newydd yn gosod allan y modd y darfu Mari Wilks, ail wraig John Wilks, lofruddio 3 phlentyn ei wraig gyntaf, ac ymgrogi wrth goeden, ar fore yr 16eg o Fawrth diweddaf, yn mhlwyf St. Mari, swydd Buckingham* (Llannerch-y-medd) Cyfrol 21, Rhif 148

gywilydd. Nid cynnig ateb i broblemau tlodi a wnâi'r wyrcws ond yn hytrach cymhelliant ydoedd i geisio osgoi bywoliaeth anos drwy gael eich gwahanu oddi wrth eich teulu agosaf.

Adlewyrchiad cymdeithasol oedd y faled yn y 19eg ganrif a bu'r baledwyr, yn wŷr a gwragedd, yn ganolog wrth adlewyrchu'r gymdeithas honno ar gân. O bryd i'w gilydd, byddai'r baledwyr gam ymlaen i'r system wleidyddol; eu profiadau wrth sylwi ar bobl o fewn eu cymdeithas yn rhoi drych iddynt nid yn unig o'r sefyllfa bresennol honno, ond drych i ddyfodol delfrydol yr oedd ei angen yn ddirfawr ar y Cymry. Canrif o newid oedd y 19eg ganrif; er gwell ac er gwaeth gellid dadlau, ond cyfnod o newid serch hynny. Bu newid ym myd y faled, y drych cymdeithasol hwnnw a oedd yn dechrau cymylu dan ddylanwad datblygiadau technolegol anochel. Ond, wrth ddilyn llwybr y faled gellir olrhain a dadorchuddio'r ymdeimlad a gerddai'r wlad yn ystod y ganrif, ac yn arbennig, clywed adlais troed y ferch ar y llwybr unigryw hwnnw.

Adloniant yn anad dim oedd y faled; adloniant a gynigai lesâd a mwynhad i'r werin. Hyd heddiw, gellid dadlau mai'r math mwyaf poblogaidd o adloniant cyfoes yw'r adloniant sy'n tynnu oddi ar brofiadau bywyd y bobl gyffredin, a dyna yn ei hanfod a wnâi'r baledwyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Wedi'r cyfan, diddordeb pennaf dyn yw ei gyd-ddyn. Ni ellir diystyru gwerth ymarferol y faled yn lledaenu newyddion ar hyd a lled y wlad, ond gellid dadlau'n gryf mai'r elfen adlonnol a ddenai'r boblogaeth i wrando a phrynu'r baledi ac elfen gref o'r apêl hon oedd yr alaw. Yn ogystal, roedd y modd y cyflwynid y baledi'n rhan bwysig o'u hapêl. Perfformiad byw oeddynt, a phob techneg a pherfformiad yn unigryw i'r baledwr, a'r elfennau hynny oll yn gyfrwng i ddenu sylw'r werin ac yn arwain at boblogrwydd cyffredinol y faled. Er mai ffenomenon ieithyddol oedd y faled i raddau helaeth, ac mai yn y geiriau y ceid y neges, ni ellir diystyru pwysigrwydd yr alaw a'r berthynas rhwng y gân a'r gair; elfen gwbl annatod o berfformiad unigryw'r baledwyr. Ond, yn eu gwerth hanesyddol y deil y cyfoeth mwyaf, a'r gipolwg anghyffredin honno ar fywyd nas cyrhaeddodd rhwng cloriau'r llyfrau hanes; cipolwg i orffennol llawn cyfoeth diwylliannol a bwrlwm bywyd, gan roi cyfle prin yn ogystal i chwilota drwy gyfrinachau'r ferch anghofiedig.

Cyn mentro i fyd a bwrlwm y faled, rhaid yn gyntaf ystyried y sawl a'u creodd a chamu i fyd y baledwr ei hun. Rhaid gofyn, pa mor boblogaidd oedd y baledwyr o fewn cymdeithas yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg? Pa fath o berthynas oedd gan y baledwr â'i gynulleidfa, boed y rheini'n wrywaidd neu'n fenywaidd? Ai rhywbeth cynhenid yn y baledwr oedd bywoliaeth o'r fath, neu ai diogi a oedd wrth wraidd y bywyd hwn; gwrthod gwaith yn y chwareli, yn y pyllau glo neu ar y fferm am fywyd o ddifaterwch?

Mewn gwirionedd, prin iawn yw'r wybodaeth sydd gennym am faledwyr fel y cyfryw. Fel ffurf lenyddol a cherddorol, ni roddwyd pwyslais na phwysigrwydd ar y faled, ac felly ychydig iawn o bwyslais a roddwyd yn ei dro ar gyfraniad y baledwyr gwrywaidd a benywaidd fel ei gilydd i gymdeithas a diwylliant Cymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

> Ceir llu o enwau gwahanol awduron wrth y baledi a oroesodd, a theg yw casglu mai canu a gwerthu eu gwaith ar draws gwlad fu hanes llawer ohonynt, ond ar wahân i ryw ddyrnaid... aeth eu henwau mor anghofiedig ag un Siôn Dywyll Olau.[53]

Dylid dwyn i gof nad oedd pob baledwr yn rhagori yn y maes, a dylid cofio bod canran helaeth o'r baledwyr a deithiai ar hyd a lled y wlad yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ddim namyn cardotwyr tlawd a ganai faledi o eiddo baledwyr mawr y cyfnod.

> Cerdd i'w chanu ydoedd y wir faled a chantwr oedd pob gwir faledwr, ond rhaid cyfaddef na chenid pob cerdd a werthid gan faledwr ac na allai pob gwerthwr baledi ganu. Y baledwr gorau yn unig a gyfansoddai, canu a gwerthu. Gwir bod rhai o'r dosbarth hwn yn barod i gynnwys baledi o waith pobl eraill i'w gwerthu a chanu'r goreuon ohonynt. Cantorion heb ddawn i gyfansoddi oedd llawer o'r baledwyr ac, ar y gwaelod isaf, caed y cardotyn a werthai gerddi ymha le bynnag y gallai.[54]

Ceid eithriadau wrth gwrs fel a gafwyd yn y ddeunawfed ganrif, a chofnodwyd bywgraffiadau rhai o brif faledwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ddiogel o fewn cloriau llyfrau hanes.[55] Y dynion a hawliai'r llwyfan hwn a dyma rai o'r baledwyr mwyaf poblogaidd, a'r mwyaf toreithiog yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

---

[53] Tegwyn Jones, 'Baledi a Baledwyr y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg', yn Geraint H. Jenkins (gol.), *Cof Cenedl VI – Ysgrifau ar Hanes Cymru* (Llandysul, 1991), 103

[54] Ben Bowen Thomas, *Drych y Baledwr* (Llandysul, 1958), Rhagair

[55] Gweler y cyfrolau canlynol am ragor o wybodaeth am faledi a baledwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg: C. M. Jackson-Houlston, *Ballads, Songs, and Snatches: The Appropriation of Folk Song and Popular Culture in British Nineteenth-century Realist Prose* (Aldershot, 1999); Tegwyn Jones, *Baledi Ywain Meirion* (Bala, 1980); Tegwyn Jones, *Abel Jones Bardd Crwst* (Capel Garmon, 1989)

Richard Williams, (1790?–1862?) a adwaenir yn ogystal fel 'Dic Dywyll' neu 'Fardd y Gwagedd' oedd un o'r baledwyr amlycaf. Byddai gan nifer o'r baledwyr hyn ryw rinwedd hynod amdanynt a fyddai'n eu nodweddu a'i rinwedd yntau oedd iddo arfer canu ag un bys yng nghornel ei lygaid.[56] Roedd yn hynod boblogaidd ar hyd a lled Cymru ac ysgrifennai'n ffraeth ac yn hynod o ddoniol fel y dengys y faled hon o'i eiddo.

Rwy'n credu'n llwyr mai fi pia'r lle,
Does dithau i ffordd i deithio,
Mae'n rhaid i mi gael gwreigan gu,
Cei ddeall hyny hyno;
A gwraig a fynaf ar fy ngair,
O hyn i ffair Treffynon,
Na wiw i ti nag undyn, gwel,
Mor ceisio hel esgusion,
'Rwy'n hoffi cwmni lodes lân,
A'i mân gusanau mwynion.

F. Rhag eich c'wilydd, tewch fy nhad
A'ch dwned efo'ch dynes,
'Ry'ch chwi'n hen ŵr yn drugain oed,
Bythefnos cyn gwyl Andras;
Pe b'ai rhyw ffolog haner hurt,
Ar feddwl eich priodi,
Mi daflwn gerrig ar ei chlol,
Nes bydd hen siol hi'n synu,
Daw Robin 'mrawd, ond dweyd nei glust
A chloben o ffust i'w dyrnu.[57]

Meddai ar un o'r lleisiau canu gorau ymhlith yr holl faledwyr yn ôl y dystiolaeth a geir amdano mewn bywgraffiadau a chofnodion hanesyddol.[58] Ni ellir amau ei ddawn na'i boblogrwydd fel baledwr mawr yn y cyfnod ac mae'r ffaith yr ysgrifennid marwnad iddo wedi ei farwolaeth yn tystio cymaint oedd ei boblogrwydd yng

[56] http://wbo.llgc.org.uk/en/s-WILL-RID-1790.html?query=Richard+Williams&field=content Chwiliwyd Ionawr 24, 2010
[57] *Can newydd neu ymddiddan rhwng hen ŵr a'r ferch yn nghylch priodi*, Richard Williams (Llanrwst) Cyfrol 21, Rhif 89
[58] Am ragor o wybodaeth am Richard Williams, trowch at y ffynonellau canlynol:
Hefin Jones, *Dic Dywyll y Baledwr* (Llanrwst, 1995); D. Samuel, Rhagymadrodd i *Cerddi Cymru: casgliad o ganeuon Cymreig, hen a diweddar* (Caernarfon, 190-?); Ben Bowen Thomas, *Baledi Morgannwg*, (Caerdydd, 1951), 118

nghymdeithas y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fel rheol, anamlwg oedd y baledwr yn y gymdeithas, felly mae'r ffaith y talwyd teyrnged iddo am ei waith yn profi iddo fod yn neilltuol yng nghyd-destun baledwyr y cyfnod. Dengys y farwnad hon cymaint y'i gwerthfawrogid a'i edmygid gan ei gynulleidfaoedd a chenid am ei ofal am ei deulu a'r golled aruthrol a fu ar ei ôl.

> Cyfansoddai gerddi difyr
> Pan yn ieuanc iawn ei wedd,
> Ai gymdogion fyddai'n synu,
> Wrth ei wrando'n Llanerchymedd;
> Yna teithiai drefi'r Gogledd,
> Yn boblogaidd yn mhob lle,
> Teulu'r Dehau yr un ffunyd,
> Wrandawai'n astud arno fe.
>
> Pan y doe ryw ganwyr eraill,
> I'r un ffair a'n cyfaill cu,
> Ac yn meddwl gwerthu'n ddiwyd,
> Mawr eu siomid gan y llu,
> Ofer, ofer iddynt floeddio,
> Ni chant yno werthu'r un;
> Ond am Richard, pawb a ddywedai,
> O Dic dywyll, dacw'r dyn.[59]

Baledwr arall poblogaidd tu hwnt oedd Owen Griffith (1803–1868) neu 'Ywain Meirion' fel y'i hadnabuwyd orau. Ef, o bosib oedd y *bardd* gorau o blith y baledwyr. Ymddiddorai yn hen gerddi Beirdd yr Uchelwyr fel Dafydd Nanmor a Guto'r Glyn, ac yr oedd ganddo afael gadarnach na'r mwyafrif o faledwyr ar y gynghanedd. Ond er gwaethaf y diddordeb a'r ddealltwriaeth hon o'r gynghanedd, sylweddolai nad oedd o'r un gris dysgeidiaeth â'r beirdd hyn. Âi yn groes i'r graen i'r rhagdyb cyffredinol mai dim ond er mwyn ennill arian ar gyfer diota neu i fyw bywyd diofal y byddai'r baledwyr yn canu. Gwelir yn y faled, *Caniad o sen i glep a chelwydd*, y gwahaniaeth a geid yng nghyd-destun arddull rhyngddo a baledwyr eraill y cyfnod. Er nad yw'r

[59] *Marwnad Richard Williams, Dic Dywyll neu Bardd Gwagedd*, Goronwy (Caernarfon) Cyfrol 12, Rhif 67

thema yn hynod o wreiddiol, sylwer ar y modd y defnyddia ddelweddau yn y faled i gyfleu'i neges.

> Nid oes lle dan haul y nefoedd,
> Nad oes rhai diles trwy'r ardaloedd;
> Yn mhob man o'r môr i'r mynydd
> Maent yn cario Clep a Chelwydd.
>
> Maent fel bustl chwerwaf, coeliwch,
> Lle byddo goreu gyfeillach;
> Cym'dogion ânt yn mhenau'u gilydd,
> Am fod rhai'n cario Clep a Chelwydd.
>
> Ar bob croesffyrdd lle bo rhai'n pasio,
> Ceir gwel'd gwatworwyr yn cyd-daro,
> I 'sbio ar hwn, a'r llall, a'r trydydd,
> Er mwyn dyfeisio Clep a Chelwydd.[60]

Teimlai ddyletswydd i geisio cyfrannu rhywbeth i fywydau ei gynulleidfa, yn y gobaith y gallai gynnig rywfaint o gyfoeth iddynt yn eu bywyd llwm.[61] Ond er gwaethaf ei hynodrwydd fel baledwr, ni wnaeth ei ffortiwn. Bu farw'n dlotyn ac fe'i claddwyd ar draul y plwyf.[62]

Yr olaf o faledwyr mawr y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yn wir yr olaf un o'r baledwyr mawr traddodiadol, oedd Abel Jones (1830–1901) 'Bardd Crwst'. Yn ystod ei oes, cyfansoddodd yn doreithiog a'i enw'n byw o hyd yn etifeddiaeth y baledwyr.[63] Ef yw'r unig un o'r holl faledwyr y ceir llun ohono, a'r llun hwnnw wedi goroesi hyd at yr unfed ganrif ar hugain. (Gweler trosodd Ffigwr 2.1.)[64] Treuliodd lawer o'i fywyd yn yr Wyddgrug;[65] ffactor hynod o arwyddocaol o ystyried y bwrlwm diwylliannol a fu yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn ôl

[60] *Caniad o sen i glep a chelwydd*, Ywain Meirion (Llanidloes) Cyfrol 12, Rhif 13
[61] Dafydd Owen, 'Y Faled yng Nghymru',Traethawd MPhil, Prifysgol Bangor (1989), 118
[62] http://yba.llgc.org.uk/en/s-GRIF-OWE-1803.html Chwiliwyd 24.1.10
[63] Gweler yma rai enghreifftiau o'i eiddo: *Can newydd sef teimlad geneth ymddifad ar ol ei mam, yr hon sydd yn y bedd, a hithau dan lwodraeth llysfam,* A. Jones (Llanrwst) Cyfrol 21, Rhif 182; *Can o glod i weision a morwynion ffarmwyr Cymru,* A. Jones, Cyfrol 22, Rhif 151
[64] Tegwyn Jones, *Abel Jones Bardd Crwst* (Llanrwst, 1989), 15
[65] http://yba.llgc.org.uk/en/s-JONE-ABE-1830.html Chwiliwyd 24.1.2010

traddodiad, arferai alw'n gyson yn siop y nofelydd Daniel Owen, gan sgwrsio a rhannu syniadau ag ef.[66] Un llygad oedd ganddo; nodwedd nid anghyfarwydd ymhlith y baledwyr. O ganlyniad i ddallineb a lled-ddallineb, bu'n rhaid i lawer o'r baledwyr gefnu ar fyd gwaith traddodiadol a throi at gyfrwng a fyddai'n eu galluogi i ennill eu bara menyn drwy ddull amgen o gyfansoddi a chanu baledi lle nad oedd galw am eu golwg.[67] Yr oedd hefyd yn fodd o ennyn cydymdeimlad torfol, a fyddai yn ei dro yn gwasgu'n emosiynol ar y gynulleidfa i brynu baledi'r sawl a ganai, yn ogystal â phwyso ar gydwybod baledwyr gwell i helpu'r baledwyr dall wrth gyfansoddi.

> Oherwydd y dallineb hwn hefyd y cydymdeimlodd beirdd gwell hyd at lunio cerddi iddynt i'w canu'n gyhoeddus... Ymron na ellid dweud mai 'benefit concert' y deillion oedd cyngherddau baledol ffeiriau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg i raddau pell, a byddai croeso mawr a dwys bob amser i faledi fel 'Cwynion y Bachgen Dall' Trebor Mai.[68]

Rhaid cydnabod dawn y baledwyr yn adnabod eu cynulleidfa ac yn deall digon ar seicoleg gwerin y cyfnod i wybod yr hyn a apeliai atynt a'r hyn a fyddai'n debygol i'w hannog i ymwahanu â'u harian prin er mwyn prynu baled. Mewn cyfnod mor anodd a thlawd, sylweddolodd y baledwyr werth hapusrwydd i'r bobl, a byddai'r hapusrwydd hwnnw ran amlaf yn dod ar ffurf straeon caru; thema a ddefnyddid dro ar ôl tro gan y baledwyr a thema sydd yn frith ym maledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ceid yn ogystal ffraethineb a delweddau a chymeriadau doniol i ysgafnhau'r cysgod parhaus a fyddai'n llechu wrth ymyl y tlodion bob munud. Ceid eiliad o ryddhad yn y baledi hyn, a'r chwerthin y byddai'r baledi yn ei ennyn yn peri i'r cysgodion gilio am ysbaid; rhyddhad hanfodol mewn bywyd mor llwm. Dyma un

[66] http://wbo.llgc.org.uk/en/s-JONES-ABE-1830.html?query=Bardd+Crwst&field=content Chwiliwyd 24.1.2010
[67] Rhai enghreifftiau o faledwyr dall y cyfnod oedd Richard Williams (Dic Dywyll) a David/Dafydd Jones (Dewi Dywyll) ac un llygaid yn unig a oedd gan Abel Jones (Bardd Crwst).
[68] Dafydd Owen, 'Y Faled yng Nghymru', Traethawd MPhil, Prifysgol Bangor (1989), 111

o rinweddau mawr cael un o'r werin yn canu i'r werin; gwyddai'n union yr hyn y disgwylid ac y gobeithid clywed amdano oherwydd yr un newyddion a'r un straeon a fyddai'n apelio at y baledwr a'r gynulleidfa oherwydd mewn gwirionedd, brethyn o'r un anian oeddynt.

> Gwelir... fod gan y prif faledwyr hyn, er mor debyg eu canu ar un olwg, bob un ei ddull a'i ddyfais ei hun i sicrhau gwerthiant a phoblogrwydd fel beirdd y werin, − Ywain yn gofalu am ddigonedd o fanylion pob hanes, Abel yn pwysleisio fod pob llofruddiaeth yn gwbl eithriadol, Dic Dywyll yn sicrhau y ceid hwyl â'r faled drwy gynnwys y gair 'castiau' yn y teitl yn aml... At hynny 'roedd pob un ohonynt yn ddigon o seicolegydd o leiaf i wybod gwerth a mantais enwi cynifer o ardaloedd ag oedd bosibl, a dwyn i mewn i'r faled gynifer fyth ag a ellid o gymeriadau adnabyddus ac arbennig, boed eu hynodrwydd ddawn neu ddoniolwch.[69]

Gwelwyd newid aruthrol ym myd y faled rhwng y ddeunawfed ganrif ac ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. At ei gilydd yr oedd baledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gerddi dipyn mwy difrifol gyda'r neges yn fwy moesol ac yn fwy gwleidyddol ei naws. Nid oedd baledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ychwaith mor gain a chelfydd, ac ni allent hawlio gwir werth llenyddol neu gerddorol i'w crefft.[70]

> Teimlai llawer o'r beirdd fel petaent dan orfod i ymddiheuro am eu canu, ac ildient fwyfwy i alwad gynhaliol y diddanu ymarferol. Nid oedd gan awduron unawdol baledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg... bolisi nac athroniaeth ddiddanol yn unig, gan na allent ei fforddio. Nid oedd i faledi'r ganrif hon y grefft gywrain a'r ymroad cyflawn i ddiddanu'n unig a gafwyd mor aml yn y ganrif flaenorol.[71]

Gwelwyd diffygion amlwg yn iaith baledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac er cyfoethoced y deunydd i bortreadu ac i ail-fyw iaith a diwylliant y cyfnod, ni ellir

[69] Dafydd Owen, 'Y Faled yng Nghymru', Traethawd MPhil (Prifysgol Bangor, 1989), 122-3
[70] Gweler cyfrol Thomas Parry, *Baledi'r Ddeunawfed Ganrif* (Caerdydd, 1986) am ragor o wybodaeth am faledi'r ddeunawfed ganrif.
[71] Dafydd Owen, 'Y Faled yng Nghymru', Traethawd MPhil (Prifysgol Bangor, 1989), 101-2

osgoi'r geiriau Saesneg sy'n britho'r testunau a'r iaith fratiog heb wir gyfoeth llenyddol ynddynt fel y gwelir yn y faled a ganlyn.

> Aeth James a'i wraig Mari'n ditotals,
> Mi draethaf ar gyfer y gost,
> A'i wraig fynnai ddwr ar y *teapot*
> I'w yfed bob dydd pan fai'n dost;
> Aeth Jim at y *teapot* gael gwybod,
> Pwy flas oedd ar yfed fel hyn,
> Ac wedi iddo brofi diferyn,
> Beth oedd yno i Jemsyn ond *Gin.*
>
> Aeth pedair o ferched go glyfer,
> I *joinio'r* titotals yn deg,
> Rhag yfed na chwrw na *licor*,
> Nhwy ddiangen naw milldir neu ddeg;
> Ond ar ryw brydnawn hwy gydunent
> Wneud teisen a braf oedd ei dull,
> Ac o herwydd fod *brandy*'n ei gwlychu
> Fe feddwodd y rhai'n yn bur hyll.[72]

Ond ar y llaw arall, gellid amddiffyn diffyg ceinder baledi ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dylid cofio mai lledaenu a throsglwyddo newyddion oedd swydd y baledwyr yn anad dim, a byddai cystadleuaeth enbyd rhwng y baledwyr i gyfansoddi'n gyflym gan geisio bod y cyntaf i ddod â'r stori i sylw'r gymdeithas er mwyn ennill eu ceiniogau. Gwybyddent eu lle mewn cymdeithas, gan eu bod i raddau yn unigolion gwylaidd iawn. Mae'n rhaid fodd bynnag, fod y ddawn neu'r ysfa greadigol ynddynt yn gynhenid, yn enwedig yn achos y baledwyr gorau.

> Er gwaethaf yr ychydig hunanoldeb diniwed yr oedd yn rhaid iddo wrtho i wrthsefyll y llawer dilorni arno, fel rhyw chwerthin rhag gorfod wylo, y mae'n bosib mai'r baledwr oedd y mwyaf didwyll yn ei ganrif ymhongar... Adnabu ei le a'i faint.[73]

Ond, er colli'r elfen ysgafn i raddau, rhaid ystyried dwy ochr y geiniog a chydnabod yr effaith gadarnhaol a ddaeth yn sgil y newid yn yr arddull. Gwelwyd y ferch yn

[72] *Can newydd yn gosod allan rai o gastiau dirgelaidd y Titotals*, R. Williams, Cyfrol 12, Rhif 83.
[73] Dafydd Owen, *I Fyd y Faled* (Dinbych, 1986), 240

datblygu o fewn y gymdeithas yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan ymwahanu wrth yr hen drefn gonfensiynol yng Nghymru a cheisio llunio a gwyro ei llwybr ei hun. Roedd y baledi yn gyfrwng delfrydol i'r ferch i leisio'i barn ynghylch materion gwleidyddol y dydd. Wedi'r cyfan, hynodrwydd y faled oedd y ffaith iddi adlewyrchu cymdeithas y cyfnod, a hynny o safbwynt y werin eu hunain. Gellid dadlau felly i'r ferch gamu'n naturiol i fyd y faled gan adleisio ac adlewyrchu y werin *fenywaidd* a chanu ar faterion megis y Mudiad Dirwestol a hawliau'r ferch. Rhoddai'r faled fwy gwerinol ei harddull y gallu a'r llais o fewn y gymdeithas iddi geisio trosglwyddo'r neges honno i gymdeithas y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn fenywaidd ac yn wrywaidd fel ei gilydd.

Yn ystod y ganrif hefyd, gwelwyd newid sylweddol yn y canolfannau baledi ar hyd a lled y wlad.[74] Symudodd y bwrlwm a'r prysurdeb baledol o ardaloedd gwledig Caerfyrddin ac Aberteifi a gogledd-ddwyrain Cymru i ardaloedd mwy diwydiannol cymoedd de-ddwyrain Cymru. Merthyr Tudful oedd prif ganolfan y De, er y gwelwyd bwrlwm masnachol anferthol mewn tref ddiwydiannol fel Aberdâr hefyd.[75] Deallodd y baledwyr yn gyflym iawn mai yn y trefi diwydiannol hyn yr oedd y cyfoeth mwyaf yn y cyfnod, ac felly, dilynasant y dyrfa i'r ardaloedd diwydiannol, cyfoethocach y de-ddwyrain. Roedd Aberystwyth yn ogystal yn dref bwysig gan iddi fod yn ganolog ac yn gyswllt rhwng y Gogledd a'r De. Fodd bynnag, o'r Gogledd y deuai'r mwyafrif o faledwyr mawr y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn wreiddiol, er iddynt deithio ar hyd a lled y wlad wrth reswm, ac roedd Caernarfon a Llanrwst ynghyd â nifer o drefi eraill yn ganolfannau baledol pwysig yng ngogledd Cymru gyda nifer o argraffwyr hynod o allweddol i'r baledwyr wedi ymsefydlu yn y trefi hyn yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

[74] Ibid., 143
[75] Dafydd Owen, 'Y Faled yng Nghymru', Traethawd MPhil (Prifysgol Bangor, 1989), 133

> Daeth Dolgellau â'i masnach wlân eang a'i ffeiriau, fel Y Bala, yn dref argraffu brysur, a'r gŵr oedd fwyaf cyfrifol am hynny oedd Richard Jones, y prentis uchelgeisiol o'r Bont-Ddu, Meirion, a ddilynodd ei feistr, Thomas Williams, yn 1807. Bu'n argraffu yno hyd 1855... Yr oedd ef, fel John Jones, Llanrwst a 'Humphreys, Caernarfon', yn ddylanwadol ym myd argraffu a chyhoeddi yng Nghymru yn y ganrif ddiwethaf, a'i deulu niferus a barodd fod ei gyfraniad yn un sylweddol i'r baledwyr.[76]

Gwelwyd parhad dros sawl cenhedlaeth yng nghyd-destun y cyhoeddwyr a'r argraffwyr hyn wrth i'r traddodiad a'r busnes gael ei throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth, gan ddiogelu'r arferiad a'r traddodiad o argraffu ffurfiau fel y faled. Enghraifft o'r parhad teuluol hwn yw teulu Ismael Davies, Trefriw, yng Nghonwy a oedd yn gyfrifol am argraffu canran helaeth o'r baledi sydd ar gael yng nghasgliad Cerddi Bangor o'r ddeunawfed ganrif ac o flynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyma oedd un o brif ganolfannau masnachu'r cyfnod. Dechreuwyd y traddodiad gyda Dafydd Jones, Trefriw (1708?–85), bardd, casglwr llawysgrifau, cyhoeddwr ac argraffydd. Ymsefydlodd yno fel argraffydd ym 1776, cyn iddo drosglwyddo'r cyfan i'w fab, Ismael Davies, wedi ei farwolaeth ym 1785.[77] Parhaodd Ismael Davies â'r gwaith hwnnw ym Mryn Pyll, Trefriw gan barhau â'r traddodiad teuluol. Argraffwyd cannoedd ar gannoedd o faledi ganddo, ac wedi marwolaeth Ismael Davies ym 1817, parhaodd ei fab yntau, John Jones (1786–1865) â'r traddodiad hwn o argraffu baledi, ac yn wir, ef oedd un o argraffwyr baledi mwyaf toreithiog y wlad.[78] Parhaodd y traddodiad hwn am bum cenhedlaeth gyda theulu Trefriw yn argraffu am ymron i gant a thrigain o flynyddoedd.[79] Heb os, sefydlasant eu hunain yn un o brif ganolfannau argraffu baledi yng Nghymru yn eu cyfnod. Yn cyfateb i'r bwrlwm hwn yn y Gogledd, gwelid ei adlewyrchu yn nhrefi diwydiannol y

[76] Ibid., 135-6
[77] http://wbo.llgc.org.uk/cy/c-JONE-DAV-1708.html Chwiliwyd 11.2.10
[78] http://wbo.llgc.org.uk/cy/c5-JONE-JOH-1786.html Chwiliwyd 11.2.10
[79] Ibid.

De. Yn ddiau, bu twf y gweithiau haearn yn allweddol i'r twf aruthrol a welid yn y boblogaeth yn y cyfnod. Roedd y cymunedau hyn yn gynhenid Gymraeg.[80] Cam naturiol felly oedd i'r baledwyr ddilyn y symudiad hwn yn y boblogaeth oherwydd yno y byddai cnewyllyn eu cynulleidfaoedd, a'r baledwr wrth reswm yn ddibynnol ar ganolfannau argraffu yn yr ardaloedd hyn. Yn sicr, roedd Merthyr yn un o brif drefi diwydiannol y cyfnod gyda phoblogaeth gref a Chymreig ac adlewyrchid y ffaith hon gan yr argraffwyr a ymsefydlodd ym Merthyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ni ddylid anghofio ychwaith y byddai'r baledwyr yn teithio'n lled aml i gymoedd y De ac felly'n dod i gyswllt ag argraffwyr megis Thomas Price, Merthyr yn lled reolaidd. Prin yw'r wybodaeth fel y cyfryw am yr argraffwyr hyn, ond gwelir iddynt lunio perthynas i raddau â'r baledwyr, a hwythau yn eu tro yn dychwelyd yn ôl at yr un argraffwyr dro ar ôl tro i argraffu'u gweithiau. Gwelid perthynas o'r fath rhwng Thomas Price, Merthyr a Richard Williams, Bardd Gwagedd a gwelid Richard Williams yn dychwelyd dro ar ôl tro at Thomas Price i argraffu'i faledi a'r berthynas yn parhau am flynyddoedd lawer.

Yn ddiau, roedd yr argraffwyr a'r cyhoeddwyr yn rhan annatod o fyd a bywyd y baledwr. Cafwyd mwy o dipyn o barch cymdeithasol fodd bynnag tuag at yr argraffwyr a'r cyhoeddwyr gan y gymdeithas. Er iddynt gyd-weithio'n agos iawn â'r baledwyr, roeddynt o statws cymdeithasol uwch a chanddynt swydd a galwedigaeth a oedd yn fwy gweddus yng nghymdeithas y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fodd bynnag, dengys y llyfrau hanes iddynt gyd-weithio'n hwylus iawn â'i gilydd, er gwaethaf yr holl ragfarnau a geid yn erbyn y baledwr fel lleidr ac unigolyn amheus ei natur.

[80] http://www.cardiff.ac.uk/insrv/libraries/scolar/digital/welshballads/cywcloff.html

> Er bod yr argraffwyr hyn yn... well eu byd, ceir pob lle i gredu eu bod yn deall ei gilydd yn dda, a'u bod yn gallu cytuno ar brisiau mor rhwydd ac ymddiriedol â'r amaethwr a'r porthmyn mewn canrifoedd blaenorol.[81]

Ceir ambell stori lle bydd y baledwr o bryd i'w gilydd wedi canu baled ddi-chwaeth neu anweddus o flaen cynulleidfa, ond yng ngofal yr argraffwr, byddai'r adran honno'n diflannu'n dawel cyn cyrraedd y copi terfynol a'r cwsmer felly yn methu dadlau â'r baledwr wrth i'r baledwr resymu â'r unigolyn hwnnw iddo 'glywed yn unig yr hyn a ddymunasai ei glywed, ac nid yr hyn a ganodd ef!'[82]

Hyd yn oed gyda dirywiad y baledi tuag at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac wrth i'r argraffwr ddibynnu'n llai ac yn llai ar y baledi fel ffynhonnell o incwm sefydlog, parhau a wnaeth y berthynas gyda'r baledwr. Dengys y berthynas nodweddiadol a fu rhwng y baledwr a'r argraffwr yn y cyfnod hwn fod y cyswllt yn ymestyn tu hwnt i ffiniau masnach a busnes, gan gamu yn hytrach at gyfeillgarwch a'r argraffu'n gymwynas ffrind yn hytrach na goddefiant o fewn masnach.[83]

Ond dylid cofio bod y berthynas hon i ryw raddau yn cynnig sefydlogrwydd a sicrwydd incwm i'r naill a'r llall. Argreffid y baledi mewn pamffledi pedair tudalen ran amlaf yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn wahanol i'r ddeunawfed ganrif lle y'u cyhoeddid ar dudalennau wyth tudalen gan amlaf.[84] Gellid tystio i'w poblogrwydd a'r ffaith mai'r bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd cyfnod bri mawr y baledwyro gofio i dros wyth mil o'r baledi taflennol hyn oroesi o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg,

[81] Dafydd Owen, *I Fyd y Faled* (Dinbych, 1986), 141
[82] Dafydd Owen, 'Y Faled yng Nghymru', Traethawd MPhil (Prifysgol Bangor, 1989), 120
[83] Ibid., 141
[84] Mae'n debyg mai effaith chwyddiant rhwng y ddwy ganrif oedd y newid hwn rhwng nifer y tudalennau. Er mwyn sicrhau y byddai'r baledwyr yn elwa'n ariannol, rhaid oedd lleihau nifer y tudalennau oherwydd byddai papur wedi bod yn ddrutach nag oriau llafur yn y cyfnod hwnnw.

o'i gymharu â bron i fil yn unig o'r ddeunawfed ganrif.[85] Byddai rhai o'r baledwyr mawr er enghraifft yn archebu cannoedd o gopïau o'r un faled oddi wrth argraffwyr, gan fynd yn ôl am ragor a'u casglu fesul cant neu ddau a'u cario ar hyd a lled y wlad i'w gwerthu yn ôl y galw.[86] Yn ôl Gerald Morgan:

> Byddai John Jones, Llanrwst, yn arfer argraffu dwy fil o unrhyw faled ar y tro, a'u gwerthu i'r llyfrwerthwyr neu'r beirdd am swllt y cant. Ystyriai fod "y cerddi" yn talu'n well iddo nag unrhyw gyhoeddi arall, er mai dwy bunt fyddai ei enillion o'r ddwy fil. Byddai'r gwerthwyr yn eu gwerthu am geiniog yr un.... Dywedir fod Richard Williams (Dic Dywyll) wedi gwerthu bron i ddwy fil o faledi mewn diwrnod ym Merthyr Tydfil – wyth bunt! Ond mae'n debyg iddo dalu dwy bunt amdanynt os oedd argraffwyr y De yn codi'r un pris â John Jones.[87]

Roedd nifer o'r baledwyr yn nodedig am ddilledyn neu ddillad nodweddiadol; Abel Jones, 'Bardd Crwst' gyda'i got fawr a'r pocedi anferth dwfn, neu Ywain Meirion gyda het fawr ar gorun ei ben bob amser.[88] Fel arfer, byddai'r dillad yma'n fodd delfrydol i gario ac i gadw'u baledi'n ddiogel, i sicrhau nas dygwyd y baledi wrthynt a'u gwerthu gan eraill, ac wrth gwrs, er hwylustod iddyn nhw wrth deithio ar hyd a lled y wlad.

Er gwaethaf y rhagfarn yn erbyn y baledwr fel unigolyn, fel perfformiwr ac fel diddanwr, daliai i apelio'n fawr at ei gynulleidfa hyd nes i'r faled edwino tuag at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gyda datblygiad llythrennedd yn ogystal, roedd mwy fyth o alw am y baledi oherwydd cynigent ddeunydd darllen rhwydd ac ysgafn i'r darllenwr. Byddai hefyd yn fantais iddynt pe byddent wedi clywed y baledwr yn perfformio'r faled o flaen cynulleidfa. Byddai'r perfformiad yn dod yn

---

[85] Mary-Ann Constantine (gol.), *Ballads in Wales*, (London, 1999), 41
[86] Dafydd Owen, 'Y Faled yng Nghymru', Traethawd MPhil (Prifysgol Bangor, 1989), 120
[87] http://www.casglwr.org/trarchif/7helar.php Chwiliwyd 10.1.10
[88] Dafydd Owen, 'Y Faled yng Nghymru' Traethawd MPhil (Prifysgol Bangor, 1989), 119 a http://yba.llgc.org.uk/en/s-GRIF-OWE-1803.html Chwiliwyd 24.1.10

fyw iddynt unwaith yn rhagor yn y cof, a'r elfen glywedol yn gwneud y darllen yn haws ac yn fwy pleserus i'r darllenwr amhrofiadol. Byddai'r alaw yn ogystal yn gyfarwydd, neu'n dod yn fwy cyfarwydd o glywed y perfformiad, a byddai hynny'n ategu at y mwynhad a dealltwriaeth o gynnwys a naws y baledi. Byddai'r cyhoeddwyr yn sicrhau bob amser y byddai digon o gopïau o faledi mwyaf poblogaidd y cyfnod ar gael ganddynt er mwyn eu gwerthu pe bai'r galw amdanynt.[89]

> Y cerddi a ail-argreffid yn barhaus oedd rhai serch a hiraeth a chrefydd a'r cerddi gwerinol eu naws.[90]

Gellid dadlau i raddau fodd bynnag i'r cyhoeddwyr chwarae rhan yn nirywiad y faled yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gwerthwyd llawer iawn o'r baledi mwyaf poblogaidd hyn i bedleriaid ac i grwydriaid. Wrth i'r ganrif gerdded yn ei blaen, gwelwyd dirywiad sylweddol yn nifer y baledwyr mawr, traddodiadol, tra ar yr un pryd, cynyddu a wnaeth nifer y pedleriaid a grwydrai'r wlad yn canu ac yn gwerthu'r baledi hyn. Fodd bynnag, nid cantorion oedd y pedleriaid hyn ran amlaf a chollwyd llawer o hud y faled drwy hepgor y perfformiad a oedd yn rhinwedd mor amlwg yng nghyd-destun y faled. Ond ar y llaw arall, sicrhaodd y cyhoeddwyr bod y baledi yn cyrraedd pob cwr o Gymru gan ledaenu'r faled a'r neges at fwy o bobl nag y gallai'r baledwr ddychmygu eu cyrraedd.

Er pwysigrwydd y geiriau i haneswyr yn yr unfed ganrif ar hugain wrth edrych yn ôl ar y faled fel cyfrwng gwybodaeth hanesyddol a chymdeithasol am y bedwaredd ganrif ar bymtheg, rhaid cofio hefyd bwysigrwydd yr alawon, ond bod yr alawon wedi'u hepgor o'r taflenni hyn. Cofnodwyd yr alaw ar frig y dudalen gyda'r cyflwyniad yn aml iawn, ond y geiriau'n unig a gâi eu cofnodi'n gyflawn ar y daflen;

[89] Dafydd Owen, *I Fyd y Faled* (Dinbych, 1986), 142
[90] Ibid. Rhai enghreifftiau o'r baledi a ailargreffid yn y cyfnod oedd *Cerdd Betti o Lansantffraed*, Jones Glan y Gors (Aberystwyth, 1811); *Merch Ieuangc a laddwyd yn Penrhyn Deudraeth, Sir Feirionydd*, Rebecca Williams (Caernarfon, 1812)

ffactor nad yw'n syndod mewn gwirionedd o ystyried pa mor ddrud yr oedd hi yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i argraffu cerddoriaeth. Prin oedd yr adnoddau, profiad ac arbenigedd cerddorol ym myd argraffu yng Nghymru yr adeg honno. Yn sicr, ni fyddai'r baledwr yn gallu fforddio talu am argraffu'r gerddoriaeth i gyd-fynd â'r geiriau. Byddai baledwr neu argraffwr Cymreig wedi gorfod mynd i un o drefi mawr Lloegr er mwyn dod o hyd i wasanaeth o'r fath. Gwneud elw oedd eu hamcan mewn gwirionedd, nid diogelu'r baledi o fewn cloriau pamffledi er mwyn creu cofnod hanesyddol ar gyfer y dyfodol. Hyd yn oed pan ddechreuwyd atgynhyrchu'r baledi fel deunydd hanesyddol, esgeuluswyd y tonau a'r alawon o'r casgliadau hynny, gan ganolbwyntio yn hytrach ar werth y geiriau. Ceid tuedd yn ogystal i'r baledwyr ddewis mesurau cyfarwydd ac yna eu gosod ar alawon 'stoc' y cyfnod, sef yr alawon hynny a genid gan y werin o ddydd i dydd. Trwy ddefnyddio'r alawon cyfarwydd hynny felly, sicrhâi'r baledwyr mwy o lwyddiant i apêl geiriau'r baledi. Diystyrwyd gwerth a phwysigrwydd digamsyniol yr alaw yn y briodas rhyngddi â'r geiriau,

> The earliest modern collectors of ballads were careful to recover the text, but tended to ignore the tunes. The tunes were omitted altogether, or consigned to an appendix...[91]

Traddodiad llafar oedd traddodiad y faled, ac ar lafar y cafodd ei throsglwyddo o'r naill genhedlaeth i'r llall. Ni all cynulleidfa'r unfed ganrif ar hugain fyth werthfawrogi'r faled yn ei ffurf wreiddiol mewn gwirionedd, yn yr un modd na ellir ail-greu naws a gafodd neu a gaiff ei chreu mewn unrhyw berfformiad, ym mha gyfnod bynnag.

> Rhaid ceisio ail-fyw achlysuron canu'r baledi, a synhwyro ymateb gwerin a feddai fwy o ddychymyg gwreiddiol nag o ddysg fenthyg. Bu farw'r genhedlaeth a

[91] Dafydd Owen, *I Fyd y Faled* (Dinbych, 1986), 166

> allai yn gywir fesur llwyddiant (neu fethiant) y faled yn ei phriod swyddogaeth lafar ar ddydd ffair a gŵyl, y rhai na allent beidio ag anwesu'r llestr a chael blas ar y gwin yn ei amser. Ni allwn ni ond barnu o bell, gan ymollwng, heb wadu'r rhigymu, i hudoliaeth llawer hen alaw dwysdreiddiol, yn ôl amodau barn deg ar y faled erioed.[92]

Roedd y faled wedi'i llunio ar gyfer cymdeithas a chynulleidfa'r bedwaredd ganrif ar bymtheg; cynulleidfa a fyddai'n gyfarwydd â'r alawon, yn eu hadnabod fel alawon eu plentyndod a'u magwraeth. Wrth reswm, gwelwyd yr alawon hyn yn newid dros y blynyddoedd wrth i faledwr eu dehongli yn ôl y stori a oedd ganddo i'w chanu. Ond dyna mewn gwirionedd y cyfoeth a'r amrywiaeth a gynigir gan y traddodiad llafar. 'They are songs which have been in circulation long enough to show the distinctive marks of oral transmission.'[93] Defnyddid rhai alawon megis 'Bryniau'r Iwerddon', 'Mentra Gwen' ac 'Anhawdd Ymadael' yn hynod o reolaidd a awgryma hyn iddynt fod yn ffefrynnau cadarn ymhlith cynulleidfaoedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. (Gweler Ffigwr 2.2 am rai o alawon mwyaf poblogaidd y cyfnod a ddefnyddiwyd ym maledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.) Gwelir yn ogystal y defnyddid rhai alawon i adlewyrchu neges y faled dan sylw, er enghraifft, 'Glan meddwdod mwyn' i adlewyrchu baledi a âi i'r afael â meddwdod a'r tafarndai, ac alawon megis 'Charity Mistress' a ddefnyddid wrth ganu am wragedd cyfoethog yn caru gyda bechgyn tlawd. (Gweler Ffigwr 2.3.)

[92] Dafydd Owen, 'Y Faled yng Nghymru', Traethawd MPhil (Prifysgol Bangor, 1989), 160
[93] Mary-Ann Constantine, *Breton Ballads* (Aberystwyth, 1996), 1

**Ffigwr 2.3. – Charity Mistress**



Yn ddiau, roedd yr alawon yn rhan hanfodol bwysig o'r baledi. Sylweddolodd y baledwyr werth alaw i gryfhau eu perfformiad. Gwelwyd mai'r alaw, yn anad dim a oedd yn denu'r gynulleidfa atynt ac yn hoelio'u sylw wrth i'r alaw ategu pinacl y stori yn y gerddoriaeth. Dylid cofio mai cantorion a cherddorion oedd y baledwyr gorau; baledwyr megis Richard Williams ac Abel Jones. Fel y gall cantorion hoelio sylw'u cynulleidfaoedd heddiw â'u dawn, yr un oedd yr edmygedd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd, o bosib, yn fwy o ryfeddod yn y cyfnod hwnnw yn ogystal â bod yn fwynhad i gynulleidfa werinol, cynulleidfa nad oedd yn gyfarwydd â gweld perfformiadau cyhoeddus ar wahân i berfformiadau'r baledwr. Roedd y defnydd o offeryn hefyd yn gyfeiliant i'r faled yn gymorth i ddwyn sylw.

Gan gofio mai cerddorion oedd y baledwyr gorau, roedd y math o faled a ganent yn aml ag alaw benodol i gyd-fynd â'r thema neu'r naws y dymunent ei greu. 'Bryniau'r Iwerddon' oedd yr alaw fwyaf poblogaidd, er y'i cenid dan enwau eraill yn ogystal. Fe'i defnyddid dro ar ôl tro gan y baledwyr wrth ganu am amryw o wahanol themâu,

yn amrywio o themâu cariad at lofruddiaeth ac at newynu.[94] Adlewyrcha'r amrywiaeth hon yn lled amlwg ei phoblogrwydd fel alaw gyda chynulleidfa'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Plesio'r gynulleidfa oedd nod y baledwr, ac mae'n amlwg i'r alaw hon fod gyda'r mwyaf poblogaidd yn ei dydd. Ceid nifer o alawon eraill a oedd yn amlwg yn boblogaidd yn y cyfnod, alawon megis 'Mentra Gwen', 'Leave Land', 'Loath to Depart' a 'Diniweidrwydd' a phrofir hyn wrth ystyried mor aml y'u defnyddid ymhlith Cerddi Bangor. Defnyddid 'Poor Jack' yn aml er enghraifft i gyfleu maswedd neu ymddygiad anweddus yn gyhoeddus fel meddwi a chybydd-dod;[95] 'Mentra Gwen' fyddai'r alaw yn aml mewn ymddiddanion a fyddai'n llawn hiwmor a chellwair; ac alaw megis 'Hud y Frwynen' a ddefnyddid mewn baledi serch a phan fyddai'r bachgen yn cyfleu ei gariad pur tuag at y ferch ifanc. Roedd gan yr alawon hyn apêl i'r werin bobl; dyma'r math o gerddoriaeth yr oeddynt yn gyfarwydd ag ef, a'r math o gerddoriaeth a oedd yn apelio'n gynhenid atynt.

> Folk music, owing to its vocal origin, its spontaneity and its preoccupation with words, made a stronger appeal to the singer and the listener than did the more sophisticated Harp Tune with its instrumental implications.[96]

Profir pwysigrwydd yr alaw yng nghyd-destun y faled gan y ffaith nad oedd y cantorion yn cael unrhyw drafferth mewn gwirionedd i werthu eu cynnyrch. Ond wrth i'r ganrif gerdded, aeth y gwerthwyr pedleraidd yn brinnach ac yn brinnach oherwydd, heb gymorth yr alaw a'r gallu i'w pherfformio'n gelfydd, ni chafwyd yr un

---

[94] Rhai enghreifftiau o'r baledi ar yr alaw 'Bryniau'r Iwerddon' oedd: *Can newydd ar ymadawiad Gŵr ieuangc a'i gariad* (Trefriw, 1809) Cyfrol 8, Rhif 28; *Yn rhoddi hanes fel y darfu i langc twyllodrus hudo merch fonheddig i odineb trwy addewid priodas; a'r ferch a feichiogodd, ac yntau yn lle cyflawni ei addewid, a droes ei gefn arni; a'i thad a'i troes hi i ffwrdd, a hithau gan gywilydd a ymadawodd a'i gwlad, ac ar y ffordd wrth drafaelio ganwyd iddi ddau efaill; a phan oedd hi'n dyfod adref y llangc a'i cyfarfu ac a laddodd y ddau blentyn, ac ar ôl hynny a laddodd ei hunan; ac ni bu hynny lai nag angau iddi hithau; a hi a fu farw'n fuan* (Trefriw, 1810) Cyfrol 8, Rhif 34

[95] Dafydd Owen, *I Fyd y Faled* (Dinbych, 1986), 169

[96] Ibid., 170

diddordeb yn y baledi.[97] Yr alaw a ddenai'r gynulleidfa, a'r alaw a oedd yn dyrchafu perfformiad celfydd y baledwr i'w phoblogrwydd digamsyniol. Prawf pellach o'u poblogrwydd oedd y ffaith i lawer o'r hen alawon gwerin hyn ddod dan ddylanwad crefydd a chael eu haddasu'n raddol yn emynau wedi Diwygiad 1859; ffactor eironig i raddau o ystyried y dirmyg a ddaeth o du'r crefyddwyr at y baledwyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gwelwyd felly alawon megis 'Can mlynedd i nawr' yn cael ei haddasu yn emyn-dôn, 'Joanna', a 'Y Blewyn Glas' yn troi'n 'Llansannan'. (Gweler Ffigwr 2.4.)[98] Rhaid cofio bod y baledwyr a'r baledwragedd yn canu'r alawon hyn ar hyd a lled y wlad ac yn sicr yn dylanwadu ar gynulleidfaoedd o bob cefndir a diwylliant o fewn y gymdeithas werinol, gan gynnwys y rhai a oedd o dan ddylanwad cryf Anghydffurfiaeth. Roedd yn gam naturiol felly i'r rheini a ddysgodd yr alawon wrth wrando ar berfformiadau'r baledwyr i drosglwyddo'r alawon hynny o lafar gwlad i lawr y capel. Felly, er i'r sefydliad Anghydffurfiol waredu hen arferion y cyfnod, arferion megis ymladd ceiliogod a gweithgareddau hwyliog ar y Sul, diogelwyd yr alawon ar ffurf rhai o'r emyn-donau. Mae'r ddyled yn enfawr i'r baledwyr felly am ddiogelu'r hen alawon gwerin hyn. Nhw oedd yn gyfrifol am ddod â'r alawon yn fyw drwy eu canu a'u trosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf fel y bwriadwyd eu canu a'u clywed yn wreiddiol.

Fodd bynnag, un ochr yn unig o'r briodas yw'r alaw. Ni ellid diystyru'r geiriau mewn unrhyw fodd. Y geiriau oedd yr allwedd i gyfathrebu â'r gynulleidfa werinol a throsglwyddo newyddion pwysig y dydd iddi, a hynny mewn ieithwedd y gallai'r bobl ei dirnad a'i deall. Yn sicr, fel yn achos yr alawon, ceid rhai themâu a oedd yn apelio'n fwy na'i gilydd at gynulleidfa werinol y bedwaredd ganrif ar bymtheg; themâu megis straeon cariad, llofruddiaethau a'r bywyd domestig o fewn bywyd

[97] Dafydd Owen, 'Y Faled yng Nghymru', Traethawd MPhil (Prifysgol Bangor, 1989), 130
[98] http://www.cronfa.com/index.php?action=item&previous_action=search&lang=cy&itemid=CAG00212

priodasol y werin bobl. Ond, ni chyfyngwyd y baledi i unrhyw themâu penodol. Modd o drosglwyddo newyddion a moeswersi i raddau oedd y baledi, ac roedd y baledwyr yn rhydd i fynegi'r testun hwnnw ym mha ffordd bynnag y dewisent.[99] Rhaid cyfaddef nad oedd gwreiddioldeb yn un o gryfderau'r baledwyr, ond ar y llaw arall, ni ellid beirniadu'r elfen hon oherwydd rhydd ragolwg cyfoethocach i ni o gymdeithas dlawd a gwerinol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Felly, o fewn y gwendid llenyddol, deil y cyfoeth cymdeithasol. Ceir felly nifer helaeth o themâu yn y baledi a adlewyrchai'r gymdeithas amrywiol hon; themâu a oedd yn amrywio o newyn a rhyfel at grefydd a Duw, o faledi serch a'r bywyd priodasol at themâu ysgafnach fel ffasiwn y dydd, yfed te ac ymddiddanion llawn cellwair a hwyl. Yr un oedd trefn y baledi ran amlaf gan ddechrau gyda chyflwyniad byr i egluro'r faled a'i chyd-destun. Yna, estynnid gwahoddiad i'r gynulleidfa i ddod i wrando ar yr hanes cyn dechrau ar y ffeithiau, gan adrodd y stori yn y modd mwyaf graffig posibl fel y gwelir isod.

> *Can newydd yn gosod allan garwriaeth Mr. John Smith, a Miss Mary Ann Williams, gerllaw Dedington, yn swydd Rhydychen. Y rhai a fuont yn ymgyfeillachu â'u gilydd oddeutu tair blynedd o amser, ag oeddynt mewn bwriad i ymbriodi, nes i'r ferch ieuanc, glywed am anfoddlonrwydd tad a mam y mab ieuanc, yr hyn a barodd i'r ferch ymgyfeillachu ag un arall; pan glywodd Smith hyny, efe a ymgreulonodd, ac a aeth ati yn eiddigeddus ar nos Wener, Awst 28, ac a'i brathodd â chyllell mewn modd dychrynllyd; a'r diwedd truenus a ddaeth iddo yntau, sef tori ei galon, ar ol llofruddio ei gariad.*
>
> Drigolion, dewch i wrando, yn gryno o bob gradd,
> Chwi wyddoch fod gorchymyn ar lawr yn dyweyd,
> "Na ladd"
> Ond llofruddiaethau arswydus mae'n hysbys i chwi,

[99] Gweler enghraifft o'r modd y cyflwynwyd yr un faled gan amrywiol faledwyr: *Cerdd Betti o Lansantffraid*, John Jones (Caerfyrddin) Cyfrol 22, Rhif 14; *Betti o Lansantffraid* (Llanrwst) Cyfrol 21, Rhif 48; *Cerdd Betti o Lansantffraid* (Llanrwst) Cyfrol 21, Rhif 47

> Sy'n llenwi rhai colofnau yn ein papyrau ni.[100]

Gorau oll i'r gynulleidfa y mwyaf o fanylder a gynhwysid gan y baledwr yn y cerddi, boed rheini'n ffeithiau erchyll am y llofruddiaeth, neu ymddygiad y meddwyn ar y stryd.

> Un o'r rhai gwaethaf oedd Richard Williams (Dic Dywyll) Llanerchymedd. Yn Eisteddfod Aberhonddu, 1822, dywedir ei fod wedi canu pethau cwrs ofnadwy, nes oedd pawb yn gwrido; ond waeth ichwi beth, fe gasglodd y boneddigesau £5 iddo ar y diwedd – mwy na'r wobr.[101]

I gloi'r faled, arferai'r baledwr gynnwys moeswers i'w gynulleidfa, yn eu rhybuddio am y gosb ar y ddaear ac yn y nefoedd wrth droedio oddi ar y llwybr cul.

> Wel, ieuengctyd glân y gwledydd mae'n rhybudd i bob rhai,
> I ddewis ffyrdd yr Arglwydd, ein Llywydd, i'n gwellau;
> Boed i ni garu'n gilydd yn ufudd is y nen,
> Yn wastad mewn gonestrwydd a mawrlwydd byth, Amen.[102]

Ni cheid mewn gwirionedd wahaniaeth mawr rhwng y baledi gan faledwyr gwrywaidd a'r baledwyr benywaidd. Er y trafodid themâu benywaidd, ffeministaidd i raddau, nid dyma oedd rôl ac amcan y baledwyr benywaidd, er iddynt yn sicr amlinellu eu rôl o fewn y gymdeithas.

> Ballads have also been a means for women to highlight their often subjugated role in society.[103]

---

[100] *Can newydd yn gosod allan carwriaeth Mr. John Smith, a Miss Mary Ann Williams*, D. Jones (Dolgellau) Cyfrol 31, Rhif 71

[101] Dafydd Owen, 'Y Faled yng Nghymru', Traethawd MPhil (Prifysgol Bangor, 1989), 114

[102] *Can newydd yn rhoddi hanes am y modd dychrynllyd y darfu Elizabeth Whitehouse, a John Whitehouse, ei mhab, amcanu torri tŷ Edward Wilding, Yswain, Masnachwr enwog gerllawManchester, a bwriadu lladd Mary Spencer, yr hon oedd yn ei wasanaeth, ar nos Iau, yr 28 o Ebrill, 1831. Am hyn eu dihenyddiwyd boreu ddydd Mawrth, yr 2 o Awst, 1831,* R. Williams (Llanrwst, 1831) Cyfrol 12, Rhif 78

[103] Stanley Sadie (gol.), *The New Grove Dictionary of Music and Musicians, Volume II* (London, 2001), 545

Gyda thwf y Mudiad Dirwestol ar hyd a lled y wlad, roedd y ferch yn sicr yn datblygu yn gymdeithasol ac yn wleidyddol. Byddai'r baledi wedi bod yn gyfrwng hynod o effeithiol i ledaenu'r neges i wragedd nad oedd yn troi yn y cylchoedd gwleidyddol effro, yn ogystal ag yn fodd i geisio darbwyllo'r boblogaeth wrywaidd nad oedd system gyfreithiol y wlad yn deg. Ond, byddai'r math hwn o bropaganda'n cael ei ledaenu trwy gyfrwng cyfarfodydd ffurfiol yn hytrach nag mewn baled ar ochr y ffordd oherwydd roedd yn rhaid i'r baledwyr geisio plesio'u cynulleidfaoedd. Nid oedd newid byd yn syniad deniadol i bawb, a phetai'r syniad yn codi gwrychyn, byddai'r baledwr yn ei dro yn colli arian prin.

Yn debyg i rai'r ganrif flaenorol, nid oedd ym maledi'r gwragedd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg dinc fenywaidd bendant i'w chlywed. Fel y baledwyr gwrywaidd, lledaenu newyddion diweddaraf y dydd oedd ei swyddogaeth yn anad dim yn hytrach na cheisio hybu agenda ffeministaidd.

O ran themâu, roedd y ferch yn chwarae rhan amlwg iawn ym maledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn fwy o bosib na baledi'r ddeunawfed ganrif. Câi ei phortreadu fodd bynnag, fel cymeriad o'r naill begwn neu'r llall o ran ei phersonoliaeth a'i pherthynas â'r gŵr. Câi ei phortreadu fel cymeriad cryf a'r cryfaf o fewn perthynas a phriodas fel y dangosir yn y penodau sydd i ddilyn. Â hyn yn groes i raddau i'r darlun traddodiadol o'r wraig yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ceisio boddi'r ddelwedd hon o'r wraig gref a wnaethai'r gymdeithas waraidd. Nid oedd y ddelwedd hon ychwaith yn ddigon pur o dipyn i fodloni safonau gwlad y menig gwynion.

Er y gellid cydymdeimlo â'r wraig o bryd i'w gilydd yn y baledi, er enghraifft pan gaiff ei gwahanu oddi wrth ei chariad o ganlyniad i ryfel ac ati, ar y cyfan, delwedd

braidd yn negyddol a geir ohoni. Ceir nifer o faledi sy'n cynnig cyngor i ferched ifainc am y math o lwybr y dylent geisio ei droedio; themâu a oedd yn cael eu hadleisio mewn cylchgronau megis *Y Gymraes* sef y ddelfryd o fod yn bur ac ymwrthod ag unrhyw demtasiynau, yn enwedig chwant a themtasiynau ynglŷn â phurdeb merch cyn iddi briodi.

Law yn llaw â'r baledi rhybudd hyn i ferched, ceir nifer helaeth o faledi am gwymp a dinistr y forwyn, sef hanes merch ifanc wedi iddi ildio i demtasiwn a beichiogi cyn iddi briodi, a'r bachgen ifanc wedi'i gadael a'i gwrthod. Câi'r ferch feichiog ei gwrthod gan ei theulu a'i chymdeithas pe digwyddai hyn; thema a oedd yn sail i nifer o faledi hunanladdiad yn y cyfnod. Dyna sefyllfa erchyll lle na fyddai'r ferch yn gallu gweld dihangfa o'i sefyllfa druenus gan geisio yn y pen draw ei lladd ei hun a'i phlentyn ar yr un pryd.

Ond nid merched ifainc yn unig a ddôi dan lach y baledwr. Ceir nifer helaeth o faledi yn ymwneud â gwragedd priod a'r bywyd priodasol. Gwelir nifer o faledi ymddiddan rhwng y gŵr a'r wraig yn dadlau ar amrywiol destunau, ran amlaf am feddwdod a chybydd-dod y gŵr neu afradlonedd y wraig. Fel arfer, y wraig a fyddai'n ennill y ddadl, â'r gŵr yn gorfod ildio dan bwysau'r wraig dwyllodrus a dichellgar.

Er yr ymddengys fel pe bai cymdeithas y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn rhagfarnllyd tu hwnt yn erbyn y ferch, rhaid dwyn i gof bod y rhagfarnau a'r delweddau hyn yn nodweddiadol o'r ferch yn y ddeunawfed ganrif hefyd. Fel y dywed Siwan Rosser yn ei chyfrol, roedd yr epithetau hyn yn rhan o draddodiad llên-gwerin Cymru ac yn perthyn 'i draddodiad gwrthffeminyddol Ewropeaidd'.[104] Felly, nid adlewyrchiad o gymdeithas y cyfnod a geir yma o reidrwydd, ond yn hytrach

[104] Siwan Rosser, *Y Ferch ym Myd y Faled: Delweddau o'r ferch ym maledi'r ddeunawfed ganrif* (Caerdydd, 2005), 9

traddodiad hynafol a'r math o hiwmor y byddai cynulleidfa yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn disgwyl ei glywed gan y baledwr, boed y baledwr hynny'n wrywaidd neu'n fenywaidd.

Arbenigedd y baledwr oedd meddu ar drwyn am stori neu hanesyn a chyfuno'r epithetau traddodiadol â stori gyfoes gan gyflwyno baled ffres a newydd i'w cynulleidfaoedd yn y pen draw. Yng nghyd-destun y Ceffyl Pren, fel y crybwyllwyd eisoes, profwyd mai'r merched oedd yn rhagori am gario clecs a hel straeon. Felly, i raddau, gellid dadlau y byddai bywoliaeth fel baledwr wedi bod yn gam naturiol iawn i lawer o ferched ifainc yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ar bymtheg a feddai ar ddawn greadigol neu gerddorol. Wedi'r cyfan, mae'r ddawn o adrodd stori'n elfen gynhenid yn y rhyw deg erioed! Dylid cofio'n ogystal i nifer o ferched y cyfnod ddysgu'r *dynion* sut oedd darllen ac ysgrifennu. Dysgwyd Ifor Cwmgwys er enghraifft i ddarllen gan ei wraig pan oeddynt yn ifanc.[105]

> In general, women have cultivated ballad singing to a greater degree than men because of their domestic situation.[106]

Er y ceir tystiolaeth sy'n profi bod y ferch yn cyfansoddi, yn gwerthu ac yn argraffu baledi yn y ddeunawfed ganrif, fel y dengys y tabl gan Siwan Rosser yn y gyfrol *Y Ferch ym Myd y Faled*, mae'r wybodaeth amdani yn hynod o brin. (Gweler Ffigwr 2.5.)[107]

[105] Dafydd Owen, *I Fyd y Faled* (Dinbych, 1986), 138.
[106] Stanley Sadie (gol.), *The New Grove Dictionary of Music and Musicians*, Vol. II (London, 2001), 545
[107] Siwan M. Rosser, *Y Ferch ym Myd y Faled: Delweddau o'r ferch ym maledi'r ddeunawfed ganrif* (Caerdydd, 2005), 4

**Ffigwr 2.5 – Beirdd, argraffwyr a gweithwyr benywaidd yn y 18fed ganrif**

| Beirdd | Argraffwyr | Gwerthwyr |
|---|---|---|
| Lowri Parry | Elizabeth Adams, Caer | Lowri Parry |
| Florence Jones | | Grace Roberts |
| Susan Jones o'r Tai Hen | | Elin Dafis |
| Grace Roberts o Fetws-y-coed | | Mary Fychan |
| Alse Williams | | Anne Jones |
| Rebecca Williams | | Jane Roberts |
| Mrs Wynne o Ragod | | Ann Williams |
| 'Merch Ieuangc o Brydyddes' (anhysbys) | | |
| 'Gwraig Weddw' (anhysbys) | | |

Fodd bynnag, yng nghatalog 'Cerddi Coleg y Gogledd II Y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg' rhestrir saith o awduron benywaidd, sef Ann Humphrey Arthur, Elizabeth Davies, Alice Edwards, Mary Robert Ellis, Jane Hughes (Deborah Maldwyn), Mary Roberts, a Rebecca Williams.[108] Dylid dwyn i gof wrth gwrs bod nifer helaeth iawn o'r baledi yn hepgor enw'r awdur, y cyhoeddwr a'r argraffydd, felly mae'n bosib iawn y ceid mwy o wragedd a merched yn cyfansoddi ac yn canu'r baledi hyn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ond yn anhysbys i haneswyr yn yr unfed ganrif ar hugain oherwydd i'w henwau fynd ar goll yn nhreigl amser. Ond mae'r wybodaeth sydd ar gael am faledwyr benywaidd unigol yn y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fel ei gilydd, yn hynod o brin.

Nid adlewyrchiad teg o rôl na phwysigrwydd y baledwyr o fewn y gymdeithas yw y diffyg gwybodaeth yma o reidrwydd, ond yn hytrach adlewyrchiad o bosib o agwedd y gymdeithas tuag at statws y baledwyr. Fe'u hystyrid â'r un dirmyg ag a roddwyd i'r

[108] Gweler hefyd J. H. Davies, *A Biblography of Welsh Ballads printed in the 18th century* (London, 1911), Rhagair

cardotwr neu'r crwydryn tlawd a deithiai ar hyd a lled y wlad yn y cyfnod hwnnw. Nid ystyriwyd cysgu dan gesail clawdd a theithio ar hyd a lled y wlad yn yrfa barchus, ac wrth i'r hen faledwyr ddirywio mewn niferoedd, newidiodd y baledwyr i fod yn namyn mwy na chardotwyr a ganai a gwerthu baledi o eiddo baledwyr eraill. Ceid nifer o hanesion am gyfrwystra ac anonestrwydd baledwyr, fel y dengys atgof plentyndod Bertie Stephens,[109] dyn a ddaeth dan ddylanwad y baledwyr yn ei blentyndod, am ddau faledwr yn cael lloches yng nghartref ei rieni ryw noson:

> Roedd pobl yn gallu bod yn amheus o'r baledwyr a byddai'r heddlu'n aml yn arestio crwydriaid meddw mewn dillad anniben am darfu ar yr heddwch. Dywedodd Bertie Stephens hanes am ei deulu'n rhoi bwyd a lloches i ddau grwydryn un noson, a dysgodd y ddau *Gân yr Asyn* iddo'n ddiolch. Er mawr siom i dad Bertie, canfu wythnosau wedyn eu bod nhw wedi dwyn peth o'i wlân newydd ei gneifio. Diolch i berfformiad ei fab o *Gân yr Asyn*, llwyddodd yr heddlu i ddal y dihirod ger Caerfyrddin pan glywsant y ddau'n canu'r un faled yn yr ardal honno.[110]

Wrth ystyried rôl gyhoeddus y wraig mewn cymdeithas, rhaid ystyried, pa mor arferol oedd hi yn y cyfnod i weld merch neu wraig yn teithio o gwmpas y ffeiriau a'r marchnadoedd yn canu ac yn gwerthu baledi? Yn ôl Maredudd ap Huw, 'merched ifainc yn unig oedd â'r rhyddid i ennill bara ymenyn fel hyn'.[111] Awgryma felly nad oedd gwragedd priod yn dilyn y math hwn o fywoliaeth, ac yng ngoleuni Adroddiad y Comisiwn Brenhinol 1847 a chyda'r newid cymdeithasol aruthrol a fu ym mywyd y wraig yn y cyfnod, gellid dadlau bod sail bendant i'r datganiad hwn. Fodd bynnag, gellid dadlau ar y llaw arall nad swydd a bywoliaeth gonfensiynol oedd bywyd y

---

[109] Ganed Bertie Stephens yn Abergorlech ym 1900, ac arferai fyned i'r ffeiriau yn ei blentyndod cynnar, lle y daeth dan ddylanwad y baledwyr. Roedd ganddo gof aruthrol o dda a diddordeb diamheuol yn y baledi a bu'n gyswllt amhrisiadwy wrth drosglwyddo baledi'r cyfnod i'r genhedlaeth nesaf. Recordiwyd y baledi a gofiai o'i blentyndod gan Amgueddfa Werin Sain Ffagan a olyga fod y baledi hyn ar gael i'r cenedlaethau i ddod. Bu Bertie Stephens yn canu hyd ddyddiau ei henaint.

[110] http://www.amgueddfacymru.ac.uk/cy/rhagor/erthygl/1917/?displaymode=low Chwiliwyd 13.12.09

[111] Siwan Rosser, *Y Ferch ym Myd y Faled: Delweddau o'r ferch ym maledi'r ddeunawfed ganrif'* (Caerdydd, 2005), 8

baledwyr, ac ni fyddai gwraig gonfensiynol yn debygol o grwydro'r wlad ar ei phen ei hun yn cyfansoddi a chanu baledi o flaen tyrfaoedd eang o bobl. Fel y'i hystyrid yn anwaraidd i wragedd deithio o gwmpas y wlad yn casglu alawon gwerin ychydig yn ddiweddarach, yr un oedd yr agwedd at ferched a grwydrai yn canu baledi. Roedd yn fywyd anodd tu hwnt, heb unrhyw sefydlogrwydd nac ychwaith unrhyw warant am gysgod na bwyd na gwerthiant. Roeddynt yn gyson ar drugaredd y tywydd; peth anodd mewn gwlad â thywydd mor gyfnewidiol â Chymru. Gallai ychydig o nosweithiau garw olygu'r gwahaniaeth rhwng bwyta a llwgu petai'n amhosib cyrraedd ffair neu farchnad o ganlyniad i'r tywydd garw hwnnw. Atgyfnerthir y ddadl hon wrth graffu ar hanes Elizabeth Davies; merch a deithiodd ar hyd a lled y wlad ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn canu baledi mewn ffeiriau a marchnadoedd. Dengys cofnodion llys Tachwedd 20, 1797 i Elizabeth Davies, 17 oed o Fachynlleth gael ei herlyn am ddwyn dillad o eiddo Sinah Jones o'i chartref. Cafodd ei chydnabod fel 'ballad-singer' yn hytrach na 'singlewoman', fel y gwelwyd dan statws nifer o wragedd eraill a gafodd eu herlyn yn y cyfnod.[112] Profa'r lladrad pa mor dlawd y gallai bywyd y baledwyr fod ar gyfnodau a'r angen i droi at ladrad am ddillad i gadw'n gynnes ar eu taith.

Ceir cerdd o eiddo Ywain Meirion at y Parchedig Edward Jones, offeiriad Nantglyn sy'n sôn, o safbwynt y baledwr ei hun, am rai o'r anawsterau a ddaethai i'w ran ar hyd ei daith fel baledwr.

> Fy enw a graffwch yw Owen Gruffydd,
> Heb ddysg i'm rhan pur wan awenydd,
> Bûm yn datgan yn Ne a Gwynedd,
> Trwy Gymru, ymlaen am ddeugain mlynedd,
> Bûm lawer noswaith oer ar gerdded,
> Chwi ellwch goelio ei bod hi'n galed,

[112] http://www.llgc.org.uk/php_ffeiliau/sf_results.php?co=Montgomery&from=1768&off_cat=Any&off_co=All&to=1830&off=0&off=750 Chwiliwyd Gorffennaf, 2011

Heb gael gweled tŷ na gwely
A'r eira, deallwch, bron â'm dallu
Wrth rodio ffeiriau a rhew i'm fferru.
Bûm lawer gwaith a 'nhraed yn wlybion
A 'nghrys fel cadach llestri yn union,
Yn awr a daeth henaint i'm dihoeni,
Hwn a'm dyludodd i dylodi,
Ces weld cul adwyth las caledi.[113]

Barnwyd y baledwyr yn ogystal am beidio â mynd adref i ofalu am eu teuluoedd a'u cyhuddo o fod yn rhy ddiog i weithio fel dynion gonest er mwyn gallu bwydo'u teuluoedd. Gweler yma gerdd a ddaeth yn fuddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaernarfon ym 1877 ar y pwnc 'Y Baledwr Pen Ffair'.

Nid oes – o Gaergybi ym Môn, hyd Ben Arth,
Morgannwg, - un drelyn mor ddiog;
Mae'th enw, faledwr, trwy Gymru yn warth,
A'th briod a'th blant yn newynog.
Dos adref i weithio, i'w cadw yn glyd,
A gad dy ffug-ganu a'th ddwndwr;
A chwithau, fynychwyr y ffeiriau, mae'n bryd
I atal hen 'Shoni'r Baledwr'.[114]

Mae'n dra thebygol mai at y baledwyr gwrywaidd yr anelid y feirniadaeth hon yn gyffredinol a dylid cofio mai o safbwynt y llenor eisteddfodol yr ysgrifennwyd y gerdd hon; carfan o'r boblogaeth a wgai'n ffyrnig iawn ar lenyddiaeth werinol, israddol iddynt hwy, y traddodiad baledol, gwerinol. Mae'n siŵr y byddai'r gerdd hon wedi cael ei derbyn yn wresog iawn mewn cynulleidfa eisteddfodol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dylid cofio'n ogystal, fel y crybwyllwyd uchod, nad oedd hawliau'r gŵr a'r wraig yn agos at fod yn debyg. Ond wrth syllu'n fanylach ar eiriad y gerdd hon, gallasai fod wedi cael ei chyfeirio at y naill ryw neu'r llall, gan geisio codi cywilydd ar y ferch a'i hatgoffa am ei dyletswydd fythol at ei theulu.

[113] Tegwyn Jones, 'Baledi a Baledwyr y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg', yn Geraint H. Jenkins, *Cof Cenedl VI – Ysgrifau ar Hanes Cymru* (Llandysul, 1991), 117
[114] Dafydd Owen, *I Fyd y Faled* (Dinbych, 1986), 239

Ond er gwaethaf y rhagfarnau a'r feirniadaeth gymdeithasol, roedd baledwyr benywaidd yn sicr yn bodoli a'u lleisiau i'w clywed yn glir yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[115] Gellid yn sicr ddadlau na wahaniaethid rhyngddynt â'r dynion o ran eu crefft. Eir i'r afael â rhai o'r themâu a drafodid gan wragedd ac sy'n sôn am wragedd yn y penodau canlynol, a soniwyd eisoes nad oedd i'r baledi a gyfansoddwyd gan wragedd dinc 'benwyaidd' fel y cyfryw. Yn debyg i faledi'r ddeunawfed ganrif, gwelir nad yw'r gwragedd yn ymroi i dorri eu cwys eu hunain yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fel y tystia Siwan Rosser yn ei chyfrol:

> Nid ceisio tynnu sylw atynt eu hunain fel merched a wna'r baledwragedd hyn, ond arfer yr un dull a'r un meddylfryd â'r baledwyr gwrywaidd. Y maent felly yn cydymffurfio â'r confensiynau baledol disgwyliedig, er i hynny ein hamddifadu rhag clywed am eu profiadau a'u syniadau hwy eu hunain.[116]

Gweler, fel enghraifft y faled, *Can newydd sef gwirioneddol hanes am Margaret Williams, yr hon a gafodd ei lladd gerllaw Castell-Nedd. Gorphenaf, 14eg* gan Elizabeth Davies. Dyma stori am ferch ifanc, a gafodd ei lladd yn 26 oed. Er na chafwyd neb yn euog o'r drosedd hon, cafwyd tystiolaeth gref i awgrymu mai Llewelyn Richards, gŵr ifanc o'r ardal oedd y llofrudd; gŵr a gafodd ddwy ferch yn feichiog ar yr un pryd. Ychydig iawn o bwyslais a roddir ar y ffaith hwn, sy'n ategu at yr hyn a ddywedwyd yn y bennod gyntaf i raddau am fechgyn a gwŷr yn cadw mwy nag un ferch ar yr un pryd heb wrthwynebiad gan y gymdeithas. Petai'r baledwragedd yn canu'n ffeministaidd yn y cyfnod hwn, byddai'r ffaith hyn yn sicr wedi hawlio dirmyg a gwawd yn y faled. Sonnir amdani yng nghyd-destun rhesymeg y llofrudd yn unig, fel y gwelir yn y dyfyniad hwn:

---

[115] Dyna Rebecca Williams, Mary Roberts, Alice Edwards ac Elizabeth Davies i enwi ond rhai o'r baledwyr benywaidd a ganai yn y cyfnod

[116] Siwan Rosser, *Y Ferch ym Myd y Faled: Delweddau o'r ferch ym maledi'r ddeunawfed ganrif* (Caerdydd, 2005), 5

> Roedd gan y filain creulon ddwy'n feichiog yr un pryd:
> 'Roedd un yn ferch i ffarmwr, a chanthi bethau'r byd,
> Ond hon oedd forwyn ammod, yn isel iawn ei gwedd,
> Yr oedd hi yn gwas'naethu wrth *bound* melin Pont-ar-Nedd.[117]

Nid ydyw Elizabeth Davies ychwaith yn osgoi'r modd y llofruddiwyd Margaret Williams. Gellid dadlau nad yw'r disgrifiadau mor echrydus fanwl â rhai o'r baledi eraill a geir ar thema llofruddiaeth, fel y gwelir yn y bennod ar y testun, ond byddai'r ddelwedd o'r baban yn y groth wrth ei hagor a manylion ynghylch ei llofruddiaeth yn ergyd i gynulleidfaoedd y cyfnod.

> Nawr y'mhen dau ddiwrnod, daeth doctoriad gyda rhest,
> A'r *Jewry* ddaeth a'r *Coroner*, i ddala arni *gwest*:
> Ac yno hi agorwyd, ond golwg wael oedd hon,
> Ei gwel'd hi yno gorwedd â'i phlentyn dan ei bron.
>
> Fe brofwyd ar y *Jewry*, mai wrth ei gwasgu'n glôs,
> Fe'i gwelwyd yn ei chwmp'ni am lawr iawn o'r nôs;
> Fe 'mwasgodd am ei gwddf hi, nes oedd hi yn fawr *still*,
> A chwedi'n fe'i gosododd hi i orwedd yn y *Pill*.[118]

Dyma un enghraifft o nifer ymysg casgliad Cerddi Bangor o'r ffaith nad ymddengys i'r merched deimlo'r angen i brofi'u hunain yn wahanol mewn unrhyw fodd ym myd y baledi. Er bod anghyfartaledd cymdeithasol rhwng merched a dynion yn y cyfnod, ymddengys iddynt fod yn gyfartal ymysg y baledwyr.

Byddai croeso mawr i'r baledwr, gwrywaidd a benwyaidd fel ei gilydd, mewn cynulliad megis y ffeiriau a'r marchnadoedd, neu mewn unrhyw ddigwyddiad lle y ceid tyrfa o bobl; digwyddiadau megis crogi neu brotest o bosib. Ond newidiodd yr agwedd groesawgar hon oddeutu canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan ddechreuodd y wlad ymbarchuso ac ystyried y baledi a'r baledwyr yn anfoesol a dichwaeth o'u cymharu â sefydliadau mwy moesgar a pharchus megis yr Eisteddfod.

---

[117] *Can newydd, sef gwirioneddol hanes am Margaret Williams, yr hon a gafodd ei lladd gerllaw Castell-Nedd. Gorphenaf 14eg*, Elizabeth Davies (Trefriw, 1822), Cyfrol 10, Rhif 71
[118] Ibid.

> Cyn hynny gellir dweud yn hyderus bod croeso cyffredinol iddo yn y ffeiriau a chynulliadau eraill fel cymwynaswr yr oedd bob amser cryn alw am ei wasanaeth, ac fel un a allai dros dro o leiaf ysgafnhau beichiau ei wrandawyr syml, a llonni ychydig ar eu horiau undonog.[119]

Ni ellid, yn yr unfed ganrif ar hugain, sylweddoli na deall yn llwyr, y briodas unigryw a fu rhwng y baledi a'r baledwr, ond gellir gwerthfawrogi'r is-themâu a'r darlun rhyfeddol a gawn o fyd a bywyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Rhydd, nid yn unig fraslun o'u bywydau bob dydd, ond hefyd, ceir cipolwg brin i agwedd y bobl; sut yr oeddynt yn cyfathrebu ac yn cyd-fyw â'i gilydd o fewn cymdeithas y werin dlawd. Wrth graffu'n fanylach ar yr amrywiol themâu yn y baledi yng nghasgliad Cerddi Bangor, gellir yn ogystal chwilota yn ddwfn i'r is-themâu a'r awgrymiadau a'r ensyniadau sy'n llechu o dan wyneb y geiriau a sylwi sut y llwydda'r alaw i ategu ac i dwyllo'r gwrandawyr yn ddiarwybod bron wrth iddynt ddod dan hud y briodas hon.

> ...undod yw baled o alaw a gair, enaid a chorff ynghyd.[120]

Ac wrth gamu'n ddyfnach i'r byd hwn gellir crafu'r haenau i ffwrdd a datgelu pennod newydd ym myd merch y werin a'r undod rhyngddi hithau â chyfrwng unigryw y faled.

[119] Tegwyn Jones, 'Baledi a Baledwyr y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg', yn Geraint H. Jenkins (gol.), *Cof Cenedl VI – Ysgrifau ar Hanes Cymru* (Llandysul, 1991), 114
[120] Dafydd Owen, 'Y Faled yng Nghymru', Traethawd MPhil (Prifysgol Bangor, 1989), 160

Ni ellid gwadu nad yw serch a chariad wedi ennyn diddordeb a chwilfrydedd cerddorion, beirdd, llenorion ac arlunwyr fel ei gilydd ar hyd y canrifoedd. Mae perthynas rhwng gwryw a benyw yn rhywbeth cynhenid sydd wedi bodoli ers yr atgof cynharaf, ac yn hanfodol i barhad yr hil ddynol. Mae'n thema oesol sydd yn amrywio o unigolyn i unigolyn, yn amrywio rhwng pob perthynas, ac yn newid ac yn addasu o dipyn i beth. Ond pam y mae'r thema hon wedi apelio cyhyd ac i gynifer o gerddorion a llenorion fel ei gilydd gellid gofyn? Rhydd le i'r sawl sydd heb gariad swcro'i galon ddolurus, ac i'r sawl sydd yn feddw arno, rhydd gynfas gwag iddo frolio'i hapusrwydd llethol. Ymddengys i'r baledwyr hwythau gael ei swyno gan y thema oesol hon, gyda thoreth o faledi amrywiol, o'r cariadus i'r masweddol, a phob un â stori a phersonoliaeth ynghlwm wrthi. Er nad ystyrid y faled yn rhan o lenyddiaeth orau ei chyfnod ac er mai bach iawn o ramant a berthynai i fywydau a gweithiau'r baledwyr. Yr un yw'r themâu yng nghelfyddydau mwyaf hynafol a chyfoethog ein cenedl; a phob unigolyn yn unol yn y profiad o ymserchu a charu. Roedd yn undod diamheuol rhwng y dosbarthiadau cymdeithasol, a'r baledwyr unwaith yn rhagor, yn ddrych i'r profiad hwnnw.

Rhennir y bennod hon i'r gwahanol gyfnodau yn y berthynas rhwng bachgen a merch sydd yn ein galluogi, nid yn unig i ddadansoddi'r amryw agweddau tuag at berthynas yn gyffredinol, ond sydd hefyd yn clustnodi agweddau'r ddau unigolyn o fewn y berthynas â'i gilydd. Wrth reswm, daw pynciau fel serch, ymddiddanion rhwng dau gariad, priodi, cariad o fewn dosbarthiad cymdeithasol a rhwng dau ddosbarth cymdeithasol, a chyngor, i'r amlwg. Dylid talu sylw arbennig i'r modd yr ymdrinia'r baledwyr â'r themâu amrywiol, a'r modd y gellid tynnu oddi ar agwedd a meddylfryd

y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'u taenu ar dudalennau ffres yn yr unfed ganrif ar hugain.

Yn ddiau, ceir amrywiaeth amlwg o'r naill thema i'r llall. Law yn llaw â'r amrywiol themâu ceir newid at yr agwedd tuag at y ferch, boed hynny wrth bortreadu ei chymeriad, ei hymddangosiad, neu yn ei thriniaeth o'i chariadon a'i chyfoedion. Portreir y fam ar un llaw fel cymeriad annwyl, gofalgar tra bod y wraig ar y llaw arall yn gymeriad cryfach, ac yn rheoli'r cartref a'i gŵr. Roedd gan y baledwr y rhyddid i bortreadu'r ferch yn ôl ei fympwy ei hun a'i gosod naill ai yng nghalon ystrydebau traddodiadol y cyfnod, neu ei dyrchafu'n foesol yn ei pherthynas ag eraill a chreu arwres o fath newydd. Dylid cofio yn ogystal fod nifer o'r rheini a âi o gwmpas yn canu'r baledi hyn yn wragedd a oedd yn sicrhau o bosib na châi'r ferch ei phortreadu yn rhy lym o fewn y cyfrwng hwn; gwragedd fel Rebecca Williams a Mary Robert Ellis. Ond nid oedd y baledwyr gwrywaidd o reidrwydd yn ei beirniadu neu yn ei chlodfori yn gyson o ganlyniad i ragfarn neu ymdeimlad personol, ond yn hytrach, oherwydd yr hyn y deuai cynulleidfa'r bedwaredd ganrif ar bymtheg i'w ddisgwyl wrth faledi a themâu penodedig o fewn y baledi hynny. Wrth ymdrîn â'r wraig er enghraifft, caiff ei rôl a'i harferion eu gorliwio er mwyn ychwanegu chwistrell o hiwmor, fel y gwelir mewn baled fel *Can newydd o ymddiddan rhwng gwr a gwraig wrth ei geisio adref o'r dafarn*.[121] Mae'n ffigwr cadarn ac yn dwrdio ei gŵr am feddwi, sydd yn groes i'r graen i'r darlun traddodiadol, ac yn ddelwedd llawn hiwmor sydd yn ei thro yn apelio at fwynhâd y gynulleidfa. Wrth astudio ac asesu ffynonellau gwreiddiol o'r cyfnod, gellid casglu mai'r ferch a ystyrid ran amlaf yn gyfrifol am gwymp y dyn, a'i chyfrifoldeb hithau oedd cynnal a chadw'r teulu rhag distryw, hyd

[121] *Can newydd o ymddiddan rhwng gwr a gwraig wrth ei geisio adref o'r dafarn*, Cyfrol 24, Rhif 99

yn oed pe golygai hynny y byddai'n rhaid cau llygedyn i wendidau a ffaeleddau'r gŵr.[122]

Yr hyn sydd yn nodwedd amlwg iawn ym maledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yw bod i'r baledi serch a'r baledi caru hyn ddiweddglo hapus i'r pâr ifanc ran amlaf, gyda'r neges fod cariad yn gorchfygu pob peth arall, beth bynnag fo'r anawsterau. Nid dyma'r achos bob amser wrth reswm, ond yn sicr, mae'n elfen sy'n codi'i phen dro ar ôl tro yn y baledi hyn.

Gan ddechrau wrth wraidd y thema, dylid bwrw golwg yn gyntaf ar y baledi serch, a dyma enghraifft o faled serch nodweddiadol i raddau o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda dylanwad rhamant yn drwm ar y delweddau; y cyswllt â byd natur a'r broses o ymserchu a charu.

> Dranoeth wrth rodio a myfyrio am y fun,
> Digwyddais ei gweled, heb neb ond ei hun,
> Yn pigo pêr fwysi o'r lili oedd ar lawr,
> Ond nid oe'nt bereiddiach, na gwynach, na'i gwawr.[123]

Ceir y cyfosod traddodiadol o'r ferch fwyn â'r cyswllt hwnnw rhyngddi â blodau. Parha'r ddelwedd ramantaidd, brydferth o'r ferch yng nghanol byd natur. Ni ellir diystyru'r alaw ychwaith. Cenir y faled ar yr alaw *Loath to Depart*, neu 'Anhawdd Ymadael' yn y traddodiad Cymreig; un o alawon gwerin mwyaf poblogaidd y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ar bymtheg. Ni chyfyngir yr alaw hon i'r baledi serch yn unig. Yn wir, tueddid i briodi'r alaw hon ran amlaf â baledi hiraeth yng nghasgliad Cerddi Bangor gydag enw'r alaw yn cyfeirio at y naws y ceisid ei chyfleu. Ond, gellid priodoli'r hiraeth a'r galar hwn yn yr alaw i hiraeth a serch y bachgen at ei

[122] Rhai o'r ffynonellau o'r cyfnod a astudiwyd oedd cylchgronau a phapurau newydd o'r cyfnod gan gynnwys *Y Frythones* a *Y Gymraes*, casgliad Cerddi Bangor a chaneuon gwerin traddodiadol o'r cyfnod.
[123] *Cerdd Elen*, Cyfrol 12, Rhif 114

gariad, gan adleisio ei deimladau rhamantus a didwylledd ei deimlad. Yn sicr, atega'r alaw hon at angerdd y geiriau a'r briodas hon rhwng yr alaw a'r geiriau yn ategu at y naws ac yn sicrhau perfformiad teimladwy a dirdynnol dan ddwylo'r baledwr deallus.

Yn ddi-os, mae'r edmygedd hwn o du'r bachgen yn nodwedd amlwg yn y baledi. Er mai'r tad a ystyrid yn ben y teulu yn oes Fictoria, ni chaiff hyn ei adlewyrchu yn y baledi. Ef, i raddau helaeth sy'n cael ei bortreadu fel y cymeriad israddol o fewn y berthynas; yr un sy'n edmygu ei gariad, ac yn ceisio'i orau glas i ennill ei serch. Rhaid gofyn ac ystyried, ai dyma oedd statws a rôl y dyn mewn gwirionedd? Ai'r ferch oedd gwir ben y teulu? Os felly, nid oedd ef yn ddim namyn y sawl a ddeuai â'r bara menyn i'r cartref; heb wir statws yn ei gartref, nac yn ei berthynas â'i wraig. A oedd hyn yn adlewyrchu realiti bywyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, neu ai'r baledi oedd yr unig gyfrwng i greu portread felly o fywyd carwriaethol y cyfnod?

> Er nad wyf yn un o'r gwanaf,
> Chwi'n rymusach, clau'r addefaf;
> Wyf yn gawr pan bo'ch yn gwenu,
> Wyf yn ddim pan bo'ch yn gwgu.[124]

Profa'r gerdd hon cymaint yw grym y wraig, nid yn unig wrth lywio'r berthynas, ond yn ogystal, wrth ddylanwadu ar deimladau a thymer ei chariad. Yn y baledi serch traddodiadol, ymddengys mai'r ferch oedd wrth y llyw a'r bachgen yn barod i swcro ychydig o serch oddi wrthi er mwyn ennill ei chariad iddo'i hun.

Fel rhan o'r ddefod serchus hon, gwelir y bachgen yn tynnu ar yr holl gastiau hynafol, cynhenid gwrywaidd i geisio ennill serch y forwyn. Yr un arddulliau ymffrostgar a ddefnyddid yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i ennill serch y ferch. Dyma enghraifft

[124] *Yn gosod allan deimladau mab mewn cariad a merch,* Owen Meirion, (Llanrwst) Cyfrol 12, Rhif 121

o'r fath a oedd yn nodweddiadol o'r arddull hon yn y baledi, gyda cherdd o ymddiddan rhwng hen ŵr a merch ifanc, ac yntau'n ceisio'i orau glas i'w hennill, er gwaethaf y bwlch oedran rhyngddynt. Cenir y faled ar yr alaw *Malldod Dolgellau*, alaw led boblogaidd yn y cyfnod ar gyfer baledi o'r fath. Gweler isod drefniant Edward Jones o'r alaw boblogaidd hon. (Gweler Ffigwr 3.1.)[125]

> Mae genyf arian, tir ac ydlan,
> Maith llydan i'th wellau;
> Mae genych henaint gydâ hyny,
> A gwaith ymgeleddu'n glau,
> Lle bo llawnder heb ddim prinder
> Fe geir y feindw gywir fwynder
> Yn syber iawn ei serch:
> Nid dyna'r cwbl yn ddi drwbwl
> Ond cariad di-ball mewn cred dwbl
> Sy'n lloni meddwl merch.[126]

**Ffigwr 3.1 – Malldod Dolgellau**




Yn anffodus i'r hen ŵr yn y faled hon, ymddengys nad y materol sydd yn apelio at y ferch ifanc, ond yn hytrach, cariad gŵr ifanc. Ond er gwaethaf ei gwrthwynebiad, ymddengys yr hen ystrydebau Ewropeaidd traddodiadol, ac ildia'r ferch yn anochel i

[125] Edward Jones, *Musical Relics of the Welsh Bards* (London, 1808)
[126] *Cerdd o ymddiddan rhwng hen wr a merch ieuangc, bob yn ail odl; y mab yn bedwar ugain, a'r ferch yn ugain oed* (Caernarfon) Cyfrol 12, Rhif 120

demtasiynau'r hen ŵr, gan greu portread i'r gynulleidfa o ferch faterol, hunanol, sy'n disgwyl ymlaen yn eiddgar i raddau at farwolaeth yr hen ŵr er mwyn iddi hithau geisio ennill cariad dyn arall.

> Ti gai dy feddwl am y cwbl,
> A byw'n ddi drwbl draw;
> Os caf hyny mentra'i ch caru,
> Drwy lynu yn eich llaw
> Mi sefydlaf 'rhyn a feddaf
> Arnat meinwen irwen araf,
> Os marw a fyddaf fi;
> Hyn wy'n ddisgwyl, pura perwyl,
> I gael dyn o gowlaid anwyl
> Ar ol eich arwyl chwi.[127]

Dyma enghraifft amlwg o'r agwedd ymffrostgar a'r math o ymffrostio a fodolai yn y baledi. Ceir amryw gyfeiriadau, fodd bynnag, hwnt ac yma yn y baledi at ŵyr yn rhoi anrhegion hael i'w cariadon, naill ai fel addewid o'u cariad neu o briodas, neu er mwyn cyfleu eu cyfoeth a rhagflas o'r hyn y gallai'r ferch ei ddisgwyl oddi wrthynt yn faterol. Dyma enghraifft o'r math o addewid a ddisgwyliai'r ferch oddi wrth y bachgen wrth i'r bachgen ffarwelio â'i gariad ar lan y môr, cyn iddo adael ar y llong:

> A modrwy berl roi'r mab yn fuan,
> Oedd fwy o werth nag aur nag arian,
> Am fys ei 'nwylyd cyn ymado,
> Yn gyda' dawn, i gofio am dano.[128]

Ymddengys, i'r agwedd hon dalu ar ei chanfed i'r gwŷr a fynnai gariad merched ifainc yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mewn cyfnod lle'r oedd tlodi'n rhemp a bywyd yn anodd, nod llawer o ferched ifainc y cyfnod oedd priodi a sicrhau bywyd cyfforddus iddynt eu hunain, elfen sydd i'w gweld o hyd yng nghymdeithas yr unfed ganrif ar hugain i ryw raddau. Dylid cofio'n ogystal mai dyma'r math o fywoliaeth y'u hanogwyd i'w harwain gan y llywodraeth, papurau newydd a chylchgronau'r

[127] Ibid.
[128] *Can ddiddan sef hanes carwriaeth rhwng Cadben Llond o Dover, a merch i Esquire; A'r modd y cafodd efe hi yn briod er gwaethaf ei wrthwynebwyr* (Caernarfon) Cyfrol. 21, Rhif, 72.

cyfnod yn ogystal â'r gymdeithas glòs o'u hamgylch. Byddai clywed am gyfoeth a golud yn ddigon i ddenu calon unrhyw ferch ifanc, neu o leiaf ei themtio'n ddigonol iddi gytuno i ymrwymo i briodas. Yn wir, mewn cyfnod lle'r ystyrid gair yn llw neu'n addewid di-dor, byddai derbyn gemwaith neu dlysau gan ŵr ifanc yn addewid cadarn o fywyd fel pâr, fel yr awgryma'r dyfyniad canlynol:

> The given word was still invested with such symbolic importance that it was enough merely to pronounce it in private, orally or by letter, for our young women to regard it as a solemn oath.[129]

Yn anffodus, ni chafwyd diweddglo hapus a pherffaith i bob perthynas, a cheir trafodaeth bellach ar rai troeon trwstan o fewn amryw berthnasau mewn pennod ddiweddarach.[130] Canolbwyntir yn hytrach yn y bennod hon ar y rheini a lwyddodd i gadw gafael ar eu cariadon a chyrraedd pen y daith mewn rhyw fodd neu'i gilydd a phrofi hapusrwydd a chusan serch.

O gofio pwysigrwydd yr ymgomio i sicrhau serch y ferch neu'r wraig ifanc, nid yw'n syndod fod llu o ymddiddanion serch yng nghasgliad Cerddi Bangor.[131] Mae'n debyg i'r baledwyr gwrywaidd a benywaidd fel ei gilydd gael eu denu at thema cariad. Adlewyrchir yn ogystal chwaeth cynulleidfa'r cyfnod, oherwydd adlewyrchu a chyfansoddi at ddant y gynulleidfa gyfoes oedd prif swyddogaeth y baledwyr wrth gwrs. Profa y doreth o faledi carwriaethol a'r ymddiddanion serch ym maledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fod cariad yn thema oesol; thema a oroesodd o'r canrifoedd blaenorol, ac mae'n parhau yn ddeunydd parod ar gyfer adloniant a

[129] Francoise Barret-Durocq (cyf. John Howe), *Love in the Time of Victoria – Sexuality, Class and Gender in Nineteenth-Century London* (London, 1991), 100
[130] Eir i'r afael â'r thema hon ym mhennod 5 'Bywyd Domestig a Ffasiynau'r Cyfnod'.
[131] Gweler yma rai enghreifftiau o ymddiddanion serch y cyfnod: *Ymddiddan rhwng dau gariad, sef Jacci Joy a Peggy Band* (1816) Cyfrol 9, Rhif 30; *Ymddiddan rhwng gwr Ieuangc a'i Gariad* (Yr Wyddgrug, 1801) Cyfrol 10, Rhif 1; *Ymddiddan rhwng mab a merch, bob yn ail bennill* (Llanrwst) Cyfrol 12, Rhif 112

chelfyddyd yn yr unfed ganrif ar hugain, a'r themâu a'r straeon caru yn parhau yn unol â'r themâu a'r straeon yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Hefyd, gellid casglu o gyflwyniad y baledwyr i'r baledi amrywiol bod cariad a serch yn siŵr o apelio at drwch eu cynulleidfa. Ni fyddai unrhyw faledwr neu ddiddanwr mewn unrhyw gyfnod yn cyflwyno'i waith fel a ganlyn oni bai iddynt fod yn gwbl hyderus ei fod yn brofiad y medrai'u cynulleidfaoedd uniaethu ag ef.

> Deuwch bawb erioed fu'n teimlo
> Modd mae cariad trwm yn curo,
> Rhoddwch glust i hanes bachgen,
> Roes ei serch yn fwyn ar feinwen.[132]

Mae'n rhywbeth cynhenid yn y ddynol-ryw i deimlo ysfa annelwig i berthyn i rywun neu rywbeth; boed hynny wrth fod yn perthyn i rywun arbennig, neu'n rhannu'r un teimladau ag eraill. Mae'r baledwr yn chwarae ar yr ysfa hon, gan ddefnyddio thema a theimlad mae ymron pawb wedi'i brofi neu wedi'i deimlo mewn rhyw ffordd neu'i gilydd ar ryw ben o'u bywydau.

> Fy ffryns a'm holl gyfeillion glân,
> Cyd neshewch a dewch yn mlaen,
> Gwrandewch fy hanes mewn modd cu,
> Traethai'r sut a'r modd y bu;
> Treial mawr fu arnaf fi, −
> Traethai'r sut a'r modd y bu.[133]

Gwelir amrywiaeth helaeth yn y baledi serch hyn fodd bynnag; yn ymddiddanion sy'n amrywio o'r ffraeth i'r dadleuol, ac yna'n trawsnewid yn sydyn i gyfleu cariad dwfn, didwyll, a'r nod, yn y pen draw wrth gwrs, yw iddo ennill ei llaw mewn glân briodas. Fel ffurf, rhydd ymddiddan gyfle i'r baledwr nid yn unig i gyflwyno dwy ochr neu

[132] *Yn gosod allan deimladau mab mewn cariad a merch,* Owen Meirion (Llanrwst) Cyfrol 12, Rhif 121
[133] *Ymddiddan rhwng Susan a William* (Llanrwst) Cyfrol 21, Rhif 94

bersbectif i unrhyw ddadl neu sefyllfa, ond hefyd ategа at yr elfen berfformio a rhydd gyfle i actio'r cymeriadau gan greu sefyllfa fyw i gynulleidfa'r cyfnod.[134]

Un o rinweddau y sioeau teledu realaidd, sioeau megis *The X Factor*, *Big Brother*, a *Over the Rainbow*, yw'r cipolwg a rydd i gynulleidfaoedd y cyfnod ar fywydau pobl eraill. Dyma, yn ei hanfod oedd un o rinweddau a rhan o apêl y baledi yn ogystal. Llwyddasant i gyfleu a chreu drych i fywydau unigolion y cyfnod a llunio pytiau o sgyrsiau a'u hadrodd i gynulleidfa a ysai i glywed am drafferthion ac anffawd eraill, boed hynny yng nghyd-destun y teulu, cariad, neu mewn bywyd yn gyffredinol.

Dyma enghraifft o faled o'r fath, lle y ceisia un llanc ifanc, Thomas Evans y telynor, ennill serch Elizabeth Williams o'r Sger; stori draddodiadol boblogaidd am y ddau yn cwympo mewn cariad, a'r gân hon wedi'i chyfansoddi iddi hi ganddo ef.[135] Er mai'r ystrydeb traddodiadol oedd fod y merched ar dân eisiau priodi, dengys y faled hon y ferch yn annog y mab i bwyllo ac yn oedi rhag priodi a rhuthro i fywyd priodasol.

Mab wyf fi sy'n byw mewn penyd,
Am fy 'nwylyd fawr ei bri,
O waith caru mwy na digon,
Curio mae fy nghalon i,
Gwell yw dangos beth yw'r achos,
Nag im' aros yn rhy hir;
Mentra'r Seren atta i'n llawen,
Ti gai barch a chariad pur.

Pwylla'r bachgen gwyllt ei anian
Mae arna'i ofn rhwymo'n llaw,
Rwy'n cael digon o gynhygion,

[134] Enghreifftiau o'r math o ymddiddanion y sonnir amdanynt yng nghasgliad Cerddi Bangor: *Ymddiddan rhwng Gwr a Gwraig o achos y cwrw*, H. Jones (Trefriw, 1813) Cyfrol 9, Rhif 17; *Ymddiddan rhwng y meddwyn a gwraig y dafarn* (Trefriw, 1818) Cyfrol 10, Rhif 32; *Ymddyddan rhwng dwy dafarnwraig*, Llopanwr a'i cant (Caernarfon) Cyfrol 12, Rhif 108

[135] Gweler Meic Stephens (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Llandysul, 1997), 772 am stori Elizabeth Williams, Y Ferch o'r Sger.

Ar gariadon yma 'thraw;
Yr wy'n ieuangc etto i ddiangc,
Cym'raf bwyll cyn myn'd rhy bell,
Rhyw ddiwrnod pan boi'n barod,
Ti gai glyw os byddi gwell.[136]

Dylid nodi yn ogystal y sylw, 'Rwy'n cael digon o gynhygion', sy'n awgrymu mai'r meibion a chwilotai yn eiddgar am wraig, yn hytrach nag i'r gwrthwyneb. Rhydd ddarlun o'r ffordd o fyw yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r syniad o wraig yn mynd i chwilio am ŵr yn dibrisio gwerth y wraig. Rhydd y pennill olaf o'r faled *Can serchiadol o ymddiddan rhwng Thomas Evans, Telynor, a Elizabeth Williams o'r Scer* gipolwg fodd bynnag ar y math o fywyd a oedd yn ddisgwyliedig yn y cyfnod hwnnw o'i gymharu, o bosib, â'r math o fywyd y byddent yn ei fyw.

Yn awr hyd angeu fy'm cangen oleu,
Byddwn byw mewn cariad pur,
P'un ai cyfoeth neu ynte dlodi,
A'i bywyd byr neu ynteu hir;
Byddwn ffyddlon ar ein promeision,
Nes delo angeu i dori'r iau,
Dyna'r ffordd hawsa fyn'd trwy'r byd yma,
Cofiwn ninau hyny'n dau.[137]

Yn sicr, delwedd a phortread tipyn mwy cadarnhaol o'r ferch a gawn yn yr ymddiddanion serch hyn. Mae'r merched cyfrwys, naïf eu personoliaeth a gaiff eu portreadu mewn baledi sy'n sôn am 'gwymp y forwyn' wedi diflannu.

> Gwyryfon a welwn yn y baledi hyn hefyd [sef yr ymddiddanion serch], ond dyma forwynion egwyddorol, diwair sy'n llwyddo i amddiffyn eu purdeb.[138]

Yn hytrach, ymddengys mai fformiwla i'r gwrthwyneb a ddefnyddid yn yr ymddiddanion hyn, a'r dynion a gaiff eu portreadu fel cymeriadau hunanol,

---

[136] *Can serchiadol o ymddiddan rhwng Thomas Evans, Telynor, a Elizabeth Williams o'r Scer, wedi ei chwanegu a'i diwygio,* Dafydd Llewellyn, Cyfrol 22, Rhif 27
[137] Ibid.
[138] Siwan M. Rosser, *Y Ferch ym Myd y Faled – Delweddau o'r ferch ym maledi'r ddeunawfed ganrif* (Caerdydd, 2005), 28

hunandybus a segur. Ymddengys i'r fformiwla hon sefydlu'i hun yng ngweithiau'r baledwyr, oherwydd gwelir yr un patrwm yn cael ei hailadrodd ymron yn ddieithriad yn yr ymddiddanion.

> Rwy'n awr er's chwech mlynedd a'm calon yn brudd,
> A blinder i'm hysbryd bob munud y sydd;
> Priodi hen gybudd anufudd a wnes,
> A minnau'n ferch ifanc yn nghanol fy ngwres.
> Ow, ow, beth a wnaf, &c.
>
> Mewn gofid a thristwch 'rwyf, coeliwch, bob cam,
> Gwae fi erioed wrando ar gyngor fy mam,
> Ar ol clywed ganwaith, mi brofais fy hun,
> Mai oer ac anghynes yw cwmni hen ddyn.
> Ow, ow, beth a wnaf &c.[139]

Mae'n amlwg i'r patrwm hiwmor apelio at gynulleidfaoedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif fel ei gilydd, oherwydd mae'r patrwm yn un sydd wedi parhau o'r ganrif flaenorol ac yn parhau yn hynod boblogaidd trwy gydol y canrifoedd.

Yn ogystal â'r newid amlwg a geir yng nghyd-destun statws y ferch a'r ymateb tuag ati, dylid tynnu sylw yn ogystal at agwedd y dyn at y ferch, a'r modd y mae'n ei chyfarch a'i chanlyn. Adleisia'r baledwr yr hen ganu canol-oesol gyda defosiwn ac ymroddiad gŵr ifanc mewn perffaith gariad â merch na ddychwelai ei gariad yntau.

> O'r lân garedig ferch, Mentrwch Gwen &c,[140]
> Lle rho'is dy mryd a'm serch &c.
> Y mab wyf fi sy'n dwyn galar
> Yn ffaelu cerdded daear
> O'ch cariad chwi Gwen hawddgar
> 'Rwy'n deisyf cael eich ffafar, &c.[141]

---

[139] *Can newydd sef achwyniad Mari Rees Morgan, o herwydd priodi hen gybudd*, Ywain Meirion, Cyfrol 12, Rhif 22

[140] Golyga '&c.' ar ddiwedd y llinell y dylid ailadrodd cymal olaf y frawddeg, er mwyn cyd-fynd yn hwylus â'r alaw.

[141] *Hanes carwriaeth rhwng Siôn Dafydd a Gwen Morgan a'r ymddiddan a fu rhyngddynt* (Llanrwst), Cyfrol 21, Rhif 88

Ni ellir anwybyddu'r cyswllt hynafol hwn, gan mai iaith a barddoniaeth lafar oedd y canu rhydd yn y bôn yn ogystal, ac ar gof a chadw y llwyddwyd i ddiogelu'r hen draddodiad hwn. Dylid cofio hefyd mai di-enw yw'r mwyafrif o'r baledi a argraffwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a gellid gofyn y cwestiwn, a oedd yr ymddiddanion serch yn perthyn i draddodiad hŷn? Mae'n wir dweud bod nifer o'r baledi a gyhoeddwyd ym mlynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn deillio'n wreiddiol o'r ddeunawfed ganrif a dylanwad ac arddull y baledi o'r cyfnod hwnnw i'w weld yn gryf ym maledi hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Yr un yw dadl y bachgen ym mhob un o'r ymddiddanion serch. Yn unol â'r hen farddoniaeth ganoloesol unwaith yn rhagor, dadleua, ar ôl sôn am ei ddolur meddwl a'i hiraeth amdani, na all fyw heb gariad y ferch fwyn.

> Rwy'r nos yn ffaelu cysgu, Mentrwch Gwen, &c.
> Pan byddwyf yn y gwely, &c.
> Ond meddwl a myfyrio,
> Am dano'ch chwi'r un cyrno;
> Mae'm bywyd ar eich dwylo,
> O de'wch y'mlaen i'm safio, &c.[142]

Yr hyn a geir yn y baledi fodd bynnag yw dwy ochr y ddadl neu ymddiddan. Atega hyn wrth gwrs at hiwmor y faled, a'r apêl yn ei dro yn gryfach i'r cynulleidfaoedd. Yn y faled isod, sy'n ddienw, ymyla'r ferch ar fod yn greulon wrth ymateb i'w deimladau serchus tuag ati, ac nid ydyw ychwaith yn oedi rhag nodi'r rhesymau lu am wrthod ei gynnig i'w phriodi. Ymateba dro ar ôl tro i'w benillion ef sy'n llawn cariad a chynigion o serch gyda choegni a dirmyg gan gyfeirio at ei arferion sâl ac enw gwael ei deulu am wneud tro sâl â chyn-gariadon.

> Gad lonydd imi'r bachgen, Ddeuai ddim &c.
> Er gwyned yw dy dalcen &c.

[142] Ibid.

Yr wyt ti'n ofer greulon
Yn chwarae cardiau brithion
A gwario gyda'r meddwon
Saith gwaeth nag un o'th ddynion, &c.
...
Gad lonydd imi'r cyndyn Ddeuai ddim, &c
Nid wyt ond oferddyn, &c.
Mi glywais gyda'r gwragedd,
Dy fod yn wariwr rhyfedd,
Rhoi'th ennill ar oferedd,
A gwatwor enw'r mawredd, &c.

Pe byddwn ferch mor ffoled, Fyddai ddim, &c.
A do'd lle'r wyt yn myned, &c.
Ymadael wnaet i rywle
Fel rhai o dy berth'nasau,
Mae gweniaith yn dy enau,
Ni fynaf neb o'r achau, &c.[143]

Cenir y faled hon, fel nifer helaeth o ymddiddanion y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ar yr alaw 'Mentra Gwen'. Mae'r alaw seml a'r ffurf ddwyran yn gyfryngau delfrydol ar gyfer baled o'r fath, ac mae'r cymalau cwta yn caniatáu i'r baledwr lunio brawddegau byr â'r gallu i ailadrodd cymalau pwysig y dymuna dynnu sylw atynt ar ddiwedd y frawddeg. Yn ogystal, rhydd rwyddineb i'r gynulleidfa ddilyn natur y sgwrs o ran y cymeriadau a phwy sy'n siarad ym mhob pennill. Drwy gyfrwng y brawddegau byrion yn ogystal, llwydda'r baledwyr i greu naws sgyrsiol gan roi chwistrelliad o realiti i'r faled fel adloniant, a'i gwthio'n nes at fywydau go iawn eu cynulleidfaoedd. Sylwer yn ogystal ar y cordiau wedi'u gohirio yn ail hanner y gân ar ddiwedd llinellau 3 a 4 sy'n tynnu sylw at eiriau unigol yn ogystal â llywio'r cynnwys a rhoi rhyddid i'r baledwr chwarae â'r naws fel y mynnai. (Gweler Ffigwr 3.2. isod.)

[143] Ibid.

**Ffigwr 3.2**[144]




Ffactor sy'n gyffredin i'r baledi yw'r ffaith iddynt gyfleu rhywbeth am bobl neu gymdeithas eu cyfnod; yn y cyd-destun hwn, cymeriadau a chymdeithas y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn y faled ganlynol, ceir ymddiddan rhwng mab a merch sy'n cyfleu yr hyn yr ystyriai'r ddau y nwyddau a'r rhinweddau a oedd yn briodol ac yn ddisgwyliedig i feibion a merched yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg:

> Mae'n rhaid i bob coegen o lodes sy'n awr,
> Cyn y golcho'i mo'r llestri na sgubo mo'r llawr,
> Cyn y mentro hi na stilio na golchi trwy ddwr,
> Mor braf ei chymendod yn barod am ŵr.
>
> Mae'n rhaid i bob coegen gael ffedog wen wen,
> A'i gownt o stamp linen a'i chnot ar ei phen,
> A'i brest yn ribannau a'u gosod hwy'n dwr,
> A'i phais wedi'i chwiltio, a'i het yn llawn ffwr.
>
> Yn awr mae pob ysgogyn mor uchel ei stwr,
> Os gyriff o'r ychen, fydd ain fyn'd yn ŵr,
> Mae'n myn'd mor ŵr mawr i garu merch wen,
> A'i watch yn ei boced a'i sho yn ei ben.[145]

Soniwyd eisoes yn y bennod hon am bwysigrwydd gemau a thlysau i'r merched yng nghyd-destun cariad a sicrhau gŵr, ond dengys y faled hon pa mor bwysig oedd yr

[144] Edward Jones, *Musical Relics of the Welsh Bards* (London, 1808), 41
[145] *Ymddiddan rhwng mab a merch, bob yn ail bennill* (Llanrwst) Cyfrol 12, Rhif 112

elfennau materol yng nghymdeithas y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hynny i ferched cyfoethog a thlawd fel ei gilydd. Wrth reswm, breuddwyd annhebygol oedd i ferched tlawd y cyfnod gael tlysau gwerthfawr yn eu meddiant, ond delfryd ac uchelgais y merched tlawd oedd priodi'n 'dda' fel petai, sef sicrhau bywoliaeth gyfforddus gyda gŵr cyfoethog.

> Mae'n rhaid i bob coegen gael cap dwbl lace,
> A' mewgles am ei gwddw yn goch ac yn las,
> A'r dan hongin poced a'i srampu mor wych,
> A'i phinces a'i nodwydd a'i snuff-box mor frith.[146]

Fodd bynnag, chwiliai pob merch am ryw fath o addewid gan eu cariadon i gael y sicrwydd priodasol y chwiliai y mwyafrif o ferched amdano yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

> In the nineteenth century, very few working-class women made the conscious decision to live on their own. The first women to choose celibacy – and chastity – as a way of life came from the middle classes.[147]

Y dynion a âi i weithio ran amlaf, oherwydd caent gyflog a oedd yn sylweddol uwch na'r merched a byddai'r merched felly yn lled ddibynnol ar eu gwŷr am eu bywoliaeth. I'r merched hynny a ofidiai am werthoedd a moesau cymdeithasol, nid oedd ychwaith yn dderbyniol iddynt ganlyn na charu â gŵr oni bai ei bod yn briod, neu o leiaf wedi'i dyweddïo. Gwelir nifer o ymddiddanion yn ogystal lle y ceisia'r dyn berswadio'r ferch i fynd yn groes i'w moesau a'i hargyhoeddiadau personol a chymdeithasol a'i denu i garu yn y gwely.

> Gad inni, BETTI bach,
> Gyd-orwedd yn y gwely,
> Mae hono yn ffasiwn iach,
> A difyr iawn i garu;
> Paham yr wyt yn awr

[146] Ibid.
[147] Francoise Barret-Ducroq, (cyf. John Howe), *Love in the Time of Victoria – Sexuality, Class and Gender in Nineteenth-Century London* (London, 1991), 23

Yn gwrando ar chwedleuon,
Sy'n dweud mai niweid mawr
Yw gorwedd gyda dynion.[148]

Ar y cyfan, mae'r ddelwedd o'r ferch gref ac annibynnol ei hargyhoeddiad a'i phenderfyniad yn yr ymddiddanion yn parhau yn y cyd-destun hwn, ac nis ildia i demtasiwn a pherswâd y bachgen oni bai yr addawai ei phriodi maes o law.

Ni fentraf ddim yn siwr
Gyd-orwedd yn y gwely,
Byth hyd nes caffwyf ŵr,
Bo'ed hysbys ichwi hyny;
'Ran yn y gwely clyd
Mae llawer o drws'neiddwch,
Fy chwaer gadd fargan ddrud
Wrth ollwng i drythyllwch.[149]

Gwelir y fformiwla hon yn fynych ym maledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg; y bachgen yn ceisio diystyrru moesau'r ferch a'r gymdeithas, a hithau'n gwrthod ildio nes cael addewid o briodas rhyngddynt.

Mewn cyfnod lle nad oedd cyfraith a threfn wedi'u sefydlu yn enwedig o fewn y dosbarth gweithiol, byddai addewid ar lafar cyn bwysiced ag unrhyw ddogfen gyfreithiol yn y gymdeithas fodern sydd ohoni heddiw. Câi'r dyn ei rwymo'n gyfreithiol felly at y ferch petai'n addo ei phriodi.

> Carnal relations between young people have always been tolerated by the working classes in Western Europe, on the express condition that they are followed soon afterwards by marriage… Only this promise, which in traditional practice bound the man by his word of honour, could authorize pre-marital sexual relations.[150]

[148] *Ymddiddan rhwng mab a merch, y'nghylch myned i garu yn y gwely,* Bardd Lochwd, Cyfrol 12, Rhif 89
[149] Ibid.
[150] Francoise Barret-Ducroq (cyf. John Howe), *Love in the Time of Victoria – Sexuality, Class and Gender in Nineteenth-Century London* (London, 1991), 97 - 98

Roedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gyfnod lle yr arferai gwŷr ifanc fynd i ffwrdd am gyfnodau hir ar y môr gan adael y merched gartref yng Nghymru. Byddai'r addewid llafar hwn felly yn hollbwysig i ddyfodol y merched ifainc. Mewn gwirionedd, byddai nifer helaeth o fechgyn y cyfnod yn rhai addewidion gwag, gan ddiflannu o fywydau eu cariadon unwaith y'u caent i garu â hwy y tu hwnt i ffiniau priodas, gan adael y merched yn feichiog ac wedi'u gwaradwyddo yn y gymdeithas. Prin iawn yw'r baledi sy'n sôn am gyfres o ddigwyddiadau sy'n arwain at feichiogrwydd y ferch, ond ceir nifer helaeth sy'n sôn am gwymp y forwyn o fewn y gymdeithas, a'i hymateb hithau i'r sefyllfa. Tueddai'r baledwyr i ogwyddo tuag at yr elfen ramantaidd yn y cyd-destun hwn, gan ganu am ddynion ifainc yn mynd i ffwrdd am gyfnodau hirion ar y môr ar ôl addo i'w cariadon y deuent yn ôl i'w priodi. Yna ceir yr hanes am ei hiraeth hithau amdano a'i ymdrechion a'i drafferthion yntau i ddychwelyd adref ati hithau a'i phriodi. Dyma enghraifft o'r math hwn o faled, gyda'r caru, yr ymwahanu, a'r addewid o briodas a bywyd dedwydd iddynt ill dau.

Yn Newfoundland 'r oedd Merchant enwog,
Fe ro'es ei serch ar ferch i Farchog;
A chyn mynegi i'w ffrins a'i chwmni,
Cytunai'r ddeuddyn glân briodi.

Cyn pen tair awr 'rol myn'd tan rwymau,
Y daeth y news oddiwrth y llongau,
I fyn'd i ffordd â'r merchant enwog,
A gado ar ol ei briod rywiog.

Am ei gwddw hi fe roddai,
Gadwyn aur a naw o gloiau,
Fel nad allai un dyn eu dadglo,
Ond y mab a'i rhodd'sai yno.

Cadben y llong a dd'wedodd wrtho,
Y mae charming fleet yn hwylio,
Yn codi angorion am y cynta',
I fyn'd i ffordd South Car'lina.

Y Merchant mawr cychwynai i siwrnai,
I voyage bell yn mysg ei longau,

Gan wylo yn brudd a d'weyd yn drymedd,
Y deuai 'nol y'mhen tair blynedd.[151]

Ceir sawl amrywiaeth ar y thema hon, ond stori garu ydyw yn ei hanfod gydag elfennau nodweddiadol y baledi ynddi, ac yn caniatáu i gynulleidfaoedd yr unfed ganrif ar hugain gael cipolwg ar fywyd a charwriaethau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Un thema a ailadroddir droeon yn y baledi serch a'r baledi morwrol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw stori'r capten llong sy'n cael ei wahanu oddi wrth ei gariad am gyfnodau meithion tra'i fod yntau ar y môr; ei dolur calon hithau a chanlyniad y golled hon. Nid annhebygol fyddai ychwaith i'r ferch gael ei tharo'n sâl â'r felan.

Merch y marchog oedd yn wylo,
Ddydd a nos yn ffaelu peidio,
Pawb o'i ffrins oedd yn rhyfeddu
Beth allai fod yn darfod iddi.[152]

Ni ellid gwadu na all y baledwyr greu drama yn y baledi. Rhinwedd yn eu gweithiau yw'r elfen ddramatig sy'n chwarae rhan mor amlwg yn y perfformiad. Adeiladir ar y stori bennill ar ôl pennill gan rwydo'u cynulleidfaoedd gyda hwy i fyd sydd ymron yn ffinio â chwedlau'r tylwyth teg o ran eu strwythurau. Ceir stormydd geirwon, afiechydon, marwolaethau a phob math o anawsterau ar hyd y daith i rwystro'r ddau gariad rhag priodi a byw'n ddedwydd. Gwelir yn yr enghraifft hon faled am 'Merchant o Newfoundland, yr hwn a roesai ei serch ar ferch i farchog, ynghyd a'r amrywiol helyntion a fy arnynt', a rhyfel ac ymladd yn rhwystro'r masnachwr rhag dychwelyd adref at ei gariad.

[151] *Can yn cynnwys hanes merchant o Newfoundland, yr hwn a roesai ei serch ar ferch i farchog, y'nghyd a'r amrywiol helyntion a fu arnynt*, John Williams (Caernarfon) Cyfrol 12, Rhif 135
[152] Ibid.

O flaen y gwynt i'r môr yr aethom,
Man of War, a d'rawodd arnom,
Ac yn rhoi'n union sialens ini;
'Doedd yno ond un ai cael ai colli.

Dwy awr neu dair buom yn ystayo,
A'r bwlets gleision oedd yn fleio,
Nes lladd ein gwyr yn gelaneddau,
A'r gwaed yn llifo dros ein 'sgidiau.[153]

Nodwedd arall, a oedd yn hynod o boblogaidd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ogystal oedd y ddelwedd o'r ferch yn ceisio celu'i rhyw drwy guddwisgo mewn dillad bachgen, dianc oddi cartref a theithio i chwilio am ei chariad. Dengys hyn fath newydd o gymeriad i'r cymeriadau benywaidd a drafodwyd eisoes. Gwelir yn y cyd-destun hwn nad merch ddiniwed yn aros ac yn hiraethu am ei chariad, ac yn dioddef yn ddyddiol hyd y dychwelai a geir, ond yn hytrach cymeriad cryf – arwres o fath newydd. Nid oedd merched wrth gwrs â'r statws na'r hawl cymdeithasol i fynd i ymladd ar fôr na thir, ond yn hytrach nag ildio i drefn gymdeithasol anghyfartal y cyfnod, â i'r afael â'r sefyllfa yn benderfynol gan wisgo yn rhith bachgen a chael ei haduno â'i chariad:

Gwas ei thad a yrai ar gynwr,
At ryw Impin gwych o daeliwr,
I brynu iddi siwt o felfed,
Yn lasiau aur o hyd i waered.å

Gwisgai hi mewn hardd wych drwsiad,
Fel un o'r dynion glana' a weled;
O blas ei thad bu gorfod 'madael,
Gefn y nos a myn'd ar drafael.[154]

Gwelir pa mor annibynnol ydyw a'r nodwedd hon o'i phersonoliaeth yn dweud cyfrolau am feddylfryd y baledwr, ac yn ei dro, y gymdeithas ehangach. Nid ei gwatwar na chael hwyl am ei phen a wna'r baledwr, ond yn hytrach, ei dyrchafu fel

[153] Ibid.
[154] Ibid.

unigolyn i fod yn gyfartal o ran dewrder a meddylfryd yn y berthynas. Ond er gwaethaf y ddelwedd wrywaidd a'r ymddygiad gwrol, nid efelychu'r dyn a wna yn y baledi. Ceir delwedd ddiniwed a thruenus ohoni ar ddechrau'r gerdd pan gaiff ei gwahanu oddi wrth ei chariad, gydag ef wedi'i gadael a'i chalon ar dorri; delwedd a motiff sy'n llinyn cyfarwydd yn y baledi rhyfel a'r baledi a sonia am anturiaethau'r rhyfelwraig ar drywydd ei chariad. Yn ogystal, mae iddi dinc cwynfanus yn ei hiraeth, sy'n adlewyrchu rhai o faledi mwy doniol ac ysgafn eu naws am y wraig gwynfanus a'i helyntion hithau.

> Yr oedd y ferch yn cwyno'n galed
> O herwydd fod mor dost ei thynged,
> Gan wylo yn brudd mor dost y ffortun,
> Myn'd i'r môr mewn dillad llengcyn.[155]

Ond law yn llaw â'r cwyno hwn, ceir rhamant digamsyniol ac ystyfnigrwydd merch ifanc mewn cariad a wrthoda ymadael nac anghofio ei chariad pan ddaw cynnig arall o briodas ger ei bron.

> Y'mhen ennyd ar ol hyny,
> Mab i Dduc a ddaeth i'w charu,
> Ei thad a ddywedai os gwnewch fy nghyngor
> Cewch fod yn Ddutches uchel onor.
>
> Na wna fy nhad, rwy'n sound tan rwymau
> Ac am fy nghwddw naw o gloiau,
> Myfi a'u rho'es o fodd fy nghalon,
> I fab sy 'mhell dros foroedd mawrion.

Mae ganddi felly holl rinweddau a ffaeleddau'r ferch a gaiff ei phortreadu yn draddodiadol yn y baledi, ond ceir ynddi yn ogystal rinweddau amlycaf a dewr y dyn a'r rhyfelwr traddodiadol. Ymddengys i'r math hwn o faled golli ei phoblogrwydd fodd bynnag erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg o'i chymharu â baledi'r ddeunawfed ganrif. Yn llyfryddiaeth J. H. Davies, *A Bibliography of Welsh Ballads*

[155] Ibid.

*Printed in the Eighteenth Century*[156] ceir o leiaf chwe baled sy'n ymwneud ag anturiaethau'r ferch fel rhyfelwraig ac wedi'i chuddio yn rhith bachgen ar y môr. Ond, ymddengys i'r thema hon fod yn fwy amserol yn y ddeunawfed ganrif a byddai wrth reswm wedi denu diddordeb a chwilfrydedd y baledwyr a'u cynulleidfaoedd yn y ganrif honno.

> Fel y dangosodd Ffion Jones yn ei hymdriniaeth â'r anterliwt *Y Brenin Llŷr,* enillodd dyrnaid o ferched y ddeunawfed ganrif gryn enwogrwydd am eu hanturiaethau rhyfelgar, a hwythau wedi ymwisgo fel dynion... Yr oedd papurau newyddion y cyfnod yn llawn adroddiadau am anturiaethau merched a geisiodd ymrestru â'r fyddin neu'r llynges. Dyma adroddiad o'r *Chester Chronicle*:
>
> Newcastle, December 30. Wednesday last a good-looking girl, about twenty-seven years old, dressed in man's cloaths, applied to Serjeant Miller, the Recruiting Officer here for Frazer's Highland regiment, and desired to be enlisted in that body, which the Serjeant agreed to, and gave her a shilling. Her sex, however, was soon after discovered. She said the cause of this act was a quarrel with her father, whose cloaths she absconded in; and not withstanding her sex, she would have no objection to go into the army, as she thought the exercise not superior to her abilities. She was, however, discharged.[157]

Erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fodd bynnag, nid oedd cymaint o fri ar y baledi hyn. Mae'n bosib y newidiwyd chwaeth gymdeithasol a'u bod wedi mynd allan o ffasiwn fel adloniant. Ar y llaw arall, dylid ystyried bod hedyn gwrthryfelgar wedi'i hau yn y ddeunawfed ganrif, ac yn hytrach na cheisio cuddio'u benyweidd-dra, fe'u cofleidiant gan ymateb ac ymladd eu hawliau fel merched. Yn rhyfedd ddigon, dyma rai o rinweddau'r arwresau a welid yn y baledi serch, gwrthryfelgar a drafodwyd eisoes. Nid dyma oedd y ddelwedd draddodiadol o rinweddau merch ifanc, yn hytrach, i'r gwrthwyneb, a gwgid arni fel nodwedd o'i phersonoliaeth. Ond nid oedd

[156] J. H. Davies, *A Bibliography of Welsh Ballads Printed in the Eighteenth Century* (Llundain, 1911)
[157] Siwan M. Rosser, *Y Ferch ym Myd y Faled – Delweddau o'r ferch ym maledi'r ddeunawfed ganrif* (Caerdydd, 2005), 46. Daw'r dyfyniad o'r *Chester Cronicle*, 8 Ionawr 1776

yr arferiad hwn mor amlwg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a ffasiynau a chwaeth yr oes wedi newid. Er na welwyd y datblygiadau hyn tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg i raddau, dylid dwyn i gof fod y baledi rhyfel a'r baledi am gariad a serch ar y môr yn gyfieithiadau neu addasiadau o faledi o Loegr neu o dramor. Fe'i lleolir yn South Carolina gyda chymeriadau o Newfoundland ac ati, yn hytrach nag oddi ar arfordir Ynys Môn neu sir Benfro. Nid anian Gymreig sydd ynghlwm wrthynt, a oedd o bosib, yn rheswm am eu hapêl a'r rhamant a oedd yn gysylltiedig â merch ifanc yn teithio'r byd i chwilio am ei chariad.

Ceir nifer o fotiffau yn y math arbennig hwn o faledi serch ar y môr. Un o'r elfennau ynghlwm wrth y rhwyg rhwng y ddau gariad oedd dosbarthiad cymdeithasol, a'r anawsterau a berid i berthynas rhwng dau o ddwy haen gymdeithasol wahanol. Ran amlaf, y ferch gyfoethog a fyddai'n syrthio mewn cariad â'r bachgen o ddosbarth cymdeithasol tlotach a thad y ferch yn gwrthwynebu'n hallt berthynas o'r fath. Byddai hithau yn ei thro yn gwrthod ildio i orchmynion ei thad ac yn dianc i wlad estron neu deithio'r môr er mwyn priodi ei chariad gan ildio ei golud a'i chyfoeth yn gyfan gwbl. (Gweler Ffigwr 3.3. trosodd.)[158]

Nid tai na thir wyf fi yn garu,
Nid golud bydol wy'n chwennychu;
Y mab wyf fi'n ei garu'n ffyddlon.
Sydd ar ddyfnderoedd moroedd mawrion.

Atebai'i thad yn llawn digllonedd,
Os daw ef unwaith at fy anedd,
Mewn carchar caeth mi fyna'i roddi,
Ni chaiff e' funud o'th gwmpeini.[159]

[158] *Can ddiddan sef hanes carwriaeth rhwng cadben llong o Dover, a merch i Esquire: a'r modd y cafodd efe hi yn briod, er gwaethaf ei wrthwynebwyr* (Caernarfon) Cyfrol 21, Rhif 72
[159] Ibid.

Nid ymateb cymdeithas a geir yn y baledi hyn, ond yn hytrach ymateb a dadleuon yn y cartref a gâi eu hadlewyrchu yn y rhieni. Gwelid i'r dadleuon hyn fod yn ddrych i ddadleuon ac arferion y dosbarth cymdeithasol uchel-ael a'r werin fel ei gilydd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ni chyfyngir y baledi hyn i'r baledi morwrol yn unig fodd bynnag. Yn wir, canran fechan o'r cymeriadau benywaidd a ddihangai i'r môr ym maledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, o'u cymharu â'r ganrif flaenorol yn enwedig. Yn debyg i faledi'r ddeunawfed ganrif, gwelir ymyrraeth y tad yn llywio'r stori a ffawd y cariadon. Ymddengys fod cyfraith gwlad yn y cyfnod yn hynod lac, gyda llwgrwobrwyo'n rhemp a moesau'n hynod o llac. Nid annaturiol fyddai i'r baledwr ganu am was a oedd wedi'i garcharu neu'i allfudo i wlad estron dan law gŵr cyfoethog oherwydd i'r gwas garu'i ferch.

> Mi ddoda'r mab mewn llestr i fyned dros y môr,
> Draw i'r gwledydd dyeithr, lle na ddaw byth yn ol,
> Ac yno caiff e' aros, a hynny tra fo byw,
> Am hynny, ferch resolfa, boddlona'm seren syw.[160]

Sonniwyd eisoes mai 'Bryniau'r Iwerddon' oedd un o'r alawon mwyaf poblogaidd yn y cyfnod yng nghyd-destun y baledi ac ymddengys un fersiwn ohoni ymron yn ddieithriad ym mhob thema. Nid yw thema cariad yn eithriad. Mae'n amlwg i'r alaw apelio at y gwrandawyr, a fyddai felly yn ychwanegu at eu mwynhad o'r faled yn ei chyfanrwydd. Mae'n alaw syml, gyda'r cywair lleddf, lleiaf yn ategu at yr effaith a'r naws hiraethus a grëir yn y faled. (Gweler Ffigwr 3.4.)[161]

[160] *Yn rhoddi hanes am garwriaeth Lady Mary Williams, merch Arglwydd Talbot o Fargam â gwas ei thad* (Caerfyrddin) Cyfrol 22, Rhif 26
[161] http://cronfa.com/index.php?action=item&previous_action_=search&lang=cy&itemid=CAG00274

Gwelir y baledi hyn yn cael eu canu fwyfwy o safbwynt y ferch, ac mae'n gwbl bosib mai merched a fyddai'n eu canu, gan bwysleisio'r golled ac yn ennill cydymdeimlad eu cynulleidfaoedd tlawd.

> Myfi yw'r iawn 'difeddes, o'r goreu sy'n y wlad,
> O ddeng mil y flwyddyn, yn un-ferch mam a thad,
> Gwas fy nhad a gerais, 'dw i'n ceisio cêl ar hyn,
> Y mab a r'owd mewn carchar trwy allu mawr a grym.
>
> Pan gwelai'i nhad ei bleser *returno* wna'i i dre',
> Yn chwerw, chwerw, arw, yn fawr ei dwrdd a'i ble,
> Fy ngwas a ro'es mewn carchar, fy merch o'ch achos chwi,
> Ac yno caiff e' aros tra paro'm mywyd i.[162]

**Ffigwr 3.4**

**Bryniau'r Iwerddon**



Caiff y tad ei bortreadu bob amser fel y cymeriad milain, creulon a fyddai'n ymateb yn hallt i sefyllfa o'r fath; delwedd a gaiff ei hailadrodd ymron yn ddieithriad yng nghasgliad Cerddi Bangor. Mae'n cymharu'n ddestlus â'r ddau brif gymeriad a fyddai, yn y pen draw, yn gorchfygu'r anawsterau ac yn byw'n hapus; motiff syml a thraddodiadol, ond un a apeliai'n amlwg i gynulleidfaoedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

[162] *Yn rhoddi hanes am garwriaeth Lady Mary Williams, merch Arglwydd Talbot o Fargam â gwas ei thad* (Caerfyrddin) Cyfrol 22, Rhif 26

Fel y soniwyd eisoes, roedd merched yn dechrau datblygu'n wleidyddol ac yn datblygu meddylfryd annibynnol. Cyn bwysiced yng nghyd-destun y baledi oedd cyfoeth a golud a statws cymdeithasol. Byddai cariad yn rhagori ar y nodweddion hyn a'r ferch yn fodlon ildio'i chyfoeth er lles ei chariad.

> 'Dwi'n prisio dim am olud a'u cael hwy gan un dyn,
> Waith aur ac arian ddigon sy'n gorwedd wrth fy nghlun,
> Gwaith pump cant o *broad guineas* a ge's i gan fy mam,
> Mi ddoda rhai'n i fflio cyn caiff y glanddyn gam. [163]

Ar bapur, y tad oedd pen y teulu yn y cyfnod hwn, ac roedd llenyddiaeth a phropaganda'r cyfnod yn hybu'r arferiad o barchu ac ufuddhau i'r tad bob amser. Gwgid ar ferched neu wragedd yn draddodiadol a fyddai'n mynd yn groes i'r graen ac yn mynnu ffordd eu hunain. Byddai merch o'r fath yn cael ei phortreadu fel merch wyllt y dylid ei dofi yn hualau cymdeithasol y cyfnod. Ond ceir portread amgen ohoni yn y baledi, sy'n peri i'r tadau gael eu disodli o'u lle yn y cartref. Yn hytrach na'i gwatwar a'i beirniadu am wrthsefyll yn erbyn ei thad, ceir agwedd yn ymylu ar edmygedd ohoni ym mhennill olaf y gân.

> Os gofyn neb yn unlle pwy ydyw'r fenyw frâf,
> A safodd fel cyfreithiwr, nid cilio fel rhyw slâf,
> Y ferch foneddig raddol o'r gorau sy'n y wlad,
> A *fatchodd* wrth ei ffansi heb ofni digio'i thad.[164]

Gresyn na phennir enw awdur wrth y faled hon. Ond, os baledwr neu faledwraig a'i lluniodd, dywed gyfrolau am y math o gymdeithas a oedd yn prysur ddatblygu yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd yn fentrus dyrchafu'r ferch uwchlaw ei thad mewn baled yn gyhoeddus, ond dylid cofio yn ogystal bod y baledwyr yn ddibynnol ar ffafriaeth eu cynulleidfaoedd i sicrhau bywoliaeth ac felly, mae'n rhaid i'r motiff

[163] Ibid.
[164] Ibid.

a'r agwedd hon at statws y dyn fod yn fotiff a oedd yn cael ei derbyn yn y gymdeithas ac yn fotiff a apeliai at y dosbarth gweithiol.

> Nid wyf fi ferch mor ffoled, mi wn i beth a wna,
> Mi huria gounsellers gwychion, mi dala' rheiny'n dda,
> Mi wna hir betisiwn sy arferedig fod,
> Mi fynna'r mab o'r carchar, y glanddyn goreu'i glod.[165]

Ac, os baledwr gwrywaidd a'i hysgrifennodd yn hytrach nag un fenywaidd, gellid dadlau nad y merched yn unig a welai ac a fynnai newidiadau cymdeithasol. Dylid cofio nad oedd y baledwyr yn dilyn bywoliaeth gonfensiynol, a statws cymdeithasol a chyfoeth yn eilbeth i bleserau ac elfennau amgen. Gellid dadlau felly nad oeddent yn ystyried bywyd yn yr un cyd-destun â'r dosbarthiadau cymdeithasol uwch, a bod y weledigaeth honno'n gyffredin o bosib rhwng y baledwyr a'r dosbarth gweithiol, sef eu cynulleidfaoedd. Os gwryw neu fenyw a gyfansoddodd y faled, gellid gweld yn sicr hedyn cyfnod newydd yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ni ddylid anghofio ochr arall y geiniog ychwaith. Nid y merched cyfoethog yn unig a garai y tu hwnt i'w dosbarth uchelwrol. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod sgandal gwrywaidd yn denu cymaint o ddiddordeb cymdeithasol nac ychwaith yn adloniant cystal. Ond, er i'r sefyllfa fod i'r gwrthwyneb, nid y mab a gaiff ei gadwyno a'i garcharu mewn ystafell fechan am garu y tu hwnt i'w ddosbarth. Yn hytrach, ymddengys mai'r ferch a gaiff ei chosbi, beth bynnag fo'r sefyllfa, beth bynnag fo'i chyfoeth a'i statws tra anfonir y mab i wlad estron i ymuno â'r fyddin neu alwedigaeth briodol fel y gwelir yn y faled hon am fab i ŵr bonheddig yn 'rhoi ei *ffansi*' ar forwyn ei dad, a hynny yn groes i'w ewyllys.

> Fy ffryns a chymdeithion, 'dae wiw gennych chwi
> Wneud noswaith yn llawen o ffarwel i mi,

[165] Ibid.

Llangc o'r wlad yma sy'n myn'd dros y môr,
Heb obaith byth eilwaith gael dyfod yn ol;
Llangc ieuangc wyf fi a fentrodd ei fywyd,
Waith syrthio mewn cariad â morwyn fy nhad,
Rhai o'm ffryns nesa' ddoi'r newydd hwn atta',
Yn ebrwydd fe'm tro'wd i fyw i'r *Life-Guard.*[166]

Sylwer yn ogystal ar y modd y cyflwynid y faled hon – "roddi ei *ffansi*". Ceir ymron awgrym mai eiliad o wendid oedd y serch rhyngddynt; sefyllfa y gellid ei dileu heb fawr o ffwdan; ceisid osgoi'r sefyllfa a'i hanwybyddu yn hytrach na chosbi'r mab. Mae'n amlwg felly fod anghyfartaledd yn rhemp yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er y ceir awgrymiadau pendant yn y baledi sy'n awgrymu i'r gwrthwyneb – baledi a ddengys y wraig yn rheoli dynion yn y tŷ tafarn, *Ymddiddan rhwng y Meddwyn a Gwraig y Dafarn;*[167] baledi am gryfder corfforol y ferch, *Can newydd o hanes merch ieuangc o flaen Sir Fynwy. Yr hon a laddodd wyth o ladron wrth iddynt geisio'i hyspeilio hi yn yr Hafotty;*[168] a chryfder y ferch yn foesol yng nghyd-destun yr aelwyd, fel y gwelir yn y faled, *Ymddiddan rhwng hên ŵr a'i ferch yn nghylch priodi.*[169] Fodd bynnag, er gwaethaf yr anghyfartaledd hwn yng nhyd-destun cyfraith a threfn a chosb, nid yw'n rheidrwydd bob amser i'r forwyn dlawd gael ei thwyllo gan serch y gŵr ifanc, cyfoethog. Dyma fath arall o arwres i raddau sy'n wahanol iawn i'r math o arwres ddewr, flaengarol a ystyriwyd yng nghyd-destun y baledi morwrol. Dyma arwres sydd yn foesol gadarn ac yn glynu at ei chredoau sylfaenol ac yn gwrthod aberthu'r rheini am drachwantau corfforol. Yn ddi-os, mae'r baledi hyn yn gyfrwng i ddysgu moes a threfn i gymdeithas a oedd bryd hynny, yn ddigon anwaraidd yn aml.

---

[166] *Hanes fel y bu i fab i wr bonheddig roddi ei ffansi ar forwyn yn erbyn ewyllys ei dad, a'i henw oedd Charming Lucretia* (Caerfyrddin), Cyfrol 22, Rhif 29
[167] *Ymddiddan rhwng y Meddwyn a Gwraig y Dafarn* (Trefriw, 1818) Cyfrol 10, Rhif 32
[168] *Can newydd o hanes merch ieuangc o flaen Sir Fynwy. Yr hon a laddodd wyth o ladron wrth iddynt geisio'i hyspeilio hi yn yr Hafotty* (Caernarfon, 1819) Cyfrol 10, Rhif 50
[169] *Ymddiddan rhwng hên ŵr a'i ferch yn nghylch priodi*, R. Williams (Llanrwst) Cyfrol 12, Rhif 37

Roedd hefyd forwyn gyflog odidog gan ei dad,
A'r mab yn wir a'i hoffai, mi dd'wedaf yn ddiwad,
Rhoes arni ei holl fwriad, trwy gariad yn ddigudd,
Ei galon oedd ar dori am dani nos a dydd.
...
Atebai'r siriol seren i'r bachgen trwy fawr bwyll;
Gan dd'wedyd wrth y glanddyn, Nid ydyw hyn ond twyll;
Pe bawn yn gwrando'ch araeth a'ch gweniaeth heb nacad,
Mae'n ddigon amlwg imi cawn felly brofiad brad.

Na fydded ar fy feddwl fath drwbl hyn o dro,
Mae'n well gen i am danat na merched bryn a bro,
A chyda thi, lliw'r hinon, mae nghalon union i,
Mewn cariad mawr y syrthias y dydd yr hoffais di.

A'r ferch ddywedodd wrtho, Ni choeliaf monoch chwi,
'Rwy'n gwybod nad yw'ch meddwl ond am fy nhwyllo i;
Mae'n g'wilydd i chwi'm denu i brofi c'ledi clir,
Ni chewch chwi mo fy hudo, chwi ellwch goelio'r gwir.[170]

Sefydlwyd eisoes yn y bennod hon bod ymyrraeth y rhieni yn ddylanwad hollbwysig ar berthnasau bywyd yn y cyfnod. Ond er y chwalwyd sawl perthynas a thorrwyd calonnau lu o ganlyniad i'r ymyrraeth hon, ceir toreth o faledi yn sôn am gyplau a oedd yn benderfynol na chaent eu gwahanu oherwydd i rywrai ymyrryd yn eu perthynas. Mae'n amlwg i gynulleidfaoedd y cyfnod werthfawrogi y gellid dod o hyd i hapusrwydd yn y cyfnod anodd yr oeddynt yn byw ynddo, ac mae trechu'r cymeriad drwg yn thema oesol hyd heddiw sy'n apelio ac yn cynnig chwistrelliad o hiwmor i'r stori. Ceir nifer helaeth o faledi felly sy'n sôn am y modd y twyllwyd rhieni mewn rhyw fodd a'r cwpwl ifanc yn symud y rhwystrau a osodid o'u blaenau a llwyddo i briodi yn y pen draw; boed hynny gyda bendith y rhieni ai peidio.[171] Ran amlaf,

[170] *Can newydd yn rhoddi hanes am garwriaeth a phriodas Henry J. Wilcott, a Harriet Williams, gerllaw Taunton, yn Ngwlad yr Haf, Somersetshire, pa rai briodasant yn Nghaerodor, fis Gorphenhaf diweddaf,* Bardd y Gwagedd, (Caerfyrddin) Cyfrol 21, Rhif 75

[171] Gweler y baledi canlynol o gasgliad Cerddi Bangor a sonia am y thema hon: *Can newydd o hanes mab a merch ieuangc, yn agos i Gydweli, pa rai a briodasant, ond rhieni y mab yn anfoddlon i'r ferch, a ddyfeisiant ffordd i'w gwenwyno hi, am ba achos y maent mewn carchar* (Llandysul, 1824) Cyfrol 10, Rhif 81; *Can yn cynnwys hanes merchant o Newfoundland, yr hwn roesai ei serch ar ferch i farchog, y'nghyd a'r amrywiol helyntion a fu arnynt* (Caernarfon) Cyfrol 12, Rhif 135; *Can yn rhoddi hanes am ferch i Emprwr, yr hon a rhoddes ei ffansi ar fab i ffarmwr o Blymouth, Swydd Defon. Yr hwn oedd Sawdwr, ac fel enillodd efe hi a'i gleddyf, trwy ymladd dau fywyd wrth orchymyn ei thad* (Caernarfon) Cyfrol 21, Rhif 78

byddai'r ferch neu'r mab o gefndiroedd gwahanol a statws cymdeithasol anghyfartal, a berai i'r tad neu'r rhieni wrthwynebu'r uniad. Ceir fformiwla lled bendant i'r baledi hyn fel y dengys y faled ganlynol am Billy Williams a Hannah Johnston a wahanwyd oherwydd ei chyfoeth hithau a'i dlodi yntau. Amlinellir ar ddechrau'r gân gryfder serch y ddau ifanc, gan bwysleisio'u rhagoriaethau ar wahân a chyda'i gilydd.

> Yr oedd y ferch fonheddig o berchen llawer iawn
> O aur ac arian hefyd a thiroedd llydain iawn;
> A'i glendid yn rhagori ar ferched tre' a gwlad,
> A hi oedd'r unig blentyn a feddai'i mam a'i thad.
>
> Hi roed ei bryd a'i ffansi a'i bwriad oll i gyd,
> Ar garu mab i ffarmwr heb fawr o bethau'r byd;
> Gwrthododd hi arglwyddi, marchogion teg eu gwawr
> Gan ddweud mai gwell yw cariad na chyfoeth India fawr.[172]

Yna, ceir y foment lle y daw'r rhieni i wybod am y garwriaeth a'u hymateb anochel i'r newyddion, sef y gosb neu'r weithred o wahanu'r ddau.

> 'Nol iddynt hwy gyd-synio briodi trwy fawr serch,
> Aeth rhyw rai'n glau â'r newyddion at dad a mam y ferch,
> A'r 'Squire pan y clywodd a neidiodd ar ei dra'd
> Fel un o ddynion ffola fu 'rioed o fewn i'r wlad.[173]

Ceid peth amrywiaeth rhwng y baledi ar y thema hon wedi hyn, a hynny'n ddibynnol ar ymateb a chosb y ddau. Pe gwahenid hwy, gwelid y broses o aduno ac yna trwy amrywiol ffyrdd, dwyllo'r rhieni i dderbyn y berthynas a'i bendithio. Ond beth bynnag fo'r gosb, ceir pwl o hiraeth cyn i'r ddau ddechrau cynllwynio sut y gallent fod gyda'i gilydd.

> Hi ga'dd ei rho'i dan gloion dros bedwar mis ar ddeg,
> A'i chadw mewn tywyllwch, heb fawr o chwareu teg;
> Er cymmaint ga's hi ei phoeni heb neb i wrando ei chwyn
> Yr oedd hi'n fodlon marw dan gloion er ei fwyn.[174]

---

[172] *Can newydd yn gosod allan garwriaeth Billy Williams a Hannah Johnston o Lanhafren*, John James (Caernarfon), Cyfrol 21, Rhif 63
[173] Ibid.
[174] Ibid.

Yn sicr, dylid canmol y dychymyg a geir yng nghyd-destun y baledi hyn. Ni ellid gwadu nad oedd trigolion y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ddiffygiol eu dychymyg! Yn y faled hon, clywir sut y byddai Billy yn llwyddo i dwyllo tad Hannah er mwyn ei rhyddhau trwy ledaenu si ei fod wedi marw, ac adeiladu arch i'w hun i'w gladdu. Dylid dwyn i gof wrth gwrs mai hel clecs oedd un o nodweddion amlycaf cymdeithas y cyfnod, a byddai stori o'r fath wedi'i lledaenu mewn mater o oriau.

> A'r mab 'mhen pedair blynedd dyfeisiai'r ffordd mewn brâd,
> I weithio *coffin* newydd fel gallai dwyllo ei thad;
> A'r cwmp'ni aeth i gladdu y *coffin* hardd ei wedd,
> Gan ddweud, mae Billy Williams yn gorwedd yn y bedd.[175]

Yna, ceid aduniad y ddau rai dyddiau yn ddiweddarach. Yn ddibynnol ar yr ymateb a'r sefyllfa, prioda'r ddau gan gyrraedd diweddglo hapus y byddai cynulleidfa'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ei ddisgwyl.

> Yn mhen y tri diwrnod cyfarfu'r mab a'r ferch,
> Y seren fwyn garedig oedd wedi tynnu ei serch;
> Cofleidiai, fe'i cusanai, y gangen deg o bryd,
> P'le gwelwn ddau mor ffyddlon yn caru o fewn i'r byd.[176]

Yr hyn sy'n gyffredin ym mhob baled sy'n ymwneud ag ymyrraeth allanol o fewn perthynas yw rhybudd ar ddiwedd y faled sy'n cynghori na ddylai neb ymyrryd rhwng cariad a pherthynas dau. Cynghorir i adael i'r ieuenctid fyw eu bywyd yn ôl eu mympwy eu hunain a chaniatáu iddynt wneud eu camgymeriadau eu hunain. Yn anffodus, roedd cymdeithas yn fwy beirniadol o gamgymeriadau eraill yn y cyfnod ac alltudiwyd unigolion o gymdeithas os oedd y camgymeriad yn un sylweddol. Ond, ymddengys i'r baledwyr ddiystyru'r feirniadaeth gymdeithasol hon ac awgrymu y gwaethygid sefyllfa yn sylweddol ped ymyrrid ym mywydau'r ieuenctid. Mae'r

[175] Ibid.
[176] Ibid.

arferiad hwn yn rhan o draddodiad y baledi cyngor a oedd yn lled boblogaidd yn y cyfnod, ond roedd yn ffordd hynod boblogaidd i gloi baled.

> Cymerwch chwithau rybudd bob un sy'n gwrando'r gân,
> Am beidio rhwystro cariad byth mwy i fyn'd y'mlaen,
> Waeth nid oes dim ond angau i'w gael o fewn i'r byd
> All rwystro dau fo'n caru, yn ffyddlon fyn'd y'nghyd.[177]

Gan gofio mai baledi o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a ystyrir yn y traethawd hwn, ceir baledi a phenillion sy'n pwysleisio pwysigrwydd ennill a *chadw* cariad; ffactor hynod bwysig mewn cymdeithas lle'r ystyrid merched sengl yn israddol. Dyma enghraifft o bennill o'r fath a osodwyd ar derfyn baled sy'n sôn am garwriaeth ac ymddiddan rhwng dau, lle gwrthoda'r ferch gymryd y bachgen yn ŵr iddi. Er y clodforir y ferch yn y faled am aros am gariad a gŵr teilwng ohoni, ceid ôl-nodyn ac iddo dinc rhybuddiol rhag i'r merched wrthod yn ormodol a gorfod byw eu bywydau ar eu pennau eu hunain.

> Holl ferched ieuaingc Cymru a Lloeger,
> Cym'rwch gyngor genn'i ar fyrder;
> Pan byddo mab yn d'od i'ch caru,
> Na fyddwch groes rhag i chwi ei golli.[178]

Ar y cyfan, darlun lled gymhleth o fywyd carwriaethol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a geir yn y baledi serch. Er y ceir ar un llaw ddarlun o'r ferch ac iddi arlliw o arwres gref a moesol, ni ellid anwybyddu ychwaith y cysgod pesimistaidd ynghylch annibyniaeth y ferch yn byw bywyd ar ei phen ei hun. Yn sicr, gellid cadarnhau heb amheuaeth mai islais o annibyniaeth a gafwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yn dilyn Adroddiad y Comisiwn Brenhinol ym 1847, ceir ymdeimlad i'r annibyniaeth hon lechu i gysgodion y bywyd teuluol, domestig delfrydol. Ond, gellid dadlau yn

---

[177] Ibid.

[178] *Can serchiadol sef hanes carwriaeth a phriodas Sion Dafydd a Gwenllian Morgan, a'r ymddyddan a fu rhyngddynt bob yn ail bennill yn nghyd a chyngor i ferched ieuangc, rhag ofn colli eu cariadon* (Caernarfon) Cyfrol 22, Rhif 19

ogystal i'r islais barhau a bod y baledwyr yn llysgenhadon i'r canu hwn. Teimlir, o ystyried statws israddol y baledwyr o fewn cymdeithas, iddynt ysu am newid i'r drefn draddodiadol, a'r baledwyr benywaidd yn enwedig yn eithriad i'r llif gonfensiynol o wragedd priod, a'r ffigwr unigol yn symbol ynddo'i hun o'r ymwrthodiad â'r drefn. Rhaid cofio mai canu i blesio cynulleidfa oedd y rheidrwydd arnynt, ac er y dyrchefid y ferch heb amheuaeth, roedd y wlad yn rhanedig, gyda rhai o blaid camu ymlaen ac eraill yn gyfforddus ar eu haelwyd ddiogel, a rheidrwydd oedd i'r baledwyr gadw'r ddysgl yn wastad rhwng y ddau safbwynt cymdeithasol hyn. Ond mae'r ferch fodd bynnag yn ffigwr canolog yn y berthynas, ac nid gorliwio fyddai dweud mai hi oedd canolbwynt y berthynas; yn 'seren syw' i serch y bachgen ifanc a ysai am ei chariad, a'i chryfder moesol a meddyliol yn ennyn edmygedd cynulleidfaoedd a ddeisyfai straeon caru ac arwresau i'w denu oddi wrth eu bywydau llwm. Gellir olrhain ei chamau ar hyd llwybr cariad a'i holion yn parhau yn elfen anochel o fywyd a chymdeithas, a'i statws ym myd serch yn gadarnle i gariad a pherthynas rhwng dau.

Elfen anochel mewn bywyd ydyw marwolaeth. Er gwaethaf difrifoldeb y pwnc, dengys poblogrwydd a thoreth y baledi sy'n ymwneud â marwolaeth i'r thema apelio at drigolion Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gorau oll po fanylaf y disgrifiadau am y farwolaeth a'r ymadawedig, boed hynny yng nghyd-destun llofruddiaeth, hunanladdiad neu ddamwain erchyll. Ymddengys iddynt ymhyfrydu ynddynt gan ysu am fanylion erchyll am gyflyrau'r cyrff a'r modd y buont farw; yn yr un modd ag yr apelia nofelau a ffilmiau arswyd at bobl yn yr unfed ganrif ar hugain i raddau helaeth. Gellir casglu hyn o'r ffaith i'r baledwyr bentyrru manylion yn eu baledi fel y gwelir yn y faled ganlynol:

> Gorweddai'n noeth enethig dlos,
> A'i grudd fel rhos wywedig;
> A'i llygaid pŵl heb orphen cau,
> A'i breichiau'n estynedig:
> Ei gwallt a wnaed gan waed yn llyfn,
> Ac ar ei dwyfron archoll dyfn.
>
> Ei gwefus wedi haner cau, −
> Y wefus fêl gusanau,
> A'i dannedd mân, yn wyn a glân
> Yn wyn er gwaethaf angau;
> A'i dwylaw teneu fu cyn hyn
> Yn trin a throi y cadach gwyn.[179]

Er y gellid honni mai chwaeth bersonol y baledwr sydd i'w gweld yma, rhaid cofio mai plesio'u gwrandawyr oedd eu nod yn anad dim i sicrhau bywoliaeth. Adlewyrchiad o'r adloniant hwnnw a geir ym maledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a gellid dadlau mai'r ffilmiau hynny sydd yn seiliedig ar ddigwyddiadau realistig sy'n apelio gryfaf at gynulleidfaoedd heddiw.[180] Yr un yw'r egwyddor ym maledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gydag enwau, lleoliadau a disgrifiadau manwl o'r drasiedi'n ategu at yr apêl a chynnwrf yr adloniant. Ni ddylid anghofio ychwaith mai

[179] *Cadach gwyn Miss Jones y Glyn. Llofruddiaeth echryslawn*, Cyfrol 21, Rhif 22
[180] Ffilmiau megis *Psycho* (1960) a *Jaws* (1975) sydd yn parhau i ddiddanu cynulleidfaoedd hyd yr unfed ganrif ar hugain.

trosglwyddo newyddion oedd un o'u swyddogaeth pennaf, a daw'r elfen honno i'r amlwg yn y baledi hyn. Mae'n thema sydd ag amrywiaeth eang iddi a'r amrywiaeth honno'n cyfoethogi'r baledi fel cyfrwng.

Yn ddiau, mae marwolaeth yn un o'r themâu mwyaf poblogaidd yng nghasgliad Cerddi Bangor, gyda thema cariad yn unig yn herio'i phoblogrwydd. Diddorol yw nodi nad ymddengys i arferion a thueddiadau cymdeithas newid cymaint â hynny rhwng y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r unfed ganrif ar hugain; y themâu sylfaenol, cynhenid sydd yn parhau i apelio at gynulleidfaoedd hyd heddiw, a phrofa toreth y baledi am gariad a marwolaeth mai dyma a apeliai at gynulleidfaoedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ogystal.

Ni ddylid anghofio ychwaith am dueddiadau ac arferion cymdeithasol yng Nghymru yn y cyfnod hwnnw. Sefydlwyd eisoes mai thema oesol yw marwolaeth sydd wedi ysbrydoli unigolion yn gerddorol ac yn farddonol, mewn baledi ac mewn ffurfiau amgenach. Ond, rhaid cofio mai cymdeithas werinol a chymdeithas glòs oedd cynulleidfaoedd y baledwyr yn y cyfnod. Hyd heddiw, mae'n gynhenid ymhlith y Cymry i siarad am hynt a helynt eu cymdogaeth; cymdeithas lle yr oedd pawb yn adnabod ei gilydd, a chysylltiadau dirifedi wedi'u britho ar hyd a lled y wlad. Dylid dwyn i gof yma hefyd am arferiad y merched o hel clecs. Byddai marwolaeth neu lofruddiaeth yn sicr yn destun sgwrsio pwysig ac adlewyrchir yr elfen fusneslyd hon ym mhoblogrwydd digamsyniol y baledi sy'n ymdrin â'r thema hon.

Damweiniau a thrasiedïau

Ceir amryw o is-themau o dan ymbarél marwolaeth, ac ymddengys i bob un o'r is-themâu hyn apelio at ganran helaeth o'r gynulleidfa oherwydd ceid toreth o faledi ym mhob is-gategori.[181] Ymddengys iddynt, yn ogystal apelio at ddychymyg y baledwyr ac roedd y ffaith iddynt gael ymateb mor dda gan gynulleidfaoedd y cyfnod yn fwy fyth o ysbrydoliaeth mae'n debyg, fel y dywed Tegwyn Jones:

> Mae'r rhan fwyaf o'r enwau mawr ym myd y faled yn ystod y ganrif ddiwethaf rywbryd neu'i gilydd, fel y gellid disgwyl, wedi canu am ddamwain lofaol. Roedd iddynt farchnad arbennig o dda, fel yr awgrymir gan amlder y rhai a oroesodd. Richard Williams (Dic Dywyll), Ywain Meirion, Levi Gibbon, J. W. Jones, Nant-y-glo, Dafydd Jones, Llanybydder, Evan Griffith (Ieuan o Eifion), Edward Jones, Hugh Roberts (Pererin Môn), Abel Jones (Bardd Crwst) – cyfrannodd pob un ohonynt yn ei dro at y dosbarth hwn o faledi.[182]

Fel y nodwyd yn y dyfyniad uchod, un o'r pynciau y cenid arno yn doreithiog oedd damweiniau, a'r rheini'n rhai erchyll a thrasig; damweiniau megis llongddrylliadau neu ddamweiniau diwydiannol mewn pwll glo neu chwarel.

> Damweiniau diwydiannol, yn nesaf at lofruddiaethau, a gynhyrfodd y mwyafrif o faledi'r ganrif... Yr oedd y blynyddoedd rhwng 1840 a 1900 yn doreithiog yn y math hwn ar faled.[183]

[181] *Can am y ddamwain alarus a fu ar draeth y Lafan, Ebrill 21, 1817, sef – I dri o feibion a phump o ferched gael eu dyrysu gan niwl wrth hel cocos, a'r llanw a'i hamgylchodd ac a foddasant oll* (Trefriw, 1817) Cyfrol 9, Rhif 38; *Merch ieuangc a laddwyd yn Penrhyn Deudraeth, Sir Feirionydd* (Caernarfon, 1812) Cyfrol 10, Rhif 13; *O alaethus hanes am lofruddiaeth anhydy, a fu gerllaw Rhuthun, sef, i fab fyned at ferch oedd yn y ty ei hunan, a'i lladd mewn modd mwyaf echryslon, sef, ei thrawo yn ei phen a phocer, a thorri ei gwddf o glust i glust, ag wedi hynny rhwygo ei bol o'i bogel i'w brest*, Richard Jones (Caernarfon, 1815) Cyfrol 10, Rhif 20; *Can newydd o hanes Benson Covert, yr hwn y darfu ei ail wraig ef wenwyno tri o'i blant, gerllaw pentref bychan a elwir Ashburn, yn Sîr Gaer Efrog (Yorkshire) a hi a ymgrogoedd ei hun yn y diwedd.* Richard Williams (Trefriw, 1819) Cyfrol 10, Rhif 48

[182] Tegwyn Jones, ' Y Baledi a Damweiniau Glofaol', *Canu Gwerin*, 21 (1998), 4

[183] Ben Bowen Thomas, *Drych y Baledwr* (Llandysul, 1958), 103

Yn ddiau, maent yn rhan bwysig o ddiwylliant y cyfnod ac yn allweddol i'r rheini sy'n bwrw golwg yn ôl ar agweddau a chyd-dynnu cymdeithasol yn y cyfnod.[184] Dengys yr ymdeimlad cymdeithasol yn y wlad yn y cyfnod a'r cydymdeimlad torfol y byddai'r baledi'n eu hennyn wrth ganu am y trychinebau.

> Neighbours rallied round at times of birth, death, illness and misfortune...[185]

Nid yw'r merched yn gymeriadau mor flaenllaw yn y baledi hyn oherwydd y dynion a weithiai yn y meysydd diwydiannol, ond yn sicr, maent yn gymeriadau ac yn elfen anuniongyrchol hanfodol bwysig. Sefydlwyd eisoes mai'r gŵr a ddeuai â'r cyflog i'r cartref yn y cyfnod, tra bod y wraig yn rheoli ac yn dosbarthu'r arian a oedd yn ddyledus. Felly, mewn damwain erchyll o'r fath, byddai'r wraig a'r teulu yn colli'u prif ffynhonnell incwm, a fyddai yn ei dro yn arwain at broblemau amgenach; newyn a salwch a phroblemau megis osgoi'r wyrcws a fyddai'n rhannu ac yn gwahanu teuluoedd. Fodd bynnag, er gwaethed y golled ariannol, nid dyma'r golled a bwysleisir yn y baledi. Ran amlaf, mewn baledi o'r fath, adroddiad disgrifiadol o'r ddamwain a geir; pwysleisio dewrder y gweithwyr a graddfa'r ddinistr. Canolbwyntir ar y meirwon, eu dewrder hwy am weithio mewn amodau anodd a diflas, a'r golled aruthrol ar eu hôl. Ategir at yr hiraeth hwn yn yr alaw, â'r faled *Can am y ddamwain alarus a fu ar draeth y Lafan, Ebrill 21, 1817, sef – I dri o feibion a phump o ferched gael eu dyrysu gan niwl wrth hel cocos, a'r llanw a'i hamgylchodd ac a foddasant oll* (Trefriw, 1817) Cyfrol 9, Rhif 38, er enghraifft, yn cael ei chanu i gyfeiliant yr alaw, 'Trymder'. (Gweler Ffigwr 4.1 trosodd.) Alaw ydyw a ddaeth yn boblogaidd tua diwedd y ddeunawfed ganrif ac a barhaodd yn boblogaidd yn y bedwaredd ganrif ar

[184] Gweler erthygl Tegwyn Jones am faledi sy'n ymwneud â damweiniau glofaol yn *Canu Gwerin*, 21 (1998)
[185] Angela V. John, *Our Mothers' Land – Chapters in Welsh Women's History 1830–1939* (Cardiff, 1991), 123-4

bymtheg. Atega'r cywair lleddf at y naws hiraethus a phatrwm yr alaw yn cynnig uchafbwyntiau ac isafbwyntiau cerddorol i ategu at y naws a'r stori.

**Ffigwr 4.1. – 'Trymder'**



Canolbwyntio ar rôl a delweddau o'r gwragedd yw amcan y traethawd hwn a dyma'r unig thema, heblaw am y baledi rhyfelgar, lle y caiff y merched eu hepgor neu eu gosod i'r neilltu i raddau helaeth. Mae'r merched yn gymeriadau anhepgor ac yn ganolbwynt i raddau yng nghanran helaeth o'r themâu a'r cyd-destunau eraill. Ond, wrth reswm, ceir eithriadau i'r rheol hon, ac yn y baledi dan sylw, sef y damweiniau mewn diwydiant, gwelir y merched mewn persbectif gwahanol i'r hyn a welwyd cynt. Yn y baledi hyn, nid un cymeriad ystrydebol a geir, ond yn hytrach, caiff yr haenau arwynebol hyn eu crafu ymaith a doir o hyd i un ymdeimlad cynhenid sef hiraeth a cholled amrwd.

> 'Roedd yno wr priodol a chanddo ddau o blant,
> A'i wraig e' oedd yn feichiog pan aeth o'r byd i bant,
> Hi syrthiodd bron yn farw pan glywodd am y bad,
> A chlywed y plant bychain yn galw am eu tad.[186]

[186] *Galarnad er coffadwriaeth am ddeg o ddynion a foddodd yn Afon Tawe, wrth groesi o Lansamlet i Abertawe. Ar eu dychweliad o'r cyfarfod mewn Bad, pa un a drodd, ac o ddeutu pump ar hugain ynddo; y rhai a safiwyd ond deg. Ar brydnawn dydd Sul, Gor.13, 1823.* Stephen Jones (Caernarfon, 1823) Cyfrol 10, Rhif 76

Hiraeth am ŵr, brawd, tad neu fab, ond pob un fel ei gilydd yn unol yn y golled. Cymaint y deisyfai'r baledwyr i'w cynulleidfaoedd fod yn unol yn y golled hon, caiff ffigurau y marwolaethau yn y ddamwain eu hadrodd, nid yn unig yng nghorff y baledi, ond hefyd cyn dechrau'r faled, yn y cyflwyniad. Ac nid ffigurau oeraidd y 258 o wŷr meirwon yn unig a gyflwynir ym maled Abel Jones i ddamwain yn Aber-carn er enghraifft, ond nifer y gweddwon a'r rheini a oedd yn galaru am eu colled. (Gweler ffigwr 4.2 trosodd.)[187]

Yng nghyd-destun y trychinebau hyn, tueddid i'w cyfyngu'n ddaearyddol i Gymru'n unig. Wrth ystyried yr holl byllau glo a'r ardaloedd diwydiannol, mae'n lled debyg y byddai damweiniau o'r fath wedi bod yn rhemp yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, heb fod angen lledaenu gorwelion dramor. Mae hyn yn wir yn ogystal am y damweiniau hynny nad oedd yn gysylltiedig â'r gweithle, ond yn hytrach yn drychinebau a oedd yn ganlyniad i chwarae'n chwerwi. Damweiniau mewn cychod a welid ran amlaf wrth groesi afon[188] neu wrth hwylio yn yr aber,[189] a'r mwynhau a'r hamddena'n dod at ddiwedd angheuol.

> Mae etto o ddeutu Aber
> Ryw brudd-der mawr i lawer mewn amryw leoedd,
> Mae cwyn a cholled eisoes
> Am drymloes amryw einioes a ymrannodd;[190]

Yr un math o strwythur a welir yn y baledi hyn. Yn ôl yr arfer, byddai'r baledwr yn dechrau trwy wahodd ei gynulleidfa i wrando ar ei faled yn sôn am ddamwain neu

[187] *Can newydd alarus am y 258 o lowyr a gollodd eu bywydau yn y ddamwain ofnadwy a gymerodd le, dydd Mawrth, Medi 10, 1878, gerllaw Abercarn, Sir Fynwy,* Abel Jones (1878) Cyfrol 22, Rhif 88
[188] *Galarnad er coffadwriaeth am ddeg o ddynion a foddodd yn Afon Tawe, wrth groesi o Lansamlet i Abertawe. Ar eu dychweliad o'r cyfarfod mewn Bad, pa un a drodd, ac o ddeutu pump ar hugain ynddo; y rhai a safiwyd ond deg. Ar brydnawn dydd Sul, Gor.13, 1823.* Stephen Jones (Caernarfon, 1823) Cyfrol 10, Rhif 76
[189] *Can am y ddamwain alarus a fu ar draeth Lafan, Ebrill 21, 1817, sef- i dri o feibion a phump o ferched gael eu dyrysu gan niwl wrth hel cocos, a'r llanw a'u hamgylchodd ac a foddasant oll* (Trefriw, 1817) Cyfrol 9, Rhif 38
[190] Ibid.

drychineb erchyll a ddigwyddodd mewn man arbennig yng Nghymru gan amlinellu'r tristwch a'r galar a wasgai ar yr ardal. Trwy ychwanegu cyflwyniad i'r faled, rhydd gyfle i'r gynulleidfa glywed pwt o'r hyn a oedd ar fin cael ei chanu; *trailer* y bedwaredd ganrif ar bymtheg os mynnoch, a byddai hefyd yn gyfle i'r rheini nad oedd wedi ymgasglu eisoes o gwmpas y baledwr i grwydro draw heb golli dechrau'r stori.

Cenid y stori ran amlaf yn gronolegol, gan osod y seiliau yng nghyd-destun y cyfnod, y lleoliad a'r cymeriadau, a chreu naws briodol, hwylus cyn i'r perygl ymddangos a phethau'n dechrau mynd o chwith.

> A myn'd tua Llansamled a wnaethai'r rhai'n bob un,
> I wrando WILLIAM MORRIS, un melys ddawnus ddyn,
> Pan oe'nt hwy'n dyfod adref heb feddwl am fath frad,
> O ddeutu pump ar hugain a ddarfu fyn'd i'r bad.
>
> Ac yna ar naill ochr y gwŷr a ddarfu ffoi,
> Nes oedd y bad yn siglo, yn wir a dechreu troi,
> Wrth ei waith e'n dymchwelyd, mor aethlyd fu ei floedd,
> Er gwel'd hwy'n myn'd i'r gwaelod, mawr syndod yno oedd.[191]

Wrth geisio eu hachub, rhestra'r baledwr yr unigolion hynny a oedd mewn trafferthion, gan ddenu'r gynulleidfa'n nes at y stori a chynyddu'u cydymdeimlad wrth ddod i adnabod y cymeriadau truenus. Ategir yn ogystal at yr elfen bersonol yn y baledi, a'r ymdeimlad gymunedol. Gwelir o bryd i'w gilydd yn ogystal y baledwyr yn rhestri enwau'r meirwon ar ddechrau neu ar ddiwedd y gerdd, fel y gwelir yn y faled 'Galarnad er coffadwriaeth am ddeg o ddynion a foddodd yn Afon Tawe wrth groesi o Lansamlet i Abertawe':

[191] *Galarnad er coffadwriaeth am ddeg o ddynion a foddodd yn Afon Tawe wrth groesi o Lansamlet i Abertawe*, Cyf. 10, rhif 76

Enwau y rhai a foddodd
William Beddoe, Crydd,
George Beddoe, ei wŷr
Richard Thomas, Crydd
John Rogers, Teiliwr
Mary David
Mary Williams
Elizabeth Lewis, tair Cefnither
Elizabeth John
Llewelyn Thomas
Elizabeth Jones[192]

Wedi'r cyfan, lledu newyddion oedd un o brif swyddogaethau'r baledi yn eu cyfnod, a byddai clywed rhestr o enwau'r ymadawedig yn ddisgwyliedig o'r baledwr. Defnyddiwyd baledi o'r fath yn ogystal er mwyn codi arian ar gyfer teuluoedd y rhai a oedd wedi'u lladd, yn enwedig y baledi a argraffwyd ar un ochr i'r dudalen yn unig, ac a oedd yn cynnwys rhestr enwau. Ni cheir y disgrifiadau erchyll a geir yn y baledi llofruddio, na'r cymariaethau rhamantaidd a geir yn y baledi serch. Disgrifio moel sydd yn y baledi sy'n ymdrin â damweiniau diwydiannol, a'r drasiedi'n gofyn am ddim mwy nag alaw syml megis 'Gwêl yr Adeilad' i ategu at dristwch amrwd y newydd. (Gweler ffigwr 4.3 trosodd.) Gweler isod faled serch; yn llawn hiraeth a throsiadau ingol.

Tyner wylo mae'r awelon
Uwch ben ei bedd,
Fel o deimlad, ddagrau'n loewon,
Uwch ben ei bedd;
Y gwynt yn dystaw sio'i chyntun
Yn yr ywen ledai'i brigyn
Ac o honi'r dagrau'n disgyn
Ar fin ei bedd.[193]

Pe cymherid y faled hon â'r baledi sy'n sôn am ddamweiniau, gwelid naws mwy newyddiadurol, a'r manylion yn canolbwyntio ar y *bobl* yn hytrach efallai na chanolbwyntio ar yr emosiynau:

[192] Ibid.
[193] *Bedd fy ngharia*d, Cyf. 12, Rhif 91

Cwyn prudd am *Catherine Roberts* sydd,
Ga'dd ei harweiniad i'r un diweddiad,
Heb ddim arbediad, na diogeliad gudd;−
Mae angau'n sicr hynod o ddyfod yn ei ddydd.
'Run saeth at *Elin Roberts* ddaeth,
Heb un attaliad yn ol ei threfniad,
Yn yr amgylchiad, 'run genad a'î rhoe'n gaeth;
D'oedd undyn i'w gwaredu,
Ond trengu yn y traeth.[194]

**Ffigwr 4.3 – alaw 'Gwel yr Adeilad'[195]**




Ffactor sy'n atgyfnerthu hyn yn ogystal yw'r ffaith mai alawon megis 'Bryniau'r Iwerddon' a ddefnyddid yn gyfeiliant i'r math yma o faled; alaw a ddefnyddid yn helaeth gan y baledwyr ac ar gyfer amryw o wahanol themâu,[196] yn wahanol i rai

[194]*Can am y ddamwain alarus a fu ar draeth Lafan, Ebrill 21, 1817, sef- i dri o feibion a phump o ferched gael eu dyrysu gan niwl wrth hel cocos, a'r llanw a'u hamgylchodd ac a foddasant oll* (Trefriw, 1817) Cyfrol 9, Rhif 38

[195] Alaw ar frig y faled: *Myfyrdodau Barddonol*, Cyfrol 31, Rhif 38

[196] Rhai o'r themâu y cenid 'Bryniau'r Iwerddon' arnynt: *Ar Ymadawiad Gŵr ieuangc a'i gariad* (Trefriw, 1809) Cyfrol 8, Rhif 28; *Ymddiddan rhwng Gwraig y Cybudd, a gwraig yr Oferddyn, yn cydymaith adref o'r farchnad, ag yn achwyn ar y gwyr, pwy oedd yn gwrando ond y prydydd* (Trefriw, 1810) Cyfrol 8, Rhif 30; *Can newydd yn rhoddi hanes y modd y darfu Margaret Edwards o Norwich, amcanu dwyn John Morris, ei gwas, yn euog o ladrad; am na buasai yn ei gael yn briod iddi, am hyn y condemniwyd ef i farw yn y sessiwn diwethaf; a'r modd y gwaredwyd ef a'i drallod ofnadwy ar y 5ed o Fedi*, Richard Williams (Merthyr) Cyfrol 12, Rhif 102

baledi lle y dewisid yr alaw yn benodol er mwn atgyfnerthu'r geiriau, fel y gwelir yn y faled am 'Hanes carwriaeth a fu rhwng mab tlawd a gwraig gyfoethog' a'r faled honno yn cael ei chanu ar y dôn eironig, 'Charity Mistress'.[197] Byddai cynulleidfa'r cyfnod yn gyfarwydd â'r alawon traddodiadol a genid gan y baledwyr ac mae'n siŵr i'r baledwyr yn eu tro sylweddoli y gallai cynulleidfa werthfawrogi'r hiwmor hwnnw wrth gysylltu alaw a thema benodol. Ond wrth ddefnyddio alawon cyffredinol megis 'Bryniau'r Iwerddon' a 'Gwêl yr Adeilad', gwyddai'r baledwr y byddai'n apelio at gynulleidfaoedd eu dydd beth bynnag fyddai'r cyd-destun storïol ac felly'n apelio fel cyfanwaith atynt.

Ond ceir un agwedd arall yn ogystal â'r hyn a drafodwyd eisoes. Er y soniwyd am ymateb y merched i'r trasiedïau hyn, arwynebol yw'r disgrifiadau o'r golled. Ceir un faled yng nghasgliad Cerddi Bangor, fodd bynnag, sy'n mynd i wraidd y golled ac yn cyfleu ing a gwir anobaith sefyllfa un wraig ifanc, Mari Menmore, a gollodd ei gŵr mewn damwain yn y chwarel. Fel y baledi eraill a draethai ar yr un thema, ceir y stori yn ei chrynswth, ond gwelir mwy o bersonoliaeth Richard Williams, y baledwr, yng nghorff y faled. Mae ynddi hefyd ddisgrifiadau erchyll a fyddai'n sicr o fod wedi codi cyfog ar ambell un o'i gynulleidfa.

> Golwg drist oedd gweled Menmore,
> A'i ben yn ddauddarn wedi agor;
> Ei fenydd allan rhyd y cerrig,
> A'i gorph i gyd yn archolledig.[198]

Ond, er mor erchyll yw'r ddelwedd hon, mae'n ennyn ymateb oddi wrth gynulleidfa, sef nod y baledwr yn ei hanfod. Roedd Richard Williams 'Bardd y Gwagedd' yn un o'r goreuon yn ei gyfnod, felly rhaid ystyried y byddai'r math hwn o ganu wedi apelio

[197] *'Hanes carwriaeth a fu rhwng mab tlawd a gwraig gyfoethog'*, Ellis Roberts, Cyf. 10, rhif 24
[198] *Can newydd yn rhoddi hanes y modd y darfu Mari Menmore, o bentref Penceley, Derbyshire, foddi tri o'i phlant, a chrogi ei hunan, ar yr 8fed o Chwefror,1839* (Merthyr, 1839) Cyfrol 22, Rhif 79

at ei wrandawyr. Dibynnu ar eu ffafriaeth hwy yr oedd wedi'r cyfan. Ond, yr hyn sy'n nodweddu'r faled hon yw'r stori sy'n dod i law wedi'r drasiedi wreiddiol, sef prif stori a neges y faled. Dilyna fywyd gwraig y gŵr ifanc a fu farw, a'i phlant. Nid baled o serch a hiraeth a geir yma ond caledwch a drycin bywyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r hiraeth yn sicr wedi'i blethu i'r golled, ond nid dyma yw canolbwynt y faled; yn hytrach, adlais chwerw yng nghanol realiti oeraidd bywyd ydyw:

> Teimlodd boenau a chaledi,
> Dyoddefodd angeu a thylodi,
> Ddyddiau lawer mewn griddfanau,
> Heb fawr o fwyd i'w phlant na hithau.[199]

Ceir ym maled Mari Menmore yn ogystal sôn am y wyrcws; y modd y rhennid teuluoedd cyn gynted ag y cyrhaeddent yno, a'r ymgais orffwyll i fyw bywyd o ladrad a chardota yn hytrach na threulio bywyd yno. Yn sicr, gellid casglu llawer iawn am fywyd y wyrcws oddi wrth y faled hon. Clywir fel y bu i ddau o'i phlant hynaf farw yn y wyrcws, sy'n profi erchylltra'r amodau byw. Gwaeda'r galon dros y ddynes ifanc, ac ni ellid lai nag ochneidio ymron pan ddoir at ddiwedd y faled a hithau'n methu gweld unrhyw leshâd o'i sefyllfa druenus ac yn diweddu'r hunllef iddi'i hun a'i phlant gan 'ddewis llwybrau'r noddfa nefol'.[200] Yn ddiau, mae'n faled ddirdynnol, a'r agwedd hon at drasiedi yn amlinellu pam yr ystyrir Richard Williams yn un o faledwyr mawr ei oes. Ceir ynddi ddelweddau erchyll, tosturi didwyll ac anobaith llethol. Ond, ni ellir llai nac edmygu'r modd y'i lluniwyd ac yn sicr, gellid amgyffred yn fwy canlyniadau tlodi a llofruddiaeth yn ogystal â byd y ferch yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

[199] Ibid.
[200] Ibid.

Llofruddiaethau

> Yn wyneb pob tystiolaeth, nid oes amheuaeth nad y baledi a ymdriniai â llofruddiaethau oedd rhai mwyaf poblogaidd y ganrif...[201]

Ceir newid sylweddol o ran naws a chynnwys wrth droi at y baledi sy'n ymdrin â llofruddiaethau. Yn gyntaf, ceir dwy garfan, sef y llofrudd gwrywaidd a benywaidd a'r dioddefwr, ac o ganlyniad i hyn, ceir gwrthdaro a rhaniad emosiynol rhwng y ddau yn syth. Hawdd yw casglu mai dyma oedd un o themâu mwyaf poblogaidd y faled yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fel ei gilydd, os nad y fwyaf poblogaidd. Nid yn unig y cynigasent ddarn o newyddion pwysig, ond ceid amrywiaeth eang rhwng pob baled unigol yn dibynnu ar y llofrudd a'r llofruddiaeth yn ogystal â'r ysgogiad dros lofruddio a amrywiai o themâu megis cariad at ladrad a beichiogrwydd ynghyd â llofruddio mewn gwaed oer.

Babanladdiad

Un o'r prif resymau dros lofruddio, sy'n ymddangos dro ar ôl tro yn y baledi yw beichiogrwydd; y ferch yn beichiogi y tu hwnt i ffiniau priodasol ac ymateb y rheini a oedd yn ymglymedig â'r sefyllfa. Soniwyd eisoes am faledi lle gwelid y bachgen yn ceisio'i orau i hudo'r ferch i garu yn y gwely gan ddwyn ei gwyryfdod, ei statws a'i henw da o fewn cymdeithas. Er mor gyffredin yw beichiogi y tu hwnt i ffiniau priodasol yn yr unfed ganrif ar hugain, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd yn warth cymdeithasol na allai'r mwyafrif o'r merched ifainc ei ddioddef. Byddai esgor ar blentyn yn arwain mewn sawl achos at farwolaeth neu lofruddiaeth mewn rhyw fodd neu'i gilydd.

[201] Ben Bowen Thomas, *Drych y Baledwr* (Llandysul, 1958), 99

Ymddengys i ffasiwn a chwaeth cynulleidfa'r bedwaredd ganrif ar bymtheg newid o'r hyn a fu yn y ddeunawfed ganrif fodd bynnag oherwydd, er y crybwyllid babanladdiad, ni chrybwyllir ef yng nghyd-destun y fam yn llofruddio'i phlentyn. Er y ceir neges gyffelyb ym maledi'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ar ffurf cerddi cyngor ac ati, ymddengys i'r feirniadaeth hallt o'r merched a gyflawnai fabanladdiad ddiflannu o'r baledi. Rhaid ystyried mai'r dosbarth gweithiol oedd cynulleidfa'r baledwyr. Roedd ffafriaeth y werin-bobl yn allweddol, felly. Drwy grybwyll a beirniadu merch feichiog, ddi-briod, gallent golli arian prin. Roedd plesio cynulleidfa yn elfen hanfodol ym maledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond, er gwaetha'r ffaith nad chenid ar y thema hon, nid yw'n golygu nad oedd yn sefyllfa real iawn yn y cyfnod. Mamau a merched Cymru a dderbyniodd y feirniadaeth halltaf oll yn Adroddiad y Comisiwn Brenhinol ym 1847.[202] Ceir o leiaf chwe baled o'r ddeunawfed ganrif yng nghasgliad Cerddi Bangor sy'n sôn am fabanladdiad, ond erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ni cheir yr un faled sy'n sôn yn benodol am y thema yng nghasgliad Bangor. Yn hytrach, try'r sylw at erthylu cyn esgor ar faban, ac at ymgais y gwŷr a'r meibion ifainc i berswadio'r ferch i erthylu neu ymgymryd at y dasg eu hunain, a hynny'n ddiarwybod i'r merched.

> Dyma thema sy'n dinoethi agwedd eithafol y cyfnod [y ddeunawfed ganrif] at fastardiaeth ac ymdrechion y gymdeithas i reoli rhywioldeb y ferch ifanc, ddibriod. Cyfyd eu hatgasedd at y trosedd hwn, felly, nid yn unig o ganlyniad i'w cydymdeimlad â thynged y babanod, ond o'r ffaith na allent reoli'r merched camweddus. Ni allent reoli'r bechgyn ychwaith, o ran hynny, ond ni allent hwy fygwth y gymdeithas yn yr un modd. Y ferch dreisgar, wrth-famol oedd testun atgasedd ac ofn baledi a chymdeithas y ddeunawfed ganrif.[203]

[202] Portreadwyd y gwragedd fel creaduriad anfoesol yn yr Adroddiad hwn a chanran helaeth o wragedd Cymru yn anniwair ac yn ddylanwad negyddol ar genhedlaeth iau y genedl Gymreig.
[203] Siwan M. Rosser, *Y Ferch ym Myd y Faled* (Caerdydd, 2005), 90

Erys yr un agwedd feirniadol yn y gymdeithas tuag at ferched ifainc, di-briod yn esgor ar blant yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ymddengys i'r cerddi cyngor barhau'n lled boblogaidd, a gellir gweld o'r cerddi hynny y feirniadaeth gymdeithasol a fodolai ar hyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ac eto, cyfeirid at y merched a'r bechgyn fel ei gilydd, gan rybuddio'r naill a'r llall i beidio â phechu, a'r ddau ryw yn rhannu baich disgwyliadau cymdeithasol.

> Y Ferch geiff y c'ledi wrth feithrin ei Babi,
> Tan wradwydd a choegni, am ei brynti yn 'i bro;
> A chwitheu'n Bendefig, a chalon ddau ddyblyg,
> Er gado mewn diffyg, yn ffyrnig a'r ffô,
> Ond siwr dowch i'r fagal, oer dreial ryw dro. [204]

Fel y soniwyd yn fyr eisoes, ymddengys i arferion cymdeithasol newid rhwng y ddwy ganrif a cheisiwyd dyfeisio ffyrdd o rwystro'r plentyn rhag cael ei eni o gwbl yn hytrach na'i ladd ar ôl ei enedigaeth. Byddai hyn yn ei dro wrth gwrs yn arbed enw da'r ferch yn y gymdeithas gan na fyddai'r gymdeithas yn dod i wybod am feichiogrwydd y ferch yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, heb feddyginiaethau a gofal feddygol fodern, roedd amryw o'r ymgeision yn beryglus tu hwnt i'r ferch yn ogystal â lladd y plentyn yn ei chroth:

> All human societies have practised abortion in one form or another, and nineteenth-century working-class women were no exception. The use of abortifacient potions seems to have been more widespread than surgical intervention to remove the foetus. A study published in 1825 lists among other methods bleeding and taking emetics, cantharides (Spanish fly), mercury, powdered savin and juniper essence.[205]

Efallai yn ogystal i agwedd y merched newid erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn y ddeunawfed ganrif, mae'n bosibl y byddai'r gwarth cymdeithasol yn cymylu

[204] *Can mewn dull o gyngor i feibion a merched rhag godinebu* (1814) Cyfrol 9, Rhif 19
[205] Francoise Barret-Ducrocq, cyf. John Howe, *Love in the Time of Victoria – Sexuality, Class and Gender in Nineteenth-Century London* (London, 1991), 128

pob emosiwn neu deimlad amgen, ond erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dechreuai'r merched ystyried y sefyllfa mewn gwedd newydd. Mae'n amlwg i'r dynion orfod perswadio'r merched yn amlach na pheidio i erthylu'r baban, os gellir credu'r baledi, sy'n sôn am fechgyn yn gwenwyno merched yn ddiarwybod iddynt.[206] Ond beth oedd yn gyfrifol am y newid hwn? Gellid dadlau i'r merched ddatblygu'n feddyliol a theimlo'n llai tan rym y dyn, a meddwl drostynt eu hunan. Gwyddai'r merched y condemnid y bachgen yn gymdeithasol yn ogystal er i'w sefyllfa hithau fod yn fwy difrifol o lawer, a defnyddient y ffaith honno i'w mantais eu hunain.

> We should bear in mind that Victorian law was quite severe with seducers, who could be prosecuted with paternity orders.[207]

Teimlai'r ferch, felly, y gallai ei rwydo i briodas a fyddai yn ei dro yn cynnig diogelwch a sefydlogrwydd cymdeithasol iddi am weddill ei bywyd. Wedi'r cyfan, dyna oedd ei nod yn y pen draw, beth bynnag y dull o'i sicrhau. Delwedd negyddol a chyfrwys iawn a geir o'r ferch yn y cyd-destun hwn yn sicr. Fodd bynnag, mae'r baledwyr yn fwy eu cydymdeimlad at y merched, a chânt eu darlunio fel merched truenus a gafodd eu twyllo gan fechgyn ifanc, nwydus ac yn talu'r pris am eu gwendid a'u hymddiriedaeth mewn dynion. Fodd bynnag, nid yw'r baledwyr ar y llaw arall yn llunio'r baledi i amddiffyn y merched hyn. Yn hytrach, dangosant eu safbwynt drwy lunio baledi am weithredodd creulon y bechgyn i'w cariadon beichiog, fel yr enghraifft ganlynol sy'n dwyn y teitl, *Yn rhoddi hanes am Rys Thomas Rys, yr hwn a ddihendyddwyd yng Nghaerfyrddin, am iddo wenwyno ei Gariad, Elizabeth Jones, yr hon oedd yn feichiog o hono, trwy geisio dyfetha yr Plentyn yn y Groth*.

---

[206] *Yn rhoddi hanes am Rys Tomas Rys, yr hwn a ddihenyddwyd yn Nghaerfyrddin, am iddo wenwyno ei Gariad, Elizabeth Jones, yr hon oedd yn feichiog o hono, trwy geisio dyfetha yr Plentyn yn y Groth* (Caernarfon) Cyfrol 10, Rhif 27

[207] Francoise Barret-Ducrocq, cyf. John Howe, *Love in the Time of Victoria – Sexuality, Class and Gender in Nineteenth-Century London* (London, 1991), 131

Pan ddaeth ef a'r cryfoddion,
O Aberhonddu i'r tŷ,
Eu cynyg a wnaeth i Betty,
Eu gwrthod hwy wnaeth hi,
Gofynnodd iddi eilwaith;
Ei gymeryd wnaeth yn ffri,
Ar gownt rhoi ysgar iddi,
Nid myn'd a'u bywyd hi.

Eu diben hwy oedd cuddio,
Yr aflan bechod hwn,
Heb ystyried dim na meddwl,
Fod barn i ddod yn drwn,
A myn'd i'r farn yn fuan,
Ca'dd Betsy drwy fawr boen!
I cael ei barnu yn gywyr,
O flaen yr addfwyn Oen.[208]

Fodd bynnag, prin yw'r baledi sy'n ymdrin â'r thema hon yn uniongyrchol. Fe'i crybwyllir yn lled aml yn y baledi sy'n ymdrin â marwolaeth, ond fel is-thema neu elfen fechan o'r prif stori, fel y gwelir yn y faled, *Can alarus, sef hanes tro rhyfedd a ddigwyddodd rhwng J. Jones, o Abertawe, Mary Williams, Castellnedd, Yr hon oedd feichiog o'r dywydedig John Jones, Yr hwn a fwriadodd ei lladd, ond yr achubwyd ei bywyd yn rhyfedd, a chollodd ei fywyd ei hun*.[209] Y bwriad i'w lladd oedd prif linyn y stori, a'r tro trwstan ar ddiwedd y faled yw'r digwyddiad y canolbwyntir arno; ysgogiad i'w lladd yn unig oedd y beichiogrwydd yn hytrach na phrif ganolbwynt y faled.

Ond, er i'r thema benodol hon ddirywio mewn poblogrwydd ar ôl y ddeunawfed ganrif, ymddengys i thema arall ei disodli; thema sy'n parhau i ymdrîn â rhieni â'u plant, ond y tro hwn yn ychwanegu llys-rieni i'r cymysgedd. Ceir o leiaf hanner

[208] *Yn rhoddi hanes am Rys Tomas Rys, yr hwn a ddihenyddwyd yn Nghaerfyrddin, am iddo wenwyno ei gariad, Elizabeth Jones, yr hon oedd yn feichiog o hono, trwy geisio dyfetha yr plentyn yn y groth* (Caernarfon) Cyfrol 10, Rhif 27

[209] *Can alarus, sef hanes tro rhyfedd a ddigwyddodd rhwng J. Jones, o Abertawe, Mary Williams, Castellnedd, Yr hon oedd feichiog o'r dywydedig John Jones, Yr hwn a fwriadodd ei lladd, ond yr achubwyd ei bywyd yn rhyfedd, a chollodd ei fywyd ei hun*, Evan Davies, Cyfrol 21, Rhif 125

dwsin o faledi ar y thema hon, a delwedd y ferch neu'r llysfam yn cael ei gweddnewidio o'r ddelwedd druenus, dosturiol a geir yn y baledi sy'n sôn am fabanladdiad a beichiogrwydd. Ymddengys i'r baledwyr dynnu oddi ar thema oesol y llysfam ddrwg yn y baledi hyn, ac fe'i gwelir dro ar ôl tro yn ceisio'i gorau i waredu plant ei phriod newydd. Delwedd greulon, oeraidd a geir o'r ferch yn y baledi hyn felly; yn ddideimlad ac yn ddi-emosiwn heb unrhyw awgrym o'r darlun mamol, cariadus a oedd yn ddelwedd a bwysleisid dro ar ôl tro mewn cylchgronau megis *Y Gymraes* er mwyn datblygu'r wlad a'i phobl a'u gwareiddio.

Mae'r llofruddiaethau hyn ymysg y mwyaf erchyll yn holl faledi Cerddi Bangor. Nid yn unig y ceir disgrifio echrydus o fanwl, ond mae'r llofruddiaethau eu hunain yn ffiaidd wrth gymharu diniweidrwydd ac ieuenctid y plant â ffieidd-dra'r llofruddiaeth; ffactor sy'n fwy echrydus fyth pan ystyrir mai ffigwr famol sy'n cyflawni'r llofruddiaethau hyn. Yn y faled benodol hon, ceid hanes gwraig a losgodd ei llys-ferch mewn ffwrn oherwydd y cenfigen a deimlai tuag ati.

> Prydnawn dydd Llun trwy fawr ddychryndod,
> Ca'r ferch ddioddef poenus nychdod,
> Mewn ffwrn boeth o fflamau eirias,
> Y gorphenodd daith y lodes.
>
> Mawr oedd poen y lodes hono
> Yn y tan yn cael poenydio,
> Ond pa faint mwy y tân tragwyddol,
> I'w llys-fam boeni yn wastadol.[210]

Mae'r faled hon yn enwedig yn hynod ddiddorol ac iddi dinc eironig oherwydd barn gymdeithasol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif ar y math hwn o drosedd yn erbyn plant oedd llosgi'r llofrudd, er nad oedd hyn yn unol â chyfraith a

[210] *Can newydd yn rhoddi hanes druenus am wraig a losgodd lodes, chwech mlwydd oed, mewn ffwrn, sef ei Llys-ferch; yr hon oedd yn byw gerllaw Caerloyw, a hi a gafodd ddioddef angau, yn Nghaerloyw, Mai 1832* (Caernarfon, 1832) Cyfrol 21, Rhif 140

threfn y cyfnod.[211] Er gwaethaf creulondeb y faled hon, rhydd ddarlun gref a phwerus o'r fam. Dylid tynnu sylw at y ffaith mai yng Nghaerloyw y lleolir y faled hon, a dylid ystyried y gallai'r sefyllfa fod yn wahanol iawn yng Nghymru. Fodd bynnag, anodd yw sefydlu faint yn union o wirionedd a geir yn y faled hon, a faint ohoni sydd yn ganlyniad dychymyg a gor-ddweud anochel y baledwyr er mwyn creu sgandal ac felly cynyddu'u hincwm; ffactor sy'n berthnasol yn gyffredinol wrth drin a thrafod y baledi. Fodd bynnag, dengys pa mor bwerus yr ystyrid y wraig yn y cartref oherwydd cyn iddi gyflawni'r weithred erchyll o losgi'r ferch, gorchmynna i'r tad ei chyrchu i'r afon a'i boddi, ac yntau'n cyd-fynd â'i gorchymyn. Pan sylweddola na all ladd ei unig ferch annwyl a'i dychwelyd adref, ceid adlais o ymddiheuriad yn ei lais, er i'r cais a wnaethpwyd gan ei wraig newydd fod yn gwbl afresymol ac yn gwbl orffwyll.

> A'r wraig a ofynodd i'r gwr yn atgas,
> "Paham y daethost yn ol a'r lodes?
> "Yn wir nid allaf byth ei boddi,
> Na chwaith wneyd unrhyw niwed iddi."[212]

Yn unol ag arferiad y baledwyr o gysylltu neges y faled â'r alaw, 'Loath to depart' neu 'Anhawdd Ymadael' a ddefnyddid yn achos y faled hon. Yn sicr, ategid ac atgyfnerthid at y neges gan yr alaw hon a byddai'r perfformiad yn fwy cyfoethog o'i herwydd. Defnyddid yr alaw 'Diniweidrwydd' yn ogystal yn achos ambell un o'r baledi hyn a adlewyrcha unwaith yn rhagor y neges yn y faled.[213] Wrth reswm, chwaraea'r baledwr ar ddiniweidrwydd y plentyn o'i gymharu ag erchylltra'r llys-fam, a'r alaw yn ei thro yn adlewyrchu'r sefyllfa hon. Fel nifer helaeth o'r alawon

[211] Siwan M. Rosser, *Y Ferch ym Myd y Faled* (Caerdydd, 2005), 114
[212] *Can newydd yn rhoddi hanes druenus am wraig a losgodd lodes, chwech mlwydd oed, mewn ffwrn, sef ei Llys-ferch; yr hon oedd yn byw gerllaw Caerloyw, a hi a gafodd ddioddef angau, yn Nghaerloyw, Mai 1832* (Caernarfon, 1832) Cyfrol 21, Rhif 140
[213] Er enghraifft, *Can am y mwrdrad creulon ym Mhontardawe, D.C. sef tad-yn-nghyfraith yn lladd plentyn ei wraig trwy dori ei ben a'i gladdu wedyn yn yr ardd, lle y darganfyddwyd ef gan yr heddgeidwad*, Abel Jones, Cyfrol 32, Rhif 7

hyn, gwelir sawl alaw wahanol o dan yr un teitl, a'r rheini yn amrywio o ardal i ardal. Dangosir rhai enghreifftiau o'r arferiad a'r alawon hyn yn Ffigwr 4.4.

**Ffigwr 4.4(i) – Alaw 'Diniweidrwydd'**




**Ffigwr 4.4(ii)**



**Ffigwr 4.4(iii)**




Ymddengys mai'r prif ysgogiad dros y llofruddiaethau hyn oedd cenfigen; un o offerynnau'r diafol yn ôl meddylfryd y cyfnod, yn dod i lygru'r meddwl ac yn sibrwd drygioni i glust y llofrudd gan bydru'i gydwybod a disodli moesau a daioni crefydd Duw. Gweithred gyntaf y llys-fam yw ceisio datod y cwlwm olaf rhwng ei gŵr newydd a'i orffennol, a hynny'n cynnwys pa nifer bynnag o blant y byddai'n rhaid iddi eu lladd. Nid anarferol ydyw i'r baledi hyn ddechrau drwy amlinellu bywyd hapus y gŵr a'i wraig gyntaf sydd wrth gwrs yn amlygu ac yn ategu'r golled a'r drasiedi yn ei chyfanrwydd.

> Roedd gwr a gwraig gariadus yn barchus yno'n bod,
> Mewn ty yn y gym'dogaeth yn haeddu parch a chlod,
> A chwech o blant oedd iddynt, rai ieuainc iawn bob un
> Tri bachgen a thair geneth yn difeth fyw'n gytûn
>
> A'r gwr mewn gwych fywoliaeth mae helaeth eglurhâd,
> A'i wraig a'i blant mor hardded a neb o fewn y wlad,
> Bu'n gweithio'n llon a diwyd dros lawer blwyddyn hir,
> O fewn y plas brenhinol y Claremont, dyna'r gwir.[214]

[214] *Can newydd yn dangos fel y darfu i Mrs Brough, gwraig George Brough, lofruddio chwech o'i blant yn Esher ger llaw Llundain, Mehefin 10fed, 1854,* Trebor Mai (Llanrwst, 1854) Cyfrol 27, Rhif 5

Mewn cyfnod lle y cafwyd cymaint o ddiweithdra a thristwch rhwng gŵr a gwraig, byddai cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi perthynas ddedwydd a theulu a ymddangosai'n ddedwydd a sefydlog; rhywbeth a oedd yn eithaf prin pe credid y ddelwedd o barau priod a bortreadir yn y baledi yng nghasgliad Cerddi Bangor. Byddai'r drasiedi felly'n fwy pan gollid y wraig, angor y cartref a chanolbwynt y cariad teuluol.[215]

> Ond weithiau ynghanol bywyd, afiechyd enbyd ddaw,
> Angau a'i saethau creulon, yn llymion ar bob llaw,
> Yn nghanol parch a llwyddiant, er gwyched oedd ei gwedd,
> Fe ga'dd y wraig ei symud o'r bywyd hwn i'r bedd.[216]

Ceir pwynt penodol yn y faled hon lle y gwelir y naws yn troi o'r daionus i'r drygionus a dylanwad negyddol a milain y llysfam yn dominyddu'r naws gartrefol, gysurus a geir ar ddechrau'r faled.

> Yn mhen ychydig amser, nol iddi fyn'd yn wraig,
> Caledi wnaeth ei chalon, yn greulon fel y graig
> Gan guro'r plant amddifaid, mae'n galed dweud ar g'oedd
> Nes oeddynt a'u calonau dan wasgfa blin a bloedd.[217]

Dilynir hyn gan ddisgrifiad o'r amryw lofruddiaethau a'r naill mor erchyll ac amrwd â'r llall. Amrywiai'r llofruddiaethau o losgi merch fechan yn y tân i hollti gyddfau dau o blant â rasel cyn diweddu'i bywyd ei hun. Nid yw'r baledwyr yn petruso rhag disgrifio'r llofruddiaethau hyn mewn manylder iasol. Yn ddiau, maent yn erchyll ar lafar neu wrth eu darllen, lle y ceir amser i ddadansoddi'r geiriau a'r delweddau a ddewiswyd. Ond, rhaid dwyn i gof unwaith yn rhagor mai ar gân y'u trosglwyddwyd i gynulleidfaoedd y cyfnod. Mae'r effaith a geid yn y cyfnod felly yn ddibynnol ar y baledwr ac ar y perfformiad ar y pryd. Gellid dadlau i'r baledi a'r delfrydau hyn golli

[215] Gweler y Rhagymadrodd yn E. G. Millward (gol.), *Ceinion y Gân* (Llandysul, 1983), am ddarlun o'r wraig a'r fam yn oes Fictoria
[216] *Can newydd yn gosod allan y modd y darfu Mari Wilks, ail wraig John Wilks, lofruddio 3 phlentyn ei wraig gyntaf, ac ymgrogi wrth goeden, ar fore yr 16eg o Fawrth diweddaf, yn mhlwyf St. Mari, swydd Buckingham* (Llanerch-y-medd) Cyfrol 21, Rhif 148
[217] Ibid.

peth o'u ffieidd-dra wrth eu priodi ag alaw a sylw'r gynulleidfa'n cael ei ddenu gan yr alaw gyfarwydd a'r neges a'r manylion yn mynd ar goll ymysg y nodau.[218] Ond pan gaed baledwr gwerth chweil megis Abel Jones ar y llaw arall, gellid tybio i'r manylion hyn gael eu pwysleisio a'u dwysáu dan law perfformiad a pherfformiwr heb ei ail. Pe cenid y geiriau,

> Rol iddi ladd y plentyn hynaf,
> Hi ail ymaflodd yn yr iangaf:
> Ar Rasor lem hi dorai wddw,
> A phedwar mis oedd oedran hwnnw.[219]

gan faledwr a oedd â'r gallu i berfformio'n huawdl, byddai'r briodas hon rhwng y geiriau a'r alaw â'r gallu i daenu ias dros unrhyw un yn y gynulleidfa, yn ddynion a gwragedd fel ei gilydd. Gwelir yn rheolaidd ar draws y gwahanol themâu i'r alaw ategu at y geiriau, ac mae'n hynod gyffredin gweld enw'r alaw yn cyd-fynd â'r thema dan sylw. Mae hyn yn berthnasol i'r baledi sy'n ymdrin â llofruddiaeth yn ogystal. Alaw boblogaidd yn achos y thema hon yw 'Anhawdd Ymadael' neu 'Loath to Depart' (gweler Ffigwr 4.5 trosodd) a'r cyswllt geiriol wrth gwrs yn un amlwg wrth ystyried y modd yr ymadawai'r dioddefwyr â'r byd. Mae'r cywair lleiaf, lleddf yn ogystal yn adlewyrchu naws y faled a'r curiadau crosiet rheolaidd yn rhoi tinc ymron yn angladdol drwy gydol yr alaw. Ceir felly gyswllt a phriodas briodol rhwng yr alaw a'r geiriau a'r naill a'r llall yn ategu ei gilydd.

Er nad oedd thema babanladdiad mor boblogaidd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ag y bu yn y ddeunawfed ganrif, gwelid amrywiad arall ar y thema hon. Nid y llys-fam yw'r llofrudd y tro hwn, ond yn hytrach y fam feiolegol, ac nid babanod sy'n cael eu llofruddio, ond yn hytrach plant ifainc. Ceir naws echrydus i'r baledi hyn

[218] Rhai o'r alawon a ddefnyddid ar gyfer baledi ar y thema hon yw: 'Bryniau'r Iwerddon', 'Y Dôn Fechan' ac 'Anhawdd Ymadael'
[219] *Llofruddiaeth ofnadwy dau o blant gan ei mam*, John Jones (Caernarfon) Cyfrol 22, Rhif 67

oherwydd ni cheir dim sydd yn fwy annaturiol a dieflig na mam sydd am ladd ei phlant ei hun, a hynny heb reswm yn y byd dros gyflawni'r fath drosedd. Yr un strwythur a geir yn achos y baledi hyn ag a welwyd gyda'r baledi a oedd yn ymwneud â'r un thema yng nghyd-destun y llys-fam. Ceir naws o hapusrwydd ar ddechrau'r faled lle'r ymddengys iddynt fyw bywyd dedwydd a bodlon, ond yna try'r hapusrwydd yn drasiedi gydag ymyrraeth y diafol yn taenu cysgod llofruddiaeth dros yr aelwyd.[220] Daw'r faled i ben gyda'r llofrudd yn dod dan farn; boed hynny dan farn Duw, neu dan farn llysoedd Prydain ac yn cael ei gyfiawnder haeddiannol.

**Ffigwr 4.5[221]**




Cam-drin plant

Trosedd sydd wedi dod i'r amlwg ym mlynyddoedd cynnar yr unfed ganrif ar hugain yw cam-drin plant yn rhywiol. Ond, er mai trosedd sy'n cael ei chysylltu â'r presennol ydyw i raddau, gwelir enghreifftiau o'r drosedd hon sy'n dyddio'n ôl i'r

[220] Baled megis: *Can newydd yn rhoddi hanes am wr a gwraig oedd yn byw ym mhlwyf Cerrig Hywel, yn Sir Frycheiniog, ac fel y bu farw'r wraig ac a adawodd ddau o blant bychain, a'r gwr a brifiodd mewn godineb gyda'r forwyn, a Satan a roes ynghalon y forwyn i brynu gwenwyn i'w roddi i'r plant ymddifaid, ac fel yr ymddangosodd yspryd y wraig i ddatguddio'r weithred, ac a draethodd amryw bethau hynod*, Dafydd Jones (Trefriw, 1816) Cyfrol 9, Rhif 34

[221] Edward Jones, *Musical Relics of the Welsh Bards* (Dublin, 1800), 58

bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ceir baled sy'n crynhoi digwyddiad o'r fath gan Evan Griffiths, neu 'Ieuan o Eifion' yng nghasgliad Cerddi Bangor sy'n sôn am *Y Llofruddiaeth farbaraidd a gyflawnwyd ar gorph merch fechan, 8 oed, o'r enw Fanny Adams*.[222] Mae'n faled erchyll a sonia yn gyntaf am anfadrwydd y llofruddiaeth cyn crybwyll diniweidrwydd merched ifainc y wlad a rodiai o le i le heb gysgod drwgdybiaeth yn eu dilyn.

Aeth amryw o lodesi,
Yn heini ar eu hynt,
I deithio yn ddibryder,
Fel arfer llawer gynt;
A Fanny Adams, hefyd,
Aeth hithau gyda hwy,
Heb un o'r rhain yn meddwl,
Am drwbwl mwy na chlwy'.[223]

Mewn cyfnod lle y byddai pwnc o'r fath yn tabŵ, a dylanwad crefydd mor gryf ym Mhrydain, byr iawn fyddai'r cyfeiriad at ryw a rhywioldeb, pe'i crybwyllid o gwbl. Nid yw'r faled hon yn eithriad er iddo fod yn rhan bwysig o'r cynnwys a'r cymhelliant dros ei llofruddio.

Cyn myn'd yn mhell oddi yno,
Gwnawn gofio oll i gyd.
I gwrdd a Fanny Adams,
Daeth gwas i Suddas fyd.
A'i denu wnaeth y llofrudd,
Dig'wilydd yn y fan,
Gan wneuthur yn anfoesol,
Trwy ddiafol ar ei rhan.[224]

Er mai tabŵ oedd thema rhyw yn y dyddiau hynny, ni chyfyngid o gwbl ar y manylion sy'n ymdrin â'r llofruddiaeth. Yn wir, mae'r manylion yn iasol o fanwl. Gwelir mai trwy'r manylion hyn y trosglwydda'r baledwr ei wir ymdeimlad at y

[222] *Can alarus am y Llofruddiaeth Farbaraidd a gyflawnwyd ar gorph merch fechan, 8 oed, o'r enw Fanny Adams, ar Sadwrn, Awst 24, 1867*, Evan Griffiths (Abertawy, 1867) Cyfrol 27, Rhif 18
[223] Ibid.
[224] Ibid.

pwnc, gan gyfleu i'w gynulleidfaoedd wir ffieidd-dra'r weithred, ac amlygu pa mor ddieflig oedd y llofrudd a'r weithred a gyflawnodd.

'Nol iddi ei llofruddio,
Ei darnio yno wnaeth,
Un cymal oddiwrth gymal
O! dyma gyflwr caeth;
Ei choesau ddrylliodd hefyd,
Heb unrhyw benyd bwn:
Ei chalon dynodd allan,
Drwy Satan sur, mi wn.

Ei breichiau wnaeth yn chwylfriw,
Ofnadwy oedd ei waith,
Fe'i gyrodd mewn prysurdeb
I'r trag'wyddoldeb maith;
Gan feddwl y buasai,
Ei weithrediadau ef,
I beidio d'od i'r amlwg,
I olwg gwlad a thref.[225]

Yr hyn a bwysleisia'r baledwyr yw'r gwahaniaeth rhwng diniweidrwydd y ferch ifanc wyth oed a ffieidd-dra'r dyn a'i llofruddiodd. Crea hyn ffin amlwg rhwng daioni a drygioni, a hynny'n cael ei bwysleisio ymhellach gan bresenoldeb dragwyddol crefydd. Gwelir mai yn y baledi sy'n ymdrin â llofruddiaethau y cyfeirir at Dduw ran amlaf, a bod maddeuant yn elfen hollbwysig ynddynt.[226]

Gweddiwn ar yr Arglwydd,
Pen-llywydd nef a llawr,
Am iddo ef ein cadw,
Yn loyw bob rhyw awr;
Boed Frederick i ni'n rhybudd,
Oll beunydd dan y nen;
Gochelwn ffyrdd y diafol,
Yn unol oll, Amen.[227]

---

[225] Ibid.

[226] Gweler y baledi canlynol am ragor o faledi a gân am faddeuant a gras Duw: *Can newydd yn rhoddi hanes y twyll hynod a gyflawnwyd gan George Martin, i fyned a bywyd chwech o ferched ieuanc, gerllaw Paris, yn Ffrainc! Ynghyd a'r waredigaeth hynod a gafodd Salina Warrington*, Richard Williams (Llanrwst) Cyfrol 32, Rhif 8; *Marwnad er coffadwriaeth Mari Morgans, Gwraig M. Morgans, Ysgubor Wen, Aberdar, a ymadawodd ar fuchedd hon, Ebrill y 29ain, 1845, yn 48ain oed*, John Jones (Merthyr, 1845) Cyfrol 28, Rhif 12; *Hanes y Ty a'r Bobl a losgodd, sef Gwraig a phlentyn bach iddi, a'i Thad, yn Nhref Caernarfon, y 5ed o Fai, 1810*, Robert Morys (Trefriw, 1810) Cyfrol 25, Rhif 147

[227] *Can alarus am y Llofruddiaeth Farbaraidd a gyflawnwyd ar gorph merch fechan, 8 oed, o'r enw Fanny Adams, ar Sadwrn, Awst 24, 1867*, Evan Griffiths (Abertawy, 1867) Cyfrol 27, Rhif 18

Er y creulondeb a gaiff ei gyfleu yn y faled hon, rhaid cydnabod y rhydd wybodaeth i ni am fywyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Profa hefyd y gwelid yr un troseddau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r unfed ganrif ar hugain fel ei gilydd, er gwaethaf y newidiadau cymdeithasol. Dyn yw dyn ar bum cyfandir wedi'r cyfan.

Gwelir enghraifft yn y baledi hyn yn ogystal o ba mor llac oedd rheolau ac arferion hawlfraint yn y cyfnod. Mewn dwy faled wahanol ar ddau bwnc gwahanol, gan ddau faledwr gwahanol, gwelir ymron yr union un pennill agoriadol yn y ddwy faled.

> Chwi Gymry manol, mwynaidd rhai gweddaidd oll i gyd,
> Gwrandewch ar hyn o ganiad, yn ddifrad o'r un fryd,
> Gobeithio bydd er rhybudd, i bawb o ddynolryw
> I droi o ffyrdd y gelyn, a dilyn deddfau Duw.[228]

Wrth reswm, mae'n gyflwyniad cyffredinol a fyddai'n gweddu i nifer helaeth o faledi ar amrywiol themâu, felly gyda meddylfryd llac y cyfnod ynghylch hawlfraint, ni fyddai'n anarferol i faledwyr eraill glywed y pennill hwn a'i ychwanegu at faled ar unrhyw thema a fyddai ganddynt hwy ar y pryd. Dylid cofio yn ogystal bod dwyn 'thema' gerddorol yng nghyfnod Bach a Handel yn cael ei ystyried yn ganmoliaeth i'w gwaith. Nid oedd modd i raddau brofi pwy oedd piau'r hawlfraint gwreiddiol oherwydd brith yw'r dyddiadau ac enwau'r awduron ar y baledi hyn ar y cyfan. Fodd bynnag, ceir o bryd i'w gilydd, rybudd ar ddechrau neu ar derfyn baled a rybuddiai baledwyr eraill rhag dwyn eu gwaith, boed hynny ar ffurf pennill neu rybudd ar glawr y faled, fel y gweler isod (Ffigwr 4.6).

[228] *Can newydd yn dangos fel y darfu i Mrs Brough, gwraig George Brough, lofruddio chwech o'i blant yn Esher ger llaw Llundain, Mehefin 10fed, 1854*, Trebor Mai (Llanrwst, 1854). Fe'i gwelir yn ogystal yn y faled, *Can newydd yn gosod allan y modd y darfu Mari Wilks, ail wraig John Wilks, lofruddio 3 phlentyn ei wraig gyntaf, ac ymgrogi wrth goeden, ar fore y 16eg o Fawrth diweddaf, yn mhlwyf St. Mari, swydd Buckingham* (Llannerch-y-medd) Cyfrol, 21, Rhif 148

**Ffigwr 4.6**[229]


GAN JONATHAN JONES TRELÊCH.

Gwybydded y sawl a argraffo y gan hon heb ganiat
y cyhoeddwr, ei fod yn agored i gosp.

1. Pechod! Pechod! drwg y drygau,

Lladrata a Llofruddio

Cymhelliant gref arall i lofruddio, a welir o bryd i'w gilydd yn y baledi sy'n ymdrin â llofruddiaeth, yw lladrad. Yma, delwedd gwbl wahanol a geir o'r ferch, yn gorfforol ac yn emosiynol. Ymddengys lladrata dan ymbarél themâu amgen megis cariad yn ogystal, lle y ceir delwedd wahanol iawn o'r ferch.[230] Ond yn y cyd-destun hwn, cymeriad eiddil ac ofnus yw'r ferch ran amlaf sydd dan orthrwm corfforol y dyn sy'n ceisio torri i mewn i'r tŷ a thry'n llofruddiaeth pan ddaw'r lleidr wyneb yn wyneb â'r sawl sydd yn y tŷ gan lofruddio'r ferch ddiniwed.

> Un MARGARET JONES oedd enw'r ddynes,
> Meddai'r hynod gywir hanes,
> Ac enw ei chartref ydoedd Brymbo,
> Y 'mhlwyf Gwrexham y mae'n tario:
> Hon oedd ryw noswaith yn ei thrigfan,
> Yn llon ei mynwes,
> Heb ddyn na dynes ond ei hunain;
> Daeth atti ddyn, (medd rhai'n rhith carwr,)
> A ffals wyneb pryd,
> O draws fryd e droes yn fawr!

[229] *Can newydd yn rhoddi hanes y modd y darfu Mary Ann Brough 48 oed (yr hon ydoedd mamaeth gyntaf Tywysog Cymru ym mhalas Brenhinol Buckingham a throwyd hi ymaith oddi yno o herwydd rhyw ymddygiad anmhriodol) : o lofruddio chwech o'i phlant, drwy dori eu gyddfau ag ellyn, ac ar ol hyny, torodd ei gwddf ei hun, ond arbedwyd ei bywyd trwy ymdrech Mr Izod y meddyg, yn Esher gerllaw Llundain, boreu dydd Sadwrn Mehefin 10, 1854*, Jonathan Jones (Colwyn, 1854) Cyfrol 32, Rhif 1

[230] Gweler yr enghraifft ganlynol: *Can newydd yn rhoddi hanes y modd y darfu Margaret Edwards o Norwich, amcanu dwyn John Morris, ei gwas yn euog o ladrad: am na buasai yn ei gael yn briod iddi, am hyn y condemniwyd ef a'i drallod ofnadwy ar y 5ed o Fedi*, Richard Williams (Merthyr) Cyfrol 12, Rhif 102

Y fall a'i pricia, cym'rai'r proccer,
A dwys gilwg du ysgêler;–
Ag ar ei phen fe'i trewodd ddwywaith,
Gydâ hwn; (y du gydymaith,)
Ac at y drws fe redai'n fuan,
Ond eilwaith clywodd,
Ei gwareiddfodd lais yn gruddfan,
Yn ôl fe redai'r anial dichell,
Gydâ ei gyllell euog wallwr![231]

Er mai'r ferch yw'r cymeriad eiddil ran amlaf yn y baledi hyn, ni chyfeirid ati fel cymeriad israddol. Rhoir y pwyslais yn hytrach ar y cyfiawnder sy'n cyfateb â'r drosedd. Dylid nodi yn ogystal mai torri i mewn gan *geisio* lladd y ferch a wneir ran amlaf yn y baledi hyn. Anaml y cyflawna'r lleidr y weithred o lofruddio. Daw rhagluniaeth i dorri ar draws y weithred greulon a dod i'r fei i achub bywyd y ferch mewn rhyw fodd neu'i gilydd.

'Roedd mab yn cadw cwm'ni y forwyn heini hon,
A hwn er's pedair blynedd heb weld y lili lon;
A'r noswaith hon yn rhywfodd dygwyddodd iddo dd'od,
Mae weithiau mewn rhagluniaeth ryw beth yn mynu bod.[232]

Unwaith yn rhagor, daw'r arall fyd i ymyrryd ym mywyd y bobl, a rhagluniaeth yn llywio bywyd ar y ddaear. Dyma fotiff sy'n ymddangos dro ar ôl tro, ac yn amlwg yn fotiff a apeliai at gynulleidfa'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd ysbrydion a choelion gwlad yn elfen amlwg yn eu bywydau, a byddai crefydd a chyfiawnder yn sicr yn cysylltu â'r coelion hyn.

[231] *Hanes am lofruddiaeth, sef i fab fyned at ferch oedd yn y ty ei hunan, a'i lladd mewn modd mwyaf echryslon*, Richard Jones (Caernarfon, 1815) Cyfrol 10, Rhif 20
[232] *Can newydd yn rhoddi hanes am y modd dychrynllyd y darfu Elizabeth Whitehouse a John Whitehouse, ei Mhab, amcanu torri tŷ Edward Wilding, Yswain. Masnachwr enwog gerllaw Manchester, a bwriadu lladd Mary Spencer, yr hon oedd yn ei wasanaeth, ar nos Iau, yr 28 o Ebrill 1831. Am hyn eu dihenyddiwyd boreu ddydd Mawrth, yr 2 o Awst, 1831.* R. Williams (Caernarfon, 1831) Cyfrol 12, Rhif 78

Morwynion

Cymeriad a ymddengys dro ar ôl tro ym maledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yw'r forwyn. Wrth reswm, byddai'n gymeriad canolog ym mywydau trigolion y dosbarth gweithiol yng nghefn gwlad ac yn nhrefi Cymru oherwydd roedd yn swydd a gyflawnai nifer helaeth o ferched ifainc, di-briod y cyfnod. Er gwaethaf statws israddol y forwyn o fewn cymdeithas fodd bynnag, ni chyfeirir ati felly yn y baledi. Yn hytrach, i'r gwrthwyneb. Fe'i gwelir dro ar ôl tro yn dioddef o achos cyfrinachau'r teulu y gweina arnynt, gan gadw'u cyfrinachau tywyll, ac yng nghyd-destun teuluoedd cyfoethog y ddinas, yn amddiffyn y cartref pan fyddent yn gadael y trefi a'u cartrefi moethus am gyfnodau meithion i fynd i'w cartrefi eraill ledled y wlad. O'r holl gymeriadau, ac eithrio'r plant, gellid ystyried mai hi yw'r cymeriad sydd fwyaf agored i fygythiadau a pheryglon; peryglon megis trais, lladrad a llofruddiaeth.

> Paradoxically, bourgeois houses were ideal locations for these attacks. In the attics, basements and backstairs of the Victorian home, that haven of peace and security, housemaids were in permanent contact with a male population whose intentions were often bad.[233]

Yn ogystal â'r peryglon corfforol, byddai gofyn i'r forwyn aberthu ei henw da o bryd i'w gilydd o fewn cymdeithas, er lles y teulu y gweina arnynt. Mae llenyddiaeth y cyfnod yn frith o foneddigesau yn datguddio'u cyfrinachau pennaf i'r forwyn a disgwylid iddi gadw'r gyfrinach honno hyd ei marwolaeth. Rhaid cofio mai merched tlawd, cyffredin oedd y morynion hyn, ac ni allent feddwl herio teulu uwch ei stad na hithau, a byddai'r llysoedd yn eu tro yn annhebyg o gymryd gair merch gyffredin dros air bonheddwr neu fonesig. Dyna pam y dewisai cyfran helaeth o ferched a gâi eu cam-drin gan eu meistri gelu a dioddef gwarth cymdeithas yn hytrach na'u herio. Roedd y forwyn i raddau yn fwch dihangol i ddrygioni ac annoethinebau'r teulu.

[233] Francoise Barret-Ducrocq, *Love in the Time of Victoria – Sexuality, Class and Gender in Nineteenth-Century London*, 47

Gwelir un enghraifft lle yr aethai merch ieuengaf y teulu ar oferedd wedi cyrraedd ei harddegau ac esgor ar blentyn a'r forwyn gyflog a fu'n gwasanaethu gyda'r teulu am bum mlynedd, yn taflu'r plentyn newydd-anedig i bair o ddŵr berwedig, ac yn cael ei dienyddio am y weithred.

> Hi attebai'i mam ei hunan dan gablu'n aethus iawn,
> Duw ddamnio nghorff am henaid i uffern boeth yn llawn
> Dos arnaf fi mo'r beichiog, mam anwyl coeliwch fi,
> Cyn delo byth oddi yma fe fraena yn y bru.
>
> Fe ro'es ei mam orchymyn i forwyn bena'i thad
> Oedd gyda hi yn cysgu i'w waitio yn ddinacad.
> Ond gwadu'r oedd hi'n aethus, a dal i hyny o hyd,
> A'i morwyn yn ei watsio nes daeth y babi i'r byd.
>
> Cydunai'r ferch a'r forwyn am ugain gini'n llawn,
> Roi'r baban ieuangc gwanaidd mewn pair berwedig iawn.
> Ac wrth roi'r baban ynddo a'r tan yn fflamio fry,
> Daeth dychrynfeydd ofnadwy i'w chorff a'i chalon hi.[234]

Fe'i gwelir mewn baled arall, yn amddiffyn y cartref rhag wyth o ladron.[235] Gwelir felly yr arwres yn dychwelyd yn y thema hon a'r forwyn yn cael ei dyrchafu'n gorfforol uwchlaw wyth o ddynion. Yn sicr, ceir digon o faledi a ddyrchafai'r forwyn gorff ac ysbryd,[236] a byddai'r baledi a fyddai'n dyrchafu enw da'r forwyn yn amlwg yn thema a fyddai wedi apelio at gynulleidfa fenywaidd y cyfnod.

Fodd bynnag, ceir awgrymiadau i'r gwrthwyneb o bryd i'w gilydd, fel y faled a grybwyllwyd uchod am y forwyn a laddodd y baban mewn pair o ddŵr berwedig. Dengys pa mor dlawd oedd cymdeithas y cyfnod gyda'r forwyn yn fodlon cyflawni unrhyw orchest i ennill ychydig o arian. Ceir yn ogystal un faled yng nghasgliad

[234] *Can newydd er coffadwriaeth am ferch i ffermwr enwog, o King's Court, Plwyf Headland, yn Swydd Gaerwrangon*, James Thomas (Caerfyrddin) Cyfrol 22, Rhif 88
[235] *Merch ieuangc o flaen Sir Fynwy. Yr hon a laddodd wyth o ladron wrth iddynt geisio'i hyspeilio hi yn yr Hafotty* (Caernarfon, 1819) Cyfrol 10, Rhif 50
[236] *Can o glod i weision a morwynion ffarmwyr Cymru*, Abel Jones, Cyfrol 22, Rhif 151

Cerddi Bangor sydd yn cyfeirio'n benodol at y forwyn, sef *Can am forwyn ryfedd*.[237] Delwedd wahanol iawn a geir o'r forwyn yn y faled hon; nid ei dyrchafu a'i chanmol a wna'r baledwr, ond yn hytrach ei gwatwar a'i beirniadu am fod mor ddiog a brwnt. Rhestra'i diffygion fel morwyn a'r manylion am eu hesgeulustod yn ymylu ar fod yn fochynnaidd.

> Pryd byddai'r hen feuden yn gwneuthur pryd bwyd
> Hi chwythai thrwyn drewllyd i'r potes mae'n wneyd,
> A gwneuthur y potes yn erchyll rhy hallt,
> Ac uwd o fran ferwodd a deuwyd i'w dallt.
> ...
> A'i dannedd fel dannedd 'rhen ogau Shon Prys
> A'i choesau yn noethlwm a budr ei chrys,
> Rhyw unwaith bob tymor mae'n molchi ei hun,
> Mae chroen a'i holl ddillad yn warth i bob un.[238]

Yn eironig ddigon, cenid y faled gan 'Forwyn o'r Plwy'. Os merch a'i lluniodd, beth a awgryma hyn am feddylfryd fenywaidd y cyfnod? Ymddengys i'r dynion gefnogi a dyrchafu'r merched yn y baledi, ond yn y faled hon, caiff ei beirniadu, gymeriad ac ymddangosiad, a delwedd afiach a geir o'r ferch ar y cyfan. Ar y llaw arall, mae'n bosibl mai dyn a'i lluniodd gan greu baled hwyliog, dafod-ym-moch. Mae'n bosib hefyd wrth gwrs, bod morwyn o'r fath yn yr ardal ar y pryd, a'r gymdeithas wedi blino ar ei harferion mochynnaidd ac yn ei chosbi yn y modd mwyaf amlwg ar goedd gwlad. Ond, beth bynnag fo'r rheswm, delwedd negyddol tu hwnt a geir o'r ferch yn y faled hon.

Gwelid fod crefydd yn hollbresennol yn y baledi sy'n ymwneud â marwolaeth a llofruddiaeth ac wrth reswm, daw cyffes a maddeuant yn elfennau annatod hefyd wrth

[237] *Can am forwyn ryfedd, yr hon sydd yn gwneuthur pob peth yn groes i'r peth a ofynir iddi* (Cymru) cenir gan Forwyn o'r Plwy', Cyfrol 24, Rhif 142
[238] Ibid.

gyd-gerdded â phechodau o'r fath.[239] Yn sicr, ni ellid osgoi dylanwad crefydd ar wragedd a dynion fel ei gilydd, a'r presenoldeb hwn yn ddylanwad trwm ar y baledwyr ac ar y baledi. O bosib, gellid dadlau i'r merched boeni'n fwy am eu statws a'u henw da o fewn cymdeithas o'u cymharu â'r dynion. Gellid casglu hyn o'r baledi cyffes, lle gwelir y dynion ran amlaf yn cyffesu eu pechodau ac yn ildio i farn a chyfraith gwlad yn ogystal â barn Duw. A oedd y dynion yn poeni'n fwy am uffern a materion haniaethol tra bod y merched yn poeni'n fwy am eu broblemau diriaethol ac ymarferol? Ar y llaw arall, yr oedd canran uchel o aelodau'r capel yn ferched, sy'n awgrymu i'r gwrthwyneb. Gellir casglu i'r merched ddioddef yn fwy o bosib, yng nghyd-destun trais, camdriniaeth, tlodi, plant a theulu a baich bywyd yn gyffredinol; nhw oedd y dioddefwyr ran amlaf, tra bod y dynion yn gwadu ac yn gwrthod cydnabod eu dyletswyddau. Nid yw'n ddieithriad wrth gwrs, fel pob peth arall, ond yn gyffredinol, dyma'r patrwm arferol yn y baledi, sef tuedd i'r ferch ddioddef dan law y dyn.

Mae'n amlwg i'r baledi hyn o gasgliad Cerddi Bangor fod yn boblogaidd oherwydd ymysg y baledi Cymraeg, ceid ambell enghraifft Saesneg a fyddai wedi lledaenu'r stori a'r faled ymhellach fyth (gweler Ffigwr 4.7 trosodd). Beirniadaeth gyson ar lenyddiaeth a cherddoriaeth gynhenid Gymraeg yw'r ffaith mai cynulleidfa gyfyng yn unig y gellir ei chyrraedd, ond ymddengys i rai baledi a baledwyr groesi'r ffin honno

[239] *Can newydd yn rhoi hanes cyflawn am gyffesiad Dafydd Evans am lofruddiaeth ei gariad, Hannah Davies, y llofruddiaeth hon a gyflawnodd ar nos Sadwrn, Mehefin 13, 1829, ar fynydd Pencareg, ac am ba un ei ddienyddiwyd yn Nghaerfyrddin, ar y 21ain o Fedi canlynol – wedi esgyn o hono y tro cyntaf i'r grogbren, syrthiodd rhyw bethau perthynol iddi a chwympodd i lawr, pryd ygwridiodd ei wyneb, ac yr haerai yn ddifrifddwys* nad *oedd crogi ddwywaith yr un trosedd eithr gorfod arno ail-esgyn i'r pren dyoddef, ac yn fuan trosglwyddwyd ef i* dragwyddoldeb, Stephan Jones (Llanrwst, 1829) Cyfrol 12, Rhif 54; Yn *rhoddi gwir hanes am echryslawn lofruddiaeth ar gorph un George Murray, Ffarmwr yn Mhentref Hankelow yn agos i Nantwich, yn Sîr Gaerlleon. Ar foreu Sul, Ebrill 12fed, 1812. Yr hon weithred a gyflawnwyd gan ei wraig ei hun a'i wâs, yr hwn trwy gyngor ei feistres, a unodd a hi, fel y caent hwythau ill dau briodi*, Glan Conwy (Trefriw, 1812) Cyfrol 11, Rhif 49

a fyddai wedi cynyddu gwerthiant eu baledi ac ehangu'u incwm drwy gyfieithu a chyfansoddi yn Gymraeg ac yn Saesneg fel ei gilydd.

Profa'r toreth o faledi Cymreig a oroesodd ar y thema hon eu poblogrwydd digamsyniol yng Nghymru. Yng nghyd-destun y ferch, cymysglyd iawn yw'r ddelwedd gyffredinol a geir ohoni; amrywia o'r creulon i'r ystyrlon, i'r diniwed, gan ddychwelyd yn ôl at y ddelwedd arwrol a welwyd yn y baledi serch yn y bennod flaenorol. Ond rhydd pob delwedd haen newydd o bersonoliaeth ar gynfas bratiog y ferch yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a'r amrywiadau'n ategu at ei phersonoliaeth a'i chymeriad ac yn cymell adwaith o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r unfed ganrif ar hugain fel ei gilydd.

Ni ellid ysgrifennu am fywyd beunyddiol y ferch neu'r wraig mewn unrhyw gyfnod heb gynnwys manylion am ei bywyd carwriaethol a phriodasol, ac yn sicr, ni ellid hepgor ffasiynau'r cyfnod. Fel nifer fawr o'r themâu eraill ym myd y baledi, ychydig iawn o wahaniaeth a geir rhwng y syniadau a'r materion dan sylw ym maledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r materion a ddaw dan sylw yn newyddion a phapurau newydd yr unfed ganrif ar hugain; materion megis diota a'r effaith a geir ar y wraig a'r gŵr, ffasiynau cyfoes, a materion ariannol y cartref. Dyma'r themâu dan sylw yn y bennod hon, a'r themâu hynny yn ddiau yn elfen anhepgor o fywyd gwerinol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Byddai canran helaeth o'r boblogaeth yn briod yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er gwaethaf yr eithriadau sydd wedi'u trafod eisoes yn y penodau blaenorol.[240] Roedd yn dilyn felly i nifer o faledi ymdrin â bywyd priodasol a'r materion a godai o'r bywyd hwnnw. Fel pob cyfnod hefyd, roedd y ffasiynau cyfoes yn amrywio'n sylweddol ac arferion cymdeithasol yn addasu gyda'r oes. Ymddengys i'r materion hyn apelio at y baledwyr a chenid yn ffraeth ac yn ddiddorol amdanynt yn y cyfnod.[241]

Crybwyllwyd eisoes yn gryno am briodasau a'r bywyd priodasol ond yng nghyd-destun y caru a'r canlyn cyn y briodas. Yn y bennod hon, eir i'r afael â bywyd priodasol yn ei hanfod; hynt a helynt y berthynas a bywyd priodasol y werin bobl yn y cyfnod. Yn ddi-os, roedd yn rhan annatod o fywyd gwerinol, traddodiadol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac felly, wrth reswm, yn rhan ganolog o themâu'r baledwyr. Mae'n ffaith gyffredinol fod y thema hon yn gyfrwng delfrydol i ddiddanu cynulleidfa oherwydd y doniolwch digamsyniol a gynigai'r testun a gallai'r

[240] Eithriadau megis y merched sengl hynny a ddewisodd fyw bywyd heb ŵr wrth ei hymyl, er enghraifft, *Ymddiddan rhwng dwy gymdoges, sef Gwen a Mari, bob yn ail bennill, un am briodi a'r llall am beidio*, R. Williams (Caernarfon), Cyfrol 21, Rhif 84

[241] Rhai o'r baledwyr a ganai'n doreithiog ar y thema hon oedd Dafydd Jones, Richard Williams a Dafydd Amos.

gynulleidfa uniaethu â'r straeon ac uniaethu â'r profiad a chael mwynhad yn y profiad hwn.

Barn ac agwedd gymysg a geir at briodas yn y baledi dan sylw.[242] Dylid cofio bod nifer helaeth o'r baledwyr yn briod â theulu a phriod gartref yn ceisio cadw dau ben-llinyn ynghyd. Er gwaethaf poblogrwydd y baledwyr wrth berfformio, caent eu beirniadu'n hallt am grwydro'r wlad tra oedd eu teuluoedd gartref yn gwingo yn erbyn hualau a heriau bywyd tlawd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyma bwt o gerdd gan fardd buddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1877 ar y pwnc 'Y Baledwr Pen Ffair' sy'n croniclo'r agwedd gyffredinol tuag at faledwyr, yn enwedig o du'r dosbarth barddol uchel-ael:

> Mae'th enw, faledwr, trwy Gymru yn warth,
> A'th briod a'th blant yn newynog.
> Dos adref i weithio, i'w cadw yn glyd,
> A gad dy ffug-ganu a'th ddwndwr;[243]

Mae hi braidd yn eironig bod y baledwyr hyn yn sylwebu ac yn canu am fywydau a phroblemau priodasol eraill tra'u bod hwythau yn crwydro'r wlad, a'u teuluoedd gartref heb eu cefnogaeth. Nid yw'n syndod felly i'r agweddau at briodi a'r bywyd priodasol amrywio'n sylweddol o'r naill faledwr i'r llall, ac o'r naill thema i'r llall.

Ymddengys mai agwedd bur negyddol a geir ar y cyfan cyn priodi, yn enwedig o safbwynt y bechgyn sengl. Ceir baled a gynigia gyngor i fechgyn ifainc rhag priodi,[244]

---

[242] Ceir y gwahaniaeth pennaf rhwng yr agweddau at briodas yn yr ymddiddanion ar y pwnc, er enghraifft *Ymddiddan rhwng mab a merch ifangc, neu'r cerlyn ynghylch priodi* (Trefriw, 1800), Cyfrol 8, Rhif 15; *Can ofidus, sef hanes teimlad hen ferch weddw yn methu cael gwr* (Llanidloes), Cyfrol 12, Rhif 11; *Cerdd o ymddiddan rhwng gwr a gwraig; y rhai oeddynt wedi ymadael â'u gilydd*, J. Hughes (Caernarfon), Cyfrol 22, Rhif 44

[243] Dafydd Owen, *I Fyd y Faled* (Dinbych, 1986), 238

[244] *Cyngor i beidio a phriodi*, Abel Jones, Cyfrol 28, Rhif 48

a baledi eraill a sonia am wendidau'r merched fel gwragedd o'r safbwynt gwrywaidd.[245] Yn y faled a gyniga gyngor i fechgyn rhag priodi, traetha'r baledwr, Abel Jones, 'Bardd Crwst', o'i safbwynt ef ei hun.

> Fechgyn mwyn coeliwch chwi,
> Fod yn well i rodio'n ffri
> Na phriodi'r un hen ladi,
> Cas a meddw fel gwneis i.[246]

Tynna ar yr holl ragfarnau ac ystrydebau a nodweddai'r wraig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'u gosod yng nghyd-destun ei briodas ei hun. Darlunia bob un wraig â'r un brws ystrydebol fodd bynnag. Sonia am arferiad poblogaidd y gwragedd o yfed te a chlebran yn nhai ei gilydd, yn ogystal â'u beio am orfodi'r gŵr i weithio er mwyn eu cynnal hwythau mewn byd cyfforddus ac ymron yn foethus o gofio eu statws cymdeithasol gwerinol.

> Pwy brioda y gwiberod,
> Sy'n llawn twyll o'u traed i'w tafod;
> Gwell yw rhoddi chwech mewn angen,
> Nag ymrwymo ag un gangen, &c.
>
> Ar ol iddynt hwy briodi,
> Ni wnant ddim ond cario eu babi
> O dy i dy i ddywedyd celwydd
> A hel straeon wnant hwy beunydd, &c.
>
> Mae llawer gwr yn gweithio'n galed
> I gadw parsel o hen ferched
> Wrth eu te a'u brau deisienau,
> A gwel'd eu gwyr yn llwm eu cefnau, &c.[247]

Yn sicr, mae'n diferu o chwerwedd at wragedd a gwelir iddo orffen yn nhraddodiad y baledi cyngor â phennill o rybudd i fechgyn y wlad:

> Cofiwch fechgyn ieuainc beunydd,
> Am ei gyngor e'r hen brydydd;

[245] *Ymddiddan rhwng dau o wyr am eu Gwragedd*, John Davies, Cyfrol 12, Rhif 119
[246] *Cyngor i beidio a phriodi*, Abel Jones, Cyfrol 28, Rhif 48
[247] Ibid.

Cyn y gwnewch ag un briodi,
Cofiwch gerdd y Bardd a'i Ladi, &c.[248]

Ymddengys i'r chwerwedd a'r atgasedd hwn at ferched ledaenu ar draws baledi Abel Jones. Ceir baled arall ganddo yng nghasgliad Cerddi Bangor a rydd ddelwedd ryfedd o ferched Cymru, sef *Hanes dwy ferch ieuangc o'r fro hon a wisgodd eu hunain mewn dillad meibion, a myned i blasdy i garu at ddwy ferch ieuangc, rhai dyeithr iddynt.*[249] Ond ymddengys mai'r merched hynny a oedd wedi croesi ffiniau diniwed plentyndod ac yn fenywod nwydus yn chwilio am ŵr a goda'i wrychyn. Ysgrifennodd faledi am ferched ifainc yn cael eu llofruddio a thosturia wrth y merched ifainc hynny, *Mwrdradau Arswydus Yn Whitechapel, Llundain, Sef Llofruddiaeth Ysgeler Chwech o Ferched Anffortunus, sef Emma Elizabeth Smith, Martha Tabram, Annie Chapman, Mary Ann Nicholas, Elizabeth Stride a Elizabeth Watts, gan ddihyrun anadnabyddus*.[250] Gwelir agendor rhwng y faled hon a'r faled a rydd gyngor i fechgyn ifainc. Elfen amlwg sy'n gwahaniaethu'r ddwy yw'r ffaith iddo barchu'r merched yn ddigonol yn y faled hon i'w henwi un ac oll yn y cyflwyniad; arwydd cadarn ei fod am eu cofio a'u coffáu yn deilwng, sy'n wahanol i'r agwedd sarhaus, israddol a geir yn y faled gyngor i fechgyn Cymru. Crisielir yr agendor hwn rhwng y merched a'r gwragedd yn y faled, *Can newydd sef teimlad geneth ymddifad ar ol ei mam, yr hon sydd yn y bedd, a hithau dan lywodraeth Llysfam.*[251] Yn ddiau, ffigwr annymunol eithriadol yw'r llysfam yn y baledi, ond gwelir cydymdeimlad y baledwr yn amlwg â'r ferch amddifad, a'r chwerwedd wedi'i anelu at y llysfam fileinig.

[248] Ibid.
[249] *Hanes dwy ferch ieuangc o'r fro a wisgodd eu hunain mewn dillad meibion a myned i blasdy i garu at ddwy ferch ieuanc, rhai dyeithr iddynt*, Y Bardd Crwst, Cyfrol 24, Rhif 158
[250] *Mwrdradau Arswydus Yn Whitechapel, Llundain, Sef Llofruddiaeth Ysgeler Chwech o Ferched Anffortunus Sef Emma Elizabeth Smith, Martha Tabram, Annie Chapman, Mary Ann Nichols, Elizabeth Stride a Elizabeth Watts, gan ddihyrun anadnabyddus*, Abel Jones, Cyfrol 32, Rhif 7
[251] *Can newydd sef teimlad geneth ymddifad ar ol ei mam, yr hon sydd yn y bedd, a hithau dan lywodraeth Llysfam*, A. Jones (Caernarfon), Cyfrol 21, Rhif 182

Dylid cofio'n ogystal bod 'Y Bardd Crwst' yn un o faledwyr mawr y cyfnod, nid baledwr llwyn a pherth mohono. Byddai ei faledi felly yn cael eu hystyried o ddifrif, ac o bosib, byddai dylanwad ei neges yn sylweddol ar gynulleidfaoedd y cyfnod. Wrth reswm, nid oedd pob baledwr yn rhannu'r un farn ag Abel Jones, ond yn sicr, roedd yn unigolyn digon dylanwadol i leisio'i farn yn ddi-ofn. Dylid dwyn i gof yn ogystal y byddai nifer o'r baledi yn cael eu canu droeon gan faledwyr gwahanol, felly câi'r neges ei lledaenu ar draws y wlad; ffactor a fyddai wedi digio rhai Cymry a oedd â'u bryd ar sefydlu gwlad waraidd, ddomestig.

Roedd gan y baledwyr ddiddordeb a oedd ymron yn obsesiwn gyda merched ifainc, sengl, ac er gwaethaf yr amrywiol ddelweddau a geir ohonynt fel cymeriad, rhydd wybodaeth amhrisiadwy i gynulleidfa'r unfed ganrif ar hugain ynghylch y math o gymeriadau benywaidd a fodolai yn y cyfnod. Wrth reswm, nid oedd pob merch yn dda, ac nid oedd pob merch yn filain ond drwy law a llais y baledwr, gellir creu trawstoriad o'r cymeriadau a gythruddai ac a garai'r baledwyr ym mywyd domestig y genedl, ac o fewn clymau priodasol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Baledi eraill a oedd yn lled boblogaidd yn y cyfnod yn ogystal oedd y baledi rhwng y gwahanol genedlaethau, yn enwedig y rheini rhwng yr wyres a'r fam-gu neu'r tad-cu.[252] Yn rhyfedd, ni cheir baledi sy'n cyfleu perthynas mam a merch yn y casgliad. Yn hytrach, ymddengys i'r berthynas ganolbwyntio ar y fam-gu neu'r tad-cu a'r cyngor yn dod o'u tu hwythau. Mae'n bosib y deisyfai'r baledwyr gyfleu doethineb oedran, gan feddwl yr ystyrid cyngor oddi wrth genhedlaeth hŷn na mam neu dad yn fwy doeth gyda threigl amser yn eu cefnogi. Fodd bynnag, rhydd y baledi gryn

[252] *Ymddiddan rhwng hên ŵr a'i ferch yn nghylch priodi*, R. Williams (Llanrwst) Cyfrol 12, Rhif 30; *Can newydd o ymddiddan rhwng Cadi Sion Dafydd a'i Nain yn nghylch priodi*, Richard Williams (Llanrwst), Cyfrol 12, Rhif 37

wybodaeth am rôl y wraig a'r fam a'r hyn a ddisgwylid oddi wrthi o fewn y briodas. Gwelir, wrth i'r fam-gu geisio perswadio'r ferch ifanc i bwyllo cyn priodi, y teimla i'r gwaith fod yn rhy anodd i ferched ifainc, byrbwyll.

I beth mae'r wiber hagar hyll,
Yn sefyll yma'n syth,
I senu a mi i son am ŵr,
Sydd beth na chaiff hi byth;
Ni fedri di ddim clytio'n dda,
Na thrwsio hosana'n siwr,
Os cai di fodrwy am dy fys,
Na golchi crys y gwr.
Yr un ddiras, &c.

Wel celwydd mawr a ddywedwch chwi,
Mi ddysgais olchi'n dda,
Mi fedraf smwddio'i grysau main,
Os gwel'd y rhai'n a ga',
Mi ddysgais hefyd glytio'n dda,
Mi weua sana'n siwr,
Ond ydyw'n gwilydd, meddwch chwi,
Fy rhwystro i garu gŵr.
Y fi sy'n glaf, &c.[253]

Dywed llais profiadol 'Nain' yn y faled hon heb os na ddylai'r ferch briodi am rai blynyddoedd eto. Rhydd y ferch ifanc ddelwedd ramantaidd, freuddwydiol am fywyd priodasol; y cwmpeini a'r cariad a llond aelwyd o blant iach a dedwydd. Ysa am ddod o hyd i'r dyn delfrydol 'I chwarae'r delyn rawn'[254] a'i charu, ond ymateba ei nain i'r ddelfryd hon drwy ei gwawdio a gwatwar ei syniadaeth naïf. Gyda phob delwedd draddodiadol o'r bywyd priodasol delfrydol o du'r ferch ifanc, daw'r nain a'u difetha â dŵr oer sinicaidd. Adlewyrcha ddadl ac agwedd y ferch cymaint yr oedd pwysau cymdeithasol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi sicrhau bod meddylfryd y genhedlaeth iau wedi'i addasu i'r bywyd domestig; bywyd o fagu plant gyda gŵr wrth ei hochr − y wraig ddelfrydol. Câi'r ddelfryd hon ei chwestiynu gan ei mam-gu fodd

[253] *Ymddiddan rhwng Cadi Sion Dafydd a'i Nain yn nghylch priodi*, R. Williams (Llanrwst), Cyfrol 12, Rhif 37
[254] Ibid.

bynnag fel y gwelir yn y faled uchod. Rhaid cwestiynu fodd bynnag faint o wirionedd sydd yn ymateb y nain. A ydyw wedi'i suro gyda blynyddoedd caled y bedwaredd ganrif ar bymtheg? Pam iddi fod mor chwerw tuag at briodas? Ai dyma oedd y sefyllfa mewn gwirionedd neu ai llais y baledwr a'i fywyd rhanedig sy'n dod i'r wyneb yma? Ai dyma oedd dyhead a meddylfryd y baledwr?

Rhaid cydnabod nad oedd bywyd yn hawdd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda thlodi ac amodau bywyd anodd, yn enwedig â theuluoedd mor fawr, yn heriol a dweud y lleiaf. Gwelir yn ogystal i ddelfryd y ferch ifanc fod yn hynod o naïf mewn gwirionedd. Ni ellir gwadu mai priodas oedd y cam naturiol i ferched a bechgyn fel ei gilydd yn gyffredinol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fel rheol, byddai cyplau ifanc yn briod erbyn iddynt fod yn bymtheg neu'n un-ar-bymtheg oed. Ni thrafodir ysgariad ychwaith ac ni chrybwyllir y mater yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, hyd yn oed wedi 1857 pan y'i gwnaethpwyd yn gyfreithiol i barau priod ysgaru pe mynnent. Yr hyn sy'n ddiddorol yw nodi agwedd y nain at briodas o'i chymharu â'r ddelwedd draddodiadol. Ceir ymron haen arall i'r faled hon gydag is-lais y llywodraeth a'r wlad yn canu clodydd priodi a magu teulu drwy lais y ferch ifanc, a llais realiti yn dod yn llais yr hen wraig yn ysgwyd ei phen ac yn cydnabod yr her a'r anawsterau a geir o fewn priodas yn y cyfnod:

> Wel taw a'th fwsdwr, yr hen fuwch,
> Rhag c'wilydd cau dy geg,
> Pan ddelo chwech neu saith o blant,
> Ni fydd dy dôn mor deg;
> Mae arnaf flys dy ddyrnu di,
> Cei brofi pwysau pren,
> Oes yma ryw un mor ddi rôl
> A'r afr dra ffol ei phen?
> Mae'n well i chwi, &c.

Caf fwy ddifyrwch gyda dyn,
Na byw fy hun o hyd,
Cael yfed tê ar hyd y tai,
Y'mysg gwragedd gore'u gyd,
A baban serchog ar fy mron,
Yn llon a phob gwellhad;
A phawb yn d'weud yn ol eu dawn,
Mae'n debyg iawn i'w dad.
Y fi sy'n glaf, &c.[255]

Llais cwynfanus sydd gan y merched yn y cyd-destun hwn yn sicr; cwyno eu bod yn sengl ac yn cwyno eu bod am briodi. Sonia'r baledi am ferched ifainc eraill yn yr ardal sydd o'r un oedran â hwy, ond eu bod hwythau wedi priodi ac yn esgor ar blant tra bod y ferch dan sylw yn y faled yn dal i chwilio am ŵr, ac yn methu. Mae'r bechgyn ifainc ar y llaw arall yn fwy petrusgar o lawer ynghylch priodi. Gwelir enghraifft o dair baled o leiaf sy'n ymdrin â bechgyn yn cwyno am eu gwragedd yng nghasgliad Cerddi Bangor a rhagor ymysg y gweddill sydd yn crybwyll y testun yng nghorff y faled.[256] Er i'r gwragedd riddfan a chwyno am fywyd priodasol, ymddengys i'r gwŷr priod fod yn fwy cysurus a bodlon eu byd o lawer na'u gwragedd. Ymddiddanion a geir yng nghyd-destun barn y bechgyn am briodas a chariad, a dwy ohonynt yng nghasgliad Cerddi Bangor.[257] Mae'r gŵr priod yn canu am yr hyfrydwch a'r hapusrwydd a geir mewn priodas a'r bachgen sengl yn canu am ragoriaethau bywyd rhydd a'r anfanteision o briodi a'r diflastod a geir mewn priodas anhapus, fel y gwelir yn y faled hon. Dic sydd o blaid ei fywyd sengl, rhydd, tra bo Wil yn amddiffyn ei wraig a'i fywyd priodasol dedwydd:

[255] Ibid.
[256] *Can newydd, sef achwyniad Shon Morris Griffith, o herwydd iddo briodi gwraig annrhefnus*, R. Williams (Llanrwst,) Cyfrol 12, Rhif 100; *Ymddiddan rhwng dau o wyr am eu gwragedd*, John Davies, Cyfrol 12, Rif 120
[257] Y ddwy faled a geir yng nghasgliad Cerddi Bangor yw, *Ymddiddan rhwng dau o wyr am eu gwragedd,* a *Can o ymddiddan rhwng Wil a Dic, ynghylch priodi, Y mae Wil yn dangos rhagoroldeb Gwraig, a Dic yn egluro ei gwendidau, gan ddewis byw'n rhydd,* Dafydd Amos, (Caerfyrddin), Cyfrol 22, Rhif 28

Dic. Gwragedd digllon sydd echryslon,
A'u cynghorion chwerwon chwith,
Dilyn dwli, bario, a berwi,
Ac heb fedru tewi byth;
Mae'n beth enbyd gwerthu rhydd-did,
A phrynu hefyd fywyd prudd,
Nid âf i ymrwymo, rhag f'andwyo;
Melus teimlo dwylo rhydd.

Wil. Ni wna rhydd-did ond dy wnaethyd
Yn segurllyd ynfyd tost,
Gwneud direidi mewn cwmpeini,
Ymladd, meddwi, rhoddi 'ffrost;
Treulio'th amser mewn diffrwythder,
Dilyn pleser ofer gwael,
Rhodd ddaionus yw gwraig fedrus,
Ddoeth, ddeallys, hwylus, hael.[258]

Ceir dwy ochr y geiniog yma felly a fyddai wedi chwarae ar deimladau a barn y cynulleidfaoedd. Ar y naill law, gwelant holl rinweddau'r wraig a'r cariadon a garant; eu gofal, eu hiwmor a'u prydferthwch. Ond ar y llaw arall, amlygir eu gwendidau gan ddinoethi'u holl ffolineb a'u harferion cas. Byddai cynulleidfa fenywaidd yn ogystal wedi'i rhwygo wrth wrando ar faled o'r fath oherwydd ar y naill law, fe'u canmolid, ond ar y llaw arall wrth gwrs, beirniadwyd eu harferion a'u gwatwar yn gyhoeddus.

Darlun truenus a geir o'r hen ferched a'r hen lanciau dibriod ar y cyfan, a'r naill yn casáu bywyd heb ŵr neu wraig. Ond, yn y cyd-destun hwn, ymddengys mai'r merched yw'r cryfaf o'r ddau ryw o ran y bywyd domestig o ddydd i ddydd. Yn sicr, mae'r ferch yn hunandosturiol iawn drwyddi draw, a'i thristwch o fethu dod o hyd i ŵr ac ymateb y gymuned iddi fel hen ferch yn hytrach na gwraig briod yn elfen gref drwy'r baledi. Mae'r baledi sy'n ymateb i'r hen ferch gyda'r baledi mwyaf beirniadol o blith holl gasgliad Cerddi Bangor. Mae'r cymariaethau drwyddynt draw yn rhai anghyfforddus a chreulon:

[258] *Can o ymddiddan rhwng Wil a Dic, ynghylch priodi, Y mae Wil yn dangos rhagoroldeb Gwraig, a Dic yn egluro ei gwendidau, gan ddewis byw'n rhydd,* Dafydd Amos (Caerfyrddin), Cyfrol 22, Rhif 28

Tri pheth i ddyn sy'n anymunol,
Trotian ceffyl a thair pedol;
Rhodio'r ffeiriau heb ddim arian,
Hen ferch ifangc wrth ei hunan.[259]

Cyfeirir ati fel alltud; cymeriad ar ymylon cymdeithas, heb neb yn edrych arni na'i chydnabod fel unigolyn gan nad oedd yn rhan o bâr. Câi felly ei hystyried yn amharchus ac yn anwraidd yng nghymdeithas gul y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[260]

Er gwaethaf yr argraff gyffredinol fod y baledwyr o blaid i ferched briodi a'r bywyd priodasol, ceir un enghraifft o blith Cerddi Bangor lle y ceir un ferch ifanc o'r farn draddodiadol ac o blaid priodi, tra bod y llall yn ymwrthod â hualau a rheolau disgwyliedig y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yn dadlau yn ei erbyn. Prin iawn yw'r enghreifftiau o'r agwedd hon, ond dengys y faled nad oedd cymdeithas y bedwaredd ganrif ar bymtheg mor gaeth i reolau a barn gymdeithasol ac yr ymddengys ar yr wyneb. Mae'r ffaith i'r faled hon gael ei chanu a'i chyhoeddi yn y cyfnod yn atgyfnerthu'r pwynt.

Wel gwrando, Gweni, mi ro'wn i gini am gael dy ddyrnu'n dda,
A drawa dy gefen â rhyw lâs onen, elusen iti a wna:
O gwel y gwragedd a'u gwael ymgeledd oedd gynt am gyrraedd gŵr,
Yn eu gofidiau yn wylo dagrau, − da ferch, considra'n siwr,
A'u gwedd fel lludw llwyd, a'u plant yn begio eu bwyd,
A'u gwŷr yn feddw mewn garw foddion, yn awr, ai gwirion wyt?
Cais dŷ dy hunan, cei fywyd llawen, ferch wiwlan, wrth dy chwant;
Pob gwraig gyffredin sy'n dweud mai gerwin a blin yw magu plant;
*Neat* iawn wyf fi, on'de, a llawn y gweli'm lle,
Mewn siambr fechan yn byw fy hunan, a'm tân a'm llestri tê,
Heb wr afradlon, a chwedlau croesion, na'r un o'r blinion blant;
Fu arna'i etto 'rioed flys am dano, 'rwy'n coelio'n haner cant.[261]

[259] *Can ofidus, sef teimlad hen ferch, yn methu cael gwr*, Meirion, Cyfrol 21, Rhif 103
[260] Gweler Sioned Davies, 'Far From the Madding Crowd: A Montgomeryshire Lady in London', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* 2006 (2008), am agweddau'r cyfnod at ferched di-briod.
[261] *Can newydd, sef ymddiddan, rhwng dwy gymmydoges, un am briodi a'r llall am beidio; bob yn ail pennill, sef, Gwen a Mari*, Richard Williams (Caernarfon), Cyfrol 12, Rhif 72

Dylid dwyn sylw at y ffaith mai Richard Williams, 'Bardd y Gwagedd' a ganodd y faled hon; unigolyn a oedd yn flaenllaw ym myd baledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd yn nodweddiadol ohono i ystyried sefyllfa mewn gwedd newydd a chyflwyno her i'w gynulleidfa trwy droi sefyllfa a stori draddodiadol ben i waered. Gwelir mewn un fersiwn o'r faled rhwng Gwen a Mari sut yr oedd y baledi'n datblygu o fod yn gyfrwng clywedol ar gân a symud i fyd argraffu a chyhoeddi yn ogystal, gyda chlawr deniadol ac amryw luniau arni i gyfleu'r neges a'r faled a fyddai y tu mewn (gweler ffigwr 5.2. trosodd).[262] Belisle March yw'r alaw a ganwyd yr ymddiddan arni. (Gweler Ffigwr 5.1.) Alaw ddelfrydol gyda brawddegau cerddorol hirion i greu ymddiddan gwerth chweil. Gwelir hefyd y defnydd o nodau dotiog sy'n dechneg arbennig i greu hiwmor mewn darn a'i gadw'n lled ysgafn lle bo'r angen.

**Ffigwr 5.1. – Belisle March**



Dywedid uchod i'r merched ymddangos fel petaent yn ymdopi â bywyd fel hen ferch yn well na'r hen lanciau. Nid oedd yr un cywilydd cymdeithasol yn ymglymedig â'r hen lanc o'i gymharu â'r hen ferch fodd bynnag. Dylid cofio yn ogystal y byddai ef

[262] *Can newydd o ymddiddan rhwng dwy gymdoges, sef, Gwen a Mari, bob yn ail pennill, un am briodi a'r llall am beidio* (Llanrwst), Cyfrol 21, Rhif 83

yn annibynnol i raddau helaeth ac yn gallu cynnal ei hun yn ariannol. Arferai'r merched gael eu magu a'u cynnal yng nghartref eu rhieni cyn priodi a chael eu cynnal gan ŵr. Dyma oedd y patrwm cymdeithasol disgwyliedig i'r unigolion benywaidd. Câi'r merched hynny a âi yn groes i'r graen eu gwatwar am fethu cydymffurfio â'r rheolau cymdeithasol hyn. Fodd bynnag, dylid cofio nad oedd y dynion yn cyfrannu o gwbl fel arfer ym mywyd domestig y cartref. Câi hwythau eu cynnal gan fam pan fyddent yn blant, ac yn hwyrach gan eu gwragedd. Roedd y dynion di-briod felly yn ddiymadferth pan ddeuai i faterion megis coginio, golchi a glanhau'r tŷ. Prin iawn yw'r cyfeiriadau yng Ngherddi Bangor at ddynion yn ddibynnol ar y ferch, ond yn y faled hon o waith Richard Williams, cenir am drafferthion yr hen lanc wrth iddo geisio brwydro gyda bywyd heb wraig, a'i gwyno o eisiau gwraig. Cerdd gyngor ydyw hon yn ogystal, ond mae'n gwbl i'r gwrthwyneb i'r cerddi cyngor a welwyd yn y cyd-destun hwn yn flaenorol:

> Holl fechgyn heini Cymru gu,
> Ystyriwch chwi fy stori,
> Rwy am roi cyngor i chwi i gyd,
> Wel gwnewch mewn pryd briodi;
> Myfi sy'n boenus yn y byd,
> Mae gofid arnai'n gafod
> Wrth geisio cynal bwth o dŷ,
> Fe'm drylliwyd i gan drallod;
> 'Rwyf bob prydnawn yn bruddaidd iawn,
> Wel O'ch na bawn yn briod![263]

Rhestra'r faled holl swyddogaethau'r wraig a gymerwyd yn ganiataol yn y cyfnod, ond a brofwyd yn dasgau amhosib i'r hen lanc.

> Mi eis i geisio golchi'm crys
> Ryw ddiwrnod cyn y Calan,
> Bu'm arno'n rhwbio'n fawr fy chwys
> Dros haner diwrnod cyfan;
> Mi eis i'w sychu wrth y tân

[263] *Can newydd sef achwyniad hen fab gweddw o eisiau gwraig; yng nghyd a'i aflwyddiant wrth gynal ty ei hunan,* Richard Williams (Llanrwst), Cyfrol 12, Rhif 39

O ran ei bod yn glawio,
Ac wrth ei ddal ef yn y mwg,
Rhyw olwg ddrwg ddaeth arno;
Ac yn y diwedd, wfft i'r crys,
Mi a'i llosgais wrth ei smwddio.
...
Mi eis i fyn'd i wlychu toes
Heb aros rhyw ben bora,
Roedd genyf bedwar pwys ar ddeg,
Yn beraidd i wneud bara;
Mi rois y badell wrth y tân
Gael iddo wres i godi,
Fel gwelais i fy mam fy hun,
Pan fyddai'r hin yn rhewi;
Bwytaodd yr hwch y toes i gyd
Tra b'um yn golchi'r llestri.[264]

Richard Williams, 'Bardd y Gwagedd' yw'r baledwr unwaith yn rhagor; ffaith nad yw'n annisgwyl o ystyried yr agwedd newydd a geir yn y faled gyngor hon, a'r cydymdeimlad a'r empathi unigryw a geir tuag at wragedd yn ei faledi. Yn sicr, rhydd y faled hon wedd newydd ar bwysigrwydd a rôl y ferch o fewn perthynas ac yn y cartref yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dygir sylw at yr holl fanion sydd ynghlwm wrth gadw tŷ. Pwysleisia na all y gwŷr fyw heb wragedd a bod cyfraniad y wraig, er cymaint y'i gwawdid, yn hollbwysig yng nghyd-destun y cartref a'r aelwyd. Adleisir baledi cwynfanus yr hen ferch yn y faled hon, ond yn wahanol i'r baledi hynny, ni cheir y feirniadaeth gymdeithasol sydd yn elfen mor amlwg ym maledi'r hen ferch. Anoga holl fechgyn Cymru i ddod o hyd i wraig cyn gynted ag y bo modd, a pheidio ag oedi, neu difaru a wnaethent.

Holl feibion ieuaingc Cymru i gyd,
Fy 'stori o hyd ystyriwch,
'Rwy'n wylo dw'r bob munud awr,
Mor fawr yw f'annifyrwch,

[264] Ibid.

Pe cawn i Ragel Ffyrch y gwynt
Neu Gwen o Bentre' Gini,
Neu Doli fawr a'r gweflau cam
Neu Neli Ram o Rumney,
Mi carwn hi mewn llan a llys,
Pe ba'i heb grys am dani.[265]

Felly, gellid sefydlu i fwyafrif y gwragedd a'r meibion fel ei gilydd fod eisiau priodi a byw'r bywyd domestig. Ymddengys iddo apelio fel bywyd delfrydol i ganran helaeth o drigolion y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a'r syniad o fywyd bythol fodlon, paradwysaidd a chysurus yn feddylfryd cyffredin.

Bywyd priodasol

Gwelir newid sylweddol yn naws y baledi wrth drosglwyddo o fywyd cyn priodi i'r bywyd priodasol, domestig. Wedi'r holl gyffro a'r edrych ymlaen at y bywyd priodasol, mae'n anochel i raddau i'r bywyd priodasol fod yn siomedigaeth i nifer helaeth o ferched a dynion y cyfnod. Yn ddiau, ceir eithriadau hwnt ac yma a chenir am gariad bythol rhwng gŵr a gwraig. Yn y baledi priodasol fodd bynnag, gellir casglu nad y bywyd dedwydd disgwyliedig a ddeuai i barau priod y cyfnod ran amlaf. Yn ddiau, dyma'r thema lle y ceir yr hiwmor ffraethaf a'r amgylchiadau mwyaf doniol. Er y ceir ambell faled wirioneddol drist,[266] ceir llygedyn o ddireidi a hiwmor yn gefndir mewn baledi eraill a gân am yr anawsterau a'r problemau a geir yn y cartref. Gwreiddir llawer o'r hiwmor hwn yn y cymeriadu yn enwedig yng nghymeriad y wraig, a gwelir o'r teitl hwn mai comedi a ffraethineb oedd bwriad baledi o'r fath: *Can ddigrif o ymddiddan rhwng dwy chwaer, sef Sian a Neli, yn nghylch eu gwŷr, − un wedi priodi oferddyn a'r llall gybudd.*[267] Ceir newid dramatig

[265] Ibid.
[266] *Galar gwraig y meddwyn*, Caledfryn (Caernarfon), Cyfrol 24, Rhif 142
[267] *Can ddigrif o ymddiddan rhwng dwy chwaer sef Sian a Nel, yn nghylch eu gwŷr, − un wedi priodi oferddyn a'r llall gybudd*, R. Williams (Caernarfon), Cyfrol 12, Rhif 62

rhwng cymeriad y ferch ifanc, ddibriod a'r wraig ganol oed. Yn ddiau, ni ellir cwestiynu mai hwy yw cymeriad cryfaf ac amlycaf y teulu a'r ffigwr canolog ar yr aelwyd yn gyffredinol yn y baledi hyn. Fodd bynnag, ymddengys iddynt fod yn gwbl anhapus ac anfodlon gyda'u bywydau a'u gwŷr. Amrywia'r cwynion o fod yn gwynion am ymddygiad neu arferion eu gwŷr at gwynion cyffredinol a'r siom y cyflwynodd bywyd priodasol iddynt. Un o'r prif gwynion oedd tueddiadau afradus eu gwŷr, a cheir nifer o faledi a sonia am y wraig yn carlamu i mewn i'r tŷ tafarn ac yn mynnu bod eu gwŷr yn dychwelyd adref ar unwaith. Ceir nifer yn ogystal a sonia am *[G]alar gwraig y meddwyn* a'i thristwch hithau yn y sefyllfa druenus honno.[268] Yn sicr, mae cwyno ac achwyniadau yn elfennau annatod yn y baledi hyn, yn enwedig yr ymddiddanion, ond atega'r cwyno a'r achwyn at hiwmor y faled yn y pen draw.

> Ni chaf fi gusan ganddo'n gu,
> Na gwasgu'n llwysgu'm llaw,
> Mae'n bochio garlleg lond ei geg
> I gael drewi i'm cadw i draw.[269]

Ni fyddai cerdd am hapusrwydd pâr priod yn peri yr un ffraethineb mewn baled wrth reswm. Mae'r ymddiddanion yn gyfrwng delfrydol i drosglwyddo hiwmor i'r gynulleidfa gyda'r agweddau a'r safbwyntiau gwahanol yn creu gwrthdaro. Byddai'r baledi yma ar gân wrth gwrs, a llif a phatrwm yr alaw yn pwysleisio'r ffraethineb a lifai drwy'r faled. Rhydd yr ymddiddanion hefyd gyfrwng i gyfathrebu, ac mewn un faled, gwelir yr ymddiddan yn cael ei ganu fesul llinell rhwng y gŵr a'r wraig ar yr alaw 'Hob y deri dando' yn null deialog gerddorol ac elfen aml-gorawl sy'n nodweddu cerddoriaeth glasurol yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif i'w gweld ym myd y faled. Gyda'r cymalau byr a sionc, mae'n alaw ddelfrydol i gyfleu

[268] *Galar gwraig y meddwyn*, Caledfryn (Caernarfon), Cyfrol 24, Rhif 142
[269] *Can ddigrif o ymddiddan rhwng dwy chwaer, sef Sian a Neli, yn nghylch eu gwŷr; - un wedi priodi Oferddyn a'r llall Gybudd*, R. Williams, (Llanrwst), Cyfrol 12, Rhif 62

hiwmor a ffraethineb rhwng dau. Cyflwynir y ddadl yn gwbl gryno ym mhob llinell a'r ymateb yr un mor gryno a ffraeth.

G. Beth sy'n fwya'n blino'ch calon?
W. Chwech o blant sy'n wylio'n heilltion.
G. Mae genych 'wyllys mawr i'm croesi,
W. Eisiau bwyd sydd ar y rhei'ni.
G. Cychwynwch adre'i bobi bara,
W. Mae'n rhaid i mi gael blawd yn gynta'
G. Ewch i'w geisio i dy cymydog.
W. Ni chaf ond ychydig heb y geiniog.[270]

Yn ddiau, roedd alcoholiaeth a diota yn broblem fawr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd y tŷ tafarn yn ddihangfa boblogaidd i ddynion yn y cyfnod. I'r merched fodd bynnag, roedd yn fater cwbl wahanol. Byddai'n warth cymdeithasol iddynt hwy fynd i mewn i unrhyw dŷ tafarn i ddiota, ac ystyrid y merched a wnâi hyn yn gymeriadau heb fod llawer yn well na phuteiniaid a chrwydriaid. Fodd bynnag, gwraig sydd yn gofalu am y tafarndai hyn ym mwyafrif y baledi, a cheir nifer o ymddiddanion rhyngddi hithau a'i chwsmeriaid lle y gwrthoda'r cwsmer dalu am ei ddiod, neu geisio cael diod am ddim pan â'r arian yn brin. Dyma gymeriad benywaidd arall sydd yn gwbl wahanol i'r ddelwedd draddodiadol o'r ferch yn cadw teulu a chartref; ffigwr gwaraidd na fyddai'n troedio drysau'r tafarn. Yng nghyd-destun y dafarnwraig, mae'n gymeriad sydd yn ymylu ar fod yn wrywaidd; yn rheoli tafarn gyfan o ddynion meddw ac afreolaidd, a hynny yn gwbl ddidrafferth:

Gillwn chwart o gwrw,
Mi dalaf gynta gallw'.
Di gefaist lawer coron gronn.
Gan i mewn moddion meddw.

Ni thelaist erîoed goron,
Heb gael ei gwerth yn union,
Ni ches i fantes ar dy Bwrs;
Ond cadw cwrs afradlon.

[270] *Can newydd o ymddiddan rhwng gwr a gwraig wrth ei geisio adref o'r dafarn*, Cyfrol 24, Rhif 99

Di gest y fantes ore
Dau gwell na'r wraig oedd gartre,
Rhois itti syllte, lawer cant,
A gado mhlant mewn eisie.

Cest amal Beint heb dalu,
A'th dendio gyda hynny,
Bum lawer nos cyn torri'r wawr,
Heb fynd i lawr i gysgu.[271]

Gwelir yn ogystal yn y cyd-destun hwn y gwahaniaethau moesol a geir rhwng y cymeriadau benywaidd a gwrywaidd. Gwelir i wraig y dafarn, er gwaethaf yr agwedd galed i'w phersonoliaeth yn rhinwedd ei swydd fel perchennog tŷ tafarn, fod yn dosturiol tuag at wraig a phlant y cwsmer:

Ni chei di ddafn ond hyny,
Heb Arian dul i dalu,
Nag aros yma'n swga, saig,
Dos at y wraig i'th wely.[272]

Darlunnir y gŵr yn hynod negyddol yn y baledi hyn. Ymddengys iddo osod mwy o bwysigrwydd ar gymdeithasu a diota nag a osodai ar ofalu am ei deulu a threulio amser yn eu cwmni. Gwelir o'r baledi mai dyma oedd un o'r prif ysgogiadau dros ymresymiadau a dadleuon domestig rhwng parau priod yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg; baledi megis *Can Newydd o ymddiddan rhwng gwr a gwraig wrth ei geisio adref o'r dafarn*,[273] *Galar Gwraig y Meddwyn*,[274] a *Yr Oferddyn a'i Wraig*.[275] Dylid cofio wrth gwrs ei bod yn gyfnod o dlodi mawr ac ystyrid yfed mewn tafarn yn hynod o wastraffus, yn enwedig i'r wraig a oedd yn gofalu am sefyllfa ariannol y teulu, a hithau'n gwrthod porthi'r temtasiwn hwn ei hun.

[271] *Ymddiddan rhwng y meddwyn a gwraig y dafarn* (Trefriw, 1818), Cyfrol 10, Rhif 32
[272] Ibid.
[273] *Can newydd o ymddiddan rhwng gwr a gwraig wrth ei geisio adref o'r dafarn*, Cyfrol 24, Rhif 99
[274] *Galar Gwraig y Meddwyn*, Caledfryn (Caernarfon), Cyfrol 24, Rhif 101 + 102
[275] *Yr Oferddyn a'i Wraig*, Catherine Edmund, Cyfrol 12, Rhif 117

Yn boeth y bo'ch sefnig, pwy'n ddiddig a ddaw
Pe'i gwyddech fy mhoced a llymed fy llaw,
Y chwi 'n llyngcu'r cyfan hên gwman o'i go,
Yn lle cau a chadw, yn feddw cai fo,
Defeidiau'r cymdogion yn dewion bob dydd,
Sy'n hel yr holl bigion yn rhadlon a rhydd,
Ac yntau'n swagro hen Pharo di-ffydd,
Gwario yn tafarne gorane gwir yw,
A gadael eich cywion yn llwydion i lliw,
Codio mo'r cythr'el o'i gornel nid gwiw.[276]

Felly, er gwaethaf swyddogaeth annisgwyl y wraig yng nghyd-destun diota a thafarndai, gwelir i'w moesau fod yn gref ac yn gyflawn. Ystyrid y gŵr ar y llaw arall yn gyfrifol am y dirywiad o fewn priodas ac o fewn y gymdeithas ehangach o ganlyniad i'w arferiad gwastraffus.

Ymddengys yr alaw 'Glan Meddwdod Mwyn' dro ar ôl tro yn y baledi sy'n ymwneud â diota a meddwi, gydag enw'r dôn wrth gwrs yn gyswllt amlwg rhwng y thema a'r alaw. Ped edrychid ar rythmau'r alaw, gwelid y rhythmau a'r nodau herciog yn atgyfnerthu'r ymdeimlad hwylus ac ysgafn a geir yn stori'r faled. Gellir ymron clywed y gŵr meddw yn igian wrth ganu ac wrth ymddiddan â'i wraig ac ategai hynny at yr hiwmor a'r naws. Mae'n bosib yn ogystal y byddai'r baledwr yn dynwared y sefyllfa, ymron fel cân actol fodern, wrth gyflwyno'i gerdd i gynulleidfa. Mae'n alaw ddelfrydol yn ogystal ar gyfer ymddiddanion o'r fath oherwydd gwelir mai cymalau byr a geir ar y cyfan gydag uchafbwyntiau amlwg ar gyfer dramateiddio'r cyfuniad rhwng pinacl yr alaw â chyrraedd yr uchafbwynt yn llif stori'r faled. Sylwer yn ogystal y modd y daw'r faled i ben ar ddiweddeb perffaith, traddodiadol a'r uchafbwynt yn gorffen yng nghwmpawd uchel y llais. Yn ddiau, wrth ddiweddu baled yn y modd dramatig hwn, byddai ymron yn sicr y câi'r baledwr

[276] *Fel y digwyddodd i'r Prydydd fod mewn tŷ tafarn pan ddaeth y gowl-wraig flin i nôl y gŵr adre; a'r ymddiddan a fu rhyngddynt* (Trefriw, 1813), Cyfrol 25, Rhif 150

gymeradwyaeth fyddarol ac yn ei dro, werthu'r faled dan sylw (gweler Ffigwr 5.3 isod).

**Ffigwr 5.3**[277]




Ond, er i nifer o'r baledi hyn fod yn ffraeth ac yn llawn hiwmor, gwelir fod ambell faled yn troi o'r ffraeth i'r prudd a'r hiwmor yn datod wrth dynnu sylw at ddifrifoldeb y sefyllfa. Gwelir baledi megis *Galar Gwraig y Meddwyn*[278] yn sôn am wraig, ran amlaf â baban ifanc yn ei chol neu ar ei bron, yn wylo oherwydd meddwdod ei gŵr. Defnyddia'r baledwr yr holl dechnegau yn ei allu i ennyn emosiwn a chydymdeimlad oddi wrth ei gynulleidfa. Rhydd ddarlun o ferch ifanc yn wylo oherwydd iddi weld tristwch ei mam, ynghyd â newyn y plant o ganlyniad i dlodi, ac ymdrech fythol y fam i ddarparu ar gyfer ei theulu drwy bob math o amodau. Mae'r ffaith i fywyd y

[277] Edward Jones, *Musical Relics of the Welsh Bards* (Dublin, 1800)
[278] *Galar gwraig y meddwyn,* Caledfryn (Caernarfon), Cyfrol 24, Rhif 101

fam fod mor ddedwydd cyn iddi briodi'r meddwyn yn tristáu'r sefyllfa'n fwy pan sylweddolir cymaint y gwyrdrowyd ei bywyd a'r effaith a gafwyd ar y plant.

> Mewn treflan deg yn Nghymru fad,
> Hen anwyl wlad fy nhadau,
> Eisteddai geneth fach yn syn,
> Gan wylo llyn o ddagrau;
>
> Wrth ddweud ei bod yn wraig i ddyn
> Oedd feddwyn, aeth i wylo;
> Nis gallai ddo'd i ddweyd ei chwyn
> Wraig addfwyn heb och'neidio;
> Bu lawer noswaith ar ei hyd
> Ag anwyd ar ei chalon,
> Wrth dafarn yn ei ddysgwyl, do,
> Gan wylo dagrau heilltion.
>
> Bu'n dwyn i'w chof y dyddiau gynt
> Heb helynt anghymedrol,
> Tra'r oedd yn fenyw ieuanc dal,
> Ddiwamal fun grefyddol;
> Tra'n meddwl hyn ei hanwyl blant
> Am fwyd, gwaeddasant arni,
> Ond och! ni feddai yn ei chell
> Ddim gwell na dw'r y'w roddi.[279]

Cenid y faled *Galar Gwraig y Meddwyn* ar yr alaw 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn', alaw draddodiadol arall a ymddangosodd mewn print am y tro cyntaf yng nghasgliad Maria Jane Williams, *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg*[280] (gweler Ffigwr 5.4). Alaw leddf ydyw, yn ddelfrydol ar gyfer baled lawn hiraeth a theimlad, ac alaw addas felly ar gyfer galargan neu faled emosiynol ei naws. Mae'n ogystal yn alaw sydd â chyswllt Cymreig gref, a'r naws wladgarol yn amlwg ynddi a fyddai wedi apelio at y werin. Sylweddolai'r baledwr hyn ac apelient at deimladau gwladgarol y gynulleidfa ac egyr y faled fel a ganlyn:

> Mewn treflan deg yn Nghymru fad,
> Hen anwyl wlad fy nhadau,[281]

[279] *Galar gwraig y meddwyn*, Caledfryn (Caernarfon), Cyfrol 24, Rhif 101
[280] Maria Jane Williams, *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* (Llandovery, 1844)
[281] Ibid.

Lleolir y faled yn syth ac wrth glywed y stori, byddai'n bosib y cywilyddid y gynulleidfa oherwydd i ddyn mor afrad a meddw fod yn rhan o wlad a chenedl a ymffrostia ei bod yn 'wlad y menig gwynion'.

Felly yn y ddwy linell gyntaf, byddai'r baledwr wedi ennyn ymdeimlad gwladgarol ac yna yn raddol, lithro i ymdeimlad o gywilydd wrth sylweddoli'r math o ddyn a gafodd ei eni a'i fagu'n Gymro glân, a datblygu'n ddyn meddw a fethai ofalu am ei wraig a'i deulu yn ôl ei ddyletswydd moesol.

Dengys y faled hon, fel nifer o faledi eraill, cymaint yr esgeulusid y teulu o ganlyniad i arferion meddwdod y tad. Gwelir y dylanwad a'r effaith uniongyrchol ar y plant a'r genhedlaeth iau o ganlyniad i arferion a thueddiadau eu rhieni. Yng nghyd-destun y faled uchod, gwelir y ferch ifanc yn dioddef o salwch ysbryd oherwydd iddi brofi tristwch ei mam. Gwelir yn ogystal y dylanwad yn amlygu'i hun mewn elfen negyddol arall, ac arferion y tad yn cael eu hadlewyrchu yn arferion y plant. Caent hwythau yn eu tro felly eu magu i gredu mai dyma oedd y norm, ac efelychu arferion meddwol y tad.

> O'i genau cu ni chlywir cân,
> Ond cwynfan trist ei chalon,
> Am fod ei gwr yn dysgu'r plant
> Mewn drygchwant fod yn feddwon;
> Ei nerth fu'n gryf, sydd yn llesghau,
> Gan boenau, tlodi a thwrw,
> Ac aml iawn dymunai fod
> Mewn beddrod wedi marw.[282]

Ceir enghraifft arall o'r modd y byddai plant, y merched yn enwedig, yn cael eu dylanwadu gan eu rhieni mewn baled a sonia am ferch y dafarn yn enwi ei chariadon.

[282] Ibid.

Wrth ymdroi gyda dynion yn ddyddiol ers dyddiau ei phlentyndod, a'r rheini'n ddynion meddw, ni fegid y ferch ifanc i fod mewn parchedig ofn o ddynion pan ddaeth at oed caru a phriodi. Gwelwyd sut y dylanwadwyd arni yn hwyrach:

> Fe'm dygwyd i fynu mewn Tafarndŷ,
> I ddawnsio, a chanu'n fwyngu ferch,
> Fy holl orchwylion oedd tendio ar feddwon,
> Y rhain oedd goegion surion serch.[283]

Gwelir felly y ferch ifanc yn byw ei bywyd ymron fel putain heb barchu ei chorff na'i henw da o fewn y gymdeithas.

> Ni ddof fi eleni i ben a'i henwi,
> Pa faint o gwmni oedd imi i'w cael:
> Pob merchedwr oedd imi'n garwr,
> Os byddai'n swagrwr rhodiwr hael.[284]

Dengys felly cymaint y dylanwadai rhieni a'r amgylchfyd ar blant ifainc a sut y dylanwadwyd arnynt yn hwyrach yn eu bywydau o ganlyniad. Profa'n ogystal pa mor arloesol oedd y baledi mewn gwirionedd oherwydd cenid ynddynt am faterion yn y baledi a gaiff eu trin a'u trafod yn yr unfed ganrif ar hugain; materion megis gofal plant a'r modd y dylanwada'u cynefinoedd arnynt yn eu bywyd bob dydd, ac yn eu bywydau maes o law.

Ond, er yr ymddengys i'r dynion gael eu cyfleu mewn agwedd hynod negyddol yn y baledi hyn, ceir baledi sy'n canu am ochr arall y geiniog a'r *gwragedd* yn porthi'r temtasiynau hyn. Wrth gwrs, ystyrid yr arferion hyn yn fwy anwaraidd o dipyn i'r merched o'u cymharu â'r dynion. Prin iawn yw'r cyfeiriadau at yr effaith a geir ar y plant yn y cyd-destun hwn fodd bynnag. Felly er iddynt fod yn annheilwng fel gwragedd ac fel unigolion, ni soniwyd amdanynt fel mamau annheilwng. Amrywia

[283] *Merch y tafarnwr yn enwi ei chariadon*, John Jones, Cyfrol 12, Rhif 53
[284] Ibid.

themâu'r baledi hyn o gwyno am wraig anhrefnus, a'i chwestiynu am arian y cartref, i sôn am wragedd yn meddwi ar frandi ar ôl treulio prynhawn yng nghartrefi ffrindiau. Gwelir felly bod ffaeleddau gan y ferch yn ogystal â'r gŵr, er nad ymddengys i'r canu fod mor feirniadol. Yn hytrach, er yr ymddengys i'r baledwyr gywilyddio at gampau'r merched, ceir naws ysgafnach iddynt gyda mwy o hwyl a drygioni yn hytrach na siom a chywilyddio difrifol. Daw llais y gŵr yn hunan-dosturiol drwy'r faled, am orfod gwneud y gwaith tŷ tra'i bod hithau yn diogi yn y gwely.

> Ar ddydd Sul y boreu, mae hyn yn fyd blin,
> Ni chyfyd o'i gwely, caf godi fy hun,
> Rhaid i mi wneud brecwast, a phob peth yn lan,
> A gwnaiff i mi dwymmo ei hen bais wrth y tan. [285]

Fodd bynnag, rhaid cofio am gyd-destun hanesyddol y cyfnod. Byddai clywed am wraig o'r fath mewn baled yn codi cywilydd ar gynulleidfa'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gofalu am ei gŵr a'i theulu oedd ei phrif swyddogaeth, a thrwy fod yn ddiog ac anhrefnus, byddai'n gywilydd i'w rhyw, ac felly yn fethiant fel gwraig ac fel mam. Byddai clywed felly am ŵr yn gorfod golchi ei ddillad ei hun, ac yn coginio swper iddo'i hun yn gwneud i gynulleidfa gywilyddio a siomi at y wraig. Profa diweddglo'r faled hon pa mor greulon y gallai rhai o'r baledwyr fod tuag at y wraig. Er gwaethaf y ddelwedd gytbwys a geir o'r ferch ar y cyfan, ceid darlun creulon ohoni ar brydiau, a'r faled hon yn enghraifft o'r agwedd negyddol, chwerw honno tuag ati trwy lygaid y gŵr:

> Pe byddai hi farw, fe ysgafnau fy mhwn,
> Mi redwn i'w chladdu dan ganu mi a'i gwn,
> Ni phrisiwn i flewyn a gwneyd yno wledd,
> Mynwn fiddle a dwy delyn, gael dawns ar ei bedd.
> A barilad un-iawn o gwrw pe cawn,
> A yfwn heb gudd, mewn llawenydd mwy llawn.[286]

[285] *Can newydd sef achwyniad Shon Morris Griffith, o herwydd iddo Briodi Gwraig annhrefnus*, R. Williams (Llanrwst), Cyfrol 12, Rhif 100
[286] Ibid.

Ceid agwedd ddrwgdybus iawn tuag at y wraig o bryd i'w gilydd yn ogystal, gyda'r gŵr yn amau ei briod wrth iddi hi ofalu am gyllid a nwyddau'r cartref, a hithau'n gorfod amddiffyn ei hun yn llygaid ei gŵr.

> Pan galwai am ei wraig fel hyn, dych'mygu ellwch chwi,
> Medd ef, F'anwylyd, tyr'd a d'wed b'le'r aeth fy arian i?
> Bob wythnos Gini 'rych yn gael, tri phlentyn feddwn oll,
> Er hyn mae'm cyflog, bron i gyd, i rywle'n myn'd ar goll.
>
> Os y'ch am wybod hyny gewch, yn serchog ebe hi−
> Mae haner coron llawn o rent, bob wythnos, am y tŷ;
> Tri swllt a chwech am fara'n myn'd, cewch glywed eto fwy,
> Am siwgr, 'menyn, coffee, te, 'rwy'n talu dau a dwy;[287]

Dengys fodd bynnag cymaint oedd cyfraniad y wraig ym mywyd beunyddiol y cartref gwerinol; dengys mai hi a brynai holl nwyddau'r cartref, a hi a reolai holl gyllid y cartref, boed hynny yn gyflog oddi wrth ei gŵr neu oddi wrth ei meibion. Amddiffynna'r baledwr y wraig yn y faled dan sylw gan amddiffyn y dasg o reoli cartref a sicrhau bod yr arian prin yn ddigonol iddi hithau a'r teulu cyfan. Er gwaethaf yr amddiffyniad hwn fodd bynnag, ni chafodd y dynion eu gwatwar yn llwyr o ganlyniad.

> Chwi wragedd priod na wnewch dwyll, mae'r gwŷr yn fanwl iawn,
> A chwithau, wŷr, cymerwch bwyll, rhai gwragedd cynil cawn:
> Mae mwy yn myn'd at draul y tŷ, ond cyfrif pobpeth mân,
> Nag a feddyliodd llawer un o'r rhai sy'n gwrando'r gân.[288]

Yn gyfochrog ag arferiad y gŵr o fynd i'r dafarn i yfed a diota, gwelid arferiad y wraig o fynd i dŷ ffrind i yfed te. Yn sicr, ymddengys i'r arferiad hwn fod gyda'r dulliau mwyaf poblogaidd i'r gwragedd dreulio eu hamser hamdden, ac wrth reswm, cana'r baledwyr yn helaeth ar y thema. Nid oeda'r baledwyr wrth gymryd mantais o sefyllfa ac arferiad mor ystrydebol. Roedd yn gyfle euraid iddynt ganu'n ffraeth ac yn

[287] *'Ble'r aeth fy arian i.' Y Gŵr yn eisiau cael gwybod gan y Wraig, a'r Wraig yn Ateb,* Cyfrol 22, Rhif 115
[288] Ibid.

llawn hiwmor gan dynnu oddi ar holl ystrydebau poblogaidd y cyfnod. Yn ddiau, roedd yn elfen annatod o feirniadaeth gymdeithasol y cyfnod tuag at y wraig ac yn gyfrwng ac ysgogiad delfrydol i ddangos ei ffaeleddau fel unigolyn ac fel rhan o'r gymdeithas ehangach. Rhydd wybodaeth yn ogystal i gynulleidfaoedd cyfoes am arferion a thueddiadau cymdeithasol gwragedd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Bu yfed te yn gyfrwng hamddena i wragedd mewn cymunedau ers yr ail ganrif ar bymtheg a pharhaodd yn boblogaidd hyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

> Mae rhyw hudoliaeth dost,
> Yn dilyn Tea a Choffee,
> Er cymaint ydyw'r gost,
> Mae'r gwragedd bron ymgrogi,
> Hwy roent bob peth yn glir,
> Drwy gysur er ei geisio,
> Mae hynny'n ddigon gwir,
> Mae'r testun yma'n tystio.[289]

Daeth te yn rhatach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ogystal, felly roedd yn fwy cyraeddadwy i'r werin bobl.[290] Roedd yn symbol ystrydebol delfrydol yn ogystal o'r wraig, a'r hel clecs a'r clebran yn cyfateb yn uniongyrchol i'r arferiad penodol hwn. Yn yr un modd, roedd y cwrw a'r tŷ tafarn yn symbol gwrywaidd ystrydebol ohonynt hwy, a'r ymddiddanion rhwng y te a'r cwrw yn nodwedd barod o faledi hwnt ac yma yn y casgliad.

> Y GWR
> Mi wna i ti wybod, yr hen wiber, mai edifar fydd i ti,
> Ni ddwg ar gynnydd un o genel, y kettle byth i'm tŷ;
> Mi dora'r *Teapot* yn ddarnau ar ddyrnod, cei ganfod hyn i gyd
> Mi dafla'r llwyau i'r tan yn rhywle, mi llosga hwy yn fy llid;
> Mi dorra'r llestri *Tea*, mi yfa'r llaeth o'r lle,
> Ac am y siwgwr a'r holl seigiau, mi tyna'i ddifa fe;

[289] *Can newydd yn rhoddi hanes am fargen aflwyddiannus a fu rhwng Gwraig a Gwerthwr Tea*, Cyfrol 12, Rhif 17
[290] Jane Pettigrew, *A Social History of Tea* (London, 2001), 89

> Cei dithau gollen ar dy gefn, neu ryw las onen syth,
> Mi wna i ti gofio ei adael heibio, gan beidio ei gwrdd ê buth;
> Mae'n anhawdd iawn yn wir i mi dy barchu'n bar,
> A thithau'n talu i'r fortune-tellers, rhai diras yn ein tir,
> Yr holl enilla'n cael ei ddifa, a llawn wyf finau o lid,
> Y fortune-teller pe cawn ei dala, a wnawn yn gataiau i gyd.
>
> Y WRAIG
> R'ych chwi'n difetha mewn Tafarndai'ch meddiannau goreu i gyd;
> Trwy fyw'n anawen, gwario'r cyfan, o'ch arian oll o hyd;
> Gwyr pawb heb weniaeth, sydd a gwybodath yn ein cym'dogaeth ni,
> Mae gwell yw pleser *Tea* mwynaidd ber, na'ch ofer gastiau chwi;
> Does dim yn drygu dyn, chwi wyddoch hyny'ch hun,
> Yn waeth na'r cwrw, i fyw na marw, gwael yw y meddw ei lun,
> Rych chwi a'ch licer pert a'ch porter, heb drymder wrth ei drin,
> A'm dau adfyd, boenus benyd, hyd ofid o bob llun.
> Dewch adre'n feddw fawr, hen geryn hyll ei wawr,
> Gan guro'r gwragedd, heb drugaredd, mae'n oeraidd hyn yn awr;
> Oni fydd yno'n wylo'n waelaidd, a llwydaidd yn y lle,
> R'ol ein dyrnu, rwy fi'n dirnad, da fydd disglaid fach o *Dea.*[291]

Ond yn ddi-os, roedd yfed te yn hynod boblogaidd ymhlith gwragedd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd yn arferiad a brofwyd yn boblogaidd ym mywyd a baledi gwragedd yn y ddeunawfed ganrif a'r poblogrwydd heb leihau wrth gamu i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

> One woman would bring tea, one a cake, another a drop of gin or brandy to put in it. They visited the homes of the members in turn, and naturally gossiped about what interested women.[292]

Yr hyn sy'n ddiddorol am y baledi hyn yw'r ffaith y dengys y wraig mewn golau rhagrithiol a dweud y lleiaf. Gwrthwyneba'n hallt arferion meddwol ei gŵr, ond nid oes ganddi unrhyw betruswch pan ddaw at ei harferion hithau. Roedd effeithiau ar y corff ac ar y teulu yn dra gwahanol wrth reswm, ond yr elfen gymdeithasol y canolbwyntid arni yng nghyd-destun y baledi. Y gwahaniaeth wrth gwrs yw i'r gwragedd yfed ym mhreifatrwydd y cartref yn hytrach nag yng ngŵydd y gymuned.

[291] *Can newydd ar ddull o ymddiddan rhwng gwr a gwraig oblegyd y Tea a'r cwrw*, R. Williams (1838), Cyfrol 12, Rhif 18
[292] Jane Pettigrew, *A Social History of Tea* (London, 2001), 105

Fodd bynnag, ceir enghreifftiau yn y baledi lle dengys yr arfer cymdeithasol hwn yn mynd y tu hwnt i reolaeth a'r te yn cael ei newid i ddiod gryfach, ac effaith yr arferiad cymdeithasol hwnnw i'w weld yn y faled hon.

> Or diwedd fe yfwyd y *liquor* yn llwyr,
> A nawr rhaid oedd myned cyn'r elai'n rhy hwyr:
> A Sue 'Stafell Aaron gychwynodd yn mla'n
> Ond cyn rhoddi dau-gam bu bron syrthio i'r tan.
> Cydgan.
>
> 'Nawr wedi Sue godi, cychwynent yn hy,'
> I fyn'd i'w cartrefi i ardal Cwmdu;
> Ond ow! y fath helynt oedd arnynt yn awr
> Pob un ar yn ail unai gysanu y llawr.
> Cydgan.[293]

Mae'n amlwg i'r baledwr fwynhau disgrifio'r olygfa gomig a roddid gerbron ei gynulleidfa, ond ceir islais mwy sinistr a'r agwedd tuag at y gwragedd yn negyddol, a meddylid amdanynt fel unigolion segurllyd, ddi-wâr. Ceir hiwmor yn ddi-os, ond mae'r hiwmor hwnnw wedi'i wreiddio mewn gwawd ac agweddau gwrthffeminyddol i raddau helaeth. Ymddengys yn faled ffraeth ac yn llawn hiwmor i gynulleidfa'r unfed ganrif ar hugain, ond rhaid cwestiynu pa fath o ymateb y byddai baled o'r fath wedi ei ennyn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg? Yn ddiau, ceir blas pendant o feirniadaeth a dirmyg yn y faled pan ddisgrifir y gwragedd yn cysgu ym môn clawdd, wedi meddwi'n gyfan gwbl:

> Cydorweddai a wnaethant ar gae y Ty Coch,
> Gan rochian wrth gysgu fel cenfaint o foch;
> Yr olwg oedd arnynt sy'n warthus i'w rhyw
> Mi gofiaf u helynt tra byddaf fi byw.
> Cydgan.[294]

Ni ellid gwadu nad oes chwistrelliad o hiwmor yn y faled oherwydd mae'r darlun a grëwyd gan y baledwr mor ddoniol ei naws. Ond ar y llaw arall, ceir elfen ymron yn

[293] *Can sef hanes cydgynnulliad Gwragedd a merched i dai eu gilydd a d'wedyd CLECS y naill wrth y llall*, Cyfrol 12, Rhif 6
[294] Ibid.

ffiaidd am y ddelwedd; gwragedd a merched ifainc yn cysgu fel anifeiliaid ym môn y clawdd. Ymron y gellid dadlau iddo fod yn ddarlun cyntefig, anifeilaidd o wragedd parchus, gwaraidd; darlun na fyddai wedi cyd-fynd â'r ddelwedd ddymunol, draddodiadol o'r ferch a'r wraig deuluol (gweler Ffigwr 5.5 trosodd).

Fodd bynnag, yn ystod yr oriau hynny o yfed te a hel clecs, gwelwyd sawl elfen o gyfraith a threfn draddodiadol yn cael eu hatgyfnerthu. Defnyddiwyd y Ceffyl Pren yn rheolaidd yng nghefn gwlad Cymru yn bennaf yn y cyfnod hwnnw i gosbi unigolion am dor-cyfraith a throseddau moesol.[295] Ceir lle pendant i gredu mai yn y prynhawniau hynny o hel clecs y gwelwyd lledaenu cyhuddiadau a straeon am unigolion a fyddai wedi pechu neu droseddu'n foesol yn y gymuned.

> It seems apparent that women helped to sustain the various informal gossip channels, which detected and defined 'aberrant' social behaviour and, therefore, ultimately influenced the selection of prospective *ceffyl pren* victims.[296]

Y wraig felly a fyddai yn hybu y sefydliad unigryw hwn, a phrofa'r cyfraniad hwnnw cymaint yr ystyriwyd llais y wraig yng nghymdeithas y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ffasiynau'r Cyfnod

Ni ellir ymdrin â bywyd gwragedd mewn unrhyw gyfnod heb sôn am y ffasiynau cyfoes. Nid ydynt ymhlith y baledi mwyaf poblogaidd o ran nifer, ond maent yn elfen bwysig wrth geisio llunio darlun clir o fywyd a'r ddelwedd o'r wraig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dwy faled yn unig a geir yng nghasgliad Cerddi Bangor sy'n sôn

[295] 'Ceffyl' o fath ydoedd a ddefnyddid yn y cyfnod i sicrhau trefn trwy gosbi'n gyhoeddus fin nos. Arferai'r dynion dduo'u hwynebau a gwisgo mewn dillad merched. Carid y troseddwr o'i gartref ac fe'i cosbwyd yn gorfforol ac ar lafar. Y gobaith yn y pen draw fyddai iddynt ddiwygio'u hymddygiad ac felly gynnal cyfraith a threfn yn y gymdeithas.

[296] Rosemary A. N. Jones, 'Women, Community and Collective Action: The *Ceffyl Pren* Tradition', yn Angela V. John (gol.), *Our Mothers' Land – Chapters in Welsh Women's History 1830-1939* (Cardiff, 1991), 22-3

yn benodol am ffasiynau'r cyfnod, ond ceir ambell un hwnt ac yma sy'n cymharu ffasiynau'r cyfnod â ffasiwn yng nghyfnod eu mam-gu a thad-cu. Diddorol yw nodi mai yr un baledwr a ganai'r holl faledi sy'n ymwneud â ffasiwn y cyfnod, a'r baledwr hwnnw oedd Dafydd Jones o Lanybydder. Soniwyd eisoes i'r gwirionedd fod yn arf pwysig yng nghyd-destun hiwmor, ac mae'r baledi hyn yn sicr yn tynnu oddi ar y dechneg hon. Ceir elfen o watwar diniwed yn y baledi sy'n sôn am ffasiwn ac ymddangosiad y merched. Yn sicr, roedd Dafydd Jones, neu 'Dewi Dywyll' yn un o faledwyr gorau'r cyfnod o ran ei ddull o gyfansoddi a chanu baledi. Mae'r odlau'n rhwydd ac yn llifo gan gyd-fynd yn hyfryd â'r alaw o'i ddewis. Roedd yn adnabyddus am ei lais canu hyfryd yn ogystal a'i ffraethineb yn y baledi; ffaith a gaiff ei hatgyfnerthu gan y baledi dan sylw, ac fel a welir yn y faled hon sy'n sôn am *Y Crinolines*:

> Nawr gyfeillion hoenus hynod,
> Clywsoch son am saith rhyfeddod −
> Minau draethaf i chwi'r wythfed.
> Clychau mawr yn mheisiau'r merched.
>
> *Byrdwn.*
> Fach a mawr dewch yn awr,
> Fach a mawr dewch yn awr,
> Gwnawn ein goreu hwyr a boreu,
> I gael y Crinolines i lawr,[297]

Â'r baledwr drwy'r amgylchiadau amrywiol lle y byddai'r *Crinolines* yn anaddas ar gyfer bywyd beunyddiol y werin; culder drysau'r capeli o'u cymharu â'r *Crinolines,* cerdded trwy brysurdeb y ffeiriau a cheisio camu dros gamfeydd. Yn sicr, gellid casglu nad oedd yn ddilledyn addas nac ymarferol, yn enwedig ar gyfer y werin bobl a fyddai'n byw bywyd mwy corfforol o lawer nag uchelwyr y bedwaredd ganrif ar

[297] *Can newydd sef Fflangell Geiniog, i chwipio y cylchau o beisiau y merched. Y Crinolines*, D. Jones, Llanybyther, Cyfrol 22, Rhif 163

bymtheg. Ceir yn ogystal gipolwg ar ffasiwn gyffredinol yn y cyfnod a'r modd y dylanwadwyd y Cymry gan ffasiwn Lloegr.

> Os bydd yn Lloegr ffasiwn newydd
> Gan y mawrion ar hyd y trefydd,
> Cyn pen wythnos ar ol hyny,
> Chwi gewch eu gwel'd yn frith trwy Gymru.[298]

Yn sicr, roedd yn elfen bwysig o fywyd, a byddai'r baledi hyn wedi apelio at ddynion a gwragedd fel ei gilydd oherwydd eu naws ysgafn a ffraeth. Byddai'r dynion o bosib hefyd yn gallu cydymdeimlo ag agwedd y baledwr ac yn gallu uniaethu â'r profiad hwn o'u casáu. Yn sicr, gellir casglu cryn dipyn o wybodaeth am ffasiwn y cyfnod, y math o ffasiwn a apeliai at y werin a'r math o ddillad a chyfwisg a wisgent yn y cyfnod.

> Nawr mae'r pen yn llawn ribanau,
> Clamp o gylch *all round* i'w godrau,
> Nel Shon Rhys mewn gwisgiad *lady*,
> A'i *mountain manners* heb ddim *money*. [299]

Dengys y baledi hyn yn ogystal i ffasiwn fod yn bwysig i'r werin bobl yn ogystal â'r uchelwyr bod y merched, yn enwedig, yn fodlon gwario'u harian prin i ddenu'r bechgyn gyda'u gwisg a'u hymddangosiad. Ymddengys mai'r merched sengl a fyddai wedi gwisgo yn y ffasiynau diweddaraf ran amlaf gan na fyddai'r gwragedd priod yn gallu fforddio gwario arian prin y teulu ar ffasiwn.

Ni ellir gwadu, wrth astudio'r cerddi hyn, mai bywyd anodd a heriol oedd bywyd priodasol y cyfnod. Wrth reswm, gorliwid rhai ffeithiau a straeon er mwyn ategu at ffraethineb ac apêl y baledi fel cyfrwng adloniant, ond ar y cyfan, darlun llwm iawn a

---

[298] *Can newydd sef Fflangell i falchder oherwydd fod y merched ieuanc yn gwisgo cylchau oddifewn i'w peisiau, er lledanu eu hunain, a thrwy hyny, wneuthur eu hunain yn rhagorach nag oedd eu Creawdwr wedi eu gwneuthur*, Dafydd Jones, Cyfrol 22, Rhif 162

[299] *Can newydd yn gosod allan y gwahaniaeth rhwng dull y bobl yn eu gwisgiadau y dyddiau hyn*, David Jones, Cyfrol 12, Rhif 87

geir o fywyd priodasol a'r wraig yn ganolbwynt i'r llymder a'r tlodi enbyd hwn. Dylid dwyn sylw at y ffaith y byddai merch yn cael ei hystyried gan gymdeithas yn ôl ei statws priodasol. Fel merch sengl, gellid dadlau nad oedd ganddi ddigon o statws cymdeithasol i'w hystyried yn unigolyn. Roedd felly yn ddibynnol ar ŵr, nid yn unig i'w chynnal ond hefyd er mwyn sicrhau iddi gael ei derbyn yn gymdeithasol. Ond er gwaethaf yr agwedd hon at wragedd a merched, cafwyd ambell lygedyn o hapusrwydd a ffraethineb trwy gyfrwng prynhawniau o gymdeithasu gyda ffrindiau; cyfrwng adloniant sy'n parhau yn llesâd ac yn fwynhad i wragedd hyd at yr unfed ganrif ar hugain. Yn sicr, mae'r baledi yn gyforiog o ddeunydd a gwybodaeth amhrisiadwy sy'n ymwneud â bywyd priodasol a bywyd domestig traddodiadol y wraig. Yn ddiau, nid cymeriad ymylol mohoni a chlywir llais y ferch yn glir trwy hualau cymdeithasol a gwawd ffraeth y baledwr.

Wrth fwrw golwg dros holl gasgliad Cerddi Bangor, gellir gwerthfawrogi'r amrywiaeth eang o themâu, cymeriadau a golygfeydd a geir yn yr amrywiol faledi. Gwelir yn ogystal nad yw'r themâu a'r materion dan sylw wedi newid yn eu hanfod o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd heddiw, ond gwelir i gymeriad y ferch addasu a datblygu yn ôl mympwy'r baledwr. Yn y bennod hon, eir i'r afael â'r wraig a'r ffigwr benywaidd yn ei chrynswth; rôl a statws gwragedd Cymru yng nghyd-destun perthynas mamau a'u plant, ffigwr y wraig yn nherfysgoedd Beca, a'r rhyfeddodau a frithai'r cyfnod. Crybwyllwyd crefydd eisoes hwnt ac yma yng nghyd-destun y baledi cyngor a'r modd y llywiwyd meddylfryd y wlad o ganlyniad i'w cred a'u hofn o farn Duw arnynt, ond yn y bennod hon, eir i'r afael â'r baledi crefyddol yn uniongyrchol a'r modd y dylanwadwyd a llywiwyd bywydau'r werin yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg o ganlyniad. Nid baledi am y wraig mewn crefydd oedd *bestsellers* y cyfnod, o bosib oherwydd nad oedd merched yn chwarae rôl flaenllaw ym mywyd crefyddol cyhoeddus y genedl, neu ar y llaw arall am nad oedd y thema yn cynnig sgandal yn yr un modd â'r themâu eraill ac felly heb yr un cynnwrf a'r un apêl. Yn wir, canran fechan o'r baledi hyn sydd ar gael o'u cymharu â baledi poblogaidd y cyfnod megis y baledi serch neu'r llofruddiaethau, ond maent yn themâu sydd yn rhan annatod o gymdeithas y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac wrth eu dadansoddi a'u canu, gellir deall ychydig yn fwy am bersonoliaethau benywaidd yr oes.

Er gwaethaf yr agweddau negyddol a geir tuag at y ferch hwnt ac yma yn yr amrywiol faledi, gwelir i'r agwedd hon newid pan ddeuir i gymharu merched Cymru â gweddill merched y byd.[300] Mae'n dueddiad oesol i amddiffyn a chanmol pe herir gan estron. Ymddengys felly nad yw'r bedwaredd ganrif ar bymtheg na chyfrwng y baledi yn

[300] *Y Ferch o Feirion*, Ywain Meirion (Llanrwst), Cyfrol 12, Rhif 38

eithriad i'r elfen gystadleuol hon rhwng y gwledydd pan ddaw i ddyrchafu a chymharu merched Cymru â merched ar gyfandiroedd eraill. Er na cheir dyddiad ar yr un o'r baledi hyn am oruchafiaeth merched Cymru, mae'n lled debygol iddynt ddeillio o gyfnod ychydig yn hwyrach na'r baledi eraill yn y casgliad oherwydd gwelir darlun neu linell yr alaw ar bob enghraifft. Roedd argraffu cerddoriaeth yn broses ddrud yn y cyfnod, felly byddai cael yr alaw ar ddechrau'r faled yn rhywbeth costus i'r baledwr (gweler Ffigwr 6.1).[301] Tlawd oedd y baledwyr ar y cyfan a byddai'r pris a godwyd er mwyn argraffu darluniau ac alawon yn gost ychwanegol, ddiangen iddynt. Mae'n deg gofyn hefyd, sawl un yng Nghymru ar yr adeg honno a feddai'r ddawn o allu darllen cerddoriaeth hen nodiant? Er pwysiced oedd cerddoriaeth i'r genedl, anllythrennog at ei gilydd oedd y Cymry o safbwynt cerddorol, hyd yn oed yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ansafonol iawn yw'r gerddoriaeth a welir ar y baledi. Ni cheir elfennau megis llithriadau a nodi sut y dylid gosod y geiriau i gyfateb â'r gerddoriaeth. Gellid dadlau na roddir ystyriaeth i'r cyweirnod ychwaith, gan fod G fwyaf yn gywair hynod o uchel yng nghyd-destun yr alaw yn y faled argraffedig yn Ffigwr 6.1. Canran fechan tu hwnt a fyddai'n ymwybodol o arwyddocâd y term *Da Capo* yn ogystal, felly gellid cwestiynu gwir bwrpas ychwanegu'r alaw ar ddechrau'r faled. Fodd bynnag, wrth droedio at ganol y ganrif, datblygwyd llythrennedd gerddorol y genedl a mwyfwy o'r gynulleidfa'n gallu darllen a phrynu'r baledi i'w hail ganu yn y cartrefi, er mai sol-ffa oedd y ffasiwn yng Nghymru o'r 1860au ymlaen. Byddai pwysigrwydd yr elfen weledol felly ar gynydd fel rhan o apêl fasnachol y baledi. Ond, wrth gamu'n ôl at y thema dan sylw, gwelir i agwedd y baledwyr fod o du'r ferch. Dylid dwyn sylw at y ffaith fodd bynnag i deitl y

[301] *Merched Cymru, eu rhagoriaeth ar holl ferched y byd*, Cyfrol 21, Rhif 5

faled am ragoriaeth merched Cymru ar ferched y byd fod braidd yn gamarweiniol gyda'r baledwr yn ymestyn y stori yn ôl eu harfer.

Yn ôl y teitl sonia'r faled am *[F]erched Cymru, eu rhagoriaeth ar holl ferched y byd,*[302] ond mewn gwirionedd yr unig wledydd a grybwyllir yw Iwerddon, yr Alban a Lloegr. Byddai'n annhebygol i faledwyr 'proffesiynol' y cyfnod groesi ffiniau pellach na'r gwledydd hyn. Ni fyddai hygyrchedd bywyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn galluogi'r tlotaf ymhlith y gymdeithas i deithio'r byd. Fodd bynnag, rhaid cofio am y milwyr a'r morwyr a fyddai'n teithio i bellafoedd byd, ac a allai gymharu'r merched o'r gwledydd hynny â merched o Gymru. Nid oes raid wrth brofiad personol ychwaith i fod â barn am bobl, felly nid effeithiwyd ar frwdfrydedd y baledwr wrth ganu am ragoriaeth merched Cymru o'u cymharu â merched y gwledydd eraill.

> Trigolion siroedd Cymru, yn fawrion ac yn fan,
> De'wch yma bawb yn gryno, i wrando heb wahan;
> Mae genyf gân serchiadol, profiadol yw i gyd,
> Am ferched hawddgar Cymru, eu bath nid oes trwy'n byd:
>
> Maent yn fywiog iawn a serchog,
> Godidog yn mhob lle;
> 'Does neb fel Merched Cymru
> I'w cael o dan y ne'.[303]

Pwysleisia'r baledwr na ddaeth o hyd i'r un ferch ar draws yr holl wledydd a fedrai gymharu o ran prydferthwch a mwynder â merched Cymru. Mae'n ddelwedd gadarnhaol, ddelfrydol o'r modd y dymunai'r Cymry i wledydd eraill Prydain a'r byd eu hystyried.

Un o ffigurau canolog y wlad yn y cyfnod oedd y fam. Rhanedig braidd yw'r farn gyffredinol a geir ohoni yn y baledi fodd bynnag. Yn sicr, amrywia'r farn gyffredinol

[302] Ibid.
[303] Ibid.

amdani yn sylweddol o'r naill faledwr i'r llall ac o'r naill faled i'r llall. Prin iawn yn ogystal yw'r baledi sy'n sôn am y fam fel prif gymeriad y faled, ac er gwaethaf y ffaith i'r baledwyr gydnabod iddi fod yn rhan ganolog o'r aelwyd, nid yw'r fam fel cymeriad yn rhan ganolog o'r baledi. Fodd bynnag, yn y bennod hon, eir i'r afael â'r baledi hynny sy'n canu am y fam fel cymeriad unigol a'i pherthynas â'i phlant a'i rôl ar yr aelwyd. Er gwaethaf y diffyg clod a'r diffyg proffil a roed iddi yn y themâu blaenorol, mae'r baledi sy'n sôn am gariad plentyn at fam yn ddidwyll ac yn llawn anwyldeb.

> Pwy a'm cynghorai bob rhyw bryd,
> Rhag arwain bywyd aflan?
> Ond parchu enw Duw drwy ffydd,
> A chadw ei ddydd sancteiddlan,
> Heb wneuthur unrhyw dwyll na cham?
> Fy anwyl Fam fy hunan.[304]

Rhydd y faled hon yn ogystal ddelwedd drosiadol o farn ac agwedd y plant tuag at y fam a'i rôl fel cynheiliad y cartref. Fel y dywed E. G. Millward:

> Dwy golofn gynhaliol y teulu oedd y tad, y penteulu awdurdodol a weithredai ddisgyblaeth ar y plant, a'r fam â'i dylanwad moesol hollbwysig wrth fagu'r plant lluosog hynny. Yr oedd y teulu'n fwy na sefydliad cymdeithasol; yr oedd yn gredo, yn ddogma. Yn naturiol, bu'r fam dirion yn drosiad tra chynhyrchiol i'r beirdd a chaneuon i'r *pater familias* dipyn yn brinnach.[305]

Rhestra fesul pennill rai o'i rhinweddau a'i rôl fel mam i'w phlentyn o'r crud.

> Pwy im' a süai, uwch 'nghryd
> Pan oeddwn wanllyd faban?
> A phwy fu'n effro lawer gwaith,
> Drwy'r hirnos faith anniddan?
> Pwy a'm gwarchodai rhag pob cam?
> Fy anwyl Fam fy hunan.
> Pwy a'm dilladai, er fy llwydd,
> Bryd diniweidrwydd oedran?
> Rhag i mi fawr berygla f'oes,

[304] *Fy Anwyl Fam fy Hunan*, D. Ddu Eryri, Cyfrol 21, Rhif 6
[305] E. G. Millward (gol.), *Ceinion y Gân: Detholiad o ganeuon poblogaidd Oes Victoria* (Llandysul, 1983), xxi

Ysigo eisoes egwan,
A phwy a'm noddai rhag drwg nam?
Fy anwyl Fam fy hunan.

Pwy a'm cynghorai, bob rhyw bryd,
Rhag arwain bywyd aflan?
Ond parchu enw Duw drwy ffydd,
A chadw ei ddydd sancteiddlan,
Heb wneuthur unrhyw dwyll na cham,
Fy anwyl Fam fy hunan.[306]

Profa'r llinellau hyn cymaint y cefnogai'r fam ei phlant, boed honno'n gefnogaeth faterol neu'n gefnogaeth foesol. Dyma'r ddelfryd a anogwyd ymhlith y Cymry yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Credid mai'r fam oedd yr allwedd i fywyd dedwydd a sefydlog ar yr aelwyd Gymraeg.

Er i nifer helaeth o'r baledi fod yn ffraeth neu â neges benodol iddynt, ceir hefyd llawer o emosiwn ynddynt hwnt ac yma. Un o brif rinweddau'r baledi oedd ennyn emosiwn, beth bynnag y byddo'r emosiwn hwnnw. Drwy sicrhau effaith emosiynol ar y gynulleidfa, sicrheid y byddai'r gwrandawyr yn eu tro yn cofio ac yn mwynhau'r faled ac yn ei phrynu. Yr emosiwn a deimlid ran amlaf gan famau a rhieni'n gyffredinol fyddai hiraeth mewn rhyw fodd neu'i gilydd. Trasiedïau lled gyffredin yn y cyfnod oedd damweiniau diwydiannol, afiechydon angheuol, neu'r plant yn gadael cartref i ymladd mewn rhyfeloedd. Roedd colled a hiraeth yn emosiwn cyfarwydd yn y cyfnod felly ac yn deimlad y gallai mamau ar hyd a lled y wlad uniaethu ag ef, yn enwedig gan gofio bod ymfudo yn hynod boblogaidd yn y cyfnod hwn. Er gwaethaf y twf a fu mewn diwydiant yng Nghymru o ganlyniad i'r Chwyldro Diwydiannol, roedd y gweithwyr yn gweithio orau hir iawn, a hynny am gyflog bychan. Felly, gwelwyd nifer o ddynion ifanc yn symud i wledydd megis yr Amerig i chwilio am waith a

[306] *Fy Anwyl Fam fy Hunan,* Dafydd Ddu, Cyfrol 21, Rhif 193

bywyd gwell, fel y dengys yr adroddiad hwn o bapur newydd y *Cardiff and Merthyr Guardian:*

> …the tide of emigration which has been flowing for some time, still continues; and scarcely a week passes without witnessing the departure of parties of working men for… the less glutted labour markets of the United States.[307]

Ni ellir gwadu nad oes tinc bendant o deimladrwydd yn y cerddi hyn a apeliai'n amlwg at gynulleidfaoedd yr oes. Byddai baled yn sôn am hiraeth mam ar ôl i'w mab fynd i'r America neu Awstralia yn apelgar felly i gynulleidfa o'r cyfnod a allai gydymdeimlo â'i hiraeth.

> Megais fachgen bach ac anwyl,
> Ar fy mron mewn trafferth mawr
> Deio, ti yw'r bachgen hwnw,
> Nad wn ple yr wyt yn awr
> Maith yw'r amser er y'th welais,
> 'Machgen anwyl, wyt ti'n iach,
> Os na elli ddyfod drosodd,
> Anfon lythyr, Deio bach.[308]

Gan barhau â thema hiraeth, fe'i gwelid yn troi o hiraeth y fam i hiraeth y plentyn wedi marwolaeth y fam.[309] Gwelir yn y faled hon cymaint o barch a bri a roed i'r fam fel ffigwr cymdeithasol a'i phwysigrwydd ar yr aelwyd.

> O bob rhyw golledion mewn creulon fyd croes,
> Marwolaeth un, tybiaf, yw'r fwyaf i f'oes;
> Trwy helynt fy mywyd tan gleddyf neu glwyf,
> Yn nyddiau anniddig mor unig yr wyf,
> Mam, mam! ow! fy mam!
> Yn y bedd mae fy mam! &c.[310]

Sonnir amdani fel y cyfaill pennaf a'r gorau o blith yr holl ferched eraill. Yn ddiau, cana'r hiraeth drwy'r geiriau wrth sôn am y golled enbyd hon. Mae'r alaw ar ddechrau'r faled *Marwolaeth fy Mam* yn adlewyrchu neges a naws y faled. *Sweet*

[307] *Cardiff and Merthyr Guardian*, Ebrill 12, 1851
[308] *Deio Bach neu hiraeth Mam ar ol ei Mab aeth i'r America* (Llanrwst) Cyfrol 21, Rhif 21
[309] Gweler *Deigryn yr Amddifad*, William Walters (Caernarfon) Cyfrol 21, Rhif 185
[310] *Marwolaeth fy Mam*, John Athelstan Owen (Caernarfon) Cyfrol 21, Rhif 197

*Home* neu *Home Sweet Home* yn wreiddiol (gweler Ffigwr 6.2 trosodd). Mae'n alaw adnabyddus ar gyfer canu'r geiriau hiraethus 'Home Sweet Home' arni, a'r hiraeth am gartref, aelwyd a theulu yn canu'n glir. Dylid dwyn i gof i Adelina Patti anfarwoli'r alaw hon. Gresyn na cheid dyddiad ar y faled hon fel y gellid casglu ai poblogrwydd y gân a ganwyd gan Adelina Patti oedd y rheswm dros ddewis yr alaw ar gyfer y faled hon ai peidio. Ond mae'n alaw sy'n priodi â naws y geiriau i'r dim ac yn cyfleu'r hiraeth am gartref a mam ar yr aelwyd.

Gwelir o'r baledi hyn felly pa mor bwysig yr ystyrid y fam yng nghyd-destun bywyd cymdeithasol yn gyffredinol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ymddengys i'r tad fethu â sefydlu'r un statws a'r un bri yn y cartref. Wrth reswm, y fam a ofalai am y plant a'r aelwyd tra bod y tad yn ffigwr mwy absennol yn y bywyd teuluol. Ond, nid yn unig na roddid yr un bri iddo, ond yn hytrach, fe'i cyflëid fel cymeriad afiach ac ymron yn beryglus. Gwelir yn y baledi a ymdriniai â llofruddiaeth cymaint o fygythiad corfforol oedd y gwŷr i'r gwragedd. Ceir enghraifft arall o'r modd yr ystyrid y tad yng nghyd-destun ei rôl ar yr aelwyd mewn baled ryfeddol a sonia am dad yn cael pump o blant gyda'i ferch ei hun.[311] Yn sicr, gellir casglu nad oedd yn sefyllfa gyffredin yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg o'r modd y cyflwyna'r baledwr y faled i'w wrandawyr.

> Trigolion Cymru mwynion a chalon ffyddlon dewch
> Rhoi gosteg 'nawr mwyn cariad y ganiad o gwrandewch:
> Cewch glywed 'nawr fy nghyffes mewn hanes glywais i,
> Ac er ei bod yn ffiaidd, cewch glywed fel y bu.[312]

Er i'r sefyllfa fod yn un anghyffredin, y ddelwedd wrywaidd sydd dan sylw yma o'i chymharu â'r ddelwedd a'r ffigwr benywaidd. Dylid dwyn sylw yma at yr alaw a

[311] *Yn rhoddi hanes am Williams Thompson, yr hwn wedi'i hudo gan y Diafol, a gafodd bump o blant o'i ferch ei hun (Jane Thompson)*, Thomas Ddu (Trefriw, 1819) Cyfrol 10, Rhif 51
[312] Ibid.

ddefnyddid a ddengys i raddau mai thema anghyffredin ydyw yng nghyd-destun y baledi. Gwelwyd hyd yma fod yr alaw ac enw'r alaw yn adlewyrchu naws a neges y faled ran amlaf. Ond yn y cyd-destun hwn, *Bryniau'r Iwerddon* a ddefnyddid; un o'r alawon mwyaf poblogaidd ymhlith y baledi yng Nghymru a thros y ffin yn Lloegr (*Banks of Ireland*) a barhaodd yn boblogaidd o'r ganrif flaenorol (gweler Ffigwr 6.3(i)). Dylid cofio bod sawl fersiwn wahanol o'r alaw hon ac mae'r fersiwn hon yn gwahaniaethu'n sylweddol oddi wrth yr alaw a welid eisoes dan yr un enw yn y drydedd bennod. Mae hon eto'n alaw gofiadwy, syml ac yn amlwg yn alaw boblogaidd a fyddai wedi apelio'n syth at y gwrandawyr wrth ei chlywed. Fel y soniwyd eisoes, amrywia'r alawon o'r naill ardal i'r llall a gwelir yn Ffigwr 6.3(ii) fersiwn arall o'r alaw hynod boblogaidd hon a oedd yn boblogaidd ac yn cael ei chlywed yn aml ym Mhowys.

**Ffigwr 6.3**

**Ffigwr 6.3(i)**




**Ffigwr 6.3(ii)**




Ymddengys i drigolion y bedwaredd ganrif ar bymtheg ddangos cryn edmygedd at y frenhiniaeth o graffu ar y themâu a'r agwedd gyffredinol a geir tuag ati yn y baledi. Ceir dwy gerdd o goffadwriaeth i ddwy frenhines wahanol yng nghasgliad Bangor a'r ddwy wedi'u hysgrifennu tuag at ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg; y naill ym

1818 a'r llall ym 1822.[313] Ceir cyfuniad yn y baledi hyn o ganu canmoliaethus a chanu chwerw. Yn ddiau, ceir hiraeth dwys am y ddwy frenhines fel arweinyddion gwlad yn ogystal â hiraeth ddwfn amdanynt fel unigolion.

> Pwy heddyw all wneud niwed iddi,
> Mae'n hardd ei gwedd yn mhlith cwmpeini,
> Lle ni ddaw gelyn byth i'w blino,
> A neb ni thwng anudon yno.[314]

Rhyfedd yw sylwi nad oes baledi ymysg rhai casgliad Cerddi Bangor a sonia am frenin neu frenhines a deyrnasai ym Mhrydain ac eithrio'r ddwy faled hyn. Er gwaethaf y ffaith iddynt fod yn wladgarwyr Cymreig i'r carn, ymddengys i'r baledwyr fod yn hynod o bleidiol i'r frenhiniaeth yn ogystal. Dyma ddeuoliaeth yn agwedd trigolion y bedwaredd ganrif ar bymtheg na ellid ymron ei dirnad yn yr unfed ganrif ar hugain. Dengys y faled am Frenhines Siarlot ei phoblogrwydd yn y wlad er gwaethaf y tyndra rhyngddi hi a'i gŵr, y Brenin Sior.[315]

> Er iddynt ballu coron Lloegr
> Ar ei phen, y dduwies dyner;
> Mae ganddi goron anllygredig,
> Ar waetha'r grew uffernol ffyrnig.[316]

Byddai clywed am y teulu brenhinol fel clywed am fywyd ffantasïol i'r werin bobl, a'r apêl yn gorwedd yn y freuddwyd honno o gyfoeth a golud faterol. Yn unol ag arferion priodasol y werin yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, priodai'r teuluoedd brenhinol yn lled ifanc a magu plant dirifedi.

> Ac yn ei hamser, deuddeg plentyn
> A gaed o'r fun gu od wiw faith;
> Yr un rhifedi a'r Patriarchiaid;
> Boed iddynt grêd, heb un rhyw graith,

[313] Y ddwy faled dan sylw yw: *Can er coffadwriaeth am Frenhines Caroline*, John Vaughan (Aberhonddu, 1822) Cyfrol 10, Rhif 73 a *Marwnad o Goffadwriaeth am ei Huchel Fawrhydi y Frenhines Siarlot, Gwraig y Brenin Sior y Trydydd a fu farw Tachwedd 17, 1818 yn 75 oed* (Trefriw, 1818) Cyfrol 12, Rhif 5
[314] *Can er coffadwriaeth am Frenhines Caroline*, John Vaughan (Aberhonddu, 1822) Cyfrol 10, Rhif 73
[315] *Marwnad o Goffadwriaeth am ei Huchel Fawrhydi y Frenhines Siarlot, Gwraig y Brenin Sior y Trydydd a fu farw Tachwedd 17, 1818 yn 75 oed* (Trefriw, 1818) Cyfrol 12, Rhif 5
[316] *Can er coffadwriaeth am Frenhines Caroline*, John Vaughan (Aberhonddu, 1822) Cyfrol 10, Rhif 73

Y rhai sy'n hynod fyw o honyn'.
Gwir râs i'w canlyn, groesawu cû,
Ac fel eu mam i'r gwir yn fammaeth,
Trwy'r frenhiniaeth sêl-faith sy:
Duw cadw Loeger yn ddi lwgwr,
Am gael Amddiffynwr ffydd,
Ac una eu hanian, fel eu henw,
Rhag pabaidd dwrw ar bob dydd.[317]

Sylwer yn y cwpled olaf fod gweddi neu ddyhead am gadw Pabyddiaeth draw o dir Prydain. Gwelir felly fod agwedd wrth-babyddol yn y faled hon a oedd yn agwedd gyffredin iawn ar y pryd. *Cwynfan Brydain* yw'r alaw y cenid y faled arni; alaw hynod boblogaidd ar gyfer thema a ymwnâi â'r thema frenhinol. Ceir yn y faled naws wladgarol, Brydeinig. Gwelir yn ogystal yr elfen alarus, hiraethus am y Frenhines Siarlot yn cael ei hadlewyrchu yn yr alaw leddf, leiaf (gweler Ffigwr 6.4 trosodd). Yn ddiau, mae'n faled sydd wedi'i llunio i ennyn galar oddi wrth ei chynulleidfa ac i bwysleisio colli brenhines a gafodd ddylanwad ar y wlad yn ei chyfnod.[318]

Am roddi hanes bywyd hynod
Ein testyn uchod ammod hardd,
Dim ond ei bydol oruwchafiaeth;
Mae yn dywyll beth, er deall Bardd:
Gŵyr pawb fod iddi wych fawrhydi, −
Ond yma ei golli darfu ei gwawr,
Ac eto manwl iw'n dymuniad,
Fod iddi ail gymeriad mawr,
Sef yn y gwawl ar nefawl nofiad,
Frenhinol wlâd iw'n bwriad ben:
Dwg ninau'n barod i fyw'n bura',
Heb feth i'r mwyndra fyth Amen.[319]

[317] *Marwnad o Goffadwriaeth am ei Huchel Fawrhydi y Frenhines Siarlot, Gwraig y Brenin Sior y Trydydd a fu farw Tachwedd 17, 1818 yn 75 oed* (Trefriw, 1818) Cyfrol 12, Rhif 5
[318] Gwraig i'r Brenin Sior III oedd y Frenhines Charlotte Sophia. Ymddengys iddi fyw bywyd cwbl ddomestig, heb ymyrryd o gwbl ym materion gwladwriaethol. Pan drawyd y Brenin â salwch meddwl ym 1810, hi a gymrodd y dasg o ofalu amdano a materion y cartref. Esgorodd ar bymtheg o blant. Bu fyw nes iddi fod yn 74 oed, a bu farw ar Dachwedd 17, 1818.
[319] *Marwnad o Goffadwriaeth am ei Huchel Fawrhydi y Frenhines Siarlot, Gwraig y Brenin Sior y Trydydd a fu farw Tachwedd 17, 1818 yn 75 oed* (Trefriw, 1818) Cyfrol 12, Rhif 5

**Ffigwr 6.4**




Gwrthryfel a Therfysg

Soniwyd eisoes am rôl a phwysigrwydd merched yng nghyd-destun y 'Ceffyl Pren', ond ymddangosa'r wraig mewn elfennau eraill yn y thema hon yn ogystal. Anuniongyrchol yw'r cyswllt rhwng y gwragedd a therfysgoedd Beca, ond ni ellid diystyru'r cyswllt hwn wrth werthuso a dadansoddi'r baledi benywaidd, yn enwedig o ystyried y cyfeirid at 'Beca' fel gwraig ac arwres yn hytrach na gŵr wedi'i wisgo yn rhith gwraig.

> Rhyw ddynes go ryfedd yw Becca,
> Am blanta mi goeliaf yn siwr
> Mae ganddi rai cannoedd o ferched,
> Er hyny 'does ganddi'r un gwr;
> Mae hyn yn beth achos rhyfeddu,
> I bawb yn gyffredin trwy'r wlad,
> Pa ffordd y mae Becca yn medru,
> Rheoli'r holl blant heb un tad.[320]

[320] *Can newydd sef ychydig o hanes bywyd Rebecca a'i merched, Fel y maent yn tori'r tollbyrth mewn amrywiol fanau,* D. Jones, Llanybyther, Cyfrol 12, Rhif 97

Yn ddiau, roedd Beca a'i merched yn elfen hynod bwysig o fywyd cefn gwlad a'r protestio a gysylltid â'r bywyd hwnnw yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[321] Roedd yn anorfod felly iddi gael ei chrybwyll yng nghasgliad Cerddi Bangor oherwydd nid yn unig iddi adlewyrchu diflastod economaidd cefn gwlad y cyfnod, ond gellid dweud iddi fod yn ymgorfforiad ohono. Gellid dweud iddi hefyd fod yn symbol o ryddid i'r Cymry. Dengys y baledi yn ogystal iddi fod yn gymeriad poblogaidd ac adnabyddus yn y cyfnod.

> Nid rhyfedd gwel'd geni dau efill,
> Medd Neli a Shani Llansaint;
> Mae Becca yn esgor ar ferched,
> A'r rheini yn gyflawn mewn maint;
> Mae'n esgor, medd rhai, ar un noswaith,
> Ar ddeugain neu driugain i gyd;
> Os para yn hir wna hi felly,
> Bydd digon i lenwi'r holl fyd.[322]

Yn ddiau, mae'r faled hon a'r baledi tebyg iddi, megis *Can hiraethlon David Davies (Dai'r Cantwr) pan yn garcharor yn Nghaerfyrddin, am y terfysg yn amser Rebeca*, yn hynod werthfawr wrth ystyried y cyd-destun hanesyddol.[323] Nid yn unig y cynigant wybodaeth am gyd-destun hanesyddol Merched Beca a'r hyn a ymladdent drosto yng nghefn gwlad, ond rhoddant ddarlun byw o'r nosweithiau hynny pan aent allan fin nos i ddymchwel grym a baich y tollbyrth. Er gwaethaf difrifoldeb y pwnc fodd bynnag, ceir elfen bendant o hiwmor yn y baledi a'r delweddu wrth reswm yn ategu yn fawr at y ffraethineb hwn.

---

[321] Roedd terfysgoedd Merched Beca yn fynegiant o hunaniaeth ac anfodlonrwydd trigolion cefn gwlad y cyfnod.Targedwyd y tollbyrth a oedd yn fwrn economaidd, yn ogystal â bod yn symbol o orthrwm y bobl. Y glwyd gyntaf i'w dinistrio oedd clwyd Efail-wen ym 1839. Parhaodd y terfysgoedd dros gyfnod o bedair blynedd rhwng 1839 a 1843.

[322] *Can newydd sef ychydig o hanes bywyd Rebecca a'i merched, Fel y maent yn tori'r tollbyrth mewn amrywiol fanau*, D. Jones, Llanybyther, Cyfrol 12, Rhif 97

[323] Gweler erthygl Ceri Evans ar y faled a therfysgoedd Beca yn *The Journal of the Pembrokshire Historical Society*, 9 (2000)

Mae llawer o siarad am Becca
Eleni, mi goelia', trwy'n gwlad,
Mae llawer o son am ei merched,
'Does neb wedi gweled eu tad;
Dymuna hen wraig o'r gym'dogaeth
I gyrhaedd gwybodaeth ei hun,
Pa ffordd y mae Becca yn medru
Cenhedlu mewn gwely heb ddyn.[324]

Er gwaethaf yr agwedd ffraeth hon sy'n awgrymu nad oedd y baledwr yn anghymeradwyo'r terfysgoedd, daw'r faled i ben gyda'r baledwr yn annog heddwch yn y wlad.

Rhyw 'chydig o hanes fel yma
Sydd gennyf am Becca a'i phlant, −
Mae'n ddrwg genyf wel'd aflonyddwch,
Gwir heddwch sydd arnaf fi chwant;
Gobeithio y chwilir y llwybyr
Sydd gywir, drwy synwyr, heb sen;
A chariad gan bawb at ein gilydd
A fyddo byth beunydd yn ben.[325]

Yn eironig ddigon, yr alaw a ddefnyddid ar gyfer y faled hon oedd *Pray what will Old England come to*, a adlewyrcha ffraethineb y baledwyr. Sonia'r faled arall sy'n ymwneud â therfysgoedd Beca am Dai'r Cantwr yn eistedd mewn diflastod yng ngharchar Caerfyrddin o ganlyniad i'w ymwneud ag ymosodiadau Beca a rhydd ddelwedd negyddol, besimistaidd o'r terfysgoedd.[326] Yn hytrach na chlodfori'r 'merched' am eu safiad gyda baled a ddathlai'r gwrthryfel, ceir yn hytrach faled a rydd ddelwedd o ddyn ifanc, toredig sydd ar fin cael ei alltudio am ei drosedd. Gellir casglu yn ddiamheuol mai heddwch oedd llwybr delfrydol y baledwyr, er gwaethaf eu daliadau personol ynghylch amrywiol frwydrau a rhyfeloedd y cyfnod. Anuniongyrchol yw cyswllt y merched â gwrthryfel a therfysgoedd yn gyffredinol yn

[324] *Can newydd sef ychydig o hanes bywyd Rebecca a'i merched, Fel y maent yn tori'r tollbyrth mewn amrywiol fanau*, D. Jones, Llanybyther, Cyfrol 12, Rhif 97
[325] Ibid.
[326] *Can hiraethlon David Davies (Dai'r Cantwr) pan yn garcharor yn Nghaerfyrddin am y terfysg yn amser Rebeca*, David Davies, Cyfrol 12, Rhif 7.

y baledi. Nid ei lle hi oedd yng nghanol protest gorfforol, ond yn hytrach yn gefnogaeth ysbrydol i'w gŵr gartref ar yr aelwyd. Er i'r ferch gael ei chrybwyll hwnt ac yma mewn hanes fel rhyfelwraig, nid yw'r baledi yn ei hystyried nac yn ei chrybwyll ar y testun hwn ond mewn ffordd anuniongyrchol. Hiraeth a pherthynas y merched â'r milisia yn unig a geir i raddau helaeth a'u hiraeth a'u gofid pan â'r cariad i ffwrdd i ryfela. Rôl cariadferch a gwraig yn unig a ddarlunnir gan apelio at emosiwn a thrugaredd y gwrandawyr. Fodd bynnag, byddai'n sail i stori dda a deniadol i gynulleidfaoedd y cyfnod. Ymhlith y baledi hyn, ceir baled o eiddo Dafydd Jones, Llanybydder sef *Galar-gan Margaret Williams o Lanfihangel, ar ol ei chariad, Yr hwn a syrthiodd yn aberth i'r cleddyf gerllaw Washington, yn Ngwrthryfel America*.[327] Apelia ar ddechrau'r gerdd at 'bawb sy'n perchan teimlad' gan sicrhau fod ei wrandawyr yn unol mewn ymdeimlad o hiraeth a cholled. Yr hyn sy'n drawiadol am y faled hon yw'r ffaith i Dafydd Jones ganu o safbwynt cwbl fenywaidd a gellid ymron dadlau mai gwraig ifanc a ganai o'i phrofiad a'i hiraeth personol. Un o'r penillion mwyaf dirdynnol yn y gân ydyw'r pennill lle cân am ei hangen i weld gorffwysfa olaf ei chariad gan ddifaru nad oes dim yno i'w gofláu mewn angau.

> Carwn i gael gwel'd y llanerch
> Lle yr huna ef mewn hedd,
> Tywallt wnawn yn ewyllysgar
> Ddagrau galar ar ei fedd;
> Ond er hyny'r wyf yn ofni
> Nad oes dim i nodi'r fan,
> Carreg fedd, nac un lythyren,
> I ddangos bedd y milwr gwan. [328]

Llwydda i dynnu sylw at y manylion bychain a denu'i wrandawyr i deimlo'r hiraeth ac i uniaethu yn y profiad. Daw'r faled i derfyn mewn gair o gyngor i ferched Cymru:

---

[327] *Galar-gan Margaret Williams, o Lanfihangel, ar ol ei chariad, yr hwn a syrthiodd yn aberth i'r cleddyf gerllaw Washington, yn Ngwrthryfel America*, David Jones, Cyfrol 31, Rhif 10
[328] Ibid.

Ferched Cymru, gwnewch ragori
Arnaf fi trwy fod yn well,
Na ollyngwch eich cariadau
Byth oddiwrthych yn rhy bell.[329]

Dylid nodi i Dafydd (neu David) Jones o Lanybydder ganu baledi yn rheolaidd a apeliai at ferched a gwragedd; baledi mwy benywaidd eu naws a'u hapêl a ymdriniai â themâu a amrywiai o hiraeth a chariad at ffasiynau cyfoes. Er gwaethaf prinder y baledi rhyfel hyn o ran niferoedd, gellid casglu llawer oddi wrthynt am y cyd-destun hanesyddol, a chymdeithasol ac am apêl y baledi i wragedd a merched y cyfnod.

Rhyfeddodau

Mewn unrhyw gyfrwng adloniant, boed yn gân, yn ddrama, yn ffilm, yn sioe gerdd neu'n gyflwyniad theatraidd, ceir ynddynt ddigwyddiadau neu elfennau rhyfeddol. Mae'n elfen annatod mewn unrhyw gyfrwng adloniant wrth ddenu a chynnal sylw cynulleidfa. Nid yw'r baledi yn eithriad i'r arferiad hwn a cheir llond llaw o faledi sy'n ymdrin â'r rhyfedd a'r rhyfeddol yng nghymdeithas y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Unwaith yn rhagor, mae'r merched a'r gwragedd yn elfen annatod o'r thema hon. Gwelir fodd bynnag i'r plant chwarae rhan amlwg yn y thema hon, a'r cyswllt rhwng y cenedlaethau yn thema estynedig drwy gydol y baledi, fel y gwelir yn y faled hon sef *Hanes hen ŵr a fu fyw flwyddyn yn y carchar ar laeth bron ei ferch*.[330] Yn sicr, mae'n faled sydd yn cyflwyno'r holl elfennau amrywiol y gellid eu dychmygu mewn baled ddiddanus; ymerawdwr a'i gynghorwr, tair merch hardd, carchariad, goroesiad y tad mewn carchar tywyll oherwydd aberth ac ymdrech ei ferch wrth ei gadw'n fyw. Yn ddiau, mae'n faled anarferol, ond yn lled nodweddiadol

[329] Ibid.
[330] *Hanes hen ŵr a fu fyw flwyddyn yn y carchar ar laeth bron ei ferch*, Ellis Roberts (Trefriw, 1813) Cyfrol 9, Rhif 10

o Elis Roberts, y baledwr a'i canodd.[331] Gwelir iddo ffafrio baledi a soniai am berthnasau a sefyllfaoedd anghonfensiynol yn y cyfnod. Dylid cofio mai adargraffiad o faled Elis Roberts, neu Elis y Cowper, o'r ddeunawfed ganrif yw'r faled hon, felly mae'r arddull yn wahanol i faledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg o ran ffurf ac arddull. Crwydra oddi ar yr arddull newyddiadurol, gan ganu mewn naws mwy storïol yn arddull y cyfarwydd neu'r anterliwtwyr o'r ddeunawfed ganrif. Yn ddiau, mae'n un o'r baledi sydd â'r adeiladwaith mwyaf pendant ac amlinellid y stori yn fanwl i sicrhau y gwerthfawrogai'r gwrandawyr y faled yn ei chrynswth. Ond ni ddatgelir rhyfeddod y faled tan y rhan olaf a'r adeiladwaith wedi'i anelu at dosturi a chydymdeimlad tuag at y tad. Ond ceir ymdeimlad a ymylir ar edmygedd at y ferch am ddangos cymaint o gariad a gofal tuag at ei thad drwy ddyfeisio modd mor wreiddiol a dyfeisgar i'w gadw'n fyw mewn sefyllfa anobeithiol.

> Hi ddwedai wrtho mor dosturus
> Chwychwi ydi fanwyl Dad cariadus,
> Nid oes mor modd i gael dirgelion
> Oni sugnwch laeth fy nwyfron
>
> Ac yna sugnai'i hen wr penllwyd
> Laeth o'i dwyfron yn ddi arswyd.
> Trwy rad Duw ai wyrthiau hyfryd
> Hwn a gadwodd iddo ei fywyd,
>
> Fo fu yno un dydd a blwyddyn,
> Yn y Siel heb gael briwsionyn,
> O ffrwyth y Ddaear at ei galon
> Ond bronnau ferch gywirserch ffyddlon.[332]

Mae'r arddull storïol hon yn gyson ar draws y baledi am ryfeddodau. Er nad ydynt yn niferus, rhydd agwedd newydd ar gymdeithas a dengys nad oedd y baledi wedi'u

[331] Dyma rai o faledi eraill Elis Roberts: *Yn mynegi hanes gwraig yn Llundain y gwanwyn diwethaf, a fu farw o newyn; wedi ei chymdoges ei naccau hi o liniaeth yngyfl ei dillad*, Ellis Roberts (Trefriw, 1800), Cyfrol 8, Rhif 12; *Hanes carwriaeth a fu rhwng mab tlawd a merch gyfoethog, y mab a dransportiwyd ac a bressiwyd, ac a ddaeth yn iach adre; creulondeb ei thad a rwystrodd ei garwriaeth, a'r ddau a dorasant eu calonnau, ac felly y buont feirw*, Ellis Roberts (Caernarfon, 1816) Cyfrol 12, Rhif 24

[332] *Hanes hen ŵr a fu fyw flwyddyn yn y carchar ar laeth bron ei ferch*, Ellis Roberts (Trefriw, 1813) Cyfrol 9, Rhif 10

cyfyngu at naws newyddiadurol yn unig. Er y gellid dadlau i'r baledi hyn fod â thinc newyddiadurol iddynt drwy ganu am ddigwyddiad penodol mewn hanes, mae'n arddull gwbl wahanol o ran naws. Egyr y baledi yn y modd traddodiadol gan wahodd y dyrfa i ddod i wrando ar hanes rhyfeddol y baledwr.

> Dowch yn nes i wrando 'Stori
> Fwya hynod fu i'w henwi,
> Ni bu'r fath beth erioed mewn sylw
> Er dydd Adda i'r dydd heddyw.[333]

Fe'u cenid yn aml ar alaw *Y Dôn Fechan*; alaw hynod boblogaidd yn y cyfnod ar gyfer baledi am ddigwyddiadau rhyfeddol, ac yn boblogaidd iawn ymysg y baledi a ymwnâi â marwolaeth a llofruddiaethau yn ogystal, e.e. *Can newydd am y modd y darfu Mari Menmore o bentref Penceley, Derbyshire, foddi tri o'i phlant a chrogi ei hunan ar yr 8fed o Chwefror, 1839*; *Can newydd yn rhoddi hanes am ryfeddol ddamwain a ddigwyddodd i wraig weddw oedd yn cadw Turnpike yn Micheldean yn Sîr Gaerloyw; sef y modd y gwaredodd yr Arglwydd ei bywyd trwy ei rhybuddio o'i pherygl mewn breuddwyd*; *Can newydd yn rhoddi hanes hynod rhwng Dafydd Harris a Nansi Griffiths o Dref Caerlleon-ar-Wysg, Sir Fynwy, y rhai a ddaethant i ddiwedd truenus, y 10fed o Ionawr, 1819.* Mae'n amlwg i'r alaw leddf lifo gyda'r geiriau ac ategu at naws benodol y baledi rhyfeddod hyn.

Baled a fyddai'n sicr wedi denu sylw cynulleidfa yn y cyfnod oedd baled Elis Roberts sef *Can newydd o hanes rhyfeddol am fachgen a fu farw yn ddiweddar yn heol Dean (Dean Street) yn Llundain yn un ar bymtheg oed, yr hwn at ddiwedd ei oes a glafychodd mewn modd anarferol, sef a rhyw swm mawr o'r tu mewn iddo megis*

[333] *Can newydd o hanes rhyfeddol am fachgen a fu farw yn ddiweddar yn heol Dean (Dean Street) yn Llundain yn un ar bymtheg oed, yr hwn at ddiwedd ei oes a glafychodd mewn modd anarferol, sef a rhyw swm mawr o'r tu mewn iddo megis gwraig feichiog fai'n agos i dymp esgor; yr hwn pan fu farw a agorwyd a chafwyd yn ei gylla ef blentyn benyw a gwallt ac a danedd ganddo, ac un goes ganddo, a di anaf ond hynny, fel mae'r hanes yn canlyn yn y gerdd*, Elis Roberts (Trefriw, 1817) Cyfrol 9, Rhif 43

*gwraig feichiog fai'n agos i dymp esgor; yr hwn pan fu farw a agorwyd a chafwyd yn ei gylla ef blentyn benyw a gwallt ac a danedd ganddo, ac un goes ganddo, a di anaf ond hynny, fel mae'r hanes yn canlyn yn y gerdd.* Yn ôl yr arfer, mae'r teitl neu'r cyflwyniad yn amlinellu'r stori yn ei chrynswth cyn y dechreuir ar y faled ei hun. Yn sicr, mae'r adeiladwaith i'w ganmol wrth ddenu'r gwrandawyr i wrando hyd at y diwedd.

> Nid oedd rhyngddo fawr o ragor
> A gwraig feichiog yn mîn esgor;
> Yn fawr ei swm a musgrell hefyd
> Yno'n boenus iawn ei benyd.[334]

Yn sicr, mae'r faled hon gyda'r mwyaf rhyfeddol o'i math gyda bachgen ifanc yn ymddangos i esgor ar blentyn, a'r plentyn yn ferch fyw gyda phâr o ddannedd, gwallt ar ei phen a'i chalon yn curo.

> Ac er nad oedd hi ond plentyn bychan,
> Yr oedd hi'n edrych fel mewn oedran,
> A chanddi dyner wallt a danedd;
> Er mor saled oedd ei sylwedd.
>
> Yr oedd y PULS yn rhoddi arwydd
> Ei bod yn fyw o fewn y ddeu-ddydd;
> Nerth y physig poen y Bachgen,
> Gallwn goelio a'i gwnaeth yn gelen.[335]

Ffenomenon feddygol a geir yn y faled hon mewn gwirionedd, ond iddi gael ei haddurno a'i chyflwyno ar gyfer adloniant ac i sicrhau y câi'r gynulleidfa eu cyfareddu gan yr hanes. Wrth reswm, ni ddatgela'r baledwr y ffeithiau moel, meddygol hyd y penillion olaf un rhag dinistrio dychymyg a rhyfeddod y gwrandawyr. Gwelir felly i'r elfen newyddiadurol gripio i mewn i'r faled hon er gwaethaf ei naws storïol, ddychmygol. Pe bai'n gyfrwng adloniant yn unig, mae'n bosib na fyddai'r baledwr wedi datguddio'r eglurhad ac wedi celu'r gwirionedd

[334] Ibid.
[335] Ibid.

gwyddonol er mwyn parhau â'r ffantasi ac elfen afreal y stori. Gwelir i'r baledwr sicrhau ffeithiau cadarn a chlymu'r gerdd at ei gilydd yn ddestlus wrth grynhoi'r faled.

> Ynghylch y ddau mae barn Doctoriaid
> Eu bod 'run oedran ran cenhedliad;
> Ei bod hi yno cyn ei Eni
> Wrth ei Asen yn cyd oesi.
>
> Nid oeddynt felly ond gefeilliad
> 'Ran âch a natur a chenhedliad,
> Ond bod gosodiad dechreu sylwedd,
> Wedi ei roi yn afreolaidd.[336]

Gwelir yn ogystal iddi gloi gyda neges a gair o gyngor i rieni'r cyfnod. Cyniga'r baledwr bleidlais o ddiolch i Dduw am sicrhau nas genid pob plentyn ag anafiadau a namau corfforol neu feddyliol.

> Rhyfedded pawb o heppil Adda,
> Gael ei eni yn ddi ana'.
> Rhoi clod i Dduw am fath ddaioni,
> Mae hynny'n rhinwedd pob Rhieni.[337]

Gwelir felly adlais o'r cerddi cyngor yn ymddangos. Prif ryfeddod y baledi hyn yw'r ffaith iddynt adlewyrchu neu fod yn ddrychddelwedd o ddarluniau a welir ran amlaf rhwng mam a'i phlentyn, ond yn y cyd-destun hwn a welir rhwng y tad a'r plentyn. Y fam a welir yn bwydo'i phlentyn o'r fron, a'r fam sydd yn esgor ar blant, ond yn y baledi uchod, gwelir y tad yn camu i esgidiau'r fam fel petai ac yn cyflawni gweithredoedd arferol y fam. Yn sicr, nid ydynt yn faledi traddodiadol o ran stori, ond wrth reswm, prin iawn fyddai digwyddiadau o'r fath, ac felly, prin iawn fyddai'r baledi a ganai am ddigwyddiadau tebyg.

[336] Ibid.
[337] Ibid.

Dylid sôn am un faled arall yng nghasgliad Cerddi Bangor, a'r faled honno yw *Y Ferch ryfeddol, neu hanes Sarah Jacob, Llethr-Neuadd, yn agos i Bencader, Sir Gaerfyrddin, a anwyd yr 17eg o Fai, 1857, ond nid ydyw wedi profi yr un math o fwyd, gwlyb na sych, oddiar y 10fed o Hydref, 1867, sef DEUNAW MIS!!*.[338] Mae'r stori hon yn enwog hyd yr unfed ganrif ar hugain, yn enwedig ar lafar gwlad yn ardaloedd gwledig sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Hwnt ac yma, ceir baled a ddaw i'r amlwg lle y gwelir i'r stori oroesi dros y canrifoedd, a'r rhyfeddod yn parhau. Gwelir yn ogystal i'r stori hon ledaenu at gyfryngau amgen o adloniant, megis y llwyfan a'r byd llenyddol.[339] Er gwaethaf poblogrwydd Sarah Jacob hyd at y presennol, un faled yn unig a geir yng nghasgliad Bangor a sonia amdani. Yn gyffredinol, ceir mwy o ddeunydd amdani trwy gyfrwng y Saesneg o'i chymharu â'r deunydd sydd ar gael yn Gymraeg sy'n rhyfeddol ynddo ei hun o ystyried mai ym Mhencader y'i lleolid. Yn sicr, roedd amheuaeth yn rhemp yn ei chylch a'r gymdeithas wedi'i rhwygo yn ôl eu credoau a'u barn bersonol fel y gwelir yn y dyfyniad hwn o'r ddrama *The Welsh Fasting Girl.*

> VICAR: You know why I have called this meeting. It is, of course, about Sarah Jacob, now known as the Welsh Fasting Girl. The sensation which has been caused in this part of Wales forces me to take some action as Vicar of the Parish. It is only right that people should know all the circumstances. Some people doubt the genuineness of the Fast. And some of the papers have published remarks – well, all I say is, that we should prove one way or another whether the fast is a genuine one. For my part, I have visited her frequently. I think she is a saint, and that many people have been healed by her touch is evidence that she is in some sense divine.[340]

[338] *Y Ferch ryfeddol, neu hanes Sarah Jacob, Llethr-Neuadd yn agos i Bencader, Sir Gaerfyrddin, a anwyd yr 17eg o Fai, 1857, ond nid ydyw wedi profi yr un math o fwyd, gwlyb na sych, oddiar y 10fed o Hydref, 1867, sef DEUNAW MIS!!*, Hugh Roberts (Pererin Môn), Cyfrol 21, Rhf 133

[339] John Cule, *Wreath on the Crown: The Story of Sarah Jacob, the Welsh fasting girl* (Llandysul, 1967); W. F Lloyd, *The Welsh Fasting Girl and other plays* (Swansea, 1928); Gwenlyn Parry, *Sal* (Llandysul, 1982)

[340] W. F Lloyd, *The Welsh Fasting Girl and other plays* (Swansea, 1928), 7-8

Yn ddiau, crëwyd myth o amgylch ei henw a'r baledwr yn cymryd mantais o'r fath gymeriad hynod. Dengys un o'r penillion agoriadol gan Hugh Roberts yr elfen ryfeddol a gysylltid â'i henw.

> Mae'n gwybod yr ysgrythyr
> Cyn bod yn ddeuddeg oed,
> Llenyddiaeth a barddoniaeth,
> Ni fu ei bath erioed;
> Mae hon yn wrthrych sylw
> Gan bawb o ddynol ryw,
> Trwy drefen ddoeth Rhagluniaeth
> Fe'i gwelir heddyw'n fyw.[341]

Profa'r ffaith mai baledwr o Fôn, o bosib, sy'n canu'r faled hon cymaint y lledaenwyd y neges ar hyd a lled y wlad yn y cyfnod. Wrth reswm, mantais y baledwyr oedd y ffaith iddynt deithio ar hyd a lled y wlad a chlywed ac ailadrodd y straeon a glywent ar eu teithiau. Felly, byddai'n debygol iawn i'r faled a'r stori hon ledaenu ar hyd a lled y wlad mewn fawr o dro. Sonia'r faled am fywyd Sarah Jacob rhwng y prynhawn pan gyrhaeddodd adref o'r ysgol yn glaf a dirywiad ei chyflwr gan gysgu am fis cyfan wrth wanhau. Ceir elfen grefyddol i'r faled yn ogystal wrth iddi sôn am ei gweledigaethau crefyddol a delweddau y dywedodd iddi eu gweld o'r nefoedd. Dywedir iddi wrthod bwyd ac i'w thad rwystro eraill rhag ei bwydo am na fyddai'i chorff yn gallu ymdopi wedi newynnu am gyhyd. Try'r faled hon am Sarah Jacob fodd bynnag o fod yn faled a sonia am ryfeddod ei bywyd i fod yn gerdd gyngor nid yn unig i blant ac ieuenctid Cymru i ddilyn esiampl ei bywyd, ond hefyd i'r oedolion a'r oedrannus.

> A chwithau blant 'r ysgol
> Sabbothol trwy'r holl wlad,
> Gwrandewch ar eich athrawon,
> A'ch tyner fam a'ch tad;

[341] *Y Ferch Ryfeddol neu hanes Sarah Jacob, Llethr-Neuadd, Yn agos i Bencader, Sir Gaerfyrddin, a anwyd yr 17eg o Fai, 1857, ond nid ydyw wedi profi un math o fwyd, gwlyb na sych, oddiar y 10fed o Hydref, 1867, sef DEUNAW MIS!!* Hugh Roberts (Pererin Môn), Cyfrol 21, Rhif 133

A dysgwch oll eich gwersi,
Tra byddoch yma'n iach,
Ac hefyd yr ysgrythur
Fel dysgodd Sarah fach.

A chwithau yr henafgwyr
Sydd oll a'ch gwallt yn wyn,
O cofiwch am yr aberth
Fu ar Galfaria fryn;
Mae ganddo falm o Gilead
I wneyd y claf yn iach,
Fel mae â'i ofal tadol
Yn nhystudd Sarah fach.[342]

Yn sicr, mae'n faled unigryw oherwydd diwedda yn sŵn geiriau Sarah Jacob ei hun a ysgrifennwyd pan oedd yn ei newyn a'i chystudd, elfen nas gwelir yn yr un o'r baledi eraill yng nghasgliad Cerddi Bangor. Ond nid canu yn y person cyntaf a wna, nac ychwaith amdani ei hunan, ond yn hytrach cân am ferch ifanc arall a fu'n ddisgybl yn yr ysgol gyda hi pan fu'n blentyn ac a fu farw yn sydyn. Mae'r gerdd yn llawn diniweidrwydd plentyn a'r delweddau yn ddelweddau rhamantaidd, tyner o'r nefoedd a Iesu Grist.

Aeth geneth fechan adref,
Mae heddyw gydag Ef,
Yn awr yn canu'n beraidd
Ar delyn aur y nef;
Ac er mor anwyl ydoedd
Gan ei rhieni cun;
Anfonodd Crist am dani
Yn berlyn iddo'i hun.[343]

Awgryma'r rhybudd, 'Ni chaniateir Argraffu y Gan hon heb genad Pererin Mon, neu Miss S Jacob' ar ddiwedd y gerdd mai Sarah Jacob ei hun a luniodd y cerddi ar ddiwedd y faled a'r baledwr wedi llunio'r rhythmau a mesur ei faled yntau oddeutu'i phenillion hithau. Yn sicr, crisiala'r faled hon y math o ddylanwad a gâi'r baledi ar

[342] Ibid.
[343] Ibid.

bobl y cyfnod yng nghyd-destun crefydd, dehongliadau o stori neu ddigwyddiad, ac wrth ledaenu barn bersonol.

Crefydd

Gwelir o'r faled uchod ynghylch Sarah Jacob mor ddadleuol oedd crefydd fel thema yng nghymdeithas y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn ddiau, ni ellir gwadu i Gristnogaeth fel y cyfryw fod â gafael gadarn tu hwnt ar y gymdeithas a'u hymateb a'u gweithredoedd yn cael eu dylanwadu yn ddi-os gan eu cred yn Nuw. Nid yw'r baledi'n eithriad i'r dylanwad a'r feddylfryd grefyddol hon, a gellir gweld yn glir cymaint y mae egwyddorion Beiblaidd yn britho'r amrywiol faledi ym mhob thema. Ni ellir gwadu nad oedd crefydd yn elfen annatod o fywyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac fe adlewyrchir hyn yn y baledi yn gwbl eglur. Gwreiddid y mwyafrif o benderfyniadau a gweithredoedd mewn crefydd, a gwelir bod moesoldeb y wlad yn glynu'n gadarn wrth farn Duw. Yn achos thema llofruddiaeth yn enwedig, gwelir yr agendor amlycaf rhwng cymdeithas y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r unfed ganrif ar hugain. Ar ddiwedd y baledi, gwelir y llofrudd yn cyffesu ei bechod ac felly'n barotach i wynebu barn Duw a dioddef ei gosb haeddiannol yn hytrach na byw bywyd o bechod a dioddefaint ysbrydol heb gyffesu ei drosedd.

> Y llofrudd aeth yn union adre',
> A'i ddillad gwaedlyd yno a losgai;
> Ac wrth ei was fe gyfaddefodd
> Y weithred aflan a gyflawnodd.
>
> O ddeutu pedwar yn y borau
> Cychwynai i Gaer,− mae'n wir y geiriau,
> Gan ddechreu curo yn nrws y carchar,
> A dweud ei gyffes gyda galar.

O flaen y Maer fe gyfaddefodd
Yr holl erchylldod a gyflawnodd;
Ac felly rho'ed e'n y Carchar-dy,
Nes delo'r dydd i'w gywir farnu.[344]

Gwelir yn ogystal cymaint y tynnwyd oddi ar Gristnogaeth yn y baledi cyngor i ferched ifainc. Gwreiddid y rhagfarn gymdeithasol yn erbyn merched ifainc dibriod yn beichiogi wrth grefydd, a'r egwyddorion Beiblaidd hynny'n cael eu mynegi'n glir drwy'r baledi pan grwydrai parau ifanc oddi ar y llwybr cul.

Daw'r sarff, bid siwr, hyd heddyw
I'th Eden, os ca le,
Gan geisio codi rhagfur
Cydrhyngot ti a'r Ne';

Ond cofia di O! Efa
Fod llygaid Duw o hyd
Yn gwylio dros y llwybrau
A rodiaist yn y byd.[345]

Gwelir felly bod Duw yn gweld pob pechod ac yn cosbi'r rheini a fyddai'n pechu yn Ei erbyn. Ceir yn ogystal bresenoldeb hollbresennol y Diafol yn cyd-gerdded â chrefydd a chysgod uffern yn llechu yng nghilfachau'u bywydau o dydd i ddydd, yn barod i'w cymryd o'r byd hwn petaent yn cyflawni trosedd neu ddrygioni heb eu cyffesu.

Ond, yn ogystal â'r baledi dirifedi a grybwyllai wersi crefyddol neu foeswersi'r Beibl, ceir baledi a ganai'n benodol ar themâu crefyddol neu am dröedigaethau ysbrydol. Ceir hefyd wersi o'r Beibl yn y baledi ar ffurf damhegion yn ogystal â phwysigrwydd darllen a deall dysgeidiaeth y Beibl yn y cartref. Yn wir, mae'r baledi hyn yn eironig

[344] *Yn rhoddi cyflawn hanes y llofruddiaeth echryslon a gyflawnodd Samuel Thorley, ar gorph Mary Pemberton gerllaw Northwich, yn Sir Gaerlleon – ar y 6ed o Ragfyr diweddaf; am yr hyn y mae yn aros yn y carchar hyd y sessiwn nesaf yn Nghaerlleon*, Richard Williams (Llanrwst) Cyfrol 12, Rhif 26
[345] *Cyngor i'r merched ieuangc i fod yn ofalus rhag cael eu twyllo gan ystrawiau estroniaid anadnabyddus*, Brychyn Eleth, (Amlwch) Cyfrol 29, Rhif 5

braidd o ystyried nad oedd crefyddwyr a baledwyr y cyfnod yn cyd-dynnu yn gymdeithasol. Fodd bynnag, profa'r baledi a'r cyfeiriadau lu at Dduw nad oedd hyn i raddau helaeth yn ddilys. Er gwaethaf rhai themâu a chyfeiriadau awgrymog yng nghynnwys y baledi, mae'r neges ymron yn ddieithriad yn un foesol. Dylid cofio fodd bynnag nad ystyrid y baledwyr yn binaclau moesoldeb a daioni yn y wlad. Gadawent deuluoedd gartref yn aml a chafwyd straeon amdanynt yn dwyn oddi wrth ffermwyr a chysgu mewn ysgubor neu ym môn clawdd o ganlyniad i'w tlodi a fyddai wedi cythruddo canran helaeth o'r boblogaeth. Ond er gwaethaf y rhagfarn gymdeithasol hon, mae'n amlwg i ganran o'r baledwyr fod yn hynod grefyddol gan ganu ar themâu a ymdriniai â chrefydd yn y cartref ac o fewn y gymdeithas ehangach.

Gellid ymron cymharu rhai o'r baledi â phregeth ar y Sul yng nghyd-destun y baledi ar ffurf damhegion. Ffin denau sydd rhwng crefydd a'r baledi, er gwaethaf y gwrthdaro a fu rhwng y ddwy ochr yn y cyfnod. Un enghraifft a geir o ddameg yn y casgliad o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r faled honno'n cael ei chanu ar yr alaw *Loath to Depart* sef *Dameg y Deng Morwyn*.[346] Nid oes arni ddyddiad. Ond, drwy graffu ar y copi o'r faled, yr argraffwyr a'r baledi o'i chwmpasu yn y casgliad ym Mangor, gellid yn sicr ddadlau iddi gael ei chanu gan faledwr ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gwelir ynddi strwythurau confensiynol baled a dameg wedi'u cyfuno, gyda seiliau'r stori wedi'u hamlinellu'n glir ar ffurf dameg, a'r mydr ac odl yn y gân yn rhoi iddi lif a strwythur baled. Ceir yn ogystal y neges foesol a ddisgwylid yn y ddameg a'r faled yn ei chloi.

> Am hyny, fy mrodyr, i gyd o'r un rhyw,
> Er 'tolwg edrychwch pa fodd 'rych yn byw;

[346] *Dameg y Deng Morwyn* (Llanrwst) Cyfrol 24, Rhif 46

Cydwybod lân rywiog a lamp gyd ag ef;
Gras Duw yw'r rhodd oreu a'n dwg i wlad Nef.[347]

Soniwyd eisoes i drigolion y bedwaredd ganrif ar bymtheg fyw dan farn Duw a byddai'r baledi i raddau helaeth yn codi ofn ar eu gwrandawyr a fyddai'n sicrhau yn ei dro y byddent yn byw bywyd di-bechod. Dengys y faled hon enghraifft o'r math o ganu a soniai am bŵer a barn Duw.

Mae Duw yn danfon dwys rybuddion,
Ddydd a nôs i'n gwlâd yn gyson;
Ac os gwrandawn ar Dduw yn benna,
Yn dawel cawn ddiweddu'n gyrfa.[348]

Gwna'r baledwr esiampl o deulu a wnaeth, yn ôl y sôn, ddigio Duw. Hanfod y faled sy'n dwyn y teitl, *Yn rhoddi hanes dychrynllyd am Farn Duw, pan ydoedd yr yd wedi ei gasglu, fe ddarfu Duw ei daro a mellt yn wenfflam i gyd, ynghyd a'r gwr a'r wraig a chwech o blant, a thri gwas cyflog a dwy forwyn i gyd yn ulw nad oedd careg ar gareg, o herwydd digio Duw, y 27 o fis Awst, 1818,*[349] yw ei gosb arnynt am eu pechod yn gwrthod Duw a gwatwar Ei negeswyr drwy ladd y teulu un ac oll mewn tân enfawr ar y fferm.

Er gwaethaf erchylltra'r gosb, fe'i cyfiawnheir gan y baledwr drwy ychwanegu i nifer eraill o Gymru fod dan ddylanwad y diafol ac y dylid eu cosbi a'u dwyn i synnwyr. Nid yw'r math hwn o faled yn gyffredin yng nghasgliad Cerddi Bangor, ond yn ddiau, ni ellir dadlau wrth graffu ar y faled hon nad oedd Cristnogaeth yn elfen hynod bwysig ym mywydau pobl y cyfnod. Yn ogystal â bod yn elfen annatod yn y

[347] Ibid.
[348] *Yn rhoddi hanes dychrynllyd am Farn Duw, pan ydoedd yr yd wedi ei gasglu, fe ddarfu Duw ei daro a mellt yn wenfflam i gyd, ynghyd a'r gwr a'r wraig a chwech o blant, a thri gwas cyflog a dwy forwyn i gyd yn ulw nad oedd careg ar gareg, o herwydd digio Duw, y 27 o fis Awst, 1818,* Thomas Harris (Trefriw, 1818) Cyfrol 10, Rhif 35
[349] Ibid.

gymdeithas, gwelir yn y baledi mor ganolog oedd crefydd yn y cartref. Yn y faled, *Hen Feibl Mawr fy Mam* gan Tegidon, gwelir y baledwr yn canu am Feibl y cartref; rhywbeth a fyddai wedi bod yn elfen hollbwysig ar aelwyd yn y cyfnod a'r ffaith iddi ddwyn ffigwr y fam yn ei theitl yn adlewyrchu ei rôl fel canolbwynt a chynheilydd yr aelwyd.

> Mil harddach yw'th ddalenau,
> A'th holl gornelau troi,
> Na phe baent aur ymylau
> A chlaspiau beirdd i'w cloi
> Nid amharch wnaeth dy faeddu,
> Nid annghof roes i'r gam,
> Ond trysor pena'r teulu
> Oedd Beibl mawr fy Mam.[350]

Er yr awgrymwyd hyd yn hyn i drigolion y bedwaredd ganrif ar bymtheg fod yn grefyddol o ganlyniad i barchedig ofn o farn Duw, gwelir yn y faled hon cymaint o gysur a gâi'r fam o'i Beibl a'i chred yn ddi-sigl.

> 'Rwy'n cofio mam yn burion,
> Dan eithaf profiad llym,
> Yn sugno o'th gysuron,
> Yn cael o honot rym;
> Dan eithaf hedd anghofiai'i cham,
> Nid oes gyffelyb iti,
> Hen Feibl mawr fy Mam.[351]

Ni fyddai'n annisgwyl clywed baled am dröedigaeth neu brofiadau ysbrydol unigolion ychwaith yn y cyfnod. Ar y tröedigaethau benywaidd y canolbwyntir yma. Soniai'r baledi hynny yn eu tro am unigolion a dueddai i fod yn gymeriadau balch a drygionus yn wreiddiol a chael tröedigaeth gan sylweddoli iddynt ddilyn y trywydd anghywir mewn bywyd. Amlinellir eu drygioni a'u camweddau ar ddechrau'r faled, gan bwysleisio canlyniadau'r dröedigaeth wrth gloi.

[350] *Hen Feibl Mawr fy Mam* (Caernarfon) Cyfrol 25, Rhif 33
[351] Ibid.

Os caf i'm gafael hoedel hwy,
Mi fydda'n fwy ufuddach,
I wasanaethu Duw bob dydd,
Rhag ofn rhyw gerydd garwach;
Un wedd a saint mewn braint a bri
Mi ddaliaf fi'n dduwiolach.[352]

Gwelir yn y baledi tröedigaethol hyn y modd y chwaraeid ar y berthynas rhwng y drygioni a'r daioni; rhwng Duw a'r diafol. Crybwyllid y diafol ymron yr un mor gyson â phresenoldeb Duw a chwarae ar ofn y bobl o uffern. Tueddid i dargedu'r merched yn y baledi hyn yn gyffredinol, ond hwythau yn ogystal yw'r cymeriadau ffôl a balch cyn eu tröedigaeth. Ni chrybwyllid unrhyw ddosbarth cymdeithasol yn y baledi hyn a awgryma nad oedd crefydd y cyfnod yn gwahaniaethu rhwng y tlawd a'r cyfoethog, ond yn hytrach i bawb fod ar yr un gris wrth draed Duw. Gwelir y dynion ar y llaw arall fel cymeriadau dioddefus, goddefgar a geisia ddylanwadu'n gadarnhaol ar y merched a'u dofi.

Ei thad oedd ar goedd yn gu
I'w charu, heb gelu, o'i galon,
Gan ddeisyf arni, roddi'n ffri
O'i lawnder i dylodion,
I gael ennill yn ei phlwy
Odiaethol fwy bendithion.[353]

Fodd bynnag, nid yw'r ddelwedd hon yn gyson ar draws y baledi crefyddol. Er gwaethaf y ddelwedd negyddol a geir ohoni yn y baledi sy'n ymwneud â thröedigaethau, caiff ei hamddiffyn a'i dyrchafu mewn agwedd arall ar grefydd ac yn y faled, *Can o amddiffyniad i ferched a gwragedd*, galwa'r baledwr ar 'ddynion da mwynion dymunol' wrth agor y faled a gyflea'n syth y gynulleidfa y ceisia'u targedu. Ceir dwy ochr i'r ddadl wrth reswm a'r arddull ymron fel ymddiddanion rhwng

[352] *Yn rhoddi hanes am droedigaeth merch ieuangc, falch ac annrhugarog, yr hon ni wrandawai ar gyngor ei thâd, ond mynd ymlaen yn ei chalongledwch a'i balchder, hyd nes yr ymddangosodd y cythrael iddi yn ei hystafell wrth edrych yn ei drych, ac ai bygythiodd yn dra arswydus, a hi a syrthiodd mewn llewyg ac ar ol ei dadebru daeth un ar ddull hen ŵr penwyn atti, gan ei rhybuddio a'i chynghori i wellau ei buchedd, felly hi a addunedodd, ac a fu byw o hynny allan yn ofn yr Arglwydd* (1817) Cyfrol 9, Rhif 46
[353] Ibid.

amrywiol gymeriadau yn y faled. Gwraidd y ddadl oedd na luniodd Duw wraig ar ei lun ei hun, a'i bod o ganlyniad yn israddol i'r gwryw ac yn anghyflawn o ran corff, ysbryd ac enaid.

> Rhai ddywed mor galed heb gelu,
> Nad ydyw'r rhai hynny ond rhyw haid,
> Anianol heb ddynol gynheddfau,
> Di ddoniau, mewn beiau'n ddibaid;
> Yn taeru i Awdur naturiaeth,
> Wneud hynod wahaniaeth ei hun,
> Trwy haeru na chreodd E'r fenyw,
> Fel gwrryw yn loyw ar ei lun.[354]

Rhestra holl ffaeleddau'r wraig gan ddechrau yn y dechreuad gydag Efa a'r 'ffrwyth gwaharddedig bwytaodd' ond ar y llaw arall, dadleuir mai rhinwedd y ddynol-ryw oedd y gwahaniaethau sylfaenol a chynhenid rhwng pob unigolyn, a'r gwahaniaethau hyn a rydd amrywiaeth i'r ddynol-ryw. Eir i'r afael yn ogystal ag un o bwyntiau sylfaenol y traethawd hwn, sef dylanwad y wraig yn y cartref a'i phwysigrwydd ar yr aelwyd. Trafodir ei thrallodion o ddydd i ddydd, a'i chariad a'i gofal famol dros ei phlant a'i haelwyd. Er yr herir statws, moesoldeb a chymeriad y wraig yn y faled, *Can o amddiffyniad i ferched a Gwragedd yn erbyn pa rai sy'n haeru, na chreodd Duw fenyw ar ei lun ei hun, megis y creodd y gwrryw; ac am hynny nad oes un enaid mewn merch, neu wraig, ac nad yw'r cyfryw yn attebol i Dduw, am eu hymddygiad yn y bywyd hwn*, daw'r baledwr i derfyn drwy gydnabod ei chyfraniad a'i rôl yn y bywyd gwerinol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gwna hynny mewn arddull farddonol a disgrifiadol ei naws; naws llawn delweddau benywaidd, addfwyn.

[354] *Can o amddiffyniad i ferched a Gwragedd yn erbyn pa rai sy'n haeru, na chreodd Duw fenyw ar ei lun ei hun, megis y creodd y gwrryw; ac am hynny nad oes un enaid mewn merch, neu wraig, ac nad yw'r cyfryw yn attebol i Dduw, am eu hymddygiad yn y bywyd hwn,* William Walters (Caerfyrddin) Cyfrol 22, Rhif 111

Nosweithiau hir ddyddiau anniddan,
A dreulia hi'n gyfan fi gwn,
Pan gwelo'i hiliogaeth mewn adfyd,
Mae hyn iddi'n bennyd o bwn;
Hi leda'i hadenydd mor dyner,
Hyd eitha' ei phwer ni phaid,
A'i nerthu a'i llonni'n alluog,
Yn serchog waith rhywiog wrth raid.[355]

Gwelir yn y bennod hon, yn fwy nag unrhyw thema arall, y gwahaniaethau cynhenid a geir rhwng yr amryw agweddau tuag at y wraig. Cyfosodwyd y ddau begwn o'i phersonoliaeth a gwelir y ddeuoliaeth rhwng y daionus a'r drygionus yn ei phersonoliaeth a'i chymeriad. Mewn thema fel crefydd fodd bynnag, gellid dadlau i'r neges fod yn fwy sylfaenol bwysig na rôl y ferch. Pwysleisid y gred yn fwy na'r unigolion hynny sy'n byw'r gred honno. Arwynebol neu gyd-ddigwyddiad felly yw'r cyswllt rhwng y gwragedd a chrefydd, yn enwedig o bosib yn y baledi gweledigaethol. Ni ellir ychwaith anwybyddu'r naws newyddiadurol gref sy'n gwlwm rhwng yr holl faledi; o'r baledi am hiraeth a chariad y fam i'r baledi terfysgaeth ac yn ôl i'r baledi rhyfeddod am unigolion a oroesodd neu a brofodd ryfeddodau meddygol ac ysbrydol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Amrywio a wnâi statws y wraig ar y cyfan, ond yn ddiau ni ellir gwadu ei phresenoldeb digamsyniol.

[355] Ibid.

Brithir cerddoriaeth a llenyddiaeth o bob oes gan ddelweddau a phresenoldeb y wraig a'r ddelwedd honno'n amrywio yn ôl mympwy y sawl a ganai amdani. Yn ddiau, gwelir i ddelwedd y wraig brofi gweddnewidiad sylweddol wrth gamu o'r naill gyfrwng i'r llall ac nid yw'r faled yn eithriad i'r tueddiad hwn. Yng nghasgliad Cerddi Bangor, fel y gwelir yn gyffredinol yn y baledi, roedd gan y baledwyr ddiddordeb a ymylai ar obsesiwn gyda'r ferch a'r ffigwr fenywaidd yn ei hanfod, yn enwedig pan oedd yn ferch ifanc, sengl. Eir i'r afael â bywyd y ferch â chryn fanylder a chenir baledi a dry o gwmpas cylch bywyd merched y bedwaredd ganrif ar bymtheg; o'r baledi cariadus i'r rhai a ganai am esgor ar blant, at fabanladdiad a baledi sy'n ymwneud â marwolaeth, at y baledi ysgafnach am yfed te a hel clecs.

Ychydig iawn o sylw a roddwyd i'r plentyn o ferch fel y cyfryw, oni bai iddi gael ei chrybwyll yng nghyd-destun colli rhiant, a'i hamddifadrwydd.[356] Ond, wrth iddi ddatblygu'n ferch ifanc, cynydda diddordeb y baledwyr yn ddi-os ynddi fel cymeriad ac fel ffigwr benywaidd. Ran amlaf, caiff ei hedmygu a'i charu gan y baledwyr ar wahân i'r baledi cyngor, lle y gwelir yr agwedd tuag ati yn troi o fod yn un gadarnhaol, gariadus at fod yn negyddol ac yn hynod feirniadol.[357] Roedd naws a neges y baledi cyngor yn gwbl wahanol i weddill y baledi ac ymdrinnid â themâu mwy sensitif na'r cyffredin; themâu megis beichiogi, caru gyda bechgyn y tu hwnt i briodas a chynnal ei henw da yn y gymdeithas. Eir i'r afael â'r thema drwy ei brawychu a'r bygythiad o bardduo'i henw da yn y gymuned ar gopa'r rhestr; bygythiad a fyddai'n ddigon i arwain merched ifainc, beichiog at lwybr hunanladdiad yn hytrach nag wynebu dirmyg a gwawd cymdeithas feirniadol y cyfnod. Er gwaethaf personoliaethau annibynnol ac ystyfnig y baledwyr pan ddeuir at themâu a chynnwys

[356] *Marwolaeth fy Mam*, John Athelstan (Caernarfon) Cyfrol 21, Rhif 197
[357] *Cerdd i annerch merch ieuangc*, J.P. (Aberdâr), Cyfrol 28, Rhif 32

eu baledi, ni allent, ganu am yr hyn a'u plesiai hwythau heb ystyried eu cynulleidfa. Roeddynt yn ddibynnol ar werthiant y baledi, ac yn eu tro felly, yn ddibynnol ar gefnogaeth eu gwrandawyr.

Ni ellid dadlau nad oedd y baledwyr yn gymeriadau hynod poblogaidd yn y cyfnod. Ceir atgofion amdanynt fel rhan annatod o'r hen ffeiriau traddodiadol, a'u presenoldeb yn rhan o gwlwm annatod hanes. Yn wir, elfen bwysig o'u hapêl yn gyffredinol oedd iddynt fod yn rhan o'r gymdeithas honno y canent amdani. Byddai'r apêl o ganlyniad yn sylweddol, gyda'r gynulleidfa'n uniaethu â chân y baledwr boed iddynt ganu am derfysgoedd cefn gwlad, neu am ddadl ar yr aelwyd. Gellid ymron honni iddo fod yn fath o therapi cymdeithasol. *'A problem shared is a problem halved'* chwedl y Sais, a gellid dadlau mai dyma a wnaeth y baledwyr yn y gymdeithas; canu am y problemau cynhenid o fewn perthynas ac o fewn cymdeithas a lleihau'r baich. Roedd y baledi hyn yn ddrych o gymdeithas y cyfnod yn ddi-os.

Prin yw'r wybodaeth a geir am y baledwyr ac y mae un o bob deg o leiaf o'r baledi yng nghasgliad Cerddi Bangor yn ddienw. Gwelir felly i nifer helaeth o'r unigolion hyn ddiflannu o'r golwg yn nhreigl amser. Er mai prin ar y cyfan oedd y baledwyr benywaidd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid amhara hyn ar y ddelwedd gyffredinol a geir o wragedd yn y cyfnod. Ceid tystiolaeth i faledwyr benywaidd fod yn hynod boblogaidd mewn gwledydd megis yr Alban, a gellid dadlau yr efelychid y tueddiad hwn yng Nghymru er mai prin ar y cyfan oedd y baledwragedd yng Nghymru.[358] Ond wrth graffu ar y baledi o eiddo gwragedd megis Elizabeth Davies a Catherine Edmund, gwelid nad yw'r arddull na'r canu yn wahanol i faledi'r dynion.

[358] Deborah A. Symonds, *Weep not for me: Women, Ballads, and Infanticide in Early Modern Scotland* (Pennsylvania, 1951), 13

Mae'n bosib yr ystyrid y gwragedd yn gyfartal â'r dynion ym myd y baledi, ac felly heb deimlo rheidrwydd i gymryd safiad a gwahaniaethu'u hunain oddi wrth y dynion. O ganlyniad felly, mae'n bosib i'r darlun a geir o'r wraig yng nghymdeithas y cyfnod yn y baledi fod yn fwy cytbwys na'r hyn a geid mewn cyfrolau academaidd.

Er i'r ddelwedd fenywaidd amrywio gryn dipyn o'r naill thema i'r llall, ni ellir cymryd yn ganiataol mai dyma sut yr ystyrid y ferch yng nghymdeithas y cyfnod. Pe cymherid hyn â'r ddelwedd a geid o'r dynion yn y cyfnod, gwelid i'r ddelwedd honno yn ogystal newid yn sylweddol yn y gwahanol faledi; yr arwr yn y baledi rhyfelgar, a'r cnaf pan adawai'r ferch ifanc i wynebu gwarth cymdeithas ar ôl ei beichiogi. Roedd y faled yn gyfrwng nid yn unig i drosglwyddo newyddion, ond hefyd yn gyfrwng i waredu rhwystredigaethau personol ym mywydau beunyddiol y baledwyr. Gellid dadlau felly i'r delweddau ffôl o'r merched yn hel clecs ac yn meddwi yn nhai ei gilydd fod yn arwydd o rwystredigaeth y baledwr am nodwedd o ferched a'i gythruddai, neu yn gyfle i lunio baled ysgafn, hwyliog. Ar y llaw arall, roedd yn rhan o lên-gwerin draddodiadol y cyfnod i bortreadu'r ferch fel cymeriad ffôl a gwirion. Byddai stoc o ddelweddau a chymariaethau wrth law gan bob baledwr beth bynnag fo'r testun dan sylw, a'r ferch yn aml yn dod dan lach wrth dynnu ar y rhain. Roedd yn fodd delfrydol i ennyn mwynhad a chwerthin yn eu gwrandawyr, ac mae'r arferiad yn parhau yn boblogaidd hyd heddiw.

Cyfeirir at y baledi fel priodas rhwng yr alaw a'r geiriau, ac ni ellir diystyru pwysigrwydd y briodas hon o fewn y perfformiad. Roedd cerddoriaeth werin yn elfen bwysig o fywyd cymdeithasol y cyfnod, ac wedi bod erioed. Gwelir yn yr holl themâu i'r baledwyr fod yn ymwybodol ac yn sensitif tuag at y berthynas hon rhwng yr alaw

a'r neges gydag enwau penodol yr alawon yn cysylltu'n agos iawn â neges a thema'r faled.[359] Yn sicr, ni ellid dadlau ynghylch y grym a geir mewn cerddoriaeth a'r naws y gellir ei greu heb yngan gair. Mae cyfraniad yr elfen gerddorol i'r baledi felly yn ganolog, ac ni ddylid ei hepgor wrth ymdrin â'r baledi fel cyfrwng llenyddol a hanesyddol. Wrth glymu'r alaw â'r geiriau, gwelir i'r naill gynnal ac ategu at y llall yn y perfformiad. Ac wrth grybwyll y perfformiad, ni ellir diystyru'r elfen bwysig honno yng nghyd-destun y faled draddodiadol. Gresyn i niferoedd y baledwyr dawnus hyn ddirywio tuag at chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac i'r baledwyr llwyn a pherth bardduo'r traddodiad. Ond, dylid dwyn i gof y baledwyr hynny megis Abel Jones a Dic Dywyll a feddai ar y ddawn i lunio darlun byw i'w cynulleidfaoedd ar ffurf baled a throsglwyddo newyddion y dydd mewn ffordd fyw a deniadol ar ffurf perfformiad celfydd.

Ni chaiff y baledi eu hystyried hyd heddiw yn dreftadaeth gyfoethog yn y diwylliant Cymreig cyfoes.[360] Ond wrth sbecian yn ddyfnach yn ôl i'r byd cymhleth hwnnw a thynnu'r haenau i ffwrdd, gellid dod i ddeall a gwerthfawrogi byd y wraig a'r gymdeithas werinol y bu'n rhan mor annatod ohono. Mae'r faled yn gyfrwng a rydd gipolwg i gymdeithas yr unfed ganrif ar hugain ar fywyd y dyddiau a fu.

[359] Gweler *Can yn rhoddi hanes am ferch i Emprwr, yr hon a rhoddodd ei ffansi ar fab i ffarmwr o Blymouth, Swydd Devon, yr hwn oedd Sawdwr, ac fel enillodd efe hi a'i gleddyf, trwy ymladd dau fywyd wrth orchymyn ei thad* (Caernarfon) Cyfrol 12, Rhif 78 a genid ar yr alaw *Voice Love*.

[360] Y cyntaf i ymddiddori o ddifrif yn y baledi oedd John Humphreys Davies, Cwrtmawr, Prifathro Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, gan ddechrau eu casglu a'u mynegeio.